Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 7fed Gorffennaf, 2026 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Hybrid / Hybrid Meeting – Siambr Hywel Dda a Zoom |
| **PWYNT CYSWLLT** | Gwen Alaw Roberts<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Arweinydd y Cyngor |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Paul John Rowlinson | Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| Menna Trenholme | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| June Jones | Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |
| R Medwyn Hughes | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Dewi Jones | Aelod Cabinet Addysg |
| Huw Wyn Jones | Aelod Cabinet Cyllid |
| Llio Elenid Owen | Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 9 MEHEFIN | | | 4 - 9 |
| 6 | ADRODDIAD BLYNYDDOL RHAGLEN CEFNOGI POBL 2025/26 | Cyng Nia Jeffreys | Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Corfforaethol | 10 - 27 |
| 7 | DIWEDDARU CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR 2022/23 - 2029/30 CYNGOR GWYNEDD | Cyng Craig ab Iago | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol | 28 - 114 |
| 8 | STRATEGAETH GWASTRAFF AC AILGYLCHU A DEFNYDD O ARIAN EPR | Cyng Craig ab Iago | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd<br><br>Roland Thomas, Pennaeth Adran Cynorthwyol | 115 - 172 |
| 9 | ADRODDIAD CHWARTEROL - CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN YMATEB (GORFFENNAF 2026) | Cyng Nia Jeffreys | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr | 173 - 179 |
| 10 | ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2025/26 | Cyng Dewi Jones | Dylan Owen, Cyfarwyddwr | 180 - 198 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| 11 | ADOLYGIAD POLISI DIOGELU (2026) | Cyng Dewi Jones | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | 199 - 219 |
| 12 | DYRANNU GWARGED INCWM O'R PREMIWM AIL GARTREFI A THAI GWAG AR GYFER 2025-26 | Cyng Huw Wyn Jones | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid | 220 - 237 |
| 13 | CRONFA TWF LLEOL: CYNLLUNIAU 2026/27 GWYNEDD<br><br>Mae Atodiad 2 ar wahân ar gyfer Aelodau'r Cabinet yn unig.<br>Mae'r Atodiad yn eithriedig o dan Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).<br>Mae'r atodiad i'r adroddiad sydd dan sylw yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol a masnachol sensitif am nifer o prosiectau. Mae hyn yn berthnasol i nifer o sefydliadau. | Cyng Medwyn Hughes | Sioned Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned | 238 - 257 |
| 14 | CYDBWYLLGOR CENEDLAETHOL GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL CYMRU A MAETHU CYMRU - LLEIHAU CWORWM Y CYFARFOD | Cyng Menna Trenholme | Sharron Williams Carter, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | 258 - 271 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 09 MEHEFIN 2026

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Dewi Jones a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Debbie Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg) a Siwan Llwyd Roberts (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Cydnabuwyd yr wythnos hon fel Wythnos Genedlaethol Gofalwyr. Esboniwyd bod yr wythnos hon yn ymgyrch flynyddol i godi ymwybyddiaeth o ofalu ac i dynnu sylw at yr heriau y mae gofalwyr di-dâl yn eu hwynebu, gan gydnabod eu cyfraniad hollbwysig. Diolchwyd yn ddiffuant ar ran y Cabinet i'r miloedd o ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd sy'n edrych ar ôl aelodau o'u teuluoedd, ffrindiau a chymdogion bob dydd. Pwysleisiwyd bod eu gwaith yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl ac i'n cymunedau, ac yn aml iawn bod y gwaith hwn yn digwydd y tu ôl i'r llenni. Diolchwyd i staff a phartneriaid sy'n gweithio ochr yn ochr â gofalwyr i'w cefnogi.

Nodwyd bod y Cyngor yn trefnu digwyddiadau drwy'r wythnos ac ar draws y sir er mwyn trafod y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl, a chroesawyd unrhyw un i fynychu.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant personol gan y Cyng June Jones mewn perthynas ag eitem 6 gan ei bod yn Lywodraethwr yn yr Ysgol.

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

### 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Mai 2026 fel rhai cywir.

## 6. YSGOL Y GARREG - ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

**PENDERFYNIAD**

Cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol sef - "Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026," yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

**TRAFODAETH**

Nodwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd adrodd ar yr hyn a ddeilliodd o'r cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod ar y cynnig i gau Ysgol y Garreg.

Mynegwyd bod y penderfyniad ynglŷn ag Ysgol y Garreg yn un o'r penderfyniadau anoddaf yr oedd wedi ei ystyried fel Aelod Cabinet Addysg. Nodwyd nad oedd neb yn mynd i'r maes addysg gyda'r bwriad o gau ysgolion, gan fynegi ei uchelgais i weld ysgolion yn ffynnu, plant yn llwyddo a chymunedau yn gryf. Cydnabuwyd y teimladau cryf a oedd wedi amlygu eu hunain yn ystod y broses hon a'r tristwch yr oedd llawer yn ei deimlo.

Nodwyd bod Ysgol y Garreg wedi gwasanaethu ei chymuned yn ffyddlon dros flynyddoedd lawer. Talwyd teyrnged i'r staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned a oedd wedi gweithio mor galed dros yr ysgol am dros ganrif a mwy. Er hyn, mynegwyd cyfrifoldeb i edrych yn onest ar y sefyllfa fel yr oedd hi heddiw, nid fel y byddem yn dymuno iddi fod.

Nodwyd bod yr heriau demograffig sy'n wynebu rhai o'n cymunedau gwledig yn real ac yn ddwys. Er ei bod yn boenus, mynegwyd yr angen i gydnabod y ffeithiau a oedd gerbron, yn enwedig sefyllfa ddifrifol Ysgol y Garreg. Nodwyd bod lles a chyfleoedd plant yn ganolog wrth wneud penderfyniadau addysgol, a dyna oedd yr egwyddor a oedd wedi arwain drwy'r broses hon. Tanlinellwyd yr angen i sicrhau bod plant yn cael mynediad at addysg gynaliadwy, ystod eang o brofiadau ac amgylchedd dysgu a allai ddiwallu anghenion heddiw ac i'r dyfodol.

Pwysleisiwyd nad oedd y penderfyniad ynglŷn ag Ysgol y Garreg yn un yr oedd y Cabinet yn dymuno ei wneud, ond yn un yr oedd amgylchiadau wedi arwain ato. Nodwyd, pe bai'r sefyllfa, y niferoedd a'r rhagolygon yn wahanol, na fyddai'r penderfyniad yn cael ei ystyried. Pwysleisiwyd bod Gwynedd wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y plant dros y degawd diwethaf, a bod dyletswydd i wneud penderfyniadau cyfrifol ar gyfer yr hirdymor, hyd yn oed pan oedd y penderfyniad yn anodd ac yn amhoblogaidd.

Argymhellwyd felly y penderfyniad i gau Ysgol y Garreg, gan gydnabod cyfraniad nifer fawr o bobl at yr ysgol dros y blynyddoedd, a'r angen i weithredu er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth ysgol orau a mwyaf cynaliadwy i blant y dyfodol yng Ngwynedd.

Ategwyd tristwch y sefyllfa gan Aelod Lleol Ward Glaslyn, a nodwyd bod yr ysgol wedi bod yn gwasanaethu'r gymuned ers oddeutu 143 o flynyddoedd. Pwysleisiwyd y newid hwn mewn demograffeg a'r lleihad yn nifer y plant yn ein cymdeithas, gyda dim ond dau ddisgybl yn Ysgol y Garreg ym mlwyddyn 6 ac yn symud i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2026. Diolchwyd i staff Ysgol y Garreg am eu hymroddiad i'r ddau ddisgybl mewn amgylchiadau anodd, gan gynnig profiadau addysgol gwych a difyr iddynt. Tynnwyd sylw at farn y corff llywodraethu yn yr adroddiad, gan annog y Cyngor i ystyried ailstrwythuro adeilad yr ysgol fel canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth ymgartrefu mewn ysgolion prif lif, ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer ysgol anghenion dysgu ychwanegol.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Ynglŷn â'r Gymraeg, nodwyd y sylw y byddai'r Gymraeg yn fwy naturiol ym mywydau'r ddau ddisgybl wrth iddynt symud i ysgol fwy, gyda mwy o weithgareddau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Pwysleisiwyd bod hyn yn beth cadarnhaol. Mewn ymateb, nodwyd bod yr asesiad effaith ynglŷn â'r Gymraeg wedi edrych ar yr agweddau cadarnhaol ar symud y ddau unigolyn i ddosbarthiadau llawer mwy, lle cânt fwy o gyfle i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Pryderwyd, ynglŷn â chapasiti Ysgol Cefn Coch, sef yr ysgol amgen newydd o 1 Medi 2026, ar gyfer y dyfodol pe byddai cynnydd yn nemograffeg y dalgylch. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod capasiti digonol yn Ysgol Cefn Coch i wasanaethu'r dalgylch ac nad oedd unrhyw bryderon ynglŷn â hyn.
- Talwyd teyrnged i staff, pobl ifanc a'r gymuned a oedd wedi bod yn rhan o'r broses hyd yma, gan nodi bod y broses wedi bod yn un anodd ond, er hynny, wedi ei gwneud gydag urddas.
- Cwestiynwyd beth fyddai dyfodol adeilad Ysgol y Garreg, gan nodi bod cynsail i adeiladau tebyg gael eu trosi'n ganolfannau cymunedol. Mewn ymateb, nodwyd bod polisi ôl-ddefnydd yn bodoli ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath. Cadarnhawyd mai'r Adran Addysg fyddai'n cael y dewis cyntaf ynglŷn ag a oedd ganddi fwriad i wneud defnydd o'r adeilad, ac os nad oedd, byddai'r adeilad yn cael ei gynnig ar gyfer defnydd cymunedol. Tanlinellwyd yr ymwybyddiaeth, yn yr achos hwn, bod darpariaeth gymunedol yn agos iawn at yr adeilad, ac nad oedd honno o reidrwydd yn cael ei defnyddio'n llawn. Felly, byddai'n rhaid adolygu unrhyw gais ynglŷn â'r adeilad yn ofalus iawn wrth symud ymlaen.
- Amlygwyd tuedd yn ddiweddar ynglŷn ag ysgolion yn ail-hysbysebu ar gyfer swyddi penaethiaid. Cwestiynwyd a oedd recriwtio penaethiaid yn fwy o her mewn ysgolion bychain. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod recriwtio penaethiaid yn heriol ar hyn o bryd ar draws y sector addysg, yn y cynradd ac yn yr uwchradd. Amlygwyd nad oedd hyn yn eithriad i Wynedd o'i gymharu ag awdurdodau eraill, gan nodi bod prinder unigolion sy'n fodlon arwain ysgolion am amryw o resymau. Cydnabuwyd bod arwain ysgol fach fel Ysgol y Garreg yn her, gan nodi bod y gwaith sy'n gysylltiedig ag ysgol fach o ran cynllunio a pharatoi yr un mor ymdrechgar ag mewn ysgol fwy o ran maint. Cadarnhawyd bod y pryder hwn ynglŷn â recriwtio penaethiaid ar restr risg yr Adran. Nodwyd bod pennaeth Ysgol y Garreg wedi llwyddo i gael swydd mewn ysgol arall fel pennaeth parhaol.

- Cwestiynwyd ynglŷn â faint o swyddi penaethiaid a oedd yn wag ar draws y sir. Mewn ymateb, nodwyd bod o leiaf dair swydd yn wag, gyda nifer cynyddol o benaethiaid mewn gofal dros dro, a'r ganran yn tueddu i gynyddu o dymor i dymor.
- Cwestiynwyd a oedd y ddau ddisgybl yn Ysgol y Garreg wedi cael eu hymgynghori â hwy. Mewn ymateb, nodwyd bod barn y ddau ddysgwr wedi ei derbyn a'i chrynhoi yn yr adroddiad.
- Mynegwyd tristwch ynglŷn â'r sefyllfa, gan nodi bod symud ysgol yn brofiad anodd, yn enwedig mewn sefyllfa lle roedd rhaid symud i ysgol â nifer llawer mwy o ddisgyblion. Cwestiynwyd pa gefnogaeth fyddai ar gael i ddau ddisgybl Ysgol y Garreg. Mewn ymateb, nodwyd bod y disgyblion, yn yr achos hwn, wedi bod yn cael profiadau gyda phlant o ysgolion eraill eisoes dros y misoedd diwethaf, er mwyn hwyluso'r broses bontio a meithrin perthynas. Cadarnhawyd y byddai'r Adran yn dibynnu ar staff yr ysgol, a oedd eisoes yn adnabod y disgyblion yn dda, ynglŷn â'r ffordd orau o'u cefnogi drwy'r broses.
- Cwestiynwyd ynglŷn â threfniadau cludiant y ddau ddisgybl i'r ysgol amgen newydd. Mewn ymateb, nodwyd y byddai trefniadau perthnasol yn cael eu gwneud er mwyn i'r ddau ddisgybl gyrraedd eu hysgol newydd.
- Cwestiynwyd a oedd gan yr Adran Addysg unrhyw awgrym ynglŷn â sut roedd tuedd demograffeg Gwynedd yn debygol o newid yn y dyfodol, ac a oedd unrhyw arwydd bod y sefyllfa am wella neu barhau i waethygu, gyda mwy o ysgolion bychain yn gorfod ystyried cau. Mewn ymateb, nodwyd bod dyfodol demograffeg yn anodd ei ragweld. Cadarnhawyd bod ffigurau 2025 bellach yn gyhoeddus, gyda gostyngiad mewn genedigaethau i 925 yng Ngwynedd. Mynegwyd bod y duedd yn parhau i ostwng yn gyson ac na ragwelid newid cyfeiriad o ran niferoedd. Amlygwyd, gan fod ysgolion Gwynedd yn gymharol fach o'u cymharu ag awdurdodau eraill eisoes, eu bod yn debygol o wynebu sefyllfa lle byddai angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â chau ysgolion yn gynt yn y sir nag mewn siroedd eraill.

## 7. POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a mabwysiadwyd Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer ei gyflwyno fel Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol i ysgolion ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu.

**TRAFODAETH**

Mynegwyd balchder o'r cyfle i gyflwyno'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol newydd ar gyfer ysgolion i'r Cabinet. Nodwyd bod y polisi wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar fwy nag un achlysur, ac gerbron y Cabinet yn flaenorol er mwyn cael caniatâd i ymgysylltu. Nodwyd, bellach, bod y polisi gerbron y Cabinet yn dilyn y broses ymgysylltu honno â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Nodwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gydag aelodau unigol o'r Cyngor, mudiadau iaith, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sawl sefydliad arall er mwyn derbyn safbwyntiau gwahanol, gwrando ar bryderon ac ystyried syniadau cyn symud ymlaen.

Nodwyd mai polisi i Wynedd oedd hwn, sy'n adlewyrchu Gwynedd, ei gwerthoedd, ei huchelgais, ei hanghenion ac anghenion plant a phobl ifanc y sir. Diolchwyd i'w ragflaenydd ar y Cabinet, Meirion Prys Jones, ac i'r swyddogion am eu gwaith ar lunio'r polisi. Mynegwyd pwysigrwydd bod yn hollol agored yn ystod y broses, yn agored i syniadau, her a chydweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn llunio'r polisi gorau posib.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd perswadio ac argyhoeddi yn hytrach na mynnu neu orfodi. Nodwyd yr angen i argyhoeddi pobl o werth y Gymraeg, ennill eu calonnau, dangos gwerth addysg Gymraeg a'r modd y mae'r Gymraeg yn agor drysau yn hytrach na'u cloi.

Tanlinellwyd bod gwaith anhygoel wedi ei wneud dros y degawdau diwethaf yn y maes. Nodwyd bod cenedlaethau wedi gweithio'n ddiflino i gryfhau'r iaith, i adeiladu'r system addysg Gymraeg sydd gennym heddiw, ac i sicrhau bod mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn cael y cyfle i fyw a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Pwysleisiwyd bod y llwyddiannau hyn yn rhai i'w dathlu. Mynegwyd gobaith bod y polisi newydd hwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw, ar y llwyddiant, ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio, ar gyfleoedd, ar hyder, ac ar adeiladu dyfodol cryfach i'r Gymraeg.

Pwysleisiwyd bod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, y rhai sy'n siarad yn rhugl, y rhai sy'n dysgu, a'r rhai nad ydynt wedi cael cyfle eto. Mynegwyd bod lle i bawb yn stori'r Gymraeg. Galwyd ar bawb i uno y tu ôl i'r Gymraeg a rhoi cyfle i bob plentyn yng Ngwynedd brofi'r manteision o'i chael hi, gan sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith fyw, ffyniannus a hyderus. Galwyd ar bawb i agor drysau i fyd o gyfleoedd, profiadau a manteision a fyddai'n aros gyda'n pobl ifanc am weddill eu bywydau.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Nodwyd yr angen i'r Cabinet a'r Cyngor gefnogi'r daith er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol yn eu lle i gyflawni'r polisi. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymrwymo i roi'r gefnogaeth hon er mwyn sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu'n llawn.
- Mynegwyd cefnogaeth i'r polisi, gan nodi bod llawer o fewnbwn wedi ei dderbyn ar hyd y daith drwy'r Pwyllgorau Craffu.
- Cwestiynwyd ynglŷn â'r gefnogaeth a oedd ar gael i ysgolion mewn dalgylchoedd lle'r oedd y Saesneg yn fwy amlwg. Mewn ymateb, nodwyd bod cefnogaeth y gyfundrefn drochi yn rhan bwysig o'r polisi, a'i bod bellach yn sicrhau mynediad o Fangor i lawr i Dywyn, gyda'r nifer sy'n cael eu cyfeirio ati yn gyson uchel. Pwysleisiwyd bod cefnogaeth ychwanegol ar gael i'r ysgolion a adnabuwyd fel ysgolion trosiannol yn y polisi, gan nodi enghreifftiau o Ysgol Tywyn ac ysgolion yn nalgylch Bangor, lle penodwyd tiwtoriaid gweithlu i gefnogi. Nodwyd bod staff a oedd angen cymorth pellach yn cael eu hannog i fanteisio ar gynlluniau sabothol. Nodwyd bod y Llywodraeth yn hynod gefnogol i'r hyn a oedd yn cael ei wneud yng Ngwynedd, a'i bod yn awyddus i ddatblygu gwaith yr Athrofa Dysgu Cymraeg, gyda'r nod o ddarparu adnoddau a hyfforddiant i hyfforddi staff ac ysgolion Cymru.

- Cwestiynwyd sut y byddai cynnydd yn cael ei fonitro wrth symud ymlaen. Mewn ymateb, nodwyd y disgwyliad i ysgolion gyflwyno cynlluniau cyflawni o fewn y Ddeddf Gymraeg ac Addysg, gyda pheilot yn cael ei ffurfio gyda'r Llywodraeth i symud ymlaen â hynny erbyn 2029. Nodwyd, o fewn y cynlluniau cyflawni, fod bwriad i ysgolion, ar y cyd â'r awdurdod, osod meini prawf, gweledigaeth a nodau, ac y byddai'r rhain yn cael eu monitro'n statudol bob tair blynedd ar ôl 2029. Pwysleisiwyd y byddai'r Adran yn gweithio'n agos gydag ysgolion yn y cyfnod rhwng nawr a 2029 i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ysgolion Gwynedd. Tanlinellwyd na fyddai'r cynlluniau yn unffurf, gan fod pob ysgol yn perthyn i'w chymuned ei hun, ac felly y byddent yn cael eu hystyried o safbwynt cymunedol a dalgylchol. Cadarnhawyd bod pob ysgol yn dechrau o waelodlin wahanol ac y gallai targedau amrywio o ysgol i ysgol, gyda'r nod o sicrhau bod pob ysgol yn gwneud cynnydd.
- Cwestiynwyd sut y byddai'r Adran yn annog ysgolion i fabwysiadu a gweithredu'r polisi enghreifftiol hwn. Mewn ymateb, nodwyd bod mewnbwn penaethiaid ac ysgolion wedi ei ystyried wrth greu'r polisi, ac felly nad oedd disgwyliad o wrthwynebiad chwyrn gan y rhai a oedd wedi bod yn rhan o roi'r polisi at ei gilydd. Mynegwyd mai'r neges gyffredinol yn y maes addysg oedd bod awydd am bolisi clir, eglur a thraws-sirol a oedd yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg. Cadarnhawyd y byddai'r polisi yn mynd gerbron pob corff llywodraethu ac y byddai cyfle i drafod y polisi yng ngoleuni'r gwahaniaethau unigryw rhwng pob ysgol. Nodwyd y byddai'r Adran yn monitro'r hyn a fyddai'n cael ei addasu yn y polisi enghreifftiol o ysgol i ysgol.
- Cwestiynwyd pryd y disgwylid i'r polisi gael effaith ar lawr gwlad. Mewn ymateb, nodwyd bod y polisi yn gam pwysig ac yn sylfaen er mwyn sicrhau'r Gymraeg o fewn ysgolion, a bod gwaith pellach i'w wneud i adeiladu ar y sylfaen hon, nid yn unig o fewn ysgolion ond yn ehangach drwy sawl menter iaith ac o fewn y gymuned, er mwyn sicrhau bod mwy yn gallu siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yh a daeth i ben am 1:47yh

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Adroddiad Blynyddol Rhaglen Cefnogi Pobl 2025/26* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys, Arweinydd y Cyngor* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Corfforaethol* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | *7 Gorffennaf 2026* |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

**2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Mae cyflwyno'r adroddiad yn galluogi'r Cabinet i graffu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion y Rhaglen Cefnogi Pobl, deall effaith y gwaith a gyflawnwyd ar draws y Cyngor ac mewn partneriaeth ag eraill.

**3. Cyflwyniad / Cefndir**

3.1 Mae Rhaglen Cefnogi Pobl y Cyngor yn rhan o Gynllun y Cyngor 2023–2028 o dan Gwynedd Ofalgar, gyda chysylltiadau cryf â'r agenda cydraddoldeb a'r nodau llesiant ehangach. Cyflwynwyd trefniadau llywodraethiant newydd yn 2025, o dan arweiniad y Cabinet newydd.

3.2 Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar dri phrif faes gwaith:

- **Cymorth Costau Byw:** Er mwyn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn derbyn ac yn hawlio popeth sy'n ddyledus iddynt i'w helpu gyda costau byw.
- **Hybiau Cymunedol:** Er mwyn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn cael y gefnogaeth, gwybodaeth a mynediad i rai o wasanaethau y Cyngor yn agosach i'w cartref, yn eu cymunedau.
- **Ein Ffordd Ni o Weithio:** Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithio gyda thrigolion Gwynedd mewn ffordd sy'n rhoi eu hanghenion yn y canol, ac yn gafael eu llaw, i gael y gefnogaeth gan ein gwasanaethau.

3.3 Arweinir y rhaglen gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Nia Jeffreys, gyda chefnogaeth Catrin Thomas y Cyfarwyddwr Corfforaethol, gyda Gweithgor yn cyfarfod yn chwarterol.

3.4 Mae’r gweithgor hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o bob Adran er mwyn adlewyrchu ehangder y gwasanaethau gynigir gan y Cyngor a sicrhau fod y rhaglen yn derbyn blaenoriaeth ar draws yr awdurdod.

3.5 Dyma’r flwyddyn gyntaf i waith y Rhaglen Cefnogi Pobl gael ei gyflwyno fel adroddiad blynyddol corfforaethol traws-adrannol. Nod yr adroddiad yw rhoi darlun clir o hyd a lled y gwaith sydd yn digwydd ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid i gefnogi trigolion Gwynedd.

3.6 Mae’r adroddiad yn cynnwys cymysgedd o ddata, gwybodaeth am weithgareddau a mentrau, ynghyd ag astudiaethau achos a straeon go iawn sy’n dangos yr effaith mae’r gwaith yn ei gael ar fywydau trigolion.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol.**

4.1 **Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r adroddiad yn crynhoi gweithgareddau 2025/26 a nid yw’n creu ymrwymiadau gwariant newydd. Rwyf yn cefnogi cynnwys yr adroddiad fel adlewyrchiad teg a chywir o'r gwaith a wnaed yn y maes pwysig yma.

4.2 **Swyddog Monitro**

Rwy’n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir ac yn croesawu yr adroddiad.

**Rhestr Atodiadau:**


- **Adroddiad Blynyddol Rhaglen Cefnogi Pobl 2025/26**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CEFNOGI POBL 2025/26





















# CIPOLWG O'R FLWYDDYN 2025/26

**£278,000**
Gwerth y Grant Hanfodion Ysgol wedi eu dosbarthu

**500**
o blant yn derbyn cynnig Dechrau'n Deg (Gofal Plant am Ddim)

**£11.7 miliwn**
Gwerth y gostyngiadau treth cyngor wedi eu dosbarthu

**706**
o blant wedi mwynhau sesiwn Trelar Chwarae am ddim

**£10,600**
Gwerth y talebau ynni wedi eu dosbarthu

**498**
o drigolion wedi derbyn help gan yr Hyrwyddwyr Lles

**£16.8 miliwn**
Gwerth y budd-dal tai wedi eu dosbarthu

**175**
o drigolion yn dychwelyd i waith ar ôl cymorth Tîm Gwaith Gwynedd

**£5,000**
Gwerth y talebau argyfwng wedi eu dosbarthu

**162**
o drigolion wedi derbyn help gan yr Tîm Gafael Llaw

**£101,000**
Gwerth y nwyddau mislif am ddim wedi eu dosbarthu

**26,300**
o becynnau bwyd wedi eu ddosbarthu i drigolion drwy'r Grant Bwyd

# RHAGAIR

Rwyf yn gwybod bod llawer o bobl a theuluoedd ar draws Gwynedd yn dal i wynebu heriau sylweddol yn eu bywydau bob dydd. Mae'r argyfwng costau byw, pwysau ariannol a'r effaith ar lesiant wedi cynyddu'r angen am gymorth ymarferol, caredig a theg. Dyna pam mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn bwysig. Nid darparu gwasanaethau yn unig yw hyn, ond gweithio efo pobl er mwyn cael y gorau iddyn nhw gan fynd y filltir ychwanegol.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y gwahanol ffyrdd mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi trigolion – o helpu gyda chostau bwyd ac ynni, cynyddu incwm drwy fanteisio ar fudd-daliadau, cymorth gyda biliau a chyngor ariannol, i gefnogaeth gofal plant a darparu gweithgareddau a chyfleoedd am ddim i blant a phobl ifanc dros yr haf.

Er fy mod yn falch o'r gwaith hwn, mae'n bwysig cydnabod bod tlodi yn parhau i fod yn her sylfaenol yn ein cymdeithas. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor, yn y bôn, yn ymateb i'r symptomau ac yn ceisio lliniaru eu heffaith ar bobl a theuluoedd.

Yn aml, nid un math o gymorth sy'n gwneud y gwahaniaeth, ond cyfuniad o gefnogaeth sydd wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn neu'r teulu. Er bod data a ffigurau yn bwysig i ddangos maint ac effaith y gwaith, mae'r straeon a'r astudiaethau achos gan bobl go iawn ar draws Gwynedd yn dangos yn glir yr effaith ar fywydau pobl. Mae'n arbennig o galonogol gweld gwasanaethau'n dod yn nes at bobl – yn ein llyfrgelloedd, drwy'r hyrwyddwyr lles, yr hybiau a mannau lleol eraill.

Mae helpu trigolion yn ganolog i waith y Cyngor. Tra bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith penodol y Rhaglen Cefnogi Pobl, bydd gwybodaeth bellach am y gwaith ehangach sy'n helpu trigolion a chymunedau ledled Gwynedd ar gael yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adroddiad Blynyddol y Cyngor pan gânt eu cyhoeddi.

Hoffwn ddiolch i staff y Cyngor, ein partneriaid, sefydliadau lleol a'n cymunedau am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi pobl ar draws Gwynedd. Mae'r adroddiad hwn yn dangos yn glir y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud drwy gydweithio.



Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys

Arweinydd Cyngor Gwynedd

# BETH YDI RHAGLEN CEFNOGI POBL?

Mae'r rhaglen hon yn rhan o "Gynllun y Cyngor 2023-28", ac yn perthyn i'r maes blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar.

## BETH YW AMCANION Y RHAGLEN?

(1) Helpu pobl Gwynedd i ymdopi hefo heriau costau byw.

(2) Helpu pobl Gwynedd i gael y gefnogaeth, gwybodaeth a'r mynediad i'r gwasanaethau sydd ei hangen arnynt.

## BETH OEDD PRIF FFRYDIAU GWAITH AR GYFER 2025/26?

| | |
|---|---|
| CYMORTH GYDA COSTAU BYW | Sicrhau fod trigolion Gwynedd yn derbyn ac yn hawlio popeth sy'n ddyledus iddynt i'w helpu gyda costau byw. |
| HYBIAU CYMUNEDOL | Sicrhau fod trigolion Gwynedd yn cael y gefnogaeth, gwybodaeth a mynediad i rai o wasanaethau y Cyngor yn eu cymunedau. |
| EIN FFORDD NI O WEITHIO | Sicrhau bod y Cyngor yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar bobl a'u anghenion. |

# Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod 2025/26?

## CYMORTH COSTAU BYW: HAWLIA DY ARIAN

### YMGYRCHOEDD

Y prif neges yw "Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi"!

Mae nifer o drigolion Gwynedd â hawl i fudd-dal ond nid ydynt yn ei hawlio - gall hynny fod oherwydd nad ydynt yn ymwybodol o'u hawliau, yn gwybod sut, nac o ble i'w hawlio.

Felly rydym wedi bod yn cefnogi ymgyrch genedlaethol Llywodraeth Cymru, i godi ymwybyddiaeth trigolion Gwynedd i hawlio eu harian.




### CREDYD PENSIWN

*Mae Credyd Pensiwn yn gymorth ariannol i bobl dros oedran pensiwn sydd ar incwm isel. Gall roi mynediad at gymorth neu fudd-daliadau ychwanegol hefyd.*

Fe wnaethom gysylltu, drwy lythyr, gyda **167 o drigolion** a oedd yn gymwys ond ddim yn hawlio Credyd Pensiwn, gan gynnig cymorth iddynt wneud cais.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Gall olygu hyd at £23,000 ychwanegol y flwyddyn i drigolion Gwynedd, neu tua £210,000 dros gyfnod hawlio cyfartalog.

### CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH PLANT

*Mae Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant yn gyfrifon cynilo a sefydlwyd gan y Llywodraeth ar gyfer plant a aned rhwng 2002 a 2011, gyda chyfraniad ariannol cychwynnol i helpu pobl ifanc gynilo ar gyfer eu dyfodol.*

Bu swyddogion yn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc 14–22 oed o'r cronfeydd, gan fod llawer o bobl ifanc cymwys heb hawlio eu cynilion nac yn ymwybodol bod cyfrif yn bodoli yn eu henw.

**Pam fod hyn yn bwysig?**
Gall pobl ifanc yng Ngwynedd fod yn colli allan ar rhwng £250 a £500 o gynilion sy'n ddyledus iddynt.

## Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod 2025/26?

### GOSTYNGIAD TRETH CYNGOR

*Mae Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor yn helpu pobl ar incwm isel drwy leihau / ddileu eu bil Treth.*

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Mae 8,350 o drigolion yn cael Gostyngiad Treth Cyngor, gwerth cyfanswm o £11.7 miliwn

### BUDD-DAL TAI

*Mae Budd-dal Tai yn gymorth ariannol sy'n helpu pobl ar incwm isel i dalu eu rhent.*

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Mae 2,557 o drigolion yn cael budd-dal tai, gwerth cyfanswm o £11.8 miliwn

## CYMORTH COSTAU BYW: TLODI TANWYDD

### CYNGOR YNNI

*Mae Tîm Ynni yn cefnogi trigolion gyda chostau ynni, effeithlonrwydd ynni yn y cartref a gwybodaeth am dariffau.*

Cynhaliwyd **dros 100 o sesiynau galw heibio** i roi cyngor a gwybodaeth i drigolion.

Bum yn gweinyddu **talebau Fuel Bank Foundation** i helpu aelwydydd ar fesuryddion talu ymlaen llaw i gael mynediad at wres argyfwng.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Cefnogwyd 341 o drigolion i gael Talebau Fuel Bank Foundation, gwerth cyfanswm o tua £10,670.



### CYNLLUN ECO4

*Mae ECO4 yn gynllun cenedlaethol sy'n helpu aelwydydd incwm is i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan leihau biliau a charbon.*

**Pam fod hyn yn bwysig?**

**1,140 o gartrefi** wedi derbyn grant ECO4, a chynnyddu eu sgôr EPC gan leihau biliau.

Rhwng Hydref 2022 a Rhagfyr 2025, roedd y Cyngor yn gweinyddu ceisiadau gan drigolion am grant ECO4 ar ran y llywodraeth.

## Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod 2025/26?

**CYMORTH COSTAU BYW: ARIAN MEWN ARGYFWNG**

### TALEBAU ARGYFWNG

*Mae talebau argyfwng yn gymorth ariannol brys sy'n cael eu rhoi i bobl mewn argyfwng.*

Rhoddodd y Cyngor gymorth ariannol brys i dalu am fwyd, ynni neu eitemau cartref hanfodol i drigolion pan oeddent mewn argyfwng.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Dosbarthwyd 101 o dalebau, sef gwerth cyfanswm o £5,000.

### CYMORTH I FANCIAU BWYD A CYNLLUNIAU BWYD

*Mae Cronfa Cymorth Argyfwng Bwyd yn grant sy'n cefnogi prosiectau sy'n darparu cymorth bwyd i bobl.*

Eleni, cefnogwyd 41 o grwpiau cymunedol drwy'r gronfa, gyda £150,300 yn cael ei ddyrannu i gefnogi banciau bwyd, pantris bwyd, clybiau swper, a darpariaeth pecynnau bwyd.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Dosbarthwyd tua **26,400 o becynnau bwyd** gan sicrhau cymorth brys a hanfodol i filoedd o aelwydydd ar adeg o bwysau ariannol.



*Cynlluniau bwyd amrywiol ar draws y sir, a ddarperir gan bartneriaid.*

## Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod 2025/26?

### CYMORTH COSTAU BYW: GOFAL PLANT

*Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi plant 0–4 oed a'u teuluoedd gyda gofal plant am ddim a chymorth cynnar.*

Eleni, ychwanegwyd Deiniolen a Phenygroes at y Cynllun, gan ehangu mynediad at ofal plant i fwy o deuluoedd ar draws y sir.

**Pam fod hyn yn bwysig?**
Mae **tua 500** o blant yn derbyn y cynnig Dechrau'n Deg



***Agoriad swyddogol swyddfa Dechrau'n Deg a chaban newydd Cylch Deiniolen***

### CYMORTH COSTAU BYW : GWEITHGAREDDAU

Mae tua **31% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi**, sy'n cyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden, yn enwedig yn ystod gwyliau ysgol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, fe wnaeth y Cyngor ddarparu gweithgareddau, fel

- **Trelar Chwarae:** Teithiodd y Trelar ar draws y sir yn cynnal sesiynau chwarae am ddim i blant hyd at 11 oed.
- **Haf o Hwyl:** Darparu gweithgareddau am ddim neu ar gost isel, ar y cyd hefo Byw'n Iach, mewn canolfannau hamdden yn ystod gwyliau ysgol.
- **Gwasanaeth Ieuenctid**: Cynnig gweithgareddau am ddim fel Zorbs, dartiau, celf a chwaraeon i bobl ifanc yn eu harddegau.
- **Cynllun Bwyd a Hwyl:** Cymerodd 8 ysgol yng Ngwynedd ran yn y cynllun ce4nedlaethol hwn yn ystod gwyliau'r haf 2025.
- **Uwchraddio Meysydd Chwarae**: Defnyddiwyd gwerth £196,000 o grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Plant Llywodraeth Cymru, i wella 29 maes chwarae.







## Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod 2025/26?

### CYMORTH COSTAU BYW: YSGOLION

#### CINIO YSGOL AM DDIM

*Mae pob plentyn yng Nghymru sy'n mynychu ysgol gynradd yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.*



Nid yw pob plentyn yn manteisio ar ginio ysgol am ddim, ac felly yn colli allan ar bryd o fwyd cynness i'w hiechyd, neu'n golygu fod teuluoedd yn dal i brynu a darparu bocys bwyd.

Felly cynhaliodd y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau sesiynau blasu bwyd mewn ysgolion cynradd i annog diddordeb.

**Pam fod hyn yn bwysig?**
Mae 83% o blant bellach yn derbyn cinio ysgol am ddim, sydd wedi codi o 67%.

#### GRANT HANFODION YSGOL

*Mae Grant Hanfodion Ysgol yn gynllun sy'n helpu teuluoedd ar incwm isel gyda chostau ysgol, fel gwisg ysgol, llyfrau ac offer dysgu.*

Bu i'r Cyngor hyrwydo'r grant yn ystod y flwyddyn a gweinyddodd daliadau i 2,128 o blant ar gyfer eleni.

**Pam fod hyn yn bwysig?**
Rhoddwyd gwerth £278,000 o grant i deuluoedd tuag at gost hanfodion ysgol.

#### PROSIECT LLEIHAU COST MYND I'R YSGOL

Mae traean o rieni disgyblion ysgolion uwchradd o'r farn fod costau ysgol yn rhy uchel, gyda'r prif gostau'n cynnwys cinio ysgol, gwisg ysgol a theithiau preswyl. Mae rhieni hefyd yn dweud wrthym fod cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a chwaraeon yn gostus.

Er mwyn ymateb i'r pryderon hyn, mae Adran Addysg y Cyngor a'c ysgolion Gwynedd yn cydweithio ar Siarter 'Ysgolion Cost Gyfeillgar'. Bydd y Siarter yn helpu ysgolion i adolygu polisïau ac i wneud newidiadau ymarferol er mwyn lleihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd.




Mae'r Cyngor wedi cydweithio gyda Byw'n Iach i gasglu ac ail-ddosbarthu esgidiau chwaraeon am ddim.

## Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod 2025/26?

### CYMORTH COSTAU BYW: CYNLLUNIAU ERAILL

#### CROESO CYNNES

Mae lleoliadau Croeso Cynnes yn darparu mannau cynnes a chroesawgar lle gall pobl gymdeithasu, cymryd rhan mewn gweithgareddau, cael paned neu fwyd, a lleihau unigrwydd.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Ychwanegwyd 67 lleoliad newydd a dyrannwyd £49,000 mewn grantiau i gefnogi'r ddarpariaeth.

#### URDDAS MISLIF

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch i fynd i'r afael â thlodi mislif drwy sicrhau mynediad at nwyddau mislif mewn ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau Byw'n Iach a lleoliadau cymunedol ar draws y sir.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Dosbarthwyd gwerth £101,000 o gynnyrch mislif eco-gyfeillgar i drigolion Gwynedd.

#### TOCYN TEITHIO

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â Trafnidiaeth Cymru i gefnogi cynlluniau teithio megis y tocyn teithio 55+, gan helpu i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy fforddiadwy a hygyrch i drigolion.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Ar gyfartaledd, mae oddeutu 67,000 o deithwyr y mis wedi defnyddio'r tocyn teithio bws rhad.

#### CHWILIO AM WAITH

Mae Gwaith Gwynedd yn cefnogi unigolion sydd wedi bod allan o waith, neu sy'n wynebu rhwystrau yn y gweithle, i ddatblygu sgiliau, cynyddu oriau gwaith a chael cyflogaeth sefydlog neu â gwell cyflog.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Cefnogwyd 175 o drigolion i ddychwelyd i waith, gyda 103 arall yn datblygu sgiliau i sicrhau gwell cyflog.



## Astudiaeth Achos: Stori Sion a'i blant *



**Yn aml, nid un ymyrraeth unigol sy'n gwneud y gwahaniaeth, ond pecyn o gymorth wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn neu'r teulu.**

**Er bod mesur data meintiol yn bwysig, nid oes dim yn dod â'r gwaith yn fyw cystal a stori unigolyn, sy'n dangos y newid gwirioneddol ym mywydau pobl.**

Daeth Sion, sy'n dad ifanc i'r banc bwyd, yn amlwg yn nerfus ac yn teimlo cywilydd wrth gyrraedd. Yn ystod sgwrs hir, eglurodd ei fod ddim ond wedi dod trwy'r drws er mwyn lles ei blant.

Drwy gymryd amser i wrando, bu modd trafod ei sefyllfa a'i gyfeirio at gymorth ychwanegol.

Cafodd wybod am weithgareddau am ddim i blant yn y llyfrgell leol, yn ogystal â'r cyfle i ymuno â gwasanaethau eraill heb gost.

Trafodwyd hefyd y banc bwyd, a'r cynnig Croeso Cynnes, lle gallai Sion alw heibio ar ddydd Mawrth a dydd Gwener am fyrbryd, paned a sgwrs gefnogol.

Bu sgwrs am ei sefyllfa ariannol, gan gynnwys biliau, a chafodd ei gyfeirio at gynllun tariff cymdeithasol Dŵr Cymru HelpU i'w gefnogi. Roedd yn dymuno mynd adref i wneud cais, gyda'r sicrwydd y gallai ddychwelyd am gymorth pellach pe bai angen.

Cafodd gymorth ychwanegol ar ffurf cardiau SIM iddo ef a'i bartner, a fydd yn arbed tua £30 y mis iddynt dros gyfnod o chwe mis. Roedd yn amlwg ei fod yn teimlo'n llawer mwy cyfforddus ar ôl y sgwrs, ac yn gwerthfawrogi'r awyrgylch croesawgar, gan nodi ei fod yn bwriadu dychwelyd gyda'i blant.

Yn eiriau Sion:

***Do'n i ddim im bod help felma i gael!! Diolch ofnadwy ac mae pawb yn glên iawn yma oni poeni cyn dod ond wan mi ddoi yma eto – diolch diolch!!"***

Yn ystod ymweliad dilynol, nodwyd ei fod yn dal i deimlo dan bwysau, gan danlinellu pwysigrwydd cynnig cefnogaeth sensitif a pharhaus.

**Er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion, rydym wedi newid enwau yn y straeon sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn.*

# Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod 2025/26?

**HYBIAU CYMUNEDOL**

## HYBIAU CYMUNEDOL

*Mae'r hybiau cymunedol yn darparu mynediad lleol at wybodaeth a chefnogaeth, gan ddod â gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid yn nes at drigolion.*

Mae rhwydwaith o 11 Hwb Cymunedol y mae'r Cygnor yn cydweithio gyda partneriaid cymunedol a gwirfoddol i'w cynnal.

Mae bob Hwb wedi datblygu i gyfarch yr hyn sydd ei angen yn y gymuned a mae'r hyn sydd ar gael ynddynt yn cynnwys cefnogaeth digidol, cygnor ariannol, mynediad i dalebau bwyd a thanwydd, lleoliad cynnes, gweithgareddau iechyd a lles a chyngor a cyfeirio i wasanaethau eraill.

## HYRWYDDWYR LLES

*Mae Hyrwyddwyr Lles yn darparu cefnogaeth ariannol uniongyrchol i drigolion, gan gynnwys gwirio hawl i fudd-daliadau, cymorth gyda biliau, uchafu incwm a chyfeirio at wasanaethau arbenigol.*

Mae sesiynau galw-heibio lleol wedi bod yn allweddol i gyrraedd pobl a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael, gyda'r gwasanaeth yn cael adborth cadarnhaol am ei effaith ar helpu trigolion i ymdopi â phwysau costau byw.





**Pam fod hyn yn bwysig?**

Mae 498 o bobl wedi derbyn cyngor a chymorth gan yr hyrwyddwyr lles yn ystod 2025/26.

# Astudiaeth Achos: Stori Bethan*

**Yn aml, nid un ymyrraeth unigol sy'n gwneud y gwahaniaeth, ond pecyn o gymorth wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn neu'r teulu.**

**Er bod mesur data meintiol yn bwysig, nid oes dim yn dod â'r gwaith yn fyw cystal a stori unigolyn, sy'n dangos y newid gwirioneddol ym mywydau pobl.**




Cafodd Bethan ei rhoi mewn cysylltiad â'r Swyddog Lles gan ei merch, a oedd yn poeni am ei lles. Roedd cartref Bethan yn aml yn oer ac roedd ei merch wedi sylwi bod newidiadau amlwg wedi bod yn arferion byw ei mam, yn enwedig o ran bwyta a defnyddio ynni.

Dros amser, a thrwy drafodaethau sensitif gyda Bethan, datgelwyd bod y cynnydd mewn costau byw wedi arwain at orfod lleihau gwariant ar "hanfodion", gyda gwresogi a bwyd yn cael eu lleihau i reoli costau. Bu Bethan hefyd orfod gwerthu ei char oherwydd y baich ariannol o'i gynnal.

Ar ôl cynnal asesiad cychwynnol o'i sefyllfa ariannol, daeth yn amlwg mai Pensiwn y Wladwriaeth yn unig oedd yn ei hawlio, ac nad oedd yn derbyn unrhyw gymorth ychwanegol yr oedd hi'n gymwys iddo. Rhoddwyd cefnogaeth i wneud cais am Gredyd Pensiwn.

Yn ogystal, nodwyd bod gŵr Bethan yn wynebu dirywiad iechyd a heriau dyddiol gyda gweithgareddau byw bob dydd. Rhoddwyd gwybodaeth am Lwfans Gweini (Attendance Allowance), budd-dal nad oedd Bethan yn ymwybodol ohono, ac eglurwyd y gallai wneud gwahaniaeth sylweddol i'w sefyllfa. Cyfeiriwyd Bethan at Cyngor ar Bopeth i gael cymorth pellach gyda chwblhau'r ffurflen.

Yn dilyn ymyrraeth a chefnogaeth llwyddodd Bethan i hawlio Credyd Pensiwn a Lwfans Gweini.

Mewn sgwrs ddilynol, diolchodd merch Bethan am y gefnogaeth a ddarparwyd, gan nodi ei bod wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd bywyd ei mam a'i thad. Roedd y cartref bellach yn fwy sefydlog yn ariannol, gyda gwelliant graddol yn eu harferion byw. Roedd rhai o'u harferion arferol wedi dechrau dychwelyd, ac roedd y tŷ yn gynhesach ac yn fwy cyfforddus o ganlyniad.

**Er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion, rydym wedi newid enwau yn y straeon sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn.*

# Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod 2025/26?

## EIN FFORDD O WEITHIO

### GAFAEL LLAW

Lansiwyd y prosiect peilot "Gafael Llaw" i ymateb i bwysau ar wasanaeth Galw Gwynedd drwy gynnig dull mwy personol a rhagweithiol o gefnogi trigolion gyda materion cymhleth. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar sgyrsiau lles, yn enwedig gyda phobl hŷn ac unigolion oedd yn gwneud cais am fathodyn glas, er mwyn ceisio atal eu sefyllfa  rhag gwaethygu a cynnal eu hannibyniaeth.

Mae rhai o alwyr i ganolfan gyswllt Cyngor Gwynedd felly yn derbyn cefnogaeth "Gafael Llaw" pan fydd ei angen.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Rhoddwyd cymorth i 162 o drigolion drwy'r Tîm Gafael Llaw yn ystod 2025/26.

### DATBLYGU GWEITHLU

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno hyfforddiant Money Guiders i staff rheng flaen mewn llyfrgelloedd, Siopau Gwynedd a Galw Gwynedd, er mwyn cryfhau'r gefnogaeth ariannol i drigolion. Mae'r hyfforddiant tair lefel yn rhoi sgiliau a hyder i staff ddarparu cymorth sensitif ac effeithiol, gan symud tuag at ddull mwy cynhwysfawr sy'n deall anghenion ehangach trigolion ac yn hwyluso cyfeirio at y gefnogaeth briodol.

### PROSIECTAU CYDRADDOLDEB A TEGWCH

Mae cydraddoldeb yn flaenoriaeth i'r Cyngor, wedi'i arwain gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Mae'r Gweithgor Cefnogi Pobl wedi defnyddio data i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn gwasanaethau mewn dau brosiect penodol yn ystod 2025/26:

- Ymgysylltwyd ag ysgolion, cyrff llywodraethu a Byw'n Iach er mwyn mynd i'r afael â gostyngiad mewn gwersi nofio mewn ysgolion, gan adnabod rhai rhwystrau fel cludiant.
- Adolygiad o ddarpariaeth mannau parcio anabledd gan ddwyn adrannau ynghyd i ystyried anghenion defnyddwyr, tegwch y drefn a gosod sylfaen ar gyfer opsiynau pellach.

## Astudiaeth Achos: Stori Dewi *

**Yn aml, nid un ymyrraeth unigol sy'n gwneud y gwahaniaeth, ond pecyn o gymorth wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn neu'r teulu.**

**Er bod mesur data meintiol yn bwysig, nid oes dim yn dod â'r gwaith yn fyw cystal a stori unigolyn, sy'n dangos y newid gwirioneddol ym mywydau pobl.**

Cysylltodd aelod o dîm Gafael Llaw â Dewi ar ôl iddo wneud cais am fathodyn parcio anabl.

Eglurodd Dewi ei fod yn ymdopi â'r rhan fwyaf o bethau o ddydd i ddydd ar hyn o bryd, ond ei fod yn teimlo fel pe bai "ar fin" angen mwy o gymorth. Dywedodd fod ganddo lanhawr yn y gorffennol, ond nad yw wedi bod yn dod yn ddiweddar.

Gofynnwyd iddo a oedd wedi gwneud cais am Lwfans Gweini (Attendance Allowance) i helpu gyda chostau ychwanegol. Dywedodd fod Age Cymru wedi bod yn hynod o gymorth iddo ac wedi cyflwyno cais ar ei ran yn ddiweddar, ac ei fod yn disgwyl penderfyniad. Cadarnhaodd hefyd ei fod wedi trafod Credyd Pensiwn gyda nhw.

Trafodwyd diogelwch yn y cartref. Eglurodd Dewi fod ganddo reiliau llaw ar y grisiau, ac er ei fod fel arfer yn gallu symud o gwmpas ei gartref bach, ei fod weithiau'n cael trafferth. Cafodd hefyd bennod o bendro y bore hwnnw. Awgrymwyd iddo wneud apwyntiad gyda'i nyrs practis i gael "MOT" iechyd.

Cafwyd sgwrs am Teleofal, gan y gallai fod o gymorth iddo pe bai'n cwympo ac yn methu galw am help. Roedd Dewi yn dangos diddordeb mawr ac gofynnodd am atgyfeiriad am fwy o wybodaeth. Oherwydd ei anawsterau symudedd, gwnaed cais iddo hefyd am wasanaeth casglu biniau o'r drws cefn, gan ei fod wedi nodi ei fod yn cael hi'n anodd cario'r biniau dros blatfform o flaen y tŷ.

Yn gymdeithasol, dywedodd Dewi ei fod yn mynd allan weithiau. Nid yw'n gyrru, ond mae ffrindiau'n ei gasglu o bryd i'w gilydd, ac mae'n mwynhau cael cinio gyda'i ferch unwaith yr wythnos. Rhoddwyd gwybodaeth iddo hefyd am hwb cymunedol yn ei ardal.

Diolchodd Dewi yn fawr am yr alwad ac roedd yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r wybodaeth.

**Er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion, rydym wedi newid enwau yn y straeon sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn.*

# RBe fyddwn ni'n ei wneud yn 2026/27?

## PRIF FEYSYDD

### CYMORTH COSTAU BYW

Byddwn yn parhau i hyrwyddo cymorth ariannol a budd-daliadau sydd ar gael, a sicrhau fod pawb yn hawlio eu harian. Yn benodol, byddwn yn:

- Hyrwyddo cofrestru awtomatig ar gyfer tariffau cymdeithasol a'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth
- Rhedeg ymgyrchoedd ar adegau penodol, fel gwyliau ysgol a digwyddiadau tymhorol
- Chwilio am ffyrdd o leihau allgau digidol a gwella mynediad i wasanaethau ar-lein

### HYBIAU CEFNOGI POBL

- Ail-edrych ar model yr hybiau a gweithredu rhaglen trawsnewid er mwyn sicrhau darpariaeth fwy cydlynol ar draws y sir.

### EIN FFORDD O WEITHIO

- Gwerthuso'r peilot "Gafael Llaw" a cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Ymgorffori rhaglen waith hyfforddiant trawma wybodus a ymwybyddiaeth hawliau plant o fewn gwaith y Gweithgor.

## SUT BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT?

- Nifer a % hawlwyr Budd-dal Tai
- Nifer a % Hawlwyr Tâl Tai Dewisol
- Nifer a % hawlwyr cinio ysgol am ddim
- Nifer a % mynychwyr Clybiau Brecwast
- Nifer a %hawlwyr gofal plant am ddim
- Nifer a % hawlwyr tocyn teithio am ddim
- Nifer y talebau argyfwng a ddarparwyd (Charis)
- Nifer talebau tanwydd argyfwng a ddyfarnwyd
- Nifer unigolion sy'n cael eu cefnogi nol i waith
- Nifer a gwerth £ gostyngiadau Treth Cyngor
- £ mwy o arian ym mhocedi trigolion Gwynedd
- Nifer sesiynau cyngor costau byw a gynhaliwyd (Hyrwyddwyr Lles)
- Nifer a % trigolion adrodd eu bod wedi derbyn y cymorth oedd ei angen arnynt, ar y pwynt cyntaf (Hybiau)
- Nifer ymholiadau Gafael Llaw
- % yr achosion Gafael Llaw gafodd ddatrysiad a chymorth
- Nifer staff yn derbyn hyfforddiant gofal cwsmer / person ganolog
- Nifer staff wedi cwblhau hyfforddiant tywysydd ariannol
- Astudiaethau achos a storiau trigolion

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Gorffennaf 2026 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Teitl yr Eitem:** | Diweddaru Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30 Cyngor Gwynedd |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1. Y penderfyniad a geisir

i. Bod y Cabinet yn cymeradwyo yr addasiadau i'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac yn mabwysiadu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30 Cyngor Gwynedd (F.2).

### 2. Y Rheswm Dros yr Angen am Benderfyniad

i. Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (llyw.cymru).

ii. Yn ystod 2025/26 bu'r Cyngor yn adolygu ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN/y Cynllun) er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i bwrpas.

iii. Gwnaed addasiadau i'r Cynllun yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus; derbyn sylwadau y Bwrdd Hinsawdd a Natur; a derbyn sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

iv. Cyflwynir y cynllun diwygiedig (Atodiad 1) yn ôl i'r Cabinet er mwyn pwyso a mesur, a derbyn a'i peidio, yr addasiadau a wnaed.

### 3. Cefndir

i. Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun/CAHN) yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.

ii. Daeth y Cynllun yn weithredol fis Ebrill 2022 ac mae'r 3 adroddiad blynyddol sy'n pwyso a mesur perfformiad y Cynllun i'w gweld yma.

iii. Cydnabuwyd o'r dechrau bod y Cynllun presennol yn canolbwyntio ar weithrediadau mewnol y Cyngor, a hynny er mwyn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru i'r sector gyhoeddus ar y cyd i fod yn sero net. Ond pan fabwysiadodd Cabinet Cyngor Gwynedd y Cynllun presennol ar 8 Mawrth 2022, fe nodwyd mai 'Cam 1' fyddai cynllunio sut i ddadgarboneiddio gweithrediadau'r Cyngor ei hun, ac mai 'Cam 2' fydd cynllunio sut i gefnogi cymunedau Gwynedd i leihau allyriadau carbon ar draws y sir yn ogystal a rhoi rhagor o wybodaeth am sut i ymateb i berygl llifogydd.

iv. Mae Cam 1, sef gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur presennol wedi bod ar waith ers Ebrill 2022, a bydd yn waith parhaus hyd y gwelwn. Er mwyn cyrraedd Cam 2 fe benderfynodd Bwrdd Hinsawdd a Natur y Cyngor bod angen adolygu'r Cynllun ac ymgynghori â thrigolion Gwynedd ar ei gynnwys er mwyn llunio rhaglen waith newydd ar gyfer y blynyddoedd nesaf hyd at 2030.

**4. Ymgynghoriad Cyhoeddus**

i. Fel cam cyntaf fe gafodd y Cynllun gwreiddiol ei adolygu gan Fwrdd Hinsawdd a Natur y Cyngor (bwrdd o aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor), ac fe awgrymwyd rhai diweddariadau.

ii. Edrychwyd yn benodol ar y rhestr o brosiectau ym mhenodau 8-14 o'r Cynllun i weld a oedd angen ychwanegu, addasu neu ddileu rhai o'r prosiectau hynny. Ar sail y cynigion newydd fe gynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 12 Mehefin a 31 Gorffennaf 2025 i holi barn am:

- A ydi trigolion yn credu bod newid hinsawdd yn bwysig, ac a ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- Gynnwys y Cynllun presennol
- Cynigion ar newidiadau i'r prosiectau presennol ac ychwanegu prosiectau newydd
- Beth all Cyngor Gwynedd ei wneud er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd i leihau allyriadau carbon?

iii. <u>Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus</u>

Mae canlyniad yr ymgynghoriad i'w weld yn Atodiad 2, ond yn gryno mae'r canlyniadau yn dangos:

- Bod 84% o ymatebwyr yn credu bod newid hinsawdd yn bwysig iddyn nhw
- Bod 83% o ymatebwyr yn credu y dylai Cyngor Gwynedd fod yn gweithredu ar newid hinsawdd
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y Cynllun presennol yn ddealladwy, gyda gweledigaeth ac amserlen glir, a bod y nod yn ddigon uchelgeisiol (rhwng 56-75% yn cytuno gyda'r datganiadau)
- Roedd mwyafrif (52%) yn anghytuno bod y Cyngor yn gwneud digon i gefnogi trigolion i fabwysiadau arferion bywyd a gwaith cynaliadwy
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid ychwanegu 10 prosiect newydd at y Cynllun (cefnogaeth i brosiectau unigol yn amrywio rhwng 59% a 79%)

- Y prosiectau ble roedd y canrannau uchaf yn eu cefnogi oedd ‘parhau i weithredu Strategaeth Llifogydd Cyngor Gwynedd’ (79.5%), a ‘cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy’ (78.8%)
- Y prosiectau ble roedd y canrannau uchaf yn anghytuno â nhw oedd ‘datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd er mwyn datblygu rhwydwaith gwefru cyhoeddus ac ar gyfer fflyd y Cyngor (21.2% yn anghytuno ond 71.2% yn cytuno) ac ‘ymchwilio a mesur gwaith amsugno ‘carbon glas’ ar ein harfordir (20.5% yn anghytuno ond 59.6% yn cytuno)
- Y pwnc newid hinsawdd oedd uchaf ei flaenoriaeth oedd lleihau tlodi tanwydd cartrefi (63.3%)
- Y budd ychwanegol sy’n dilyn o weithredu ar newid hinsawdd oedd yn sgorio uchaf oedd ‘mynediad at drafnidiaeth cyhoeddus’.

iv. O ystyried canlyniadau’r ymgynghoriad, mae rhai negeseuon yn sefyll allan –

- mae cefnogaeth i Gyngor Gwynedd fod yn gweithredu yn y maes newid hinsawdd
- mae cefnogaeth i’r newidiadau sy’n cael eu cynnig i’r CAHN
- mae angen i’r Cyngor fod yn gwneud mwy i helpu trigolion i fabwysiadu arferion bywyd a gwaith cynaliadwy.

**5. Yr addasiadau a wnaed i’r Cynllun**

i. Ar 18 Medi 2025 bu i Bwyllgor Craffu Cymunedau’r Cyngor ystyried Adroddiad Blynyddol 2024/25 y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac yna ar 22 Ionawr 2026 bu’r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn trafod drafft newydd o’r Cynllun. Yn y ddau gyfarfod yma fe drafodwyd uchelgais y Cynllun gwreiddiol, sef “Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030”, a’u argymhelliad oedd “bod angen ail-edrych ar uchelgais y Cyngor i fod yn garbon sero net erbyn 2030 a dylid ystyried gosod targed realistig ar gyfer lleihau allyriadau carbon”.

ii. Mae hwn yn uchelgais hynod heriol, yn enwedig oherwydd bod cymaint o ffactorau sy’n effeithio arno y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

iii. Un ffactor allweddol yw sut mae’r trydan sy’n cael ei gynhyrchu a’i ddosbarthu drwy’r Grid Cenedlaethol yn cael ei gynhyrchu. Mae llywodraeth Prydain wedi cyhoeddi eu cynllun i sicrhau bod 95% o anghenion trydan Prydain yn cael eu cynhyrchu drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030 - Clean Power 2030 Action Plan - GOV.UK . Os fydd y cynllun yma’n cael ei wireddu yna bydd yn arwain yn uniongyrchol at ostyngiad sylweddol yn allyriadau carbon Cyngor Gwynedd, yn enwedig gan ein bod yn symud tuag at fflyd o gerbydau trydan ac yn trydaneiddio gwres. Yn wir, rydym yn ddibynol ar lywodraethau Prydain a Chymru yn gwireddu cynlluniau cenedlaethol o’r fath os ydym am wireddu uchelgais sero net.

iv. Yn y cyfamser, drwy brosiectau presennol ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, rydym fel Cyngor yn paratoi er mwyn bod yn barod i fanteisio i’r eithaf ar ddarpariaeth ynni sero net. Rydym yn buddsoddi’n sylweddol mewn lleihau allyriadau Cwmpas 1, sef y meysydd y mae gennym reolaeth drostynt, ac wedi bod yn gwneud hynny ers dros 15 mlynedd. Bydd parhau i weithredu’r prosiectau sy’n cael eu disgrifio ym mhenodau ‘Adeiladau ac Ynni’ a ‘Symud a Thrafnidiaeth’ yn bennaf yn ein rhoi yn y sefyllfa gryfaf bosib i fanteisio ar drydan ynni adnewyddadwy pan ddaw.

v. Dros y 3 mlynedd ddiwethaf mae’r cyfran uchaf o bell ffordd (bron tri chwarter) o allyriadau carbon y Cyngor yn deillio o’n gwariant ar gytundebau trydydd parti. Hynny yw, mae’r carbon yn cael ei fesur

ar sail gwerth ariannol y gwasanaethau a nwyddau yr ydym yn ei brynu drwy'n trefniadau caffael. Rydym yn cydweithio a chefnogi ein cyflenwyr i symud tuag at ddulliau llai llygrol o weithredu, ac mewn rhai achosion mae gennym ddata sy'n fwy cywir na data gwariant, ond yn gyffredinol po fwyaf y byddwn yn ei wario po fwyaf yw'n allyriadau carbon. Os ydym yn parhau i orfod cyfri allyriadau carbon prynu gwasanaethau a nwyddau, a heb fedru dylanwadau na mesur yr allyriadau yn gywir, bydd bron yn amhosib i ni weithredu fel cyngor sero net.

vi. Er mwyn gwireddu'r prosiectau yn y Cynllun rydym wedi amcangyfrif y byddai'r gost rhwng £400-700m. Nid yw'r lefel yma o gyllid ar gael i'r Cyngor ar hyn o bryd, ac nid ydym yn rhagweld y bydd ar gael i ni mewn amser i fedru gwireddu'r uchelgais o fod yn sero net erbyn 2030.

vii. Mae uchelgais y Cyngor yn aros yn gadarn, sef i barhau i leihau allyriadau carbon ar frys. Fodd bynnag, gan gydnabod bod Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei tharged sero net cenedlaethol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig, bydd y Cyngor angen ystyried ei weithredodd er mwyn cyd-fynd â'r fframwaith cenedlaethol diwygiedig unwaith y caiff hwnnw ei gadarnhau. Ein bwriad yw gweithredu'n gyson gyda bwriadau Llywodraeth Cymru, gan alluogi'r Cyngor ar yr un pryd i barhau i gyflawni gostyngiadau ystyrlon mewn allyriadau heb oedi.

**6. Adolygu Prosiectau**

i. Fel y nodwyd uchod, y cam cyntaf a gymerwyd wrth adolygu'r Cynllun oedd i adolygu'r rhestrau o brosiectau ym mhenodau 8 i 14. Mae'n rhesymol bod angen addasu neu newid trywydd rhai prosiectau er mwyn ymateb i fyd sy'n newid, neu mae rhai prosiectau eraill wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac felly'n cael eu 'harchifo'.

ii. **Prosiectau sy'n cael eu harchifo:**

1. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu
2. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon
3. Gosod ffaniau awyru EC mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol
4. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad
5. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni
6. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi
7. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol
8. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

iii. Mae rhagor o fanylion am y rheswm dros archifo'r prosiectau yma i'w gweld yn adran 15 o'r Cynllun, ond yn gryno y rheswm mwyaf cyffredin ydi oherwydd bod nifer o brosiectau yn cael eu cyfuno gan eu bod yn gweithio tuag at yr un nod. Golyga hyn bod y gwaith yn parhau ond nad oes angen disgrifio'r gwaith fel dau brosiect ar wahân.

iv. **Prosiectau newydd**

1. Adolygu'r potensial ar gyfer defnyddio rhwydweithiau gwres ar draws Gwynedd yn ddibynnol ar astudiaethau dichonoldeb
2. Cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy er budd cymunedau Gwynedd
3. Datblygu ac annog teithio llesol yn nalgylch ysgolion Gwynedd
4. Gweithredu Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd
5. Datblygu Strategaeth Addasu Hinsawdd a Natur
6. Staff Cyngor Gwynedd i weithredu'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy er mwyn lleihau allyriadau carbon drwy'r gadwyn gyflenwi
7. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i gymryd camau fydd yn lleihau eu allyriadau neu gynyddu lefelau amsugno carbon
8. Adnabod gwerth amsugno carbon ein safleoedd tirlenwi
9. Adnabod gwerth amsugno 'carbon glas' ar ein arfordir
10. Gweithredu Strategaeth Llifogydd Cyngor Gwynedd

v. Mae rhagor o fanylion am bob un o'r prosiectau uchod ym mhenodau 8-14 o'r Cynllun, gyda gwybodaeth am y rheswm dros eu cynnwys, costau, amserlen ac arbedion carbon posib.

**7. Sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau**

i. Gwnaed newidiadau i'r Cynllun yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a sylwadau pellach gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur. Cyflwynwyd ddrafft newydd o'r Cynllun i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 22 Ionawr 2026, ac mae penderfyniadau'r pwyllgor wedi eu nodi isod:

Penderfynwyd:

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth

- Bod y Pwyllgor yn croesawu'r bwriad i ail-edrych ar y targed i'r Cyngor fod yn Garbon Sero Net erbyn 2030
- Argymell i'r Aelod Cabinet Amgylchedd:

➢ y dylid cyfathrebu llwyddiannau a'r gwaith a gyflawnwyd i wireddu'r Cynllun gyda'r cyhoedd

➢ bod angen cynyddu'r defnydd o gwestiynau agored mewn ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn derbyn ymatebion a fyddai'n cyfoethogi'r wybodaeth ar gael i lywio cyfeiriad i'r dyfodol

➢ y dylid ystyried addasu'r geiriad canlynol: "...byddwn yn parhau i leihau ein hallyriadau dros y degawdau nesaf hyd nes ein bod yn cyrraedd y targed o sero net' (Tudalen 6, Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, Fersiwn 2), er mwyn bod yn fwy uchelgeisiol o ran cyrraedd y targed.

Fe ystyriwyd sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, ac mae sylw wedi ei roi i rannu rhagor o wybodaeth am lwyddiannau'r Cynllun, ac i wneud newidiadau i ymgynghoriadau yn y dyfodol. Gweler adran 5 uchod am ragor o wybodaeth am gyrraedd y targed o sero net.

8. **Mesur llwyddiant**

i. Byddwn yn parhau i gasglu data am allyriadau carbon blynyddol Cyngor Gwynedd a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol a'r drefn sydd yn ei lle ers 2021.

ii. Mae'r canlyniadau hynny yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiadau blynyddol, sydd i'w gweld yma.

**9. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

i. Lluniwyd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur pan y gafodd ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae diweddariad i'r asesiad i'w weld yn Atodiad 3.

**10. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

i. A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Gweler 5 uchod.

ii. A ydych wedi ystyried cydweithio?

Mae penodau 12 ac 13 o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn adrodd ar waith sydd wedi ei gynnal yn rhannol gan Bartneriaeth Natur Gwynedd, sef consortiwm o fudiadau lleol sy'n cael eu harwain gan y Cyngor. Mae nifer o brosiectau eraill sydd yn y CAHN yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag eraill, megis prosiectau teithio llesol ar y cyd â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r adolygiad newydd o'r CAHN yn rhestru prosiectau newydd ble y bydd yn gwbl hanfodol i gydweithio â mudiadau cymunedol a trigolion er mwyn eu cyflawni – ee. 'cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy'.

iii. Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

Un o egwyddorion sylfaenol y CAHN yw ceisio atal cynnydd pellach yn nhymheredd cyfartalog y blaned ac i gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2 oC" yn unol â Chytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig. Mae pob un o brosiectau'r cynllun yn ceisio sefydlogi neu hyd yn oed wrthdroi y siawns bod y sefyllfa bresennol yn arwain at ragor o broblemau yn y dyfodol.

iv. Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Fel y nodwyd uchod, sail y CAHN yw ceisio atal problemau cynhesu byd eang rhag gwaethygu i'r dyfodol, ac er bod targed i'r Cyngor ei hun fod yn garbon sero net erbyn 2030 mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i Gymru gyfan fod yn sero net erbyn 2050. Mae'r CAHN felly hefyd yn cymryd i ystyriaeth y bydd newid arferion trigolion a busnesau Gwynedd yn waith hirdymor y tu hwnt i 2030.

v. Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Mae nifer fawr o brosiectau'r CAHN yn cael eu cynllunio neu eu gweithredu ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill neu gyda'r sector wirfoddol a chymunedau. Mae yna gydweithio parhaus gydag awdurdodau lleol eraill ar draws gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, a Trafnidiaeth i Gymru sydd wedi arwain at gynllunio a chomisiynu gwaith ar y cyd.

Mae nifer o gyrff cyhoeddus lleol gan gynnwys Cyngor Gwynedd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac un o dri Amcan Llesiant yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-2028 yw 'Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon'.

## 11. Camau nesaf ac amserlen

i. Cyhoeddi Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30 Cyngor Gwynedd: Fersiwn 2.

ii. Parhau i ddatblygu prosiectau ac achosion busnes a chanfod cyllid i'w ariannu.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn amlwg yn ddogfen bolisi allweddol. Mae natur traws gyngor a chymunedol y prosiectau a chynlluniau unigol yn adlewyrchu ystod eang yr her yma. Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y penderfyniad a geisir ac yn cadarnhau y bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol ar gael i gefnogi yr agweddau llywodraethu a chyfreithiol y cynlluniau yma.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ddogfen hollbwysig fydd yn llywio gweithgareddau'r Cyngor am flynyddoedd sydd i ddod. Mae rhan 5vi o'r adroddiad blaen yn cydnabod nad yw'r lefel o gyllid sydd ei angen i gwblhau pob prosiect ar gael i'r Cyngor ar hyn o bryd, a nid yw'n debygol o fod yn ystod oes y cynllun chwaith. Bydd mabwysiadu trefn flaenoriaethu yn anorfod.

Tra bod costau ariannol arwyddocaol yn wynebu'r Cyngor er mwyn mynd i'r afael â'r her sylweddol sydd o'n blaenau, byddai costau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd dybryd o beidio gweithredu'n bendant. Mae gwaith eisoes ar y gweill o fewn yr Adran Gyllid, ar y cyd â swyddogion o ystod o adrannau eraill, i adolygu'r sefyllfa ariannol ac adnabod ffynonellau cyllid priodol.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 -** Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30 Cyngor Gwynedd: Fersiwn 2

**Atodiad 2 –** Canlyniadau Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

**Atodiad 3** - Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol



# Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

## 2022/23 – 2029/30

## Cyngor Gwynedd

Fersiwn 2

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 2
2. Adolygu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 3
3. Rhagair 4
4. Cyrraedd Sero Net 5
5. Beth yw Carbon Sero Net a Pham ei Fod yn Bwysig? 7
6. Ymateb i Effeithiau Newid Hinsawdd 9
7. Y Cynllun Hwn 11
    - Partneriaid 10
    - Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant? 11
    - Mesur ein allyriadau carbon 12
    - Cynllunio i gyrraedd carbon sero net 14
    - Cyllido 15
    - Amserlen 15
8. Adeiladau ac Ynni 17
9. Symud a Thrafnidiaeth 21
10. Gwastraff 26
11. Llywodraethu 30
12. Caffael 34
13. Defnydd Tir 37
14. Bioamrywiaeth 42
15. Prosiectau wedi eu Harchifo 45
16. Partneriaid 48
17. Strategaethau a Pholisïau 49


DRAFT

# 1. Cyflwyniad

Newid yn yr hinsawdd yw un o heriau mwyaf ein hoes, ac mae'n gofyn am weithredu ar y cyd gan bob un ohonom. O ganlyniad i'r cynnydd dramatig mewn tymheredd byd-eang a welir ers yr 1950au rydym yn gweld effeithiau difrifol megis encilio llen ia, lefelau'r môr yn codi, newid yn y tymhorau, ac mae tywydd eithafol sy'n arwain at sychder neu lifogydd yn dod yn ddigwyddiadau mwy rheolaidd. Un o'r prif gyfranwyr i'r cynnydd yma mewn tymheredd yw'r lefelau uchel o garbon a gaiff ei ryddhau i'r amgylchedd gan weithgareddau dynol.

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd ddatganiad ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd, gan ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon. Credwn bellach bod angen rhoi sylw cyfartal i'r argyfwng sy'n wynebu byd natur yn ogystal gan eu bod yn cyd-redeg mor agos â'i gilydd. Gall newidiadau i dymheredd a glawogydd yn sgil newid hinsawdd arwain at golli cynefinoedd byd natur, ac mae colli'r cynefinoedd hynny yn ei dro yn cynyddu'r lefelau o garbon yn yr amgylchedd. Mae'n gylch dieflig y mae'n rhaid ei dorri.

Rydym yn cydnabod mai'r nod tymor hir yw bod Cyngor Gwynedd yn cyrraedd y sefyllfa ddelfrydol o fod yn gyngor di-garbon. Er mwyn cyrraedd y fan honno, mae angen i ni gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r heriau o'n blaenau a sut y gallwn eu goresgyn.

Bwriad y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yw amlinellu pa gamau y byddwn yn eu cymryd er mwyn cyrraedd ein nod o fod yn gyngor carbon sero net.



DRAFT

## 2. Adolygu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Erbyn Mawrth 2026 roedd 4 mlynedd wedi pasio ers i Gyngor Gwynedd fabwysiadu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac ym mhob blwyddyn ers hynny rydym wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn pwyso a mesur ein llwyddiant yn cyflawni'r cynllun.

Yn ystod 2025/26 buom yn edrych yn fanylach ar bob agwedd o'r gwaith er mwyn gweld os ydym yn parhau ar y trywydd cywir, yntau oes angen gwneud newidiadau i'r cynllun. Yn ystod haf 2025 fe wnaethom hefyd ymgynghori'n gyhoeddus er mwyn deall beth yw blaenoriaethau trigolion Gwynedd yn y maes hinsawdd a natur, ac i holi barn am rai cynlluniau newydd i'w hystyried.

Mae amgylchiadau heddiw yn dra gwahanol i Fawrth 2022, ac mae gwleidyddiaeth rhyngwladol, datblygiadau technolegol a chostau wedi newid yn sylweddol mewn amser byr.

Mae hi'n amserol felly i ni fel Cyngor i adolygu ein cynllun er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu'n effeithiol, ac er mwyn pwyso a mesur os oes angen i ni newid yr hyn sy'n cael ei gyflawni.

Rydym wedi asesu pob un o'r prosiectau ym mhenodau 8 – 14 er mwyn gweld os ydynt yn dal yn berthnasol ac yn effeithiol. Mae'r rhan helaethaf ohonynt yn parhau yn weithredol; mae 8 ohonynt wedi eu symud i'r adran 'archif' oherwydd eu bod eisoes wedi eu gwireddu, neu maent yn dyblygu gwaith sy'n digwydd o dan brosiectau eraill; ac mae 10 cynllun wedi eu hychwanegu o'r newydd.

Mae gwaith wedi ei wneud hefyd er mwyn amcangyfrif mor gywir a phosib beth fyddai'r costau ariannol i gyflawni'r prosiectau, a faint o allyriadau carbon y byddent yn eu harbed. Mae'r wybodaeth wedi ei nodi ym mhenodau 8 i 14 ond mae gwaith pellach i'w wneud yn y dyfodol er mwyn parhau i gael ffigurau mor gywir a phosib.

Drwy ail-ymweld â chostau'r prosiectau hyn dros y flwyddyn nesaf, byddwn hefyd mewn safle llawer cryfach i fesur pryd y byddwn yn nesau at sero net.

DRAFT

# 3. Rhagair Aelod Cabinet Amgylchedd

DRAFT

Nid bygythiad ymhell i'r dyfodol yw'r argyfwng hinsawdd a natur bellach; mae'n digwydd rŵan ac mae'n effeithio arnom ni yng Ngwynedd fel pob rhan arall o'r byd. Mae amgylchedd a byd natur Gwynedd yr un mor unigryw ac arbennig â'i phobl a'i hiaith, ac felly'n drysorau i'w gwarchod.

Ond sut ydym ni, yn wyneb ansicrwydd llethol newid hinsawdd, yn sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu mwynhau'r un breintiau â ni heddiw? Sut ydym yn sicrhau bod ein ffordd o fyw yn parhau? Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn lleihau allyriadau carbon, adfer natur a chryfhau gwytnwch - gan weithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol gwell.

Yn draddodiadol, mae doethineb yn ein hatgoffa i blannu coed nad ydym byth yn disgwyl eistedd yn eu cysgod. Mae'r egwyddor o feddwl saith cenhedlaeth ymlaen wedi ei gwreiddio'n ddwfn yn ein gwerthoedd fel cenedl, ac wedi ei hadlewyrchu'n glir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ysbryd hynny, mae gennym gyfrifoldeb nid yn unig i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, ond i wneud hynny mewn ffordd sy'n adeiladu dyfodol teg, cynaliadwy a gwydn i'r rhai a ddaw ar ein holau.

Rwy'n falch iawn ein bod, yma yng Ngwynedd, ar flaen y gad yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig wrth fynd i'r afael â'n hallyriadau, gyda chyfartaledd gostyngiad o 55% yn ein hallyriadau carbon ers 2005/06. Nid cyflawniad bach yw hyn; mae'n dystiolaeth o'r hyn sy'n bosibl pan fo ymrwymiad clir a gweithredu pendant.

Mae'r cynnydd hwn yn rhoi sylfaen gadarn inni barhau â'r daith, ond mae hefyd yn ein hatgoffa nad yw'r gwaith wedi ei gwblhau. Ein her bellach yw adeiladu ar y llwyddiant hwnnw drwy wneud penderfyniadau dewr a blaengar, fydd yn sicrhau nid yn unig ein bod yn lleihau ein heffaith, ond ein bod yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Amgylchedd

# 4. Cyrraedd Sero Net

Rydym wedi llunio'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur er mwyn rhannu sut yr ydym am geisio cyrraedd sero net.

Mae'r uchelgais hon yn gyson â nod Llywodraeth Cymru i sector gyhoeddus Cymru ar y cyd i fod yn garbon sero net, a gellir darllen mwy am hyn yn eu dogfennau a gyhoeddwyd yn 2019 Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, ac yn 2021 Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25).

Mae'r Llywodraeth wedi ymestyn y targed y tu hwnt i'r sector gyhoeddus gan fod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf yr Amgylchedd) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau tŷ gwydr yng Nghymru gan o leiaf 80% erbyn 2050. Mae Deddf yr Amgylchedd hefyd yn gosod dyletswydd newydd mewn perthynas â lleihau'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, a'n gobaith yw y bydd y cynllun hwn hefyd yn cyfrannu at y nod o gynnal systemau ecolegol a bioamrywiaeth iach i'r dyfodol.

Fel pob sefydliad cyhoeddus arall yng Nghymru mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae sicrhau dyfodol iach carbon sero net am gyfrannu at bob un o'r nodau llesiant isod sy'n ganolbwynt i'r Ddeddf.




Un o'r 7 amcan llesiant yn Natganiad Llesiant Cyngor Gwynedd yw 'Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir', ac mae 'Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd' yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

DRAFT

Dylid cofio nad datganiad newydd yw ymrwymiad Cyngor Gwynedd i leihau ei ôl-troed carbon. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Rheoli Carbon cyntaf yn 2010, a’r Cynllun Rheoli Carbon 2 yn 2015. Esblygiad o’r ddau gynllun rheoli carbon felly yw’r cynllun hwn.




Dewiswyd blwyddyn 2005/6 fel blwyddyn waelodlin ar gyfer y ddau gynllun carbon, a bryd hynny roedd yr allyriadau carbon o adeiladau, goleuadau stryd, gwastraff, trafnidiaeth fflyd a busnes y cyngor yn 31,155 $tCO_2e$ (esboniad pellach ar ystyr $tCO_2e$ yn ‘Beth yw carbon sero net a pham ei fod yn bwysig’).

Ymrwymodd y cyngor i leihau allyriadau carbon o 40% erbyn 2021 o'i gymharu â data y flwyddyn waelodlin, ac yn wir fe lwyddwyd i fynd y tu hwnt i’r targed, ac i’w gyrraedd yn gynt. Erbyn 2020 roedd allyriadau’r cyngor yn 13,003 $tCO_2e$, sef gostyngiad o 58%. Mae’r fethodoleg gan Lywodraeth Cymru i fesur data y mae gofyn i ni ei dilyn bellach yn golygu bod y cyfanswm hwn wedi newid – mwy am hyn yn ‘Cynllunio i Gyrraedd Carbon Sero Net’.

Mae uchelgais y Cyngor yn aros yn gadarn, sef i barhau i leihau allyriadau carbon ar frys. Fodd bynnag, gan gydnabod bod Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei tharged sero net cenedlaethol a'r cyllidebau carbon cysylltiedig, bydd y Cyngor angen ystyried ei weithredodd er mwyn cyd-fynd â'r fframwaith cenedlaethol diwygiedig unwaith y caiff hwnnw ei gadarnhau. Ein bwriad yw gweithredu'n gyson gyda bwriadau Llywodraeth Cymru, gan alluogi'r Cyngor ar yr un pryd i barhau i gyflawni gostyngiadau ystyrlon mewn allyriadau heb oedi.

DRAFT

# 5. Beth yw Carbon Sero Net a Pham ei Fod yn Bwysig?




Mae'n anorfod y bydd rhywfaint o allyriadau carbon drwy weithgareddau na ellir eu hosgoi, ac felly os ydym am weld byd heb unrhyw garbon niweidiol yn yr atmosffer yna mae'n rhaid difa'r carbon hwnnw neu ei dynnu o'r atmosffer a'i storio'n ddiogel. Dyma a olygir wrth ddefnyddio'r term 'amsugno carbon' (*sequestration*). Mae gwaith ymchwil a thechnoleg newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn ceisio storio carbon, ond y dulliau mwyaf effeithiol ar hyn o bryd yw'r dulliau naturiol ble mae'r carbon yn cael ei amsugno a'i storio mewn coed, planhigion, tiroedd a phlancton.

Os ydi cyfanswm y carbon sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer yn gyfwerth â'r carbon sy'n cael ei amsugno yn ôl i'r ddaear yna rydym wedi cyrraedd sefyllfa o fod yn 'garbon sero net' (gelwir hefyd yn 'carbon niwtral').

## Pam bod angen cyrraedd nod o garbon sero net?

Cynnydd yn y lefelau o nwyon tŷ gwydr (NTG) yn yr atmosffer yw'r prif reswm pam fod tymheredd cyfartalog y blaned wedi cynyddu, yn enwedig dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Mae'r ddau graff isod yn dangos tymheredd cyfartalog fesul blwyddyn er gyfer y byd yn gyfan, ac ar gyfer Cymru:

**Tymheredd cyfartalog y byd 1850 – 2020**




**Tymheredd cyfartalog Cymru 1884 – 2020**



(Graddfeydd o: glas – oer / coch – poeth)

Yn ei dro, mae cynnydd mewn tymheredd yn arwain at effeithiau pellgyrhaeddol sy'n hynod niweidiol i'r amgylchedd, byd natur ac i ni fel pobl. Mae'r tymheredd cyfartalog ym Mhrydain bellach 1°C yn uwch nag yr oedd ganrif yn ôl, ac mae lefelau'r môr yn codi 3mm bob blwyddyn (UK Climate Change Risk Assessment 2017: HMGovernment). Er nad yw'n ymddangos yn gynnydd mawr, dylid

DRAFT

cofio bod y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) yn datgan y bydd pryfed, sy'n hanfodol ar gyfer peillio cnydau a phlanhigion, yn colli hanner eu cynefinoedd gyda chynnydd o 1.5°C, ond mae hyn bron ddwywaith yn fwy tebygol gyda chynnydd o 2°C. Byddai cynnydd o 1.5°C yn arwain at gynnydd yn lefelau y môr fyddai'n effeithio ar 6 miliwn o bobl sy'n byw mewn ardaloedd arfordirol ar draws y byd, ond byddai cynnydd o 2°C yn effeithio ar 10 miliwn o bobl.

Cafodd y targed o gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2°C" o'i gymharu â lefelau cyn-ddiwydiannol ei osod fel rhan o Gytundeb Paris 2015 y Cenhedloedd Unedig, a'i atgyfnerthu ymhellach yng nghynhadledd COP26 fis Tachwedd 2021. Mae'r *COP26: The Glasgow Climate Pact* yn datgan:

"*The aim of the UK COP26 Presidency was to keep alive the hope of limiting the rise in global temperature to 1.5C, and the Glasgow Climate Pact does just that. Combined with increased ambition and action from countries, 1.5C remains in sight, but it will only be achieved if every country delivers on what they have pledged*".

Er bod amrywiaethau bychan rhwng y ddau ddarlun llinell amser o gynhesu'r byd a chynhesu Cymru uchod, maent yn dangos yn glir bod y tueddiad tuag at fyd cynhesach yn 2020 yr un mor wir yma yng Nghymru ag yr oedd ar gyfer gweddill y byd. Mae'r angen i gadw'r cynnydd mewn tymheredd i 1.5°C neu is, ac i leihau effaith newid hinsawdd sydd eisoes wedi digwydd felly yr un mor bwysig yma yng Nghymru ag ydyw yng nghoedwigoedd yr Amazon a sychdiroedd Awstralia.

Os mai cynnydd mewn nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yw'r prif reswm dros y cynnydd mewn tymheredd, yna mae'n dilyn bod angen gostwng lefelau'r nwyon er mwyn rhwystro unrhyw gynnydd pellach mewn tymheredd. Y 3 nwy tŷ gwydr sy'n cael yr effaith fwyaf ar newid hinsawdd yw:

**Nwyon tŷ gwydr fwyaf niweidiol -**

- Carbon Deuocsid ($CO_2$)
- Methan ($CH_4$)
- Ocsid Nitrus ($N_2O$)

...gyda'i gilydd yn cael eu mesur fel un uned, a elwir $CO_2e$

**Dull o fesur allyriadau carbon –**

- Fesul kg – kg$CO_2e$
- Fesul tunnell – t$CO_2e$

Mae 'rhyddhau nwyon tŷ gwydr' fel arfer yn cael ei alw'n 'allyriadau carbon', ac felly wrth ddefnyddio geirfa fel 'lleihau carbon' yr hyn a olygir yw gostwng lefelau'r holl nwyon tŷ gwydr, ac nid carbon deuocsid yn unig.

Er mwyn bod yn gyson â dulliau mesur ac adrodd data Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Prydain a'r IPCC, bydd y cynllun hwn yn defnyddio'r termau 'allyriadau carbon', '$CO_2e$' a 'carbon sero net'.

DRAFT

# 6. Ymateb i Effeithiau Newid Hinsawdd

Hyd yma rydym wedi ystyried pwysigrwydd arafu neu stopio'r broses o gynhesu byd eang heddiw ac i'r dyfodol, ond beth am yr effaith y mae newid hinsawdd o'r gorffennol eisoes yn ei gael arnom ni yma yng Ngwynedd?

Mae **addasu** i effeithiau newid hinsawdd sydd eisoes mewn lle yn gwbl angenrheidiol, yn aml er mwyn diogelu pobl. Mae'r argraffiad newydd hwn o'r cynllun yn rhoi rhagor o bwyslais ar wneud gwaith i addasu i newid hinsawdd (*climate adaptation* yw'r term a ddefnyddir yn Saesneg fel arfer).

Mae'r consensws gwyddonol, wedi'i lywio'n bennaf gan Amcanestyniadau Newid Hinsawdd y DU 2018 (UKCP18), yn nodi dyfodol o hafau poethach, sychach a gaeafau cynhesach, gwlypach, ynghyd â mwy o amlder o ddigwyddiadau tywydd eithafol a lefelau'r môr yn codi. Gall hyn arwain at ganlyniadau dinistriol i bobl, cartrefi, natur a thir amaethyddol.

Un o gamau gweithredu 2026/27 yw llunio Asesiad Risg Newid Hinsawdd rhanbarthol i ogledd Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, a bydd yr asesiad terfynol yn rhoi disgrifiad i ni o'r risgiau pennaf sy'n wynebu pobl a thiroedd Gwynedd oherwydd effeithiau newid hinsawdd.

Y cam cyntaf yw adnabod y risg, a'r cam dilynol yw gweithredu i leihau'r effaith.

### Llifogydd

### Yr Arfordir

Mae arfordir Gwynedd yn un o'i hatyniadau mwyaf, ond mae oblygiadau mawr i warchod a chynnal yr 180 milltir hwn o arfordir. Mae'r cyfrifoldeb am warchod yr arfordir ac ymateb i lifogydd yn cael ei rannu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Yn hydref 2020 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (FCERM), a'i nod yw lleihau'r risgiau i bobl a chymunedau gan lifogydd ac erydu arfordirol. Mae hon yn strategaeth ddeg mlynedd ac rydym fel cyngor wedi ymrwymo i'w gweithredu, a dyma felly sy'n llywio ein gwaith i'r dyfodol.

DRAFT

## Y Mewndir

Fel Awdurdod Llifogydd Arweiniol Lleol, mae gennym fel cyngor gyfrifoldeb i reoli perygl llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear ac o nentydd llai a elwir yn gyrsiau dŵr cyffredin. Yn unol â'r cyfrifoldeb hwn, rydym wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol eraill er mwyn llunio Strategaeth Llifogydd Lleol i Wynedd.



DRAFT

# 7. Y Cynllun Hwn

Mae'r cynllun hwn yn gosod uchelgais carbon sero net ar gyfer y gweithgareddau yr ydym ni fel Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdanynt.

Rydym yn bwriadu gwella y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau ac yn rhedeg ein sefydliad, a byddwn yn gallu mesur hynny gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith o dan ein rheolaeth. Bydd y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur felly yn cynnwys y camau y bwriadwn eu cymryd er mwyn newid y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu'n uniongyrchol, ac i gydweithio neu gefnogi eraill i weithio tuag at yr un nod.

Mae'r gweithgareddau a'r prosiectau y byddwn yn eu gweithredu, os y cawn gyllid digonol, er mwyn ceisio dod yn gyngor carbon sero net wedi eu rhestru o dan y themâu: Adeiladau ac Ynni, Symud a Thrafnidiaeth, Gwastraff, Llywodraethu, Caffael, Defnydd Tir, Bioamrywiaeth, ac oll i'w gweld ym mhenodau 8-14.

Mae yna sialens sylweddol er mwyn cyrraedd ein uchelgais o garbon sero net, ac rydym yn onest wrth ddarogan nad ydi'r atebion i gyd gennym ni ar hyn o bryd. Bydd angen rhagor o waith gennym ni ac eraill er mwyn canfod y dulliau mwyaf effeithiol a llwyddiannus o weithredu mewn rhai meysydd. Mae'n hanfodol, felly, i fod â meddwl agored er mwyn dysgu am ddatblygiadau newydd yn y maes, ac i addasu'r cynllun a'n ffordd o weithio os y daw tystiolaeth gadarn i'r amlwg sy'n cyfiawnhau hynny.

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur felly'n ddogfen sy'n cael ei datblygu a'i haddasu'n rheolaidd. Hon yw'r ail fersiwn o'r cynllun yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fersiwn wreiddiol.

Mae yna nifer o weithgareddau yr ydym yn credu sydd angen eu cyflawni ond nad oes gennym fawr o reolaeth drostynt, neu nad oes gennym y cyllid ar hyn o bryd i'w gwireddu. Bydd angen adnoddau i gyfarch ein gweledigaeth, a gobeithio y daw mwy o gyfleon gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill i sicrhau adnodd digonol.

Fe wnawn gydweithio a chyfrannu at wireddu cynlluniau uchelgeisiol, ond fedrwn ni ddim eu cyflawni ar ein pen ein hunain.

## Partneriaid

Bydd hi'n amhosib i ni fel cyngor gyrraedd yr uchelgais heb weithio mewn partneriaeth gydag ystod eang o unigolion a sefydliadau. Rydym yn darparu gwasanaethau ar gyfer, ac ar y cyd, â chymaint o bobl eraill, felly mae'n gwbl angenrheidiol i ni gydweithio er lles pawb. Byddwn yn ceisio, hyd eithaf ein gallu, i ddylanwadu ar unigolion a sefydliadau eraill i ddod efo ni ar y daith. Byddwn yn ymgynghori â'n partneriaid ac â chymunedau Gwynedd er mwyn mesur llwyddiant y cynllun hwn ac er mwyn gweld sut y gallwn eu

DRAFT

cefnogi er mwyn iddynt hwythau weithredu mor 'garbon isel' a phosib.

Mae rhestr o'n partneriaid i'w weld yn Mhennod 16. Nid yw'n holl gynhwysfawr, nac mewn trefn blaenoriaeth, ac rydym yn agored i drafod gydag unrhyw bartner sydd hefyd yn rhannu ein uchelgais.

## Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant?

Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy drefniadau monitro perfformiad mewnol y Cyngor, a bydd gwybodaeth am ddatblygiad y cynllun yn cael ei rannu'n gyhoeddus drwy Adroddiadau Perfformiad Aelodau Cabinet ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur i gyfarfodydd Craffu.

Mae gennym Fwrdd Newid Hinsawdd sy'n rhoi arweiniad strategol i'r gwaith, ac mae'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet, Prif Weithredwr, Prif Swyddogion, Pencampwr Bioamrywiaeth a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Un elfen o'r monitro rheolaidd yw casglu data ar lefelau allyriadau ac amsugno carbon, a byddwn yn gwneud hynny drwy ddilyn methodoleg Llywodraeth Cymru (Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-net). Bydd canlyniadau data blynyddol yn rhan o Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac yn dilyn eu cyhoeddi byddwn hefyd yn adolygu'r cynllun hwn er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd cywir neu i wneud newidiadau yn ôl yr angen.

Mae'r data ar allyriadau carbon yn cael ei gasglu i fesur gweithgarwch mewn 3 maes, neu 'gwmpas' (*scope* a ddefnyddir yn Saesneg):

**Cwmpas 1** – Allyriadau Uniongyrchol

ee. cynhyrchu trydan a gwres gydag offer sy'n berchen neu'n cael ei reoli gan y Cyngor megis boeleri; teithio mewn cerbydau sy'n berchen i'r Cyngor.

**Cwmpas 2** – Allyriadau Anuniongyrchol o Ynni

ee. trydan, gwres neu systemau oeri sydd wedi eu cynhyrchu gan drydydd parti ond sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor.

**Cwmpas 3** - Allyriadau Anuniongyrchol

ee. nwyddau sy'n cael eu creu gan drydydd parti a'u prynu gan y Cyngor; staff yn teithio i'r gwaith neu'n defnyddio eu ceir eu hunain i deithio ar fusnes.

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cyd-redeg â nifer o strategaethau a pholisïau eraill y cyngor, ac yn wir mae'n hanfodol bod egwyddorion y cynllun hwn yn cael eu gwreiddio ar draws holl waith y cyngor. Bydd nifer o'r camau gweithredu ar gyfer y dyfodol, o bosib, yn eistedd hefyd mewn strategaethau neu gynlluniau gweithredu eraill. Mae rhestr gyfredol o'r rhain i'w gweld ym Mhennod 17, ond mae hi'n rhestr all newid yn gyson.

## Mesur allyriadau ac amsugno carbon

Fel y nodwyd eisoes, fyddwn ni ddim yn gwybod os ydym wedi lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu'r capasiti amsugno carbon heblaw ein bod yn mesur hynny'n rheolaidd a'i gymharu yn erbyn ein man cychwyn.

Nid tasg newydd yw hon i ni fel cyngor chwaith. Fel y nodwyd eisoes, bu gan y cyngor ddau Gynllun Rheoli Carbon ers 2010, a buont yn llwyddiannus iawn gan i ni ostwng ein allyriadau carbon o 58% rhwng 2005/06 a 2019/20, gan ddod a'r cyfanswm i lawr i 13,003 $tCO_2e$. Mae'r llwyddiannau yn cynnwys newid 90% hyd yma o oleuadau stryd i lanteri LED, insiwleiddio adeiladau neu gosod paneli solar PV.

Mae'r allyriadau carbon yr oeddem yn eu mesur o dan y ddau Gynllun Rheoli Carbon yn dod o'n adeiladau, goleuadau stryd, gwastraff yr oedd y cyngor yn ei gynhyrchu, fflyd y cyngor a theithio busnes gan staff. Erbyn heddiw mae gofyn i bob cyngor ddilyn methodoleg casglu data sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu bod gofyn i ni fesur llawer iawn mwy o weithgareddau yn ychwanegol i'r hyn yr oeddem yn ei fesur hyd at 2019 – ee. defnydd dŵr; biomas; allyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi (ffynnon i danc); cymudo staff; gweithio o gartref; allyriadau sy'n deillio o'r broses o greu cynnyrch neu wasanaeth yr ydym wedyn yn ei brynu (caffael); a chawn ni ddim hawlio credyd am ynni PV sy'n cael ei allforio i'r Grid Cenedlaethol.

Er mai nid y cyngor sy'n rheoli nifer o'r gweithgareddau ychwanegol yma, mae gofyn i ni bellach adrodd ar yr holl allyriadau carbon sy'n deillio ohonynt.

Mae allyriadau carbon ar gyfer y maes caffael yn cael eu mesur ar sail gwerth ariannol y cynnyrch neu'r gwasanaeth yr ydym wedi ei brynu. Yn syml, po fwyaf y byddwn yn ei wario po fwyaf fydd yr allyriadau carbon – heb ystyried beth ydyw na sut mae'r cynnyrch yn cael ei greu.

Mae'n anorfod y bydd y data newydd yr ydym yn ei gasglu felly lawer yn uwch na'r hyn a gasglwyd o dan y Cynlluniau Rheoli Carbon.

Mae'r tabl nesaf yn dangos y data a gasglwyd ar gyfer ein gwaelodlin yn 2019/20 a blwyddyn 2025/26 gan ddilyn methodoleg Llywodraeth Cymru:

DRAFT

## Cyfanswm Allyriadau Carbon Gweithredol:

| | 2019/20 Cyfanswm $tCO_2e$ | 2025/26 Cyfanswm $tCO_2e$ |
|---|---|---|
| Adeiladau a PV (ffotovoltaig) | 11,549 | 9,964 |
| Goleuo stryd | 1,101 | 704 |
| Fflyd | 5,145 | 5,225 |
| Gwastraff | 7,331 | |
| Teithio busnes | 1,944 | 1,283 |
| Cymudo staff | 5,623 | 3,723 |
| Gweithio o gartref | | 358 |
| **Cyfanswm** | **32,693** | **21,255** |
| Caffael | 40,639 | 54,726 |
| **Cyfanswm yn cynnwys caffael** | **73,332** | **75,980** |

## Mesur cyfanswm amsugno carbon

Rydym hefyd yn dilyn methodoleg Llywodraeth Cymru er mwyn mesur cyfanswm y carbon y gall y tiroedd sy'n berchen i'r cyngor ei amsugno. Mae'r siart isod yn dangos y mathau o diroedd gwahanol sy'n cael ei fesur, a chyfanswm y carbon y maent yn ei amsugno.

| Tiroedd | 2019/20 Cyfanswm $tCO_2e$ | 2024/25 Cyfanswm $tCO_2e$ |
|---|---|---|
| ▪ Coedlannau<br>▪ Glaswelltiroedd<br>▪ Gwlypdiroedd<br>▪ Aneddiadau | **5,893*** | **3,123** |

*seiliedig ar ffigwr 2020/21.

**Bwlch sydd angen ei gau er mwyn cyrraedd carbon sero net**:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2019/20 | 32,693 – 5,893 = | **26,800 $tCO_2e$** | (67,439 $tCO_2e$ gydag effaith caffael) |
| 2024/25 | 21,255 – 3,123 = | **18,132 $tCO_2e$** | (72,857 $tCO_2e$ gydag effaith caffael) |

DRAFT

## Cynllunio i gyrraedd carbon sero net



Bydd angen, felly, i ni gau’r bwlch o oddeutu 18,132 t$CO_2$e drwy gyfuniad o leihau ein allyriadau a chynyddu’r capasiti amsugno.

Er bod potensial i gynyddu’r capasiti amsugno (mwy am hyn yn 13. **Defnydd Tir**) mae’n wir bod angen canolbwyntio ar leihau’n sylweddol ein allyriadau, ac mae’r gweithgareddau a’r prosiectau y byddwn yn eu rhedeg wedi eu disgrifio yn y penodau canlynol (cwmpasau 1 & 2 yn bennaf):

8. **Adeiladau ac Ynni**

9. **Symud a Thrafnidiaeth**

10. **Gwastraff**

Gallwn gefnogi’r holl waith yn y meysydd uchod drwy gryfhau ein trefniadau mewnol ein hunain, ac mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y bennod 11. **Llywodraethu**.

Mae’r bennod 12. **Caffael** yn amlinellu ein cynlluniau i gychwyn mynd i'r afael â heriau sylweddol lleihau allyriadau carbon o fewn y gadwyn cyflenwi, sef y nwyddau neu’r gwasanaethau y mae angen i'r cyngor eu prynu i mewn (cwmpas 3).

Yn olaf, mae’r penodau 13. **Defnydd Tir** ac 14. **Bioamrywiaeth** yn amlinellu ein cyfrifoldeb i ddefnyddio ein tir i orau ein gallu er mwyn amsugno carbon allan o’r atmosffer, ac i gynnal byd natur a chynyddu bioamrywiaeth er mwyn creu Gwynedd werdd i'r dyfodol.

## Cyllido

Mae Adran 7. **Y Cynllun Hwn** eisoes wedi esbonio nad oes gennym ar hyn o bryd gyfanswm yr arian y bydd ei angen er mwyn gwireddu'r holl brosiectau yn y cynllun hwn yn llawn. Mae yna rai prosiectau sydd eisoes wedi cychwyn ac felly rydym wedi gallu cyfrifo costau, tra mae yna brosiectau eraill y gallwn eu datblygu'n rhannol, a cheisio am gyllid pellach i'w gwireddu'n llawn. Mae prosiectau eraill sy'n ddibynnol ar barhad cynlluniau grant.

Mae yna hefyd rai prosiectau nad ydym, am wahanol resymau, yn gwybod ar hyn o bryd beth fydd eu cost yn llawn. Bydd angen i ni wneud gwaith pellach, neu gydweithio ag eraill, er mwyn prisio'r prosiectau hynny.

Wedi dweud hynny, nid yw'n sefyllfa gyllido bresennol yn ein rhwystro rhag cychwyn gweithredu'r prosiectau sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun hwn. Mae yna wybodaeth am y cyllidebau tybiedig y bydd eu hangen ym mhenodau 8-14.

## Amserlen

Mae penodau 8-14 yn rhestru'r prosiectau yn byddwn am eu gweithredu ac yn gosod amserlen er mwyn gwneud hynny. Dyma esboniad:

| | | |
|---|---|---|
| Tymor byr | 2026/27 | Blwyddyn 1 |
| Tymor canolig | 2026/27 – 2028/29 | Blwyddyn 1 - 3 |
| Tymor hir | 2026/27 – 2029/30 | Blwyddyn 1 - 4 |

DRAFT

# 8. Adeiladau ac Ynni

Wrth i Gynllun Rheoli Carbon 2 ddod i'w ddiwedd yn 2020 fe benodwyd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) i asesu'r cyfleoedd allweddol i leihau carbon ar draws ystâd y cygnor. Cynhaliwyd adolygiad pen desg o'r arferion rheoli ynni presennol ynghyd â dadansoddiad meintiol o effeithlonrwydd yr adeiladau hynny sy'n eiddo i'r cyngor, a'r potensial pellach i arbed ynni/allyriadau carbon a chost.

Roedd ein allyriadau carbon o'n hadeiladau a PV yn 2019/20 yn 11,549 $tCO_2e$. Bydd y prosiectau canlynol yn cyfrannu at leihau'r ffigwr hwn, ond mae angen buddsoddiad ariannol sylweddol ym mhob maes er mwyn dod a'r ffigwr hwn i lawr i sero a thu hwnt.

### Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

### Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Amcangyfrif Costau £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.1 | Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau | Llunio polisi fydd yn rhoi arweiniad ar gyfer isafswm y safonau technegol ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau newydd neu wrth osod estyniad i adeilad. | Tymor byr, yna parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim effaith uniongyrchol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn prisio gwaith gan ddilyn 'cylch bywyd llawn' (gweler hefyd 7.6) | | | |
| 7.2 | Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE, a lleihau gwastraff ynni drwy ddefnyddio'r system Monitro a Thargedu | Cynllunio a gweithredu rhaglen waith i uwchraddio adeiladau a pharhau i ddefnyddio'r system monitro defnydd ynni – M&T – er mwyn adnabod achosion o wastraff ynni, gan arwain at arbedion ariannol a charbon | Tymor byr, yna parhaus | Arbediad -225,000 | 488 |
| 7.3 | Datgarboneiddio cyflenwad trydan y cyngor | Parhau i dderbyn cyflenwad trydan gan ddarparwr sy'n cynnig ynni wedi ei gynhyrchu drwy brosesau adnewyddadwy | Tymor byr | Cost niwtral | Arbedion carbon ddim yn cael eu cyfri fel rhan o ôl-troed carbon y Cyngor |
| 7.5 | Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o PV i greu ynni adnewyddadwy | Ymestyn ein rhaglen bresennol o osod systemau PV (neu baneli solar) ar ragor o asedau'r cyngor. Byddwn yn llunio achosion busnes fesul ased/adeilad, ond gallent gynnwys swyddfeydd, ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden a meysydd parcio | Tymor canolig | £££ | 7,234 |
| 7.6 | Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel *Passivhaus* wrth addasu un o adeiladau'r Cyngor | Prosiect peilot i addasu un o safleoedd y Cyngor (cartref gofal Plas Ogwen) gan ddefnyddio technegau *Passivhaus,* yna gwerthuso'r canlyniadau yn nhermau lleihau carbon a chostau rhedeg | Tymor byr | £££ | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 7.7 | Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am | Drwy ddarpariaeth 'siop un stop' ar gyfer materion tai ar wefan y cyngor byddwn yn | Tymor byr yna parhaus | £ | Dim effaith uniongyrchol |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref | hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i arbed ynni a chostau drwy ddefnyddio dulliau carbon isel o adeiladu a gwresogi cartrefi er mwyn ceisio osgoi tlodi tanwydd.<br>Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â mudiadau cymunedol sy'n darparu cefnogaeth debyg er mwyn lledaenu'r neges mor eang a phosibl | | | |
| 7.8 | Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl. | Mae llawer iawn o waith eisoes wedi ei gyflawni yn y maes hwn (ee. insiwleiddio, ffenestri triphlyg) ond mae angen parhau â'r gwaith, yn enwedig ar safleoedd ble mae bwriad gosod pympiau gwres | Parhaus | ££ | 4,120 |
| 7.12 | Uwchraddio goleuadau yn ein adeiladau i osodiadau LED | Gwerthuso prosiect peilot i osod goleuadau mewn canolfannau hamdden cyn ymestyn y dechnoleg i weddill ystad y Cyngor | Tymor canolig | ££££ | 254 |
| 7.14 | Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig | Gweithredu yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Diwygiedig a'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy neu garbon isel, cadwraeth dŵr, a gwarchod bioamrywiaeth | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dibynnol ar y ceisiadau a fyddai wedi eu cyflwyno |
| 7.16 | Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl | Gweithredu'r Polisi Ynni a'r Polisi Gwresogi a sicrhau bod 'nwyddau gwyn' a brynir o safon A+++. | Parhaus | ££ | Dibynnol ar faint o offer sy'n cael ei brynu/llogi |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Wrth logi offer trydanol bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i offer sydd yn cael ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio | | | |
| 7.17 | Cefnogi y Cynllun Ynni Ardal Leol er mwyn dadgarboneiddio'r systemau ynni yng Ngwynedd | | Tymor byr | £££££ | Dibynnol ar sawl prosiect fydd yn cael eu gwireddu |
| 7.18 | Adolygu'r potensial ar gyfer defnyddio rhwydweithiau gwres ar draws Gwynedd yn ddibynnol ar astudiaethau dichonoldeb | Mae'r prosiect hwn yn rhan o Gynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd ac yn ddibynnol ar dderbyn cyllid ychwanegol | Tymor hir | £ - £££££ | Dibynnol ar sawl prosiect fydd yn cael eu gwireddu |
| 7.19 | Cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy er budd cymunedau Gwynedd | Mae'r prosiect hwn yn rhan o Gynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd ac yn ddibynnol ar dderbyn cyllid ychwanegol | Tymor hir | £ - £££££ | Dibynnol ar sawl prosiect fydd yn cael eu gwireddu |

DRAFT

# 9. Symud a Thrafnidiaeth

Mae yna botensial mawr i'r cyngor leihau yr allyriadau carbon yr ydym yn ei greu drwy ein fflyd o gerbydau ein hunain, ac rydym wedi comisiynu astudiaethau er mwyn rhoi arweiniad i ni ar ba gerbydau i'w prynu, a hynny mewn byd ble mae technoleg yn newid mor gyflym. Rydym yn bwriadu symud tuag at fod â fflyd o gerbydau ULEV (Ultra-low Emission Vehicle).

Roedd ein allyriadau carbon o'n fflyd (sy'n cynnwys cerbydau casglu gwastraff ac ailgylchu) yn 2019/20 yn 5,145 $tCO_2e$, ac roedd yr allyriadau o deithiau busnes yn 1,944 $tCO_2e$. Mae'r ddau yma o fewn cwmpas mesur 2, ond mae cyfanswm yr allyriadau o deithiau cymudo staff (cwmpas 3) yn 5,623 $tCO_2e$.

Bydd y prosiectau canlynol yn cyfrannu'n helaeth at ostwng yr allyriadau hyn, ac mae nifer ohonynt yn cael eu rhedeg ochr yn ochr â chynlluniau ynni fydd yn cynyddu ein capasiti i gynhyrchu ynni ein hunain (ee. fferm solar) neu'n ddibynnol ar ehangu rhwydweithiau ynni rhanbarthol a chenedlaethol.

### Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

### Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Amcangyfrif Costau £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.1 | Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV | Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Werdd y Fflyd, gan brynu cerbydau newydd pan fydd cyflenwadau ar gael | Tymor byr | £££ | 877 |
| 8.2 | Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor | Parhau'r gyda'r rhaglen bresennol i osod pwyntiau gwefru er mwyn cynnal fflyd werdd y Cyngor<br>Datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd | Tymor byr | £££ | Arbedion i'w cael drwy'r fflyd |
| 8.3 | Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor | Rydym yn ddibynnol ar ddatblygiadau technoleg newydd a'r ddarpariaeth gan gynhyrchwyr cerbydau.<br>Yn y cyfamser byddwn yn treialu cerbydau ysgubo a cherbydau graeanu trwm trydan er mwyn symud oddi wrth ddefnyddio cerbydau tanwydd ffosil. Byddwn hefyd yn cydweithio ag Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n ymchwilio i ddatblygiad hydrogen fel ynni ar gyfer trafnidiaeth | Tymor hir | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.4 | Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd | Byddwn yn gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws Gwynedd at ddefnydd trigolion ac ymwelwyr, yn ddibynnol ar dderbyn cyllid ychwanegol<br>Datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd | Tymor byr | ££ | Dim arbedion uniongyrchol i'r Cyngor oni bai eu bod yn cael eu defnyddio gan gerbydau fflyd |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.5 | Lleihau teithio busnes | Byddwn yn parhau i annog staff ac aelodau etholedig i flaenoriaethu cynnal cyfarfodydd yn rhithiol, ac i leihau i'r isafswm yr achlysuron ble mae angen teithio mewn car.<br><br>Byddwn hefyd yn gweithio tuag at sefyllfa ble bydd teithiau busnes yn cael eu cynnal drwy dduliau teithio llesol neu gan ddefnyddio fflyd cerbydau trydan y Cyngor, yn hytrach na defnydd o gerbydau personol | Tymor hir | Gall fod hyd at -550,000 o arbedion ariannol, ond angen cynnal gwaith pellach | Gall fod hyd at 445, ond angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.6 | Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff | Byddwn yn gweithredu ein Siarter Teithio Llesol.<br><br>Mae'r cyngor wedi creu partneriaeth gyda chwmni Tusker er mwyn cynnig cynllun 'ceir gwyrdd', gyda'r rhan fwyaf o staff y Cyngor yn gymwys i gymryd rhan. Mae'r cynllun yn caniatáu i staff yrru car trydan newydd sbon, gan gynnwys y gost o gynnal a chadw ac yswiriant am hyd at dair blynedd am swm misol sefydlog.<br><br>Byddwn yn hyrwyddo'r opsiwn hwn i ddod yn berchen ar gar trydan, yn enwedig pan fydd pwyntiau gwefru wedi eu lleoli ar stad y cyngor.<br><br>Byddwn hefyd yn annog staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu i gerdded neu feicio i'w lleoliad gwaith ble fo'n bosib | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.7 | Annog teithio llesol a chynaliadwy ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon | Byddwn yn gweithredu ein Siarter Teithio Llesol.<br><br>Mae'r cyngor wedi creu partneriaeth gyda 11 cwmni yng Ngwynedd i gynnig opsiwn i'r rhan fwyaf o staff fedru llogi beic, sy'n cynnwys beic trydan, ar yr amod bod y beic yn cael ei ddefnyddio 50% o'r amser at ddefnydd cymudo i'r gwaith. Byddai'r beic wedyn ar gael at ddefnydd hamdden yn ogystal gan ddod a budd iechyd a lles ychwanegol i'n staff | Parhaus | £ | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.8 | Annog teithio llesol a chynaliadwy ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr | Mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn nifer o lwybrau beicio newydd dros y blynyddoedd diwethaf, a byddwn yn hyrwyddo'r rhwydwaith yma o lwybrau er mwyn annog trigolion i'w defnyddio i feicio neu gerdded i'r gwaith, i siopa, neu i ymarfer corff.<br><br>Byddwn hefyd yn annog ac yn amlygu'r cyfleoedd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio wrth i ni ddatblygu strategaeth twristiaeth gynaliadwy | Parhaus | ££ | Dim arbedion uniongyrchol i'r Cyngor |
| 8.9 | Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr | Cydweithio â Pharc Cenedlaethol Eryri ar gynllun teithio ar gyfer mannau poblogaidd – ee. troed yr Wyddfa, Dyffryn Ogwen – er mwyn lleihau teithiau ceir ac annog defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus | Tymor byr | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Dim arbedion uniongyrchol i'r Cyngor |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.10 | Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu isadeiledd pwyntiau gwefru | Cefnogi a chydweithio gyda mudiadau cymunedol i ddarparu trafnidiaeth gymunedol allyriadau isel<br>Drwy ein cynllun Arloesi Gwynedd Wledig, byddwn yn cydweithio â mudiadau cymunedol unigol neu asiantaethau ambarél er mwyn cefnogi ceisiadau i arbrofi gyda thechnoleg newydd neu ddefnyddio cerbydau carbon isel | Parhaus | £ | Dim arbedion uniongyrchol i'r Cyngor |
| 8.11 | Datblygu ac annog teithio llesol yn nalgylch ysgolion Gwynedd | Datblygu Rhwydwaith Teithio Diogel | Tymor canolig | Ddim yn hysbys eto | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

DRAFT

# 10. Gwastraff

Esboniwyd eisoes ein bod yn cyfrifo allyriadau carbon ein gweithgareddau gan ddilyn penawdau a methodoleg Llywodraeth Cymru. Daw'r ffigwr o 7,331 $tCO_2e$ o allyriadau sy'n deillio o wastraff y cyngor yn 2019/20 o'r ffaith ein bod bryd hynny yn anfon gwastraff i'w dirlenwi. Erbyn 2020/21 does dim o'n gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, gyda'r cyfan yn cael ei anfon i gael ei losgi'n ddiogel, a dyma pam bod allyriadau carbon 'gwastraff' ar gyfer 2020/21 bellach yn sero. Mae'r allyriadau sy'n deillio o wastraff sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu neu ei losgi yn cael eu cyfri o dan y ffigurau allyriadau ar gyfer 'fflyd'.

Byddwn bob tro yn chwilio am gyfleoedd i symud y tu hwnt i'n targed o gyrraedd sero net, ac felly mae'r prosiectau canlynol wedi eu cynllunio er mwyn parhau i gynnal ein targed ac i hyrwyddo egwyddorion yr economi gylchol. Nod hynny yw lleihau gwastraff gymaint ag sy'n bosibl, tra'n hybu gweithgarwch economaidd ac adfywiad cymunedol yr un pryd.

## Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 9.1 | Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu | Mae'r prosiect hwn yn rhan o Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd | Parhaus | Dirwy posib o £200 y tunnell os | Angen cynnal gwaith pellach i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | nad ydym yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Mae hyn gyfwerth â £750,000 yn seiliedig ar dunelli 2022/23. | fesur yr arbedion carbon |
| 9.2 | Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio | Mae'r prosiect hwn yn rhan o Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd | Tymor byr a chanolig | Dirwy posib o £200 y tunnell os nad ydym yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Mae hyn gyfwerth â £750,000 yn seiliedig ar dunelli 2022/23. | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9.3 | Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd | Mae'r prosiect hwn yn rhan o Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd | Tymor byr | Dirwy posib o £200 y tunnell os nad ydym yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Mae hyn gyfwerth â £750,000 yn seiliedig ar dunelli 2022/23. | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 9.4 | Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu | Parhau i gefnogi'r 11 hwb bwyd cymunedol sy'n weithredol eisoes gan ddarparu gwybodaeth a chyngor. | Parhaus | Dirwy posib o £200 y tunnell os nad ydym yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Mae hyn gyfwerth â £750,000 yn seiliedig ar dunelli 2022/23. | Dim effaith uniongyrchol |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9.5 | Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu | Fel rhan o'n cynllun Cymunedau Glân a Thaclus, a'n trefniadau glanhau strydoedd, byddwn yn parhau â'n cynlluniau i osod rhagor o finiau ailgylchu cyhoeddus | Tymor byr | £ | Caiff ei fesur ar ddiwedd y cynllun peilot |
| 9.6 | Lleihau defnydd papur | Mae cytundeb newydd i ddarparu argraffyddion yn ei lle a bydd yn lleihau faint o bapur sy'n cael ei ddefnyddio yn ein swyddfeydd | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 9.7 | Gweithredu Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd | | Parhaus | | |

DRAFT

# 11. Llywodraethu

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r newidiadau y credwn sydd angen eu gwneud er mwyn cynnal gweddill y gwaith sy'n y cynllun hwn. Drwy wneud newidiadau i'n arferion gweithredu mewnol fel cyngor, fe fyddwn yn cynnig yr amgylchiadau gorau i'n aelodau etholedig a'n staff i wneud penderfyniadau a gweithredu er lles ein planed.

Mae llawer o'r gwaith cynllunio y tu cefn i lunio'r cynllun hwn, a'i adolygu i'r dyfodol, yn digwydd mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a chymunedau. Dylid cofio bod hyn yn egwyddor sylfaenol i'r prosiectau sydd wedi eu rhestru isod, ac i'r rhan fwyaf o brosiectau eraill sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun.

### Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

DRAFT

### Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Amcangyfrif Costau £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 10.1 | Aelodau etholedig a staff sydd:<br>• yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd | Mae angen i'r cyngor fod â gweithlu gwybodus am y maes newid hinsawdd ac ecoleg er mwyn gallu cymryd penderfyniadau cyfrifol, ac i wybod sut i leihau allyriadau carbon. | Tymor byr a chanolig | Dim cost ychwanegol – ariannu o gyllidebau hyfforddiant canolog neu | Dim arbedion uniongyrchol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau<br>• yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol | Byddwn yn cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant i aelodau etholedig a staff ar egwyddorion sylfaenol y cynllun hwn, ac yn ymchwilio i'r angen am hyfforddiant neu wybodaeth arbenigol mewn rhai meysydd penodol<br><br>Bydd yr hyfforddiant yn atgyfnerthu'r cymal sydd eisoes yn swydd ddisgrifiadau staff y cyngor i weithredu yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon | | ddarpariaeth drwy Lywodraeth Cymru | |
| 10.2 | Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol | Byddwn yn defnyddio cynllun prentisiaethau a Chynllun Yfory llwyddiannus y cyngor i annog rhagor o brentisiaid a graddedigion newydd i fod yn dilyn gyrfa mewn meysydd megis bioamrywiaeth ac ynni | Parhaus | Dim cost ychwanegol – ariannu o gyllideb y Cynllun Prentisiaethau | Dim arbedion uniongyrchol |
| 10.3 | Adolygu polisïau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad | Gweithredu rhaglen barhaus o adolygu canllawiau polisïau a llunio penderfyniadau, gan roi arweiniad a chyngor ar ba amodau y gellir eu gosod | Tymor byr, yna parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 10.4 | Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i | Cynnal ein 'siop un stop' ar ein gwefan gyda gwybodaeth am holl waith y cyngor yn y maes | Sefydlu - Tymor byr | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion. | hwn, a chysylltiadau i wybodaeth ddefnyddiol yn allanol, ac yn ei ddiweddaru'n barhaus.<br><br>Byddwn yn rhannu gwybodaeth ac arferion da drwy sianelau cyfryngau cymdeithasol y cyngor er mwyn annog trigolion i newid eu harferion | Cynnal - parhaus | | |
| 10.5 | Datblygu Strategaeth Addasu Hinsawdd a Natur | Bydd asesiad risg newid hinsawdd yn cael ei gynnal yn 2026/27 o dan ofal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, ac yn sgil ei gyhoeddi byddwn wedyn yn datblygu Strategaeth Addasu Hinsawdd a Natur Gwynedd yn seiliedig arno | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |

DRAFT



DRAFT

# 12. Caffael

Mae gofynion adrodd data Llywodraeth Cymru yn ein harwain at gasglu data am wariant y cyngor ar adnoddau neu wasanaethau gan gyflenwyr allanol. Mae hyn yn amrywio'n eang iawn o wasanaethau archwilio ariannol neu gostau hysbysebu i brynu nwyddau megis bwydydd neu offer diogelwch personol i ysgolion a chartrefi gofal.

Mae ein allyriadau carbon o dan y pennawd caffael wedyn yn cael eu mesur ar sail cyfanswm y gwariant yn unig, ac nid ar sail unrhyw ymdrechion i leihau costau na allyriadau carbon gennym ni ein hunain neu ein cyflenwyr fel rhan o'r broses o osod contractau.

Roedd ein allyriadau carbon o'n holl weithgarwch caffael gan ddilyn y fethodoleg uchod yn 2019/20 yn 40,639 $tCO_2e$, sy'n dod o dan cwmpas 3.

Mae gan Gyngor Gwynedd Bolisi Caffael Cynaliadwy ers 2011 er mwyn i ni ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y cyngor, er lles y sir. Mae 'lleihau effaith amgylcheddol drwy gwell detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith' yn nod o fewn y polisi.

### Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

Byddwn yn parhau i weithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy, yn ogystal â datblygu'r prosiectau canlynol -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Amcangyfrif Costau £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 11.1 | Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl-troed carbon | Byddwn yn parhau i gydweithio â Busnes Cymru ac eraill er mwyn cyflwyno rhaglen o wybodaeth i gefnogi busnesau. Bydd hyn yn eu helpu i geisio lleihau eu allyriadau carbon heb niweidio eu gallu i gyflwyno ceisiadau am dendrau. | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 11.2 | Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael | Byddwn yn parhau i asesu ein prosesau ein hunain o osod meini prawf i fesur tendrau er mwyn sicrhau ein bod yn mesur effaith amgylcheddol contractau. | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 11.3 | Staff Cyngor Gwynedd i weithredu'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy er mwyn lleihau allyriadau carbon drwy'r gadwyn gyflenwi | Sicrhau bod staff y Cyngor yn derbyn cefnogaeth a hyfforddiant i weithredu'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy newydd | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 11.4 | Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i gymryd camau fydd yn lleihau eu allyriadau neu gynyddu lefelau amsugno carbon | Fel cam dilynol o 11.1, byddwn yn cynnig cymorth ymarferol i leihau allyriadau fydd yn ei dro yn lleihau allyriadau'r Cyngor. Byddai'n rhaid asesu fesul achos unigol os fyddai angen cyfraniad ariannol tuag at y gwaith | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Dim arbedion uniongyrchol |

DRAFT



# 13. Defnydd Tir

Bydd rheolaeth gyfrifol o'r tiroedd sy'n berchen i'r cyngor yn talu ar ei ganfed. Nid yn unig y gall gynnig bywyd i rywogaethau natur gan eu gwarchod neu eu hachub hyd yn oed, ond bydd ein tiroedd hefyd yn beiriant amsugno carbon naturiol effeithiol y dylem wneud y mwyaf ohono.

Mae ein asesiad i fesur capasiti amsugno carbon yr holl diroedd oedd yn eiddo i'r cyngor yn 2020/21 yn dangos y gall amsugno gwerth 5,893 $tCO_2e$. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y mathau canlynol o diroedd –

| | |
|---|---|
| Coedlannau | Gyda chyfuniad o wahanol goed: cynhenid, bytholwyrdd ayb. Bydd rhai yn ddwys o ran nifer y coed, ac eraill wedi eu poblogi â llai o goed. |
| Glaswelltiroedd | Cyfuniad o diroedd sydd â gwair yn tyfu – rhai nad ydynt yn cael eu trin ac eraill yn cael eu torri'n rheolaidd, ee. caeau chwarae, tir ysgol neu gartref gofal, ymylon ffyrdd. |
| Gwlypdiroedd | Tir â mawn ynddo; tir sydd wedi ei orchuddio'n rheolaidd gan ddŵr; llynnoedd ac afonydd. |
| Aneddiadau | Unrhyw diroedd sydd wedi eu datblygu, ond nad ydynt eisoes wedi eu cyfri o dan gategori arall, ee. adeilad. Gallent gynnwys: meysydd chwaraeon amlbwrpas, isadeiledd trafnidiaeth, tir 'llwyd' cyn-ddiwydiannol. |

Rydym yn cydnabod bod yna waith pellach angen ei gyflawni er mwyn mesur yn gyflawn a chywir union gapasiti amsugno carbon ein tiroedd – ee. maint a'r math o goed, cyfansoddiad y pridd ayb. Mae hyn yn broblem gyffredin i nifer fawr o gynghorau a sefydliadau eraill ac felly fe fyddwn yn edrych tuag at gydweithio ag eraill er mwyn llunio rhaglen i gasglu data a rheoli ein tiroedd i'r dyfodol.

## Llifogydd

Un elfen arall o waith trin a gwarchod tiroedd yw'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn lliniaru effaith llifogydd. Mae'r cyngor eisoes yn rhedeg nifer o brosiectau ers blynyddoedd mewn ardaloedd arfordirol, ee. Fairbourne, ac wedi bod yn ymateb i nifer uchel o achosion o lifogydd mewn ardaloedd mewndirol. Newid hinsawdd sydd wrth gwrs yn cyfrannu at y rhan fwyaf o'r cynnydd

hwn mewn achosion o lifogydd ac felly, yn anffodus, mae'n debygol iawn y bydd yr achosion hyn yn parhau i gynyddu.

Rydym wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol eraill er mwyn llunio Strategaeth Llifogydd Lleol. Ei brif nod fydd ceisio rhwystro achosion o lifogydd ac i ymateb yn effeithlon os fydd llifogydd yn digwydd, ond mae ganddo hefyd nod i gyfrannu'n bositif at hyrwyddo bioamrywiaeth a chreu mynediad i drigolion at fannau gwyrdd.

Bydd y gwaith o ymateb i lifogydd yn clymu'n agos gyda'r gwaith o gynnal tiroedd a bioamrywiaeth, gan y gallai newid mewn un gael effaith fawr ar y llall. Er enghraifft, gall cynnal tiroedd corsiog neu blannu coed yn uchel mewn dyffryn leihau'r dŵr fydd yn cyrraedd afonydd ac achosi llifogydd yn is lawr y dyffryn. Mae nifer o'r prosiectau sydd yn y bennod hon, a'r bennod ganlynol ar Fioamrywiaeth, felly yn mynd i gyfrannu at liniaru effaith llifogydd.

## Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.1 | Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd | Cyflymu ein rhaglen i fesur yn gywir y coed sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn casglu data cywir am eu llwyddiant, neu beidio, i amsugno carbon | Tymor byr a chanolig | £ | Mae pob hectar o goedwig yn amsugo 5.4 $tCO_2e$ |



DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.2 | Datblygu Polisi Rheolaeth Tir fydd yn mesur gwerth carbon gwahanol diroedd ac yn gwneud y defnydd gorau ohonynt er mwyn gwarchod eu gwerth carbon | Cyflymu ein rhaglen i fesur yn gywir y tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn casglu data cywir am eu llwyddiant, neu beidio, i amsugno carbon.<br>Bydd y Polisi Rheolaeth Tir yn rhoi golygu bod gwerth carbon tir yn un ffactor i'w ystyried wrth brynu neu werthu | Tymor byr a chanolig | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | 3,612+ |
| 12.3 | Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu | Cydweithio â mudiadau eraill a sefydliadau addysg i sefydlu meithrinfeydd coed | Tymor canolig | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Mae pob hectar o goedwig yn amsugo 5.4 $tCO_2e$ |
| 12.4 | Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Cenedlaethol Cymru | Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar eu cynllun Coedwig Cenedlaethol Cymru er mwyn cynyddu'r nifer o goed fydd yn cael eu plannu | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol | Mae pob hectar o goedwig yn amsugo 5.4 $tCO_2e$ |
| 12.5 | Datblygu a gweithredu Polisi Rheoli Coed (gan gynnwys rheoli Clwy yr Onnen) a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed | Parhau â'n rhaglen i adnabod y clwy mewn coed ac i'w drin.<br>Sicrhau, os oes angen torri neu ddifa coeden, bod coeden arall yn cael ei phlannu yn ei lle, a hynny mewn cydweithrediad â chynlluniau plannu coed eraill y cynllun hwn | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Carbon niwtral |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.6 | Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur | Gwella ein rheolaeth o'r 4 goedlan bresennol, ac unrhyw goedlannau newydd y gall y cyngor eu plannu, er mwyn iddynt fod yn iach a gwydn i'r dyfodol | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Mae pob hectar o goedwig yn amsugno 5.4 $tCO_2e$ |
| 12.7 | Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo | Yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2021 fe fabwysiadodd Cyngor Gwynedd y cynnig canlynol:<br>'Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:<br>• Newid ar fyrder y cymhwyster i dderbyn eu grant Glastir (GWC) fel mai dim ond ffermwyr gweithredol yng Nghymru sy'n gallu gwneud cais.<br>• Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Gwynedd i reoli prosiectau coedwigo.<br>Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn symud i amddiffyn amgylchedd gwledig Cymru, a'i hadnoddau er budd economi Gwyrdd cylchol newydd gan gryfhau diwydiannau, cymunedau a gwasanaethau Cymru.' | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 12.8 | Adnabod gwerth amsugno carbon ein safleoedd tirlenwi | Mae 2 o gyn-safleoedd tirlenwi'r Cyngor, sef Ffridd Rasus a Llwyn Isaf, wedi eu troi'n ddolydd | Tymor canolig | £ | |



DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | blodau a safleoedd natur. Drwy fesur gwerth amsugno carbon y safleoedd byddwn wedyn yn cynllunio i'w datblygu ymhellach neu i werthuso os y gallwn ymestyn y ddarpariaeth i safleoedd eraill | | | |
| 12.9 | Adnabod gwerth amsugno 'carbon glas' ar ein arfordir | Nid yw'r carbon sy'n cael ei amsugno gan blanhigion ar ein arfodir (ee. morwellt) yn cael ei gyfri tuag at lefelau amsugno carbon y Cyngor, er mai'r Cyngor sy'n rheoli'r safleoedd tyfu. Byddwn yn edrych i gydweithio gyda sefydliadau eraill a Llywodraeth Cymru i gynyddu'r carbon sy'n cael ei amsugno ac i fesur hynny | Tymor canolig | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | |
| 12.10 | Gweithredu Strategaeth Llifogydd Cyngor Gwynedd | Gweithredu'r strategaeth yn unol â'n cyfrifoldeb fel awdurdod llifogydd | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | |

Draft

# 14. Bioamrywiaeth

Er mai datgan argyfwng newid hinsawdd a wnaeth Cyngor Gwynedd yn 2019, credwn bellach bod angen rhoi sylw cyfartal i'r argyfwng sy'n wynebu byd natur yn ogystal gan eu bod yn cyd-redeg mor agos at ei gilydd. Mae colli cynefinoedd i fyd natur yn gallu cynyddu'r lefelau o garbon yn yr amgylchedd, ac mae newidiadau i dymheredd a glawogydd yn dylanwadu ar ddosbarthiad cynefinoedd i natur.

Mae'n gwbl amlwg bod canlyniadau cynhesu byd eang yn cael effaith niweidiol ar fyd natur yma yng Nghymru hyd yn oed, a bod angen gweithredu bwriadol os ydym am ddiogelu ein systemau ecolegol brau i'r dyfodol.

Ein nod yw nid yn unig i warchod byd natur a bioamrywiaeth yn y sir rhag effeithiau niweidiol newid hinsawdd ond hefyd i'w gryfhau er mwyn i fyd natur gyfrannu'n gadarnhaol at y frwydr i amsugno carbon, fel yr esboniwyd yn y bennod **13. Defnydd Tir**.

Rydym am fod yn gyngor sy'n 'ecolegol gadarnhaol' nid yn unig yng nghyd-destun newid hinsawdd ond hefyd oherwydd ein bod yn credu bod gan fyd natur werth amhrisiadwy ynddo'i hun. Mae 'cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir' yn un o 7 amcan llesiant y cyngor, ac mae 'pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol' a 'hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor' yn 2 allan o 9 prif neges Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Fis Mehefin 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad Argyfwng Bioamrywiaeth gan nodi: "Mae gwerth cynhenid i fioamrywiaeth ac mae'n cynnig buddion i bobl drwy wasanaethau ecosystemau, megis atal llifogydd a chynhyrchu bwyd. Credir felly bod colledion bioamrywiaeth yn achosi risgiau i ddiogelwch a llesiant pobl".

## Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

DRAFT

## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 13.2 | Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer | Mabwysiadu a gweithredu Cynllun Adfer Natur Gwynedd yn seiliedig ar Gynllun Adfer Natur Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru | Tymor byr | Dim cost ychwanegol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 13.3 | Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod ac adfer cynefinoedd, yn arbennig drwy greu coridorau ar ymylon ffyrdd ac ar safleoedd tirlenwi | Defnyddio'r rhaglen Llefydd Lleol ar Gyfer Natur er mwyn gwneud y gorau o diroedd mewn ysgolion drwy blannu blodau a phlanhigion addas i ddenu peillwyr (pryfed/gwenyn).<br>Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen i gynnal ymylon ffyrdd sirol ac i reoli amlder a lleoliad torri gwair er mwyn cynnal cynefinoedd i fioamrywiaeth, ble mae hynny'n ddiogel i yrwyr a cherddwyr | Tymor canolig | £££ | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 13.4 | Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur | Defnyddio'r rhaglen Llefydd Lleol ar Gyfer Natur er mwyn symbylu prosiectau newydd a pharhau a phrosiectau sydd eisoes ar y gweill – ee. gwaredu rhywogaethau estron yn ardal Ffestiniog; rheoli gwarchodfa natur Lôn Cob Bach, Pwllheli | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol<br>Bydd angen denu cyllid grant i gynnal prosiectau | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 13.5 | Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur | Gwella ein rhaglenni ymgysylltu am faterion ecolegol a'r gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud yn y maes.<br><br>Cydweithio ag ysgolion er mwyn magu diddordeb ymysg disgyblion | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

DRAFFT

# 15. Archif Prosiectau

| Cod gwreiddiol | Nod | Gweithredu | Rheswm dros archifo |
|---|---|---|---|
| | **Adeiladau ac Ynni** | | |
| 7.4 | Cynyddu ein ‘credyd’ carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu | Ymchwilio ymhellach i’r safleoedd posib sydd wedi eu hadnabod er mwyn lleoli ffermydd solar, a llunio cynlluniau busnes ar sail y budd carbon ac ariannol mwyaf effeithlon | Dim cyfleoedd ar hyn o bryd i adeiladu fferm solar fedr fwydo un o safleoedd y cyngor yn uniongyrchol ac felly nid yw’r cynllun yn hyfyw yn ariannol ac ni fyddai’n lleihau allyriadau carbon y cyngor |
| 7.9 | Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon | Byddwn yn ymchwilio i’r dichonolrwydd o osod systemau trydaneiddio – neu pympiau gwres – mewn adeiladau. Gan fod angen buddsoddiad ariannol sylweddol er mwyn eu gosod, mae angen gwaith pellach cyn dewis os y byddant yn cael eu gosod a ble mae’r safleoedd fydd yn elwa fwyaf | Mae prosiectiau 7.9 a 7.10 wedi eu cyfuno gyda phrosiect 7.8 gan eu bod yn rhan o’r un broses |
| 7.10 | Gosod ffaniau awyru EC mewn adeiladau er mwyn lleihau’r ynni sydd ei | Mae ffaniau cymudo electronig yn rhedeg ar gerrynt DC yn hytrach na AC ac yn cael eu rheoli'n ddigidol sy'n golygu gweithrediad mwy effeithlon a thawelach. Byddwn yn ymchwilio i ba asedau y | Mae prosiectiau 7.9 a 7.10 wedi eu cyfuno gyda phrosiect 7.8 gan eu bod yn rhan o’r un broses |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol | byddant yn addas ar eu cyfer ac yn llunio rhaglen waith i'w gosod yn dilyn hynny | |
| 7.11 | Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad | Mae technoleg di-wifr yn caniatáu rheoli rheiddiaduron unigol heb gost drud gwifro. Bydd hyn yn galluogi i ystafelloedd gael eu gwresogi ar wahanol dymheredd a hefyd i ddiffodd y gwres pan fo'r ystafell yn wag.<br>Byddwn yn llunio rhaglen waith, gan flaenoriaethu gosod systemau mewn cartrefi gofal | Mae'r prosiect hwn wedi ei gyfuno gyda phrosiect 7.2 gan fod y system Monitro a Thargedu sy'n weithredol yn barod yn cyflawni'r un pwrpas â thechnoleg di-wifr gwresogi ystafelloedd unigol |
| 7.13 | Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni | Rydym wedi bod yn rhedeg rhaglen o gyfnewid goleuadau o hen lanteri golau SOX i lanteri LED ers 2015/16, gan arwain at bron i haneru allyriadau carbon y goleuadau hyn. Byddwn yn parhau i gwblhau'r rhaglen gyfnewid goleuadau ac hefyd yn ymchwilio i'r angen a'r fantais o bylu goleuadau ac effaith hynny ar fioamrywiaeth.<br>Yn olaf byddwn yn gwerthuso'r prosiect er mwyn dysgu gwersi i'r dyfodol ac i gynllunio rhaglen gynnal | Mae'r prosiect hwn wedi ei gwblhau. Os fydd lampau stryd newydd yn dod i ofal y Cyngor byddant yn cael eu amnewid i LED |
| 7.15 | Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi | Drwy fonitro gweithredu'r polisïau gan ein staff, a monitro'r dechnoleg sy'n rhedeg | Mae'r gwaith hwn yn digwydd fel rhan o brosiectau 7.2, 7.5, 7.6, 7.8, 7.12, felly'n cael ei archifo oherwydd dyblygu |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | systemau, gallwn dargedu er mwyn sicrhau gwelliannau yn effeithiol.<br>Byddwn yn defnyddio Meddalwedd Rheoli Ynni er mwyn monitro ein data trydan, gan wneud gwelliannau yn ôl y gofyn.<br>Byddwn yn cynnig hyfforddiant i staff er mwyn gweithredu'r polisïau hyn | |
| 13.1 | Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol | Adolygu Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd erbyn diwedd 2022 | Mae hyn yn digwydd fel rhan o'r gwaith ar brosiect 13.2 |
| 13.6 | Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur | Cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru, cynghorau tref a chymuned a'r RSPB i gynnal 8 gwarchodfa natur ar draws Gwynedd | Mae hyn yn digwydd fel rhan o'r gwaith ar brosiectau 13.3 a 13.4 |

DRAFT

# 16. Partneriaid

Fel yr ydym wedi nodi sawl gwaith, all Cyngor Gwynedd ar ei ben ei hun ddim cyflawni'r holl waith sydd ei angen er dod yn gyngor sero net. Mae nifer o'r prosiectau y mae sôn amdanynt yn rai y dylid gael eu cynllunio ac/neu eu darparu ar y cyd â sefydliadau eraill. Rydym ni fel Cyngor hefyd yn barod i gyfrannu at ddatblygu syniadau neu weithredu prosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid eraill.

Isod mae yna rhestr isod o bartneriaid y byddwn yn cydweithio â hwy er mwyn gwireddu'r cynllun hwn. Dydi hi ddim yn restr mewn trefn blaenoriaeth, a byddwn yn ychwanegu ati ac yn ei newid yn aml -

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru)
- Cynghorau Tref a Chymuned Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Partneriaeth Natur Gwynedd
- RSPB
- Mudiadau Ynni Cymunedol Gwynedd

DRAFT

# 17. Strategaethau a Pholisïau

Mae yna lawer mwy o wybodaeth am rai o’r camau gweithredu y mae sôn amdanynt yn y cynllun hwn mewn dogfennau eraill sydd eisoes wedi eu cyhoeddi. Yn hytrach nag ail-adrodd yr wybodaeth yn y ddogfen hon gallwch droi at y dogfennau isod i ganfod mwy o wybodaeth (nid ydynt i gyd wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan)

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd

Strategaeth Tai Gwynedd 2019-24

Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 - 2026/27

Cynllun Fflyd Werdd 2023-29

Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (gwefan allanol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (y Cynllun newydd)

Polisi a Chanllaw Caffael Cynaliadwy

Gorchymyn Diogelu Coed

Polisi Ynni

Polisi Gwresogi

Polisi Goleuadau

Strategaeth Asedau Corfforaethol



DRAFT

GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

CYNGOR GWYNEDD

# Canlyniadau Arolwg Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025

## 1. Cyflwyniad

Bydd yr adroddiad yma yn dadansoddi ymatebion i'r arolwg ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025. Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 12 Mehefin ac roedd yn agored tan 31 Gorffennaf. Rhoddwyd yr holiadur ar wefan y Cyngor, gyda chopïau papur ar gael yn llyfrgelloedd y Sir. Cafwyd ei hyrwyddo drwy 'pop up' ar wefan y Cyngor.

## 2. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd 305 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf ohonynt (98.4%, N=300) gan unigolion, 1.3% gan sefydliad (N=4) ac 0.3% gan fusnes (N=1).

### 2.1 Ydych chi wedi darllen y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur neu wedi ymweld â'r wefan?

Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (47.9%, N=146) wedi darllen y Cynllun neu ymweld â'r wefan, tra roedd ychydig dros hanner (52.1%, N=159) ddim wedi darllen y Cynllun na ymweld â'r wefan.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi nodi eu bod wedi darllen y Cynllun neu ymweld â'r wefan ateb y cwestiwn yma:

### 2.2 Ydych chi'n cytuno neu anghytuno gyda'r isod?


Gweler o'r graff isod fod canran uwch o ymatebwyr yn cytuno gyda'r datganiadau:

- Mae'r cynllun yn hawdd i'w ddarllen;
- Mae'r cyngor yn esbonio'n glir pam fod angen cyrraedd sero net;
- Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid allanol; ac
- Mae'r weledigaeth yn ddigon uchelgeisiol.

Mae canran uwch o ymatebwyr yn anghytuno gyda'r datganiadau:

- Mae'r Cyngor yn cefnogi trigolion i fabwysiadu arferion bywyd a gwaith cynaliadwy;

- Mae gweledigaeth glir; ac
- Mae camau ac amserlen glir i gyrraedd y weledigaeth




Gweler ffigyrau manwl yn y tabl isod.

| | **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Dim ateb** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Mae'r cynllun yn hawdd i'w ddarllen | 110 | 75.3 | 36 | 24.7 | 0 | 0.0 |
| Mae'r Cyngor yn esbonio'n glir pam fod angen cyrraedd sero net | 108 | 74.0 | 38 | 26.0 | 0 | 0.0 |
| Mae gweledigaeth glir | 82 | 56.2 | 60 | 41.1 | 4 | 2.7 |
| Mae camau ac amserlen glir i gyrraedd y weledigaeth | 88 | 60.3 | 55 | 37.7 | 3 | 2.1 |
| Mae'r weledigaeth yn ddigon uchelgeisiol | 106 | 72.6 | 39 | 26.7 | 1 | 0.7 |
| Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid allanol | 107 | 73.3 | 37 | 25.3 | 2 | 1.4 |
| Mae'r Cyngor yn cefnogi trigolion i fabwysiadu arferion bywyd a gwaith cynaliadwy | 67 | 45.9 | 76 | 52.1 | 3 | 2.1 |

Gofynnwyd i'r ymatebwyr oedd wedi anghytuno efo unrhyw ddatganiad esbonio pam eu bod wedi anghytuno. Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 85 o'r ymatebwyr. Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion:

- Mae'r cynllun yn rhy amwys ac yn llawn geiriau

- Diffyg targedau mesuradwy a therfynau amser clir
- Cyfathrebu gwael gyda thrigolion
- Cefnogaeth gyfyngedig i drigolion fabwysiadu arferion cynaliadwy
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus ac isadeiledd beicio yn annigonol
- Gormod o ddeunydd pacio a systemau ailgylchu gwael
- Ymdrechion bioamrywiaeth yn rhy ganolog ar blannu coed
- Mae rhai ymatebwyr yn gwrthod cysyniad ar argyfwng hinsawdd
- Mae'r cynllun yn canolbwyntio gormod ar weithrediadau'r cyngor
- Mae'r ymatebwyr eisiau canllawiau cliriach a symlach


**2.3 Mae datblygiadau technoleg a llawer o newid wedi digwydd ers cychwyn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ym Mawrth 2022. Mae rhai prosiectau wedi eu cwblhau, a rhai wedi cael eu haddasu. Mae yna anghenion newydd wedi codi felly mae'r Cyngor yn cynnig ychwanegu'r prosiectau canlynol. Rhowch eich barn.**

Gweler o'r graff isod fod rhan helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynlluniau. Y cynlluniau ble roedd nifer isaf o ymatebwyr yn cytuno â nhw oedd:

- Ymchwilio a mesur gwaith amsugno 'carbon glas' ar ein harfordir (59.6%, N=87 yn cytuno); ac
- Ymchwilio i ddatblygu rhwydweithiau ar draws Gwynedd yn amodol ar gael cyllid ychwanegol (63.7%, N=93 yn cytuno).

Y cynlluniau ble roedd y nifer uchaf o ymatebwyr yn anghytuno â nhw oedd:

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd er mwyn datblygu rhwydwaith gwefru cyhoeddus ac ar gyfer fflyd y Cyngor (21.2%, N=31 yn anghytuno); ac
- Ymchwilio a mesur gwaith amsugno 'carbon glas' ar ein harfordir (20.5%, N=30 yn anghytuno)




Gweler y ffigyrau manwl yn y tabl isod.

| | Anghytuno | | Cytuno | | Dim Barn | | Dim ateb | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Ymchwilio i ddatblygu rhwydweithiau gwres ar draws Gwynedd yn amodol ar gael cyllid ychwanegol | 28 | 19.2 | 93 | 63.7 | 24 | 16.4 | 1 | 0.7 |
| Cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy | 22 | 15.1 | 115 | 78.8 | 8 | 5.5 | 1 | 0.7 |
| Datblygu ac annog teithio llesol yn nalgylch ysgolion Gwynedd | 25 | 17.7 | 105 | 71.9 | 16 | 11.0 | 0 | 0.0 |
| Datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd er mwyn datblygu rhwydwaith gwefru cyhoeddus ac ar gyfer fflyd y Cyngor | 31 | 21.2 | 104 | 71.2 | 10 | 6.8 | 1 | 0.7 |
| Datblygu Strategaeth Addasu Hinsawdd a Natur | 25 | 17.1 | 108 | 74.0 | 11 | 7.5 | 2 | 1.4 |
| Staff Cyngor Gwynedd i weithredu'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy er mwyn lleihau allyriadau carbon drwy'r gadwyn gyflenwi | 23 | 15.8 | 107 | 73.3 | 14 | 9.6 | 2 | 1.4 |
| Darparu cefnogaeth i fusnesau, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i gymryd camau fydd yn lleihau eu hallyriadau neu gynyddu lefelau amsugno carbon | 22 | 15.1 | 114 | 78.1 | 10 | 6.8 | 0 | 0.0 |
| Ymchwilio a mesur gwerth amsugno carbon ein safleoedd tirlenwi | 24 | 16.4 | 101 | 69.2 | 21 | 14.4 | 0 | 0.0 |
| Ymchwilio a mesur gwerth amsugno 'carbon glas' ar ein harfordir | 30 | 20.5 | 87 | 59.6 | 29 | 19.9 | 0 | 0.0 |
| Parhau i weithredu Strategaeth Llifogydd Cyngor Gwynedd | 16 | 11.0 | 116 | 79.5 | 13 | 8.9 | 1 | 0.7 |

Gofynnwyd i'r ymatebwyr oedd wedi anghytuno efo unrhyw un o'r cynlluniau esbonio pam eu bod wedi anghytuno. Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 61 o'r ymatebwyr. Y themâu mwyaf cyffredin yw pryderon cost, amheuaeth am newid hinsawdd, a beirniadaeth o isadeiledd cerbydau trydan. Mae yna lawer o blaid atebion ymarferol, lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus well dros brosiectau ar raddfa fawr.

Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion:

- Amheuaeth ynghylch newid hinsawdd
- Pryderon ynghylch cost / gwerth am arian
- Materion rheoli llifogydd
- Beirniadaeth ynghylch teithio llesol

- Pryderon ynghylch isadeiledd gwefru cerbydau trydan
- Amheuaeth ynghylch y rhwydwaith gwres
- Angen atebion lleol ymarferol
- Gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus
- Ymgynghoriad ar ymgysylltu cymunedol
- Gweithredu / cynllunio


**2.4 Oes prosiect neu dasg arall y dylai'r cyngor ei ychwanegu i'r cynllun?**

Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 77 o'r ymatebwyr. Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion.

- Bioamrywiaeth a chadwraeth natur – galwadau i ddiogelu bywyd gwyllt a phlannu coed
- Isadeiledd a thrafnidiaeth cerbydau trydan – yr angen am wefru cerbydau trydan dibynadwy a gwell trafnidiaeth gyhoeddus
- Gwastraff ac ailgylchu – pryderon ynghylch gwastraff plastig a systemau ailgylchu gwell
- Amheuaeth newid hinsawdd / beirniadaeth polisi – cwestiynau ynghylch polisïau net zero
- Tai a materion cymdeithasol – Datrysiadau tai fforddiadwy a digartrefedd
- Ymgysylltu â'r gymuned – mwy o gyfarfodydd cyhoeddus a chydweithio
- Ynni adnewyddadwy a thechnoleg – awgrymiadau ar gyfer prosiectau solar, gwynt, hydrogen
- Rheoli llifogydd a llygredd – gweithredu ar lygredd afonydd/môr a gwydnwch llifogydd.
- Addysg ac ymwybyddiaeth – addysg amgylcheddol ac ymgysylltu diwylliannol.
- Gweithredu / cynllunio – rhwystredigaeth gydag oedi; dewis gweithredu.

**2.5 Ydi newid hinsawdd yn bwysig i chi?**

Fel y gwelir o'r graff isod, roedd y rhan fwyaf (83.9%, N=256) o'r ymatebwyr yn nodi fod newid hinsawdd yn bwysig iddynt (pwysig iawn ac eithaf pwysig). Roedd 16.1% (N=49) o'r ymatebwyr yn nodi fod newid hinsawdd ddim yn bwysig iddynt (ddim yn bwysig iawn a ddim yn bwysig o gwbl).





Mae'r tabl isod yn manylu ar y canrannau a'r niferoedd.

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Pwysig iawn | 187 | 61.3 |
| Eithaf pwysig | 69 | 22.6 |
| Ddim yn bwysig iawn | 21 | 6.9 |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 28 | 9.2 |
| Dim barn | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

**2.6 A ddylai Cyngor Gwynedd fod yn gweithredu ar newid hinsawdd?**

Fel y gwelir o'r graff isod, roedd y rhan fwyaf (83.3%, N=254) o'r ymatebwyr yn meddwl y dylai Cyngor Gwynedd fod yn gweithredu ar newid hinsawdd, tra bod 13.4% (N=41) o'r ymatebwyr yn meddwl na ddylai fod yn gweithredu ar newid hinsawdd.





Mae'r tabl isod yn manylu ar y canrannau a'r niferoedd.

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Dylai | 254 | 83.3 |
| Na ddylai | 41 | 13.4 |
| Ddim yn gwybod | 7 | 2.3 |
| Dim ateb | 3 | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

**2.7 Rhowch y pynciau newid hinsawdd isod mewn trefn o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig i chi fel unigolyn.**


Roedd 229 o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn mewn ffordd oedd yn cyd-fynd â'r rheolau'r cwestiwn (e.e. dim ond wedi dewis 5 opsiwn ac wedi rhoi sgôr o 1 i 5 iddynt), felly mae'r adran nesaf yn dadansoddi'r atebion yma.

Yn gyntaf, edrychwn ar faint sydd wedi rhoi'r pynciau newid hinsawdd o fewn eu '5 uchaf' o gwbl. Gweler o'r 229 ymatebwyr, roedd 63.3% (N=145) ohonynt wedi rhoi 'Lleihau tlodi tanwydd cartrefi' o fewn eu 5 uchaf, 56.8% (N=130) wedi nodi 'Llygredd', ac 54.1% (N=124) wedi nodi 'Teithio cynaliadwy'.




| Pwnc | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Lleihau tlodi tanwydd cartrefi – e.e. gwell insiwleiddio, systemau gwresogi clyfar, offer clyfar (smart appliances), sicrhau cyflenwad ynni mwyaf fforddiadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni y cartref | 145 | 63.3 |
| Llygredd (aer/plastig/gwastraff/dŵr) | 130 | 56.8 |
| Teithio cynaliadwy - trafnidiaeth gyhoeddus (bws, trên) | 124 | 54.1 |
| Gwastraff – ailgylchu a lleihau gwastraff cyffredinol | 112 | 48.9 |
| Defnydd tir cynaliadwy – cynnal cynefinoedd, gwella bioamrywiaeth, plannu coed | 109 | 47.6 |
| Amaethyddiaeth gynaliadwy (cynhyrchu cnydau ac anifeiliaid drwy ddulliau na fydd yn niweidio'r tir na'r hinsawdd i'r dyfodol | 91 | 39.7 |
| Llwybrau cerdded a beicio | 85 | 37.1 |
| Addasu i'n hinsawdd newidiol e.e. Rheoli llifogydd a thanau gwyllt | 85 | 37.1 |
| Datgarboneiddio adeiladau cyhoeddus - newid ffynhonnell ynni adeiladu o ffynhonnell tanwydd ffosil i ffynhonnell adnewyddadwy e.e. solar, gwynt, hydrobwer, a phympiau gwres | 83 | 36.2 |
| Cyfleoedd economi gylchol - caffis trwsio, ail-ddosbarthu bwyd | 58 | 25.3 |
| Rhwydweithiau gwres lleol ac ynni cymunedol | 54 | 23.6 |
| Pwyntiau gwefru i gerbydau trydan | 38 | 16.6 |
| Swyddi gwyrdd yng Ngwynedd | 28 | 12.2 |
| | | *Enwadur=229* |

Nesaf, awn i edrych ar y drefn roedd yr ymatebwyr yn rhoi'r pynciau o fewn eu 5 uchaf, ble roedd 1 yn golygu pwysicaf a 5 yn golygu lleiaf pwysig. Mae'r graff isod yn dangos fod pob categori yn dilyn y prif duedd, heblaw am 'Gwastraff', lle mae llai o bobl wedi nodi ei fod yn bwysig iddynt o gymharu â'r rhai eraill sydd wedi'u dewis fel un o'r 5 uchaf.




Roedd 76 o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn yma mewn ffordd oedd ddim yn cyd-fynd gyda rheolau'r cwestiwn (e.e. wedi dewis mwy na 5 ateb neu wedi rhoi mwy nag un o'r un sgôr), felly ni ellir eu dadansoddi gyda'r garfan uchod. Roeddem dal eisiau cynnwys eu barn, felly mae'r rhan nesaf yn nodi pa rhai o'r pynciau newid hinsawdd cafwyd eu dewis gan y 76 ymatebwyr, ond ddim yn cymryd i mewn i ystyriaeth eu sgôr.


Gweler fod trefn y pynciau yn dod allan yn eithaf tebyg i'r garfan flaenorol oedd wedi ateb y cwestiwn o fewn y rheolau, gydag eithriad o 'pwyntiau gwefru i gerbydau trydan' a 'swyddi gwyrdd yng Ngwynedd' yn uwch yn y rhestr y tro yma.

| Pwnc | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Lleihau tlodi tanwydd cartrefi - e.e. gwell insiwleiddio, systemau gwresogi clyfar, offer clyfar (smart appliances), sicrhau cyflenwad ynni mwyaf fforddiadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni'r cartref | 53 | 69.7 |
| Llygredd (aer/plastig/gwastraff/dŵr) | 56 | 73.7 |
| Teithio cynaliadwy - trafnidiaeth gyhoeddus (bws, trên) | 56 | 73.7 |
| Gwastraff – ailgylchu a lleihau gwastraff cyffredinol | 41 | 53.9 |
| Defnydd tir cynaliadwy – cynnal cynefinoedd, gwella bioamrywiaeth, plannu coed | 41 | 53.9 |
| Amaethyddiaeth gynaliadwy (cynhyrchu cnydau ac anifeiliaid drwy ddulliau na fydd yn niweidio'r tir na'r hinsawdd i'r dyfodol | 38 | 50.0 |
| Llwybrau cerdded a beicio | 44 | 57.9 |
| Addasu i'n hinsawdd newidiol e.e. Rheoli llifogydd a thanau gwyllt | 44 | 57.9 |
| Datgarboneiddio adeiladau cyhoeddus - newid ffynhonnell ynni adeiladu o ffynhonnell tanwydd ffosil i ffynhonnell adnewyddadwy e.e. solar, gwynt, hydrobwer, a phympiau gwres | 41 | 53.9 |
| Cyfleoedd economi gylchol - caffis trwsio, ail-ddosbarthu bwyd | 20 | 26.3 |
| Rhwydweithiau gwres lleol ac ynni cymunedol | 21 | 27.6 |
| Pwyntiau gwefru i gerbydau trydan | 31 | 40.8 |
| Swyddi gwyrdd yng Ngwynedd | 24 | 31.6 |
| | | *Enwadur=76* |

**2.8 Pa fuddion ychwanegol hoffech chi weld drwy weithredu ar newid hinsawdd? Rhowch y pynciau isod mewn trefn o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig i chi fel unigolyn.**


Roedd 225 o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn mewn ffordd oedd yn cyd-fynd â'r rheolau'r cwestiwn (e.e. dim ond wedi dewis 5 opsiwn ac wedi rhoi sgôr o 1 i 5 iddynt), felly mae'r adran nesaf yn dadansoddi'r atebion yma.

Yn gyntaf, edrychwn ar faint sydd wedi rhoi'r pynciau buddion ychwanegol o fewn eu '5 uchaf' o gwbl. Gweler o'r 225 ymatebwyr, roedd 73.8% (N=166) ohonynt wedi rhoi 'Mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus' o fewn eu 5 uchaf, 66.2% (N=149) wedi nodi 'Lleihau costau byw', ac 65.8% (N=148) wedi nodi 'Cefnogi'r economi leol'.




| Pwnc | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus | 166 | 73.8 |
| Lleihau costau byw | 149 | 66.2 |
| Cefnogi'r economi leol | 148 | 65.8 |
| Cydweithio cymunedol – y gallu i'r gymuned ymateb ac addasu i newid hinsawdd | 127 | 56.4 |
| Lleihau anghydraddoldeb ('Pontioteg'/just transition- fod opsiynau allyriadau isel ar gael i bawb yn gyfartal | 111 | 49.3 |
| Addysg hinsawdd ac ecoleg | 101 | 44.9 |
| Llygredd aer | 99 | 44.0 |
| Gwell mynediad at fyd natur | 94 | 41.8 |
| Gwella iechyd meddwl a lles | 87 | 38.7 |
| | | *Enwadur=225* |

Nesaf, awn i edrych ar y drefn roedd yr ymatebwyr yn rhoi'r pynciau o fewn eu 5 uchaf, ble roedd 1 yn golygu pwysicaf a 5 yn golygu lleiaf pwysig. Mae'r graff isod yn dangos bod y rhan fwyaf o'r categorïau yn dilyn yr un duedd, ond nid 'llygredd aer'. Er bod llai o bobl wedi'i ddewis yn eu 5 uchaf, mae mwy ohonynt wedi'i ddewis yn y categorïau pwysicaf (1 a 2) o gymharu â'r nifer a'i dewiswyd.




Roedd 80 o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn yma mewn ffordd oedd ddim yn cyd-fynd gyda rheolau'r cwestiwn (e.e. wedi dewis mwy na 5 ateb neu wedi rhoi mwy nag un o'r un sgôr), felly ni ellir eu dadansoddi gyda'r garfan uchod.  Roeddem dal eisiau cynnwys eu barn, felly mae'r rhan nesaf yn nodi pa rhai o'r pynciau newid hinsawdd cafwyd eu dewis gan y 80 ymatebwyr, ond ddim yn cymryd i mewn i ystyriaeth eu sgôr.

| **Pwnc** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus | 64 | 80.0 |
| Lleihau costau byw | 68 | 85.0 |
| Cefnogi'r economi leol | 70 | 87.5 |
| Cydweithio cymunedol – y gallu i'r gymuned ymateb ac addasu i newid hinsawdd | 58 | 72.5 |
| Lleihau anghydraddoldeb ('Pontioteg'/just transition- fod opsiynau allyriadau isel ar gael i bawb yn gyfartal | 52 | 65.0 |
| Addysg hinsawdd ac ecoleg | 54 | 67.5 |
| Llygredd aer | 55 | 68.8 |
| Gwell mynediad at fyd natur | 52 | 65.0 |
| Gwella iechyd meddwl a lles | 52 | 65.0 |
| | | *Enwadur=80* |

**2.9 Unrhyw sylwadau pellach**

Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd.  Cafwyd ymateb gan 97 o'r ymatebwyr.  Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion.

- Cefnogaeth gyffredinol / blaenoriaethau lluosog
- Costau byw / pryder am fforddiadwyedd
- Amheuaeth am newid hinsawdd / gwrth net-zero
- Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni
- Teithio gweithredol (active travel) (cerdded / beicio)
- Cadwraeth natur a bioamrywiaeth
- Pryder am gostau

**2.10 Beth ydych chi'n credu bydd effaith y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w ddefnyddio a'i statws o fewn y gymuned?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (55.1%, N=168) yn meddwl y buasai'r Cynllun yn cael effaith niwtral ar y gymuned, gyda 29.2% (N=89) yn meddwl y byddai'n cael effaith gadarnhaol, ac 7.9% (N=24) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol.

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | 49 | 16.1 |
| Ychydig o effaith gadarnhaol | 40 | 13.1 |
| Niwtral | 168 | 55.1 |
| Ychydig o effaith negyddol | 5 | 1.6 |
| Effaith negyddol | 19 | 6.2 |
| Dim ateb | 24 | 7.9 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, oes yna gyfleoedd i addasu'r cynllun er mwyn cael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd ohoni, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol?**

Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd.  Cafwyd ymateb gan 101 o'r ymatebwyr.  Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cwestiynu perthnasedd yr iaith Gymraeg i weithredu ar newid hinsawdd, neu yn amlygu cyfleoedd i gryfhau'r iaith drwy fentrau addysg, cymunedol ac economaidd.  Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion.

- Amherthnasedd y Gymraeg i hinsawdd / natur

- Gwydnwch economaidd a swyddi – cynnal y Gymraeg
- Cyfleoedd i ddysgu / defnyddio'r Gymraeg – e.e. dosbarthiadau am ddim neu gysylltu dysgu'r Gymraeg â phrosiectau hinsawdd
- Pwysau tai a thwristiaeth - pryderon ynghylch ail gartrefi a thwristiaeth sy'n effeithio a chymunedau sy'n siarad Cymraeg
- Polisi addysg – materion ynghylch cau ysgolion, addysg cyfrwng Cymraeg a phynciau STEM
- Darpariaeth ddwyieithog – galwadau am adnoddau yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Mentrau cymunedol
- Gwrthwynebiad i bolisi hinsawdd.

**2.11 Beth ydych chi'n credu bydd effaith y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (39.7%, N=121) yn meddwl byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol, 30.8% (N=94) yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral, ac 21.0% (N=64) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | 53 | 17.4 |
| Ychydig o effaith gadarnhaol | 68 | 22.3 |
| Niwtral | 94 | 30.8 |
| Ychydig o effaith negyddol | 36 | 11.8 |
| Effaith negyddol | 36 | 11.8 |
| Dim ateb | 26 | 8.5 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau am eich dewis uchod?**

Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 85 o'r ymatebwyr. Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion.

- Costau ynni a thlodi tanwydd
- Optimistaidd / manteision
- Cludiant cyhoeddus a theithio llesol
- Amheuaeth / beirniadaeth net zero
- Cydraddoldeb a thegwch
- Natur ac iechyd
- Cartrefi ac inswleiddio

**3.0 Amdanoch chi**

Bydd yr adran yma yn edrych ar ganlyniadau 'Amdanoch chi' yr ymatebwyr, sy'n nodi eu nodweddion cydraddoldeb.

3.1 Rhyw

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dynes / Benyw | 157 | 51.5 |
| Dyn / Gwryw | 103 | 33.8 |
| Dim ateb | 26 | 8.5 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 18 | 5.9 |
| Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol | 1 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.2 Nodwch eich grŵp oedran

Roedd 54.4% (N=166) o'r ymatebwyr yn 55 oed neu drosodd.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 15 oed neu'n iau | 0 | 0.0 |
| 16 – 24 oed | 11 | 3.6 |
| 25 – 34 oed | 17 | 5.6 |
| 35 – 44 oed | 26 | 8.5 |
| 45 – 54 oed | 42 | 13.8 |
| 55 – 64 oed | 70 | 23.0 |
| 65 – 74 oed | 72 | 23.6 |
| 75 – 84 oed | 23 | 7.5 |
| 85+ oed | 1 | 0.3 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 18 | 5.9 |
| Dim ateb | 25 | 8.2 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.3 Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl | 111 | 36.4 |

| | | |
|---|---|---|
| Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu | 45 | 14.8 |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn | 35 | 11.5 |
| Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg | 29 | 9.5 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 27 | 8.9 |
| Dim ateb | 25 | 8.2 |
| Arall | 19 | 6.2 |
| Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu | 14 | 4.6 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.4 Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymreig | 138 | 45.2 |
| Prydeinig | 79 | 25.9 |
| Seisnig | 33 | 10.8 |
| Dim ateb | 25 | 8.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 18 | 5.9 |
| Arall | 9 | 3.0 |
| Albanaidd | 3 | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.5 Beth yw eich hil?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 245 | 80.3 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 28 | 9.2 |
| Dim ateb | 25 | 8.2 |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 5 | 1.6 |
| Arall | 2 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.6 Beth yw eich crefydd?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim crefydd | 128 | 42.0 |
| Cristion | 109 | 35.7 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 31 | 10.2 |
| Dim ateb | 27 | 8.9 |
| Arall | 8 | 2.6 |

| | | |
|---|---|---|
| Bwdhaidd | 1 | 0.3 |
| Iddewig | 1 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.7 Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau? (Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed).

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 210 | 68.9 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 44 | 14.4 |
| Dim ateb | 28 | 9.2 |
| Deurywiol (Bisexual) | 12 | 3.9 |
| Dynes hoyw / lesbiaidd | 5 | 1.6 |
| Arall | 4 | 1.3 |
| Dyn hoyw | 2 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.8 Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni (er enghraifft ydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb). (Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed).

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydi | 237 | 77.7 |
| Dim ateb | 31 | 10.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 30 | 9.8 |
| Ydi | 7 | 2.3 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.9 Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os:

a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a
b. Bod gan y nam effaith sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 48 | 15.7 |
| Nac ydw | 198 | 64.9 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 30 | 9.8 |
| Dim ateb | 29 | 9.5 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

# Canlyniadau Arolwg Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025

Tim Ymchwil
Hydref 2025

GWASANAETHAU CORFFORAETHOL
CYNGOR GWYNEDD

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30: Fersiwn 2 (CAHN) |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithredu ei Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ers Mawrth 2022, ond yn ystod 2025/26 fe adolygwyd y cynllun, gan ymgynghori â'r cyhoedd a staff ac aelodau etholedig y Cyngor a derbyniwyd sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Gwnaed newidiadau i'r cynllun yn dilyn yr ymgyngoriadau hyn, a bydd fersiwn diwygiedig o'r CAHN yn mynd ger bron Cabinet Cyngor Gwynedd ar 7 Gorffennaf 2026.<br>Mae'r CAHN yn esbonio pam bod angen ymateb i effeithiau newid hinsawdd sydd eisoes wedi digwydd yn ogystal â pham bod angen lleihau y cynnydd mewn tymheredd byd eang i'r dyfodol. Gan ddilyn ymlaen o hynny, mae'n egluro pa gamau fydd y cyngor yn eu cymryd er mwyn |

newid ei drefniadau gweithio er mwyn lleihau ei allyriadau carbon ac i gynyddu gallu'r tiroedd y mae'n berchen arnynt i amsugno carbon.
Y newidiadau a wnaed rhwng Fersiwn 1 a Fersiwn 2 o'r CAHN yw:

- Archifo 8 prosiect oherwydd bod angen uno prosiect, neu fod y gwaith wedi dod yn arferiad ac yn waith bob dydd
- Ychwanegu 10 prosiect newydd

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn y drafft o'r CAHN mewn papurau i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar 7 Gorffennaf 2026.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Bethan Richardson – Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd.

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1 – Chwefror 2022.
Fersiwn 2 – Mehefin 2026.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Bydd holl drigolion Gwynedd yn cael eu heffeithio gan gynhesu byd eang, ond mae yna rai effeithiau newid hinsawdd sy'n mynd i gael mwy o effaith ar rai trigolion nag eraill, ee: trigolion sy'n byw mewn ardaloedd sy'n fwy debygol o ddioddef llifogydd neu drigolion sy'n byw mewn tlodi tanwydd.
Mae'r CAHN angen ei weithredu ar y cyd â nifer o sefydliadau eraill a chyda cymunedau ar draws Gwynedd. Mae Fersiwn 2 o'r CAHN yn rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio gyda phartneriaid a chymunedau Gwynedd er mwyn cynllunio a gweithredu prosiectau.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 12 Mehefin a 31 Gorffennaf 2025 i holi barn trigolion, busnesau a chymunedau Gwynedd am:

- A ydi trigolion yn credu bod newid hinsawdd yn bwysig, ac a ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- Gynnwys y Cynllun presennol
- Cynigion ar newidiadau i'r prosiectau presennol ac ychwanegu prosiectau newydd
- Beth all Cyngor Gwynedd ei wneud er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd i leihau allyriadau carbon?

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Mae canlyniad yr ymgynghoriad i'w weld yma ond yn gryno mae'r canlyniadau yn dangos:

- Bod 84% o ymatebwyr yn credu bod newid hinsawdd yn bwysig iddyn nhw
- Bod 83% o ymatebwyr yn credu y dylai Cyngor Gwynedd fod yn gweithredu ar newid hinsawdd
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y Cynllun presennol yn ddealladwy, gyda gweledigaeth ac amserlen glir, a bod y nod yn ddigon uchelgeisiol (rhwng 56-75% yn cytuno gyda'r datganiadau)
- Roedd mwyafrif (52%) yn anghytuno bod y Cyngor yn gwneud digon i gefnogi trigolion i fabwysiadau arferion bywyd a gwaith cynaliadwy
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid ychwanegu 10 prosiect newydd at y Cynllun (cefnogaeth i brosiectau unigol yn amrywio rhwng 59% a 79%)
- Y prosiectau ble roedd y canrannau uchaf yn eu cefnogi oedd 'parhau i weithredu Strategaeth Llifogydd Cyngor Gwynedd' (79.5%), a 'cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy' (78.8%)
- Y prosiectau ble roedd y canrannau uchaf yn anghytuno â nhw oedd 'datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd er mwyn datblygu rhwydwaith gwefru cyhoeddus ac ar gyfer fflyd y Cyngor (21.2% yn anghytuno ond 71.2% yn cytuno) ac 'ymchwilio a mesur gwaith amsugno 'carbon glas' ar ein harfordir (20.5% yn anghytuno ond 59.6% yn cytuno)
- Y pwnc newid hinsawdd oedd uchaf ei flaenoriaeth oedd lleihau tlodi tanwydd cartrefi (63.3%)
- Y budd ychwanegol sy'n dilyn o weithredu ar newid hinsawdd oedd yn sgorio uchaf oedd 'mynediad at drafnidiaeth cyhoeddus'.Mae'r ymgysylltu ar gynlluniau i ymateb i lifogydd wedi arwain at greu cynlluniau i ymateb i ddigwyddiad o lifogydd. Mae'r ymgysylltu ar y cynllun Adfywio Lleol wedi amlygu bod cymunedau yn awyddus i weithredu er mwyn lleihau effaith newid hinsawdd.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

| |
|---|
| Rydym yn casglu data am lefelau allyriadau ac amsugno carbon y Cyngor yn flynyddol, ar gais Llywodraeth Cymru, ac rydym yn derbyn gwybodaeth am gynlluniau i leihau allyriadau carbon sydd yng ngofal partneriaid rhanbarthol a chenedlaethol ac yn eu defnyddio i lunio ein rhaglen waith.<br>Mae gennym ddata am faint o boblogaeth Gwynedd, a beth yw'r is-adeiledd, sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil llifogydd. Rydym yn gwybod bod demograffeg poblogaeth rhai ardaloedd sy'n debygol o ddioddef o lifogydd yn golygu y bydd nifer uchel o bobl hŷn yn cael eu heffeithio. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Mae'r Cyfrifiad yn rhoi data i ni am ddemograffeg cymunedau daearyddol ond ni fydd yn rhoi gwybodaeth lawn i ni am bob un o'r 5 nodwedd gwarchodedig. Byddai angen i ni gadw golwg am wybodaeth bellach am nodweddion megis cyfeiriadaeth rhywiol neu gred/crefydd wrth i ni gynnal ymgynghoriadau gyda chymunedau, a gweithredu ar unrhyw dystiolaeth bod yr rhain ddim yn cael sylw teilwng. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol presenol yn ymwneud â'r nodwedd yma.<br>Os oes angen Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gynlluniau unigol newydd yna bydd angen adnabod os oes materion i'w hystyried, a byddwn yn sicrhau nad yw hil (gan gynnwys cenedligrwydd) person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ymgynghoriad er mwyn i ni gael casglu eu barn.. |
| **Anabledd** | Positif | Er bod canlyniadau newid hinsawdd yn effeithio ar bob person, byddai peidio ymateb i'r canlyniadau yn effeithio ar bobl anabl yn waeth na gweddill y boblogaeth.<br>Mae'r CAHN yn ceisio ymateb i broblemau a achosir gan lifogydd, gan obeithio lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd yn y lle cyntaf, ac yn cynllunio sut i ymateb pan ddaw achosion o lifogydd. Mae'r cynlluniau ymateb hyn yn ystyried yr angen i gynnig cymorth addas neu ychwanegol i bobl anabl. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd y Strategaeth Llifogydd Lleol yn cyfrannu at y CAHN, yn rhoi ystyriaeth i greu mynediad hwylus ar gyfer pobl anabl wrth gynllunio amddiffynfeydd llifogydd.<br>Bydd ein cynlluniau i osod pwyntiau gwefru ceir trydan ar draws y sir yn cynyddu hygyrchedd trigolion sy'n byw mewn cymunedau gwledig at drafnidiaeth garbon isel neu ddi-garbon. Byddant yn gallu defnyddio cerbydau trydan sydd wedi eu haddasu i'w anghenion heb orfod dibynnu ar fodur tanwydd ffosil. Bydd angen bod yn ymwybodol, ar yr un pryd, bod y pwyntiau gwefru yn cael eu gosod mewn mannau sy'n hygyrch ac yn ddiogel i bobl anabl.<br>Mae'r cyngor hefyd yn annog staff ac aelodau etholedig i flaenoriaethu dulliau rhithiol o gynnal cyfarfodydd ac i gyflawni eu gwaith. Gall hynny gynyddu'r cyfleoedd i bobl anabl i gyflawni eu gwaith o gartref, neu o leoliad sy'n gyfleus iddynt, heb orfod teithio i leoliad megis swyddfa. Ar y llaw arall, bydd angen i ni hefyd sicrhau bod gan bobl anabl yr offer addas iddynt fedru cyflawni eu gwaith o gartref yn ddiogel ac effeithlon.<br>Mae ein cynlluniau teithio llesol a phrosiectau bioamrywiaeth yn cyfrannu'n bositif at les a iechyd meddwl trigolion ac ymwelwyr i Wynedd. Mae mynediad at fyd natur a llefydd gwyrdd wedi ei brofi i fod yn ffactor bositif mewn cynnal iechyd meddwl iach. |
| **Rhyw** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol presennol yn ymwneud â'r nodwedd yma.<br>Os oes angen Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol newydd yna bydd angen adnabod os oes materion i'w hystyried, a byddwn yn sicrhau nad yw rhyw person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ymgynghoriad er mwyn i ni gael casglu eu barn. |
| **Oedran** | Positif | Os nag ydym yn ymateb i effeithiau newid hinsawdd ac yn lleihau'r tebygolrwydd o gynhesu byd eang, yna bydd grwpiau oedran ifanc a hŷn yn cael eu heffeithio yn waeth nag eraill. Byddai'r ddau grŵp oedran yma angen cymorth ychwanegol er mwyn diogelu eu hunain – ee. mewn achosion o lifogydd; i ganfod bwyd os oes bygythiad i'n gallu i dyfu cnydau; i deithio os nag oes trafnidiaeth gyhoeddus.<br>Mae ein cynlluniau teithio llesol, ein cynlluniau i dyfu a phlannu coed a chreu cynefinoedd natur yn mynd i fod o gymorth i addysg a lles y ddau grŵp oedran.<br>Os oes angen Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol newydd yna bydd angen adnabod os oes materion i'w hystyried, a byddwn yn sicrhau nad yw oedran person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ymgynghoriad er mwyn i ni gael casglu eu barn. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol presennol yn ymwneud â'r nodwedd yma.<br>Os oes angen Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol newydd yna bydd angen adnabod os oes materion i'w hystyried, a byddwn yn sicrhau nad yw cyfeiriadedd rhywiol person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ymgynghoriad er mwyn i ni gael casglu eu barn. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol presennol yn ymwneud â'r nodwedd yma.<br>Os oes angen Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol newydd yna bydd angen adnabod os oes materion i'w hystyried, a byddwn yn sicrhau nad yw Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred) person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ymgynghoriad er mwyn i ni gael casglu eu barn. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol presennol yn ymwneud â'r nodwedd yma.<br>Os oes angen Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol newydd yna bydd angen adnabod os oes materion i'w hystyried, a byddwn yn sicrhau nad yw ailbennu rhywedd person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ymgynghoriad er mwyn i ni gael casglu eu barn. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol presennol yn ymwneud â'r nodwedd yma.<br>Os oes angen Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol newydd yna bydd angen adnabod os oes materion i'w hystyried, a byddwn yn sicrhau nad yw beichiogrwydd merch yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ymgynghoriad er mwyn i ni gael casglu eu barn. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol presennol yn ymwneud â'r nodwedd yma.<br>Os oes angen Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol newydd yna bydd angen adnabod os oes materion i'w hystyried, a byddwn yn sicrhau nad yw statws priodas a phartneriaeth sifil person yn rwystr iddynt gael mynediad agored at unrhyw ymgynghoriad er mwyn i ni gael casglu eu barn. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Bydd yr holl gynlluniau a enwir yn y CAHN yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn unol â pholisi iaith y Cyngor.<br>Mae'r CAHN am gyfrannu at gynlluniau rhanbarthol i wella isadeiledd ynni a thrafnidiaeth 'gwyrdd' ac felly fe ddylai pob cymuned – gwledig a threfol – elwa'n gyfartal. Bydd ein cynlluniau i osod pwyntiau gwefru ceir trydan ar draws y sir yn cynyddu hygyrchedd trigolion sy'n byw mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymunedau gwledig at drafnidiaeth garbon isel neu ddi-garbon. Bydd hyn oll yn golygu y gall trigolion sy'n siarad Cymraeg barhau i fyw yn eu cymunedau lleol. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru yn Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25) ni ddylai ein dulliau i leihau allyriadau carbon gael fwy o effaith ar rai carfanau o gymdeithas nag eraill – hy. dylem 'sicrhau na chaiff unrhyw un ei adael ar ôl'.<br>Mae'r CAHN yn annog y defnydd o geir preifat trydan, ond hefyd yn cydnabod, ar hyn o bryd beth bynnag, bod eu cost y tu hwnt i gyrraedd nifer fawr o bobl. Byddwn felly hefyd yn cydweithio ag eraill i ddatblygu rhwydwaith o drafnidiaeth gyhoeddus garbon isel.<br>Mae nifer o'r cynlluniau unigol, yn ogystal cheisio lleihau gwastraff, hefyd yn ceisio lleihau tlodi ariannol. Bydd ein cefnogaeth i bartneriaid sy'n cynorthwyo trigolion gyda thlodi tanwydd oll yn helpu trigolion sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Dylai'r cynllun yn ei gyfanrwydd a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru yn Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25) dylem 'sicrhau na chaiff unrhyw un ei adael ar ôl'. Wrth ymgysylltu ar y CAHN a thrwy ei weithredu byddwn yn sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at wybodaeth am effeithiau newid hinsawdd ac yn gallu cyfrannu at y drafodaeth yn y maes. |

| | | |
|---|---|---|
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Wrth ymgysylltu ar y CAHN a thrwy ei weithredu byddwn yn sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at wybodaeth am effeithiau newid hinsawdd ac yn gallu cyfrannu at y drafodaeth yn y maes. Drwy gyd-drafod datrysiadau i broblemau newid hinsawdd gallwn ddod â chymunedau yn nes at ei gilydd. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Yn ychwanegol at yr wybodaeth o dan benawdau 'yr iaith Gymraeg' yn 3.1, bydd y CAHN yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy'r gweithredoedd canlynol –
Bydd pob arwydd a deunyddiau gwybodaeth a hysbysebu yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf, yn unol â pholisi iaith y Cyngor.
Bydd prosiectau yn y maes 'defnydd tir' ac 'ecoleg' sydd wedi eu targedu at blant a phobl ifanc yn cynyddu eu gwybodaeth a hyder yn y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
Byddwn yn cydweithio gyda sefydliadau cymunedol i gynnal gweithgareddau fydd yn addysgu am newid hinsawdd ac ar brosiectau ymarferol i ymateb i effeithiau newid hinsawdd – oll drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r Gymraeg yn cael y flaenoriaeth.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Wrth fonitro'r cynllun byddwn yn chwilio am unrhyw broblemau allasai awgrymu nad yw polisi iaith y cyngor yn cael ei ddilyn, a chywiro hynny.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru yn [Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25)] ni ddylai ein dulliau i leihau allyriadau carbon gael fwy o effaith ar rai carfanau o gymdeithas nag eraill – hy. dylem 'sicrhau na chaiff unrhyw un ei adael ar ôl'.
Mae'r CAHN yn annog y defnydd o geir preifat trydan, ond hefyd yn cydnabod, ar hyn o bryd beth bynnag, bod eu cost y tu hwnt i gyrraedd nifer fawr o bobl. Byddwn felly hefyd yn cydweithio ag eraill i ddatblygu rhwydwaith o drafnidiaeth gyhoeddus garbon isel.

| |
|---|
| Mae nifer o'r cynlluniau unigol, yn ogystal cheisio lleihau gwastraff, hefyd yn ceisio lleihau tlodi ariannol. Mae nifer o'r cynlluniau unigol, yn ogystal cheisio lleihau gwastraff, hefyd yn ceisio lleihau tlodi ariannol. Bydd ein cefnogaeth i bartneriaid sy'n cynorthwyo trigolion gyda thlodi tanwydd oll yn helpu trigolion sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Rydym yn mesur cynnydd ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn flynyddol, gan wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'n rhaglenni gwaith. Mae hyn yn ychwanegol i'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn 3.2 a 3.5.<br>Os oes angen Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol newydd yna bydd angen adnabod os oes materion i'w hystyried. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Mae'r CAHN yn cael effaith bositif, neu does dim effaith wedi ei adnabod, ar yr holl nodweddion cydraddoldeb. Bydd asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael ei cwblhau ar gyfer prosiectau unigol.<br>Mae effaith newid hinsawdd yn taro pob aelod o gymdeithas, ac felly wrth i ni gynllunio ein ymateb i'r effeithiau hynny rydym yn darparu ar sail gwahanol anghenion – ee. amddiffynfeydd a chynlluniau ymateb i lifogydd. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nid oes effeithiau negyddol sylweddol wedi eu hadnabod ar gyfer y CAHN yn ei gyfanrwydd, ond bydd asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael ei cwblhau ar gyfer prosiectau unigol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | **X** |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |

| | |
|---|---|
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Nid yw'n berthnasol i'r cynllun yn ei gyfanrwydd. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Nid yw'n berthnasol i'r cynllun yn ei gyfanrwydd. |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy drefniadau monitro perfformiad mewnol y Cyngor, a bydd gwybodaeth am ddatblygiad y cynllun yn cael ei rannu'n gyhoeddus drwy Adroddiadau Perfformiad Aelodau Cabinet i gyfarfodydd y Cabinet; drwy adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau; a thrwy Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd. Mae gennym Fwrdd Hinsawdd a Natur sy'n rhoi arweiniad strategol i'r gwaith.<br>Un elfen o'r monitro rheolaidd yw casglu data ar lefelau allyriadau ac amsugno carbon, a byddwn yn gwneud hynny drwy ddilyn methodoleg Llywodraeth Cymru (Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-net) gan addasu ein methodoleg yn ogystal os daw arweiniad i wneud hynny. Bydd canlyniadau data blynyddol yn rhan o Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd, ac yn dilyn eu cyhoeddi byddwn hefyd yn adolygu'r cynllun hwn er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd cywir er mwyn gwireddu ein uchelgais erbyn 2030. |

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu a defnydd o arian EPR** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng. Craig ab Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Dafydd Williams, Pennaeth Adran**<br>**Roland Thomas, Pennaeth Adran Cynorthwyol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Gorffennaf 2026** |

**1. PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Gofynnir i'r Cabinet:

1.2 **Fabwysiadu Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd 2025–2030** fel y ddogfen strategol sy'n gosod cyfeiriad, gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ym maes gwastraff ac ailgylchu dros y pum mlynedd nesaf.

1.3 **Cymeradwyo'r egwyddor o ddefnyddio Cyllid Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd (EPR)** fel y prif ffynhonnell ariannu i gefnogi a galluogi gweithredu blaenoriaethau'r Strategaeth, gan gynnwys cynlluniau i gynyddu ailgylchu, gwella gwasanaethau, cynnal seilwaith presennol a buddsoddi mewn isadeiledd y dyfodol.

1.4 **Cymeradwyo'r cyfeiriad strategol ar gyfer defnyddio cyllid EPR** i:

- reoli risgiau ariannol uniongyrchol y gwasanaeth drwy greu darpariaeth ariannol "rhag ofn", megis delio gyda gorwariant ar ddarparu gwasanaethau lle nad oes dull amgen o'i gyfarch, lleihau'r risg o ddirwyon am fethu â chyrraedd targedau ailgylchu a pharatoi ar gyfer costau'r Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS).
- darparu sail ariannol gadarn ar gyfer gweithredu'r cynlluniau a nodir yn y Strategaeth, gan gynnwys y camau i gyrraedd y targed ailgylchu o 70% a'r buddsoddiadau tymor byr sydd eu hangen ar gyfer uwchraddio.
- sefydlu Cronfa Cydariannu i gefnogi datblygu sylweddol yn safleoedd y dyfodol yng Nghaernarfon a Harlech.

1.5 **Nodi y bydd penderfyniadau pellach yn ofynnol** ar rai elfennau gweithredol unigol o'r Strategaeth a'r defnydd o'r cyllid EPR , ond bod mabwysiadu'r Strategaeth a chymeradwyo cyfeiriad defnydd EPR yn darparu'r fframwaith polisi a'r sail ariannol i symud ymlaen gyda'r rhaglen waith.

1.6 Nodi y bydd angen i'r Cyngor ystyried pob ffynhonnell ariannol posib wrth fynd ati i osod cyllideb refeniw 2027/28 a'r blynyddoedd dilynol ac na ellir diystyru y posibilrwydd o orfod ail ymweld â'r penderfyniadau uchod pe byddai angen dargyfeirio elfen o'r cyllid EPR ar gyfer gallu gosod cyllideb hafal.

## 2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD

**Pam mae angen y Strategaeth hon?**

2.1 Mae'r Strategaeth yn gosod gweledigaeth y Cyngor i symud tuag at economi gylchol, parhau i wella yn y maes ailgylchu a gwastraff gan ymateb uniongyrchol i gyfuniad o ofynion statudol, risgiau ariannol sylweddol, pwysau gweithredol cynyddol, a'r ymrwymiad corfforaethol i leihau allyriadau carbon. Yn benodol:

- **Gofynion statudol:** targed ailgylchu o 70%, rheoliadau ailgylchu yn y gweithle.
- **Risgiau ariannol:** dirwyon posibl o hyd at £600k y flwyddyn am fethu â chyrraedd y targed, a chostau'r Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) hyd at £1.5m.
- **Pwysau gweithredol:** cynnydd mewn twristiaeth, newid ymddygiad defnyddwyr, seilwaith nad yw'n addas ar gyfer gofynion newydd, a chymhlethdod cynyddol wrth gasglu deunyddiau newydd.
- **Ymrwymiad corfforaethol:** cyfrannu'n sylweddol at nod y Cyngor o leihau allyriadau carbon.

2.2 Er bod perfformiad ailgylchu Gwynedd wedi gwella'n sylweddol dros y degawd diwethaf (i 65.3%), mae'r bwlch i'r targed statudol yn parhau i greu risg ariannol ac i enw da'r Cyngor. Mae'r ddogfen hon felly'n cynnig nid yn unig mabwysiadu Strategaeth, ond hefyd y dull ariannu a fydd yn galluogi'r Cyngor i wireddu'r newid sydd ei angen i gau'r bwlch hwnnw.

2.3 Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi'r weledigaeth ehangach o fewn Cynllun y Cyngor dan 'Gwynedd Werdd', gan sicrhau bod gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn cyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor o safbwynt carbon, cynaliadwyedd a darparu gwasanaethau effeithiol i drigolion.

2.4 Mae'r Strategaeth wedi'i pharatoi gan roi ystyriaeth i ffactorau lleol a chenedlaethol perthnasol. Yn lleol, mae'n adlewyrchu Cynllun Lleol Natur a Hinsawdd, Cynllun y Cyngor 2023–28, sefyllfa ariannol y Cyngor, cyflwr ac addasrwydd isadeiledd presennol y gwasanaeth ynghyd a mewnbwn trigolion a phartneriaid allweddol lleol fel rhan o arolwg holi barn. Yn genedlaethol, mae'n ystyried strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru, 'Tu Hwnt i Ailgylchu', y Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd (EPR), y Cynllun Dychwelyd Ernes, a dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.5 Mae'r Strategaeth hon yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer trawsnewid gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yng Ngwynedd, ond mae ei llwyddiant yn dibynnu ar allu'r Cyngor i fuddsoddi mewn newid.

2.6 Trwy alinio'r Strategaeth gyda defnydd strategol o gyllid EPR, bydd y Cyngor mewn sefyllfa i symud o ddull ymatebol i ddull rhagweithiol - gan fuddsoddi mewn atal gwastraff, cynyddu ailgylchu, a datblygu seilwaith cynaliadwy a fydd yn darparu gwerth hirdymor i Gwynedd.

2.7 Mae copi o'r Strategaeth yn **Atodiad 1.**

**Cyllid Cyfrifoldeb Estynedig (EPR)**

2.8 Mae Cyllid Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd (EPR) yn ffrwd ariannu newydd sylweddol sy'n dod gan gynhyrchwyr pecynnu, nid grant Llywodraeth Cymru. Ei ddiben yw talu costau gwirioneddol rheoli gwastraff pecynnu o gartrefi. Er nad yw'r arian yn *ring-fenced*, mae disgwyliad clir y bydd awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i wella

gwasanaethau, cyrraedd targedau ailgylchu, a sicrhau gwerth hirdymor am arian. Egwyddor sylfaenol yr EPR yw mai'r "llygrwr sy'n talu" cost rheoli'r gwastraff pecynnu maent yn ei greu.

2.9 Derbyniodd Cyngor Gwynedd £3.7m ym mlwyddyn gyntaf y cynllun yn 2025/26, ac mae'n debygol y bydd yn derbyn £4.8m ar gyfer 2026/27. Mae'r cynnydd rhwng y ddwy flwyddyn yn adlewyrchu'r symudiad o fodel meincnodi cenedlaethol i fodel sy'n seiliedig ar gostau gwirioneddol y Cyngor. Clustnodwyd £2m o gyllid EPR 2025/26 eisoes tuag at wariant cyfalaf yng nghanolfannau trin gwastraff ac ailgylchu y Cyngor yng Nghaernarfon a Harlech, ac mae defnydd pellach o'r cyllid wedi'i ystyried i ddelio ag unrhyw ddiffyg yng nghyllideb y gwasanaeth.

2.10 Ystyrir felly fod EPR yn gyfle strategol unigryw i alluogi gweithredu'r Strategaeth: nid fel ateb tymor byr yn unig i or-bwysau ariannol, ond fel ffynhonnell ariannu a all gefnogi newid gwasanaeth, buddsoddi mewn seilwaith, lleihau costau a risgiau yn y dyfodol, a chynnig gwerth hirdymor i'r Cyngor a thrigolion Gwynedd.

2.11 Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu bydd y Cyngor bellach â chyfle real i ariannu'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i gyrraedd targedau statudol a lleihau risgiau ariannol, a hynny heb roi pwysau ar y cyllidebau a chronfeydd presennol.

**Gweledigaeth y Strategaeth**

2.12 Gweledigaeth y Strategaeth yw creu Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu cynaliadwy, cylchol a charbon isel sy'n lleihau gwastraff gweddilliol i'r lleiafswm, yn cwrdd â thargedau statudol, ac yn darparu budd economaidd a chymdeithasol i Wynedd.

2.13 Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod yn glir fod llwyddiant tymor hir y gwasanaeth yn dibynnu ar ansawdd y gwasanaeth, addasrwydd y seilwaith, a gallu'r Cyngor i ddatgarboneiddio'r system dros amser. O ganlyniad, mae'r egwyddor o ddefnyddio cyllid EPR i gefnogi'r camau hyn yn allweddol i wireddu'r newid sydd ei angen.

2.14 Nid yw'r Strategaeth yn ymwneud yn unig â newid ymddygiad a chodi perfformiad ailgylchu; mae hefyd yn cydnabod yn glir fod cyflwr a chyfyngiadau seilwaith presennol y gwasanaeth yn rhwystr i newid pellach. Mae safleoedd y gwasanaeth wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd trwy gyfres o addasiadau graddol, ac mae angen buddsoddi yn y safleoedd presennol er mwyn caniatáu iddynt weithredu mor effeithiol â phosibl a bodloni gofynion gweithredol newydd.

2.15 Mae'r Strategaeth yn symud yn fwriadol:

- oddi wrth waredu,
- tuag at atal, ailddefnyddio, ailgylchu a thrwsio,
- ac at economi gylchol leol sy'n creu gwerth o wastraff fel adnodd.

**Blaenoriaethau Strategol Allweddol**

2.16 Mae'r Strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch **chwe amcan allweddol**:

**Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

- Newid ymddygiad drwy ddarparu cyfathrebu clir, perthnasol ac hygyrch i drigolion, busnesau a chymunedau.

- Byddai cyllid EPR yn galluogi'r Cyngor i ymestyn ei gyrhaeddiad a chryfhau effaith ei negeseuon drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu mwy eang a strategol, gan

gynnwys ymgysylltu uniongyrchol ag ysgolion, cryfhau presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, a darparu gwybodaeth a hyrwyddo wedi'i dargedu i gefnogi newidiadau gwasanaeth, megis cyflwyno casgliadau deunyddiau newydd.

- Er mwyn ategu'r gwaith codi ymwybyddiaeth hwn, gellir defnyddio cyllid EPR i gryfhau capasiti'r gwasanaeth drwy gyflogi swyddogion gorfodaeth, gan sicrhau bod negeseuon yn cael eu hatgyfnerthu'n gyson a bod ymddygiadau yn cael eu mabwysiadu'n fwy eang.

**Lleihau, Ailddefnyddio a Thrwsio**

- Lleihau gwastraff yn y ffynhonnell, gyda ffocws penodol ar wastraff bwyd a datblygu mentrau ailddefnyddio lleol, gan symud yn raddol i fyny'r hierarchaeth gwastraff tuag at atal, ailddefnyddio a thrwsio.

- Byddai cyllid EPR yn galluogi'r Cyngor i gefnogi'r newid hwn drwy ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy, gwella darpariaeth a chyfleusterau mewn canolfannau ailgylchu, a chryfhau gweithgareddau sy'n hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio o fewn cymunedau.

- Yn ogystal, gellir defnyddio cyllid EPR i gefnogi mesurau sy'n annog newid ymddygiad yn uniongyrchol, gan gynnwys defnyddio ysgogiadau megis ymchwilio i opsiynau i welliannau casgliadau o'r cartref er mwyn lleihau gwastraff gweddilliol.

- Yn ehangach, mae'r dull hwn yn galluogi'r Cyngor i leihau'r cyfanswm gwastraff a gynhyrchir yn y lle cyntaf, gan ategu gwaith addysg ac ymgysylltu, ac yn cyfrannu at leihau costau hirdymor. Yn benodol, mae'r potensial i ddefnyddio cyllid EPR i liniaru y Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS), ac yn cynnig cyfle i osgoi rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau craidd y Cyngor.

**Cynyddu Ailgylchu**

- Ailgyfeirio deunyddiau ailgylchadwy allan o'r bin gweddilliol, gan dargedu'r 57% sy'n parhau i gael eu gwaredu'n anghywir.

- Er bod cynyddu'r gyfradd ailgylchu yn amcan amlwg, mae cyflawni'r newid hwn yn dibynnu ar gyfuniad o newid ymddygiad a darparu gwasanaethau sy'n galluogi trigolion i ailgylchu'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan drigolion y cyfle i ailgylchu ystod ehangach o ddeunyddiau, megis plastigion meddal, a chryfhau dealltwriaeth o effaith gadarnhaol ailgylchu ar yr amgylchedd a chostau'r Cyngor.

- Yn y cyd-destun hwn, bydd cyllid EPR yn galluogi'r Cyngor i ymestyn ac addasu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ailgylchu mor gynhwysfawr ac effeithiol â phosibl, gan leihau'r gyfran o ddeunyddiau ailgylchadwy sy'n cael eu gwaredu'n anghywir.

- Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn cydnabod y gall fod angen darparu elfen o warchodaeth ariannol yn y tymor byr. Os na fydd y Cyngor yn cyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70%, gellir defnyddio cyllid EPR fel darpariaeth ariannol o fewn y cyfrifon i ymdrin ag unrhyw ddirwyon posibl, gan osgoi rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau craidd y Cyngor.

**Darparu Gwasanaeth o Ansawdd Uchel**

- Gwasanaeth dibynadwy, effeithlon ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd fel sail i berfformiad ailgylchu uchel.

- Byddai cyllid EPR yn galluogi'r Cyngor i barhau i fuddsoddi mewn systemau a thechnoleg sy'n gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar y buddion a welwyd yn sgil cyflwyno systemau megis Bartec, drwy fonitro perfformiad a sicrhau gwell gwasanaeth i drigolion.

- Drwy gyfuno gwelliannau gweithredol â buddsoddiad parhaus mewn systemau, bydd modd sicrhau gwasanaeth mwy cyson, ymatebol ac effeithlon, sy'n cefnogi cynnydd mewn ailgylchu ac yn cryfhau hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth.

**Cyflawni Sero Net**

- Datgarboneiddio'r fflyd casglu, gwneud y gorau o lwybrau casglu, a buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy fel rhan o drawsnewid y gwasanaeth tuag at system carbon isel.

- Byddai cyllid EPR yn galluogi'r Cyngor i gefnogi'r newid hwn drwy fuddsoddi mewn atebion ynni adnewyddadwy, megis gosod paneli solar ar seilwaith newydd, yn ogystal â sefydlu cronfa i ddechrau'r broses o ddatgarboneiddio'r fflyd casglu gwastraff dros amser. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â chydweithio parhaus gyda Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod ein dull yn cyd-fynd â chyfeiriad cenedlaethol ac yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd ariannu neu arweiniad pellach.

**Isadeiledd sy'n Addas i'r Dyfodol**

- Buddsoddi mewn gorsafoedd trosglwyddo, canolfannau ailgylchu a chyfleusterau prosesu i ateb gofynion cynyddol a sicrhau bod isadeiledd y gwasanaeth yn addas ar gyfer y dyfodol.

- Yn y tymor byr, mae angen buddsoddi i wella effeithlonrwydd ac addasrwydd safleoedd presennol. Mae hyn yn cynnwys uwchraddio peiriannau prosesu, cynyddu lefelau cynnal a chadw ar safleoedd trosglwyddo a thrin gwastraff, a darparu arian cyfatebol i gynlluniau grant ar ganolfannau ailgylchu allweddol.

- Fodd bynnag, mae'r Strategaeth yn cydnabod yn glir mai'r prif flaenoriaeth tymor canolig a hirdymor yw ail-ddatblygu safleoedd strategol, yn enwedig yng Nghaernarfon a Harlech. Mae gwaith ar y gweill gyda WRAP Cymru i ddatblygu opsiynau, gyda'r asesiadau cychwynnol yn nodi bod hyn yn golygu buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Yn y cyd-destun hwn, argymhellir defnyddio cyllid EPR yn strategol i sefydlu Cronfa Cydariannu, a fydd yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gryfach i ddenu cyllid cyfatebol i wireddu hyn. Bydd hyn yn allweddol i sicrhau bod modd symud y tu hwnt i welliannau graddol i wireddu trawsnewidiad mwy sylfaenol o'r seilwaith.

**Risgiau a Chyfleoedd Allweddol**

2.17 Os na weithredir y Strategaeth, mae'r Cyngor yn wynebu nifer o risgiau amlwg: parhad y risg o ddirwyon statudol am fethu â chyrraedd y targed ailgylchu o 70%; pwysau cost sylweddol yn sgil y Cynllun Masnachu Allyriadau yn y dyfodol; erydiad hyder y cyhoedd a risg i enw da'r Cyngor; a methiant i gyfrannu'n ddigonol at ymrwymiadau'r Cyngor o safbwynt lleihau allyriadau carbon.

2.18 Yn ychwanegol at y risgiau hyn, mae ansicrwydd ynghylch EPR ei hun y mae angen ei reoli'n ofalus. Mae'n gynllun newydd, nid grant gan Lywodraeth Cymru, ac nid oes sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch ei barhad tymor hir na'r modd y gall Llywodraeth Cymru ymateb i effaith yr incwm ychwanegol hwn ar gyllid awdurdodau lleol yn ehangach.

2.19 Ar y llaw arall, mae'r cyfleoedd os gweithredir y Strategaeth ac os defnyddir EPR yn strategol yn sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys osgoi dirwyon a lleihau costau gwaredu, cynyddu incwm drwy EPR a marchnadoedd ailgylchu, cefnogi economi gylchol leol a swyddi gwyrdd, a chryfhau gwytnwch ariannol a gweithredol y gwasanaeth. Yn gryno, mae'r Cyngor mewn sefyllfa i ddefnyddio'r gyfundrefn EPR i bontio o fodel dan bwysau i fodel mwy cynaliadwy a rhagweithiol.

**Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur?**

2.20 Mae'r Strategaeth yn cynnwys fframwaith mesuryddion perfformiad cadarn a fydd yn monitro perfformiad statudol, gan gynnwys cyrraedd neu ragori ar 70% ailgylchu, lleihau gwastraff gweddilliol, lleihau allyriadau carbon, cynaliadwyedd ariannol, a pherfformiad gwasanaeth a boddhad cwsmer. Mae'r dull hwn yn bwysig i sicrhau bod y Strategaeth yn fesuradwy, yn atebol, ac yn parhau'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ymarferol.

2.21 Bydd defnyddio cyllid EPR yn strategol hefyd yn gofyn am lywodraethu clir a pharhaus. Yn y gwaith sydd wedi'i ddatblygu ar gyfeiriad y gronfa EPR, cynigir trefniadau dirprwyo penodol a'r egwyddor o adrodd i'r Cabinet neu'r Tîm Arweinyddiaeth ar gyfnodau penodol i wirio cyfeiriad y gronfa a chadarnhau'r ymrwymiadau. Mae hyn yn sicrhau na chaiff y cyllid ei ddefnyddio'n ad-hoc, ond ei fod yn cyd-fynd yn glir â chyfeiriad y Strategaeth.

2.22 O ran yr EPR bydd angen dosrannu y cyllid i 3 categori yn unol a'r hyn a nodi ym mharagraff 1.3.

- **Categori 1: Materion sydd angen gwneud darpariaeth ar eu cyfer "rhag ofn"**
- **Categori 2: Cyflawni Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu 2025-2030**
- **Categori 3: Sefydlu Cronfa Cydariannu i Ddatblygu Safleoedd y Dyfodol yng Nghaernarfon a Harlech**

2.23 Dangosir manylion y cyllid yn **Atodiad 2.** Nodir mai amcangyfrifon yw'r rhain ar hyn o bryd, a bydd angen gwaith pellach i'w mireinio a chytuno ar y costau a'r darpariaethau terfynol.

## 3. YMGYNGHORIAD CYNGOR GWYNEDD AR STRATEGAETH WASTRAFF NEWYDD

3.1 Cafwyd caniatâd gan y Cabinet i fynd allan i ymgynghori yn gyhoeddus ar y Strategaeth ar 10/06/2025. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng Hydref a Tachwedd 2025 gyda 1,266 o ymatebion.

3.2 Roedd modd llenwi'r arolwg ar bapur neu ar-lein, gyda fersiynau hawdd eu darllen hefyd wedi eu darparu. Fe hyrwyddwyd yr arolwg trwy ddatganiadau i'r wasg, negeseuon amlwg ar wefan y Cyngor ar dudalennau perthnasol a chyfres o negeseuon ar gyfrifon cymdeithasol corfforaethol. Fe gyhoeddwyd cardiau i'w rhannu gyda

defnyddwyr y canolfannau ailgylchu yn hyrwyddo’r arolwg, rhaeadrwyd gwybodaeth i rhanddeiliaid allweddol a chynhaliwyd nifer o sesiynau galw-heibio mewn canolfannau (llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden) i annog cyfranogiad.

3.3 Dadansoddwyd yr ymatebion gan CRS/WRAP gan ddefnyddio dull systematig er mwyn nodi themâu allweddol, lefelau cefnogaeth, a meysydd pryder neu welliant. Roedd y sampl yn cynrychioli'r boblogaeth yn dda o ran lleoliad a demograffeg, er bod rhai gwahaniaethau oedran a rhywedd.

**Canfyddiadau Cyffredinol**

3.4 Mae’r ymgynghoriad yn dangos **cefnogaeth gyffredinol gadarn** i amcanion strategol Cyngor Gwynedd yn y maes gwastraff ac ailgylchu. Roedd y mwyafrif yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu gwasanaeth casglu o ansawdd uchel, lleihau gwastraff, a chyrraedd targed ailgylchu o 70%, gyda chreu gwasanaeth carbon niwtral yn cael sgôr is, ond eto’n gadarnhaol.

**Themâu Allweddol o’r Ymatebion**

Daeth nifer o themâu cyson i’r amlwg drwy’r ymgynghoriad:

- **Atal gwastraff ac ailddefnyddio**: Roedd cefnogaeth gref i roi mwy o bwyslais ar atal gwastraff, trwsio ac ailddefnyddio cyn ailgylchu, gyda galwadau i’r Cyngor gefnogi mentrau lleol megis caffis trwsio a chynlluniau ailddefnyddio.
- **Gwella ailgylchu a dealltwriaeth y cyhoedd**: Nododd ymatebwyr yr angen am well cyfathrebu, addysg a chysondeb er mwyn helpu preswylwyr i ddeall beth sy’n gallu cael ei ailgylchu a sut i ddefnyddio’r gwasanaethau’n gywir.
- **Gwasanaethau gwastraff gweddilliol**: Mynegwyd pryderon ynghylch lefelau gwastraff gweddilliol, gyda chefnogaeth i gamau a fyddai’n annog mwy o ailgylchu a llai o ddibyniaeth ar waredu.
- **Hygyrchedd a thegwch**: Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i sicrhau bod newidiadau i wasanaethau’n deg ac yn hygyrch i bob cartref, gan gynnwys grwpiau bregus a chymunedau gwledig.

**Materion a Phryderon a Godwyd**

Er bod cefnogaeth eang, tynnwyd sylw at nifer o faterion y mae angen i’r Strategaeth eu hystyried ymhellach, gan gynnwys:

- **Yr angen am eglurder** ynghylch unrhyw newidiadau i amlder casglu neu drefniadau gwasanaeth, a **pryderon ynghylch ymarferoldeb** rhai camau arfaethedig a’r effaith bosibl ar rai aelwydydd.
- **Yr angen i sicrhau bod targedau ailgylchu uchelgeisiol** yn cael eu cefnogi gan adnoddau, seilwaith a chynlluniau gweithredu realistig.

**Dadansoddiad o’r Ymatebion – Blas o’r Sylwadau.**

Mae’r ymatebion meintiol ac ansoddol yn amlygu nifer o dueddiadau:

- **Ansawdd y Gwasanaeth:** Mae 78% yn fodlon neu'n fodlon iawn ar wasanaethau casglu ailgylchu a gwastraff gweddilliol, ond mae boddhad yn is ar gyfer gwasanaethau casglu clinigol a gwasanaethau danfon biniau.
- **Lleihau gwastraff gweddilliol:** Mae gan 83.6% o ymatebwyr ddigon o gapasiti ar gyfer gwastraff gweddilliol. Nododd, 63% o drigolion eu bod efo lle yn eu biniau ar y diwrnod casglu, gan awgrymu bod angen gwella defnydd o wasanaethau ailgylchu a gwastraff bwyd. Mae 98% yn cytuno bod lleihau gwastraff yn bwysig, ond mae 69% yn dweud nad ydynt yn gwybod sut i wneud mwy neu angen mwy o wybodaeth i allu gwneud hynny.

- **Ymagweddau at newidiadau casglu:** Mae gwrthwynebiad cryf i ddefnyddio bagiau du (yn hytrach na bin olwyn presennol) ar gyfer gwastraff gweddilliol a chasgliadau llai aml, ond mae agweddau cymysg tuag at newid maint y bin.
- **Cynyddu Ailgylchu:** Mae 84% yn cytuno bod angen i'r Cyngor annog pobl i gyrraedd y targed ailgylchu o 70% er mwyn osgoi dirwy ariannol. Mae bron i 90% yn credu eu bod yn ailgylchu popeth y gallant, ond mae dadansoddiadau o wastraff yn dangos bod llawer o ddeunyddiau ailgylchadwy'n cael eu gwaredu'n anghywir. Mae 70% o'r rhai sy'n ailgylchu bwyd yn credu nad oes modd ailgylchu mwy, er bod data'n awgrymu fod llawer o wastraff bwyd yn y biniau gweddilliol.
- **Ailgylchu a deunyddiau ychwanegol:** Mae dymuniad clir i ehangu'r deunyddiau a gasglwyd yn wythnosol, gan gynnwys plastigion meddal.
- **Pwerau Gorfodaeth:** Mae cefnogaeth gryf i ddefnyddio pwerau gorfodi ar gyfer taflu sbwriel a gadael biniau allan ar y stryd.
- **Safbwyntiau ar ganolfannau ailgylchu:** Mae barn gadarnhaol am y canolfannau, gyda 83% yn gallu ailgylchu popeth a gynlluniwyd, ond mae rhai yn wynebu rhwystrau mynediad megis pellter neu diffyg cludiant.
- **Cadw'r budd yn lleol a safonau trin gwastraff:** Mae 76% yn credu bod trin a phrosesu gwastraff o fewn y sir yn bwysig, gyda chefnogaeth i annibyniaeth leol a manteision economaidd lleol. Mae pryderon ynghylch costau a thryloywder o be sy'n digwydd i'r ailgylchu hefyd wedi'u mynegi.
- **Cyfathrebu a chasglu adborth:** Mae 80% wedi defnyddio gwefan neu ap Cyngor Gwynedd ar gyfer gwybodaeth am wastraff, gyda barn gymysg ar effeithiolrwydd cyfryngau cyfathrebu gwahanol. Mae galw am gyfathrebu amlwg, cliriach, a dulliau amrywiol gan gynnwys deunyddiau print a digidol i gyrraedd pawb

**Goblygiadau i'r Strategaeth Derfynol**

3.5 Mae'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth eang i gyfeiriad strategol y Cyngor, ond hefyd yn tanlinellu'r angen am weithredu gofalus, cyfathrebu cryf a monitro parhaus. Mae'r adroddiad dadansoddi yn tynnu sylw at feysydd lle mae cefnogaeth glir gan y cyhoedd, yn ogystal â meysydd lle mae angen eglurder pellach, camau lliniaru neu gyfathrebu cryfach er mwyn sicrhau gweithredu llwyddiannus. Mae'r adborth hwn wedi'i ymgorffori yn y naratif strategol ac wedi llywio'r gwaith o fireinio'r amcanion, y mesurau llwyddiant a'r deilliannau gweithredol.

## 4. YSTYRIED EFFAITH

4.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly ymgymryd ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig). Ar hyn o bryd nid yw'r asesiad yn amlygu unrhyw ardrawiadau penodol. Fodd bynnag fel rhan o'r broses ymgynghori byddwn yn diweddaru ac ail gloriannu yr asesiad. Mae copi o'r asesiad effaith i'w weld yn **Atodiad 3.**

4.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ystyried effaith unrhyw newid mewn polisi neu weithdrefn ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae copi o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

4.3 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ystyriaeth allweddol, gan ei bod yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gyfrwng y 7 nod

llesiant a'r 5 ffordd o weithio. Mae manylion pellach am oblygiadau'r ddeddf o fewn y Strategaeth ei hun.

## 5. CRYNODEB

5.1 Mae Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu Gwynedd 2025–2030 yn ymateb realistig ond uchelgeisiol i'r heriau statudol, ariannol ac amgylcheddol sy'n wynebu'r Cyngor. Mae'n gosod llwybr clir i gyrraedd a chynnal cyfradd ailgylchu o dros 70%, i leihau gwastraff gweddilliol, i ddatgarboneiddio'r gwasanaeth, ac i fuddsoddi mewn isadeiledd sy'n fwy cynaliadwy ac addas i'r dyfodol.

5.2 Fodd bynnag, nid yw mabwysiadu Strategaeth ar ei phen ei hun yn ddigon. Bydd gwireddu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau ynddi yn gofyn am ffynhonnell ariannu glir a strategol. Mae cyllid EPR yn darparu'r cyfle hwnnw, er y byddwn yn parhau yn ddibynnol ar gymorth gan Llywodraeth Cymru i wireddu y prosiectau mawr. Drwy ddefnyddio'r cyllid yn fwriadol i reoli risgiau, buddsoddi mewn newid gwasanaeth a seilwaith, a chefnogi'r cynlluniau sydd eu hangen i wella perfformiad ailgylchu, gall y Cyngor symud o gynllunio strategol i gyflawni ymarferol.

5.3 Felly, mae mabwysiadu'r Strategaeth hon a chymeradwyo'r defnydd strategol o gyllid EPR gyda'i gilydd yn darparu'r **fframwaith polisi a'r modd ariannol** i wireddu gwasanaeth gwastraff modern, cynaliadwy a gwydn i Wynedd dros y blynyddoedd nesaf. Mae cefnogaeth y Cabinet yn allweddol i sicrhau arweinyddiaeth glir, blaenoriaethu priodol, a chyflawni llwyddiannus.

**Barn y swyddogion statudol**

**Prif Swyddog Cyllid:**
Rwyf yn croesawu datblygiad strategaeth ar gyfer gwneud y defnydd gorau bosib o'r Cyllid Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd (EPR) ac mae'r adroddiad yn rhoi ffocws ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i drigolion Gwynedd, tra'n gwella perfformiad ailgylchu. Mae'r defnydd a gynigir o EPR yn bwyllog, gan geisio gydbwyso buddsoddiadau mewn gwelliannau i wasanaethau a rheoli risgiau ariannol yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd y Cabinet yn ymwybodol ein bod wedi gorfod gwneud defnydd o gyfran o'r arian EPR yn y llynedd i ymdopi â phwysau ariannol yn y maes gwastraff a nid oes sicrwydd na fydd yr angen yma yn parhau felly bydd y defnydd o'r arian yn aros dan adolygiad barhaus. Dylid nodi hefyd mai un o agweddau'r EPR yw nad yw lefelau'r cyllido wedi ei warantu wrth symud ymlaen felly bydd rhaid adolygu'r strategaeth pan fyddwn yn derbyn gwybodaeth pellach o un flwyddyn i'r llall.

**Swyddog Monitro:**
Mae'r pwysigrwydd y Strategaeth Wastraff yn amlygu ei hyn yn yr adroddiad a'r atodiadau. Boed hynny o safbwynt dyletswyddau statudol y Cyngor, cyflawni datblygiad cynaliadwy yn unol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyrraedd targedau ar gyfer ailgylchu. Mae'r adroddiad yn adrodd ar ganlyniadau y broses ymgynghori. Mae'n bwysig, wrth gloriannu yr holl ystyriaethau sydd yn ynghlwm a mabwysiadu y Strategaeth fod y Cabinet yn dal sylw at ganlyniadau yr ymgynghoriad wrth ddod i farn. Rwy'n fodlon fod yr adroddiad yn darparu sail priodol ar gyfer mabwysiadu y Strategaeth

**Atodiadau**
Atodiad 1: Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu 2025-2030.
Atodiad 2: Tabl yn dangos ymrwymiadau EPR fesul blwyddyn.
Atodiad 3: Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Cyngor Gwynedd

# Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu

2025 - 2030

Amgylchedd

# Cynnwys


1. Rhagair 3
2. Gweledigaeth ac amcan strategol 4
   Perfformiad cyfredol 6
3. Y cyd-destun a gyrwyr newid 7
4. Amcan allweddol 1 17
5. Amcan allweddol 2 20
6. Amcan allweddol 3 22
7. Amcan allweddol 4 25
8. Amcan allweddol 5 27
9. Amcan allweddol 6 30
10. Monitro a gwerthuso 32

# 1. Rhagair

Fel sir, rydym wedi gweld lleihad yn y gwastraff rydym yn ei gynhyrchu, ac ar yr un pryd cynnydd yn y ganran a ailgylchwn. Dros y degawd diwethaf, mae'r gyfran o'n gwastraff sy'n cael ei ailgylchu wedi codi o 55% i 65%, ac mae hynny'n bennaf diolch i ymdrechion ein trigolion, busnesau a'n cymunedau ehangach.

Fodd bynnag, rydym bellach wedi cyrraedd pwynt lle bydd yn rhaid i ni i gyd fynd gam ymhellach i reoli ein gwastraff yn fwy cyfrifol. Rydym yn gwybod bod dros hanner cynnwys ein biniau gwyrdd eisoes yn gallu cael eu hailgylchu drwy wasanaethau sydd ar gael gan Gyngor Gwynedd.

Ar yr un pryd, rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd fyd-eang. Fe wnaeth y Cyngor gydnabod hyn ym mis Mawrth 2019 drwy ddatgan argyfwng hinsawdd, ac ers hynny rydym wedi bod yn gweithio i alinio ein holl wasanaethau - gan gynnwys gwastraff - â'n cyfrifoldebau amgylcheddol ehangach.

Mae'r heriau o'n blaenau yn sylweddol, a bydd eu hateb yn gofyn am arloesedd, uchelgais ac agwedd agored at newid. Mae hynny'n golygu, nid yn unig parhau i leihau ac ailgylchu gwastraff, ond ailfeddwl yn llwyr sut rydym yn ei ystyried – fel adnodd gwerthfawr yn hytrach nag fel problem i'w waredu. Rhaid i atgyweirio, ailddefnyddio ac addasu ddod yn norm cyn ystyried ailgylchu neu daflu. Rydym eisoes wedi dangos bod modd gwneud hyn yn lleol, drwy droi gwastraff bwyd yn drydan yma yng Ngwynedd. Ar hyn o bryd, mae 47% o'n deunyddiau ailgylchu yn mynd dros y ffin i Loegr, 1% i wledydd eraill yn Ewrop, ac mae 52% yn aros yng Nghymru. Fodd bynnag, ac eithrio gwastraff bwyd a gardd, dim ond cyfran fach iawn o'r deunyddiau ailgylchu sy'n cael eu prosesu yma yng Ngwynedd. Os ydym o ddifrif am greu economi gylchol leol, mae'n rhaid i hyn newid.

Byddai economi gylchol wirioneddol, nid yn unig yn lleihau ein heffaith amgylcheddol, ond hefyd yn dod â manteision uniongyrchol economaidd a chymdeithasol i'n cymunedau. Mae cyfiawnder amgylcheddol yn mynd law yn llaw â chyfiawnder cymdeithasol ac economaidd – ni ellir cael un heb y lleill. Trwy gadw mwy o'n gwastraff yn lleol a'i drin fel adnodd, gallwn gefnogi swyddi, cryfhau gwytnwch ac adeiladu lles cymunedol. Fel y maent wedi bod yn ei ddweud yn Lloegr ers tro byd: "where there's muck, there's brass". Bydd hyn yn gofyn am feddwl tymor hir a newid diwylliannol, ond mae'n hanfodol os ydym o ddifrif ynghylch dyfodol ein cymunedau.

Dim ond dechrau'r daith yw'r Strategaeth hon. Drwy gydweithio – fel trigolion, cymunedau a sefydliadau – gallwn symud tuag at Wynedd sy'n wyrddach, yn decach ac yn wirioneddol gylchol.



Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Amgylchedd

Tud. 126

# 2. Gweledigaeth ac amcanion strategol

Ein gweledigaeth yw creu amgylchedd lle mae arferion cylchol yn gyffredin, ble lleiheir gwastraff gweddilliol (na ellir ei ailgylchu) i'r lleiafswm, a ble mae Gwynedd yn chwarae rhan sylweddol mewn Cymru wyrddach. Wrth i ni edrych i'r dyfodol, rydym yn cydnabod amrywiol faterion a heriau penodol y mae'n rhaid i ni, fel cyngor, fynd i'r afael â nhw. Ein nod yw i Wynedd ddod yn gyngor gweledigaethol wrth atal gwastraff, gwneud y mwyaf o adnoddau a rheoli ein gwasanaeth gwastraff yn effeithlon. Wrth gydweithio gyda'n trigolion, busnesau a phartneriaid, rydym am weld ein Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu yn galluogi economi leol wyrdd a chynaliadwy, gan leihau effeithiau newid hinsawdd, ac amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae perfformiad ailgylchu presennol Gwynedd yn sefyll ar 65.3%, sy'n creu risg ariannol sylweddol o tua £600,000 os na chyflawnir y targed statudol o 70%. Er mwyn cau'r bwlch hwn a chryfhau gwydnwch y gwasanaeth yn y tymor hir, mae chwech blaenoriaeth strategol wedi'u nodi i yrru gwelliant ar draws y gwasanaeth.

**Blaenoriaethau Strategol**

1. Lleihau gwastraff cyffredinol.
2. Cynyddu ailddefnyddio a thrwsio.
3. Cwrdd â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio 70% o'n gwastraff erbyn 2025 a thu hwnt.
4. Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel ble mae iechyd, diogelwch, lles a gwerthoedd ein staff, ynghyd â gofal a boddhad cwsmer, yn ganolog i'n hegwyddorion craidd.
5. Dod yn wasanaeth Carbon isel.
6. Buddsoddi yn ein hisadeiledd gwastraff er mwyn ymdopi gydag anghenion a datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol.

**Risgiau a cyfleoedd ariannol**

- Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS): Gallai hyn greu pwysau cost ychwanegol oherwydd prisio carbon ar waredu gwastraff.
- Atebolrwydd Estynedig Cynhyrchwyr (EPR): Cyfle i sicrhau incwm sylweddol i wrthbwyso costau casglu, yn amodol ar fanylion terfynol y cynllun.
- Osgoi dirwyon: Bydd cyflawni'r targed o 70% yn osgoi dirwyon ariannol sylweddol ac yn diogelu cyllideb y Cyngor.

**Effaith ar Drigolion a Busnesau**

- Canllawiau cliriach a gwasanaethau mwy cyson ar draws y sir.
- Mwy o bwyslais ar wahanu deunyddiau'n gywir.
- Newidiadau posibl i amlder casgliadau neu fathau o gynwysyddion.

- Gorfodaeth gryfach lle mae methiant parhaus i gydymffurfio.
- Gall busnesau wynebu gofynion newydd o dan reoliadau ailgylchu cenedlaethol.

**Sut olwg fydd ar lwyddiant erbyn 2030**

- Ailgylchu'n gyson dros 70%, gyda gwelliant blynyddol.
- Gostyngiad mesuradwy yn y gwastraff gweddilliol fesul cartref.
- Gwasanaeth casglu modern ac effeithlon, wedi'i gefnogi gan systemau digidol a fflyd carbon isel.
- Lefelau uchel o gyfranogiad a hyder ymhlith y cyhoedd.
- Gwynedd yn cael ei chydnabod fel arweinydd ym maes rheoli gwastraff cynaliadwy yng Nghymru.

Mae'r Strategaeth Wastraff hon wedi'i llywio gan ymgynghoriad cyhoeddus a dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion. Cadarnhaodd yr adborth gefnogaeth i'r cyfeiriad strategol cyffredinol, yn enwedig y ffocws ar atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu gwell. Tynnodd yr ymgynghoriad sylw hefyd at bwysigrwydd cyfathrebu clir, gweithredu gofalus ac ymgysylltu parhaus â thrigolion a busnesau. Mae'r mewnwelediadau hyn wedi siapio datblygiad y Strategaeth hon ac yn parhau i lywio ei gweithredu.

## Perfformiad cyfredol

Cyfanswm cyfaint o wastraff ac ailgylchu y gasglwyd y flwyddyn

**67,000 o dunelli**

Cyfradd ailgylchu 2024/25 **65.3%**

Targed ailgylchu 2024/25 **70%**

**49,200**
O aelwydydd yn derbyn casgliadau ailgylchu a bwyd rheolaidd yn wythnosol

Mae cost net ein gwasanaeth yn un o'r uchaf yng Nghymru, gan gostio
**£25**
Ar gyfartaledd fesul cartref

**300Kg**
o wastraff gweddilliol wedi'i gasglu ymhob cartref bob blwyddyn

Mae **2** hen safle tirlenwi wedi'u trawsnewid yn hafanau ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth

Tanysgrifiad tymhorol o wasanaeth gwastraff gardd i

**17,000 o drigolion**

**8**
o ganolfannau ailgylchu

**AM DDIM**
Gwasanaeth casglu clinigol / clytiau

**2,000**
Cwsmeriaid gwastraff masnachol

# 3. Cyd-destun a gyrwyr newid

Yng Ngwynedd, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i leihau faint o wastraff yr ydym yn ei gynhyrchu, tra'n cynyddu faint yr ydym yn ei ailgylchu. Rhwng 2014/15 a 2024/25, mae ein cyfradd ailgylchu wedi cynyddu o 55% i 65% tra bod ein gwastraff 'bagiau du' wedi gostwng 10.9%.

Hoffem ddiolch i drigolion, busnesau a'r gymuned am eu cefnogaeth a'u cyfraniad at y llwyddiant hyd yma. Fel Cyngor, nid ydym bellach yn anfon ein gwastraff na ellir ei ailgylchu i safleoedd tirlenwi.

Mae gennym uchelgais i adeiladu ar y llwyddiant hwn, nid yn unig i gynyddu cyfradd ailgylchu Gwynedd, ond hefyd i reoli ein gwastraff yn fwy cynaliadwy. Ein nod yw gwella ailddefnyddio ac atgyweirio, gan symud at economi gylchol. Yn y system hon, mae deunyddiau yn cael eu gwerthfawrogi fel adnoddau, eu cadw mewn cylchrediad cyn hired â phosibl, ac mae gwaredu yn cael ei leihau. Mae hyn yn cefnogi ein hymdrechion i amddiffyn a gwarchod y byd naturiol ac adnoddau cyfyngedig. Dangoswyd bod gan yr economi gylchol fanteision sylweddol trwy arbed arian a chreu swyddi newydd ym meysydd ailddefnyddio, ail-weithgynhyrchu ac arloesi deunyddiau. Mae'n gyfle i leihau allyriadau, felly diogelu iechyd pobl a chynyddu bioamrywiaeth. Mae economi gylchol a lleihau gwastraff hefyd yn gyfle i'r Cyngor reoli'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn fwy economaidd, yn enwedig mewn hinsawdd lle mae pob cyngor yn wynebu rhagolygon ariannol ansicr gyda galw cynyddol am wasanaethau craidd.

Rydym am sicrhau bod y blociau adeiladu yn eu lle i alluogi newid. Rydym eisiau gyrru mwy o weithgarwch cylchol a helpu trigolion a busnesau i gynhyrchu llai o wastraff. Bydd hyn hefyd yn lleihau ein hallyriadau carbon ac yn gwella dangosyddion amgylcheddol eraill.

Yn bennaf oll, rydym eisiau i bobl a busnesau Gwynedd ymfalchïo yn eu gwasanaethau gwastraff a chymryd rhan weithredol wrth gyflawni ein amcanion. Isod ceir crynodeb o'r cyd-destun a'r gyrwyr newid a fydd yn siapio cyfeiriad y strategaeth hon a'r camau y mae angen i ni eu cymryd i'w lliniaru.


## Yr Hierarchaeth wastraff

Mae'r hierarchaeth wastraff yn egwyddor a gydnabyddir yn fyd-eang, ac wedi'i diffinio'n gyfreithiol yng Nghyfarwyddeb Fframwaith yr UE (2008) sy'n sail i ddeddfwriaeth ar gyfer rheoli gwastraff. Mae'n sefydlu trefn ffafriaeth ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff, blaenoriaethu camau sy'n atal cynhyrchu gwastraff a lleihau'r effaith amgylcheddol, a symud i lawr i waredu fel y dewis olaf. Ar hyn o bryd, mae ein gwasanaeth yn rheoli gwastraff trwy ailgylchu, adfer a gwaredu. Mae angen i ni symud i ffwrdd o waredu a thuag at ailddefnyddio, gan anelu at atal a lleihau. Mae ein strategaeth yn amlinellu sut rydym yn bwriadu gwneud hyn.

- Atal - mae atal gwastraff yn canolbwyntio ar leihau'r swm o wastraff yr ydym yn ei gynhyrchu fel cymdeithas, gan

brynu llai a defnyddio llai o ddeunyddiau yn ystod prosesau dylunio a gweithgynhyrchu.

- Ailddefnyddio - mae ailddefnyddio deunyddiau a chynhyrchion yn cynyddu eu cylch bywyd ac yn eu hatal rhag cael eu gwaredu yn ddiangen, neu o bosib gael eu dadgylchu yn gynnyrch llai cynaliadwy.
- Ailgylchu - mae ailgylchu yn canolbwyntio ar drawsnewid deunyddiau gwastraff yn ddeunyddiau a chynhyrchion newydd.
- Adferiad arall - y broses o adfer ychydig o werth o ddeunyddiau gwastraff, er enghraifft gwastraff bwyd yn cael ei droi yn gompost.
- Gwaredu - y dewis olaf, lle mae gwastraff naill ai'n cael ei dirlenwi, ei losgi neu droi'n egni o wastraff.




**Economi linellol yn erbyn economi gylchol:**
Fel rhan o'r strategaeth hon, rydym am gefnogi Gwynedd i symud tuag at fodel economi gylchol.

Bydd symud tuag at economi gylchol ac i ffwrdd o'r model llinellol 'cymryd-gwneud-defnyddio-gwaredu' yn rhoi manteision trwy lai o wastraff a gwell adnoddau. Mae model economi gylchol yn ymgorffori gwerthoedd y deunyddiau rydyn ni'n eu defnyddio fel adnodd trwy ganolbwyntio ar yr angen i gadw'r cynhyrchion neu'r deunydd mewn defnydd cyn hired â phosibl. Mae lleihau ein defnydd o ddeunyddiau crai yn cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, llygredd a gwella bioamrywiaeth. Mae economi gylchol hefyd gyda'r potensial i ddarparu manteision ehangach i'n cymunedau, megis swyddi gwyrdd, gwell iechyd a lles a chymdogaethau glanach.

## Cyd-destun byd-eang

Yn fyd-eang, rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd gyda lefel y môr yn codi ar lefelau digynsail, cynnydd mewn digwyddiadau tywydd difrifol, ac mae hyn oll yn cael effaith negyddol ar gymunedau ar draws y byd, gan greu dinistr economaidd ac amgylcheddol.

Gyda'n gilydd, mae'n rhaid  i ni weithredu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chadw'r cynnydd mewn tymereddau byd-eang yn is na 1.5°C o'r lefelau cynddiwydiannol i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Bydd y strategaeth hon yn cefnogi ymdrechion i werthfawrogi adnoddau drwy eu cadw mewn cylchrediad am fwy o amser ac osgoi defnydd diangen pan fo'n bosib, gan leihau'r allyriadau o'n gweithrediadau fel bod yr amgylchedd yn cael ei amddiffyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Cyd-destun cenedlaethol

***Mwy nag Ailgylchu***

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu economi gylchol a sicrhau Cymru ddiwastraff erbyn 2050. I gyrraedd y nod uchelgeisiol hwn, maent yn gweithredu cyfres o fesurau strategol, gan gynnwys datblygu isadeiledd arbenigol ar gyfer deunyddiau sy'n anodd i'w hailgylchu, cefnogi busnesau i gryfhau eu hymdrechion ailgylchu a cydweithio â chynghorau lleol a phartneriaid allweddol i bennu targedau ailgylchu clir sydd wedi'u halinio â llwybr Cymru ddiwastraff.

Mae'r ymdrech hon yn adlewyrchu gweledigaeth gynaliadwy ar gyfer dyfodol Cymru, gan roi pwyslais ar gyfrifoldeb, arloesedd ac ymrwymiad cymunedol.

Mae ein strategaeth yn anelu at helpu trigolion a busnesau i reoli eu gwastraff yn y ffordd fwyaf cynaliadwy posib. Trwy leihau gwastraff, osgoi gorddefnyddio, a sicrhau bod deunyddiau'n cael eu gwerthfawrogi a'u cadw mewn defnydd cyhyd ag sy'n bosibl, rydym yn hyrwyddo dull mwy effeithiol o reoli adnoddau. Bydd y dull hwn yn sail i'n hymdrechion i symud Gwynedd tuag at economi gylchol, gan gyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru drwy'r Strategaeth 'Mwy nag Ailgylchu', er mwyn adeiladu dyfodol mwy cynaliadwy i'n cymunedau.

***Tuag at ddyfodol diwastraff***

Mae strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff Llywodraeth Cymru yn amlinellu cyfres o amcanion wedi'u hanelu at gynyddu cyfraddau ailgylchu, lleihau gwastraff bwyd sy'n bosib ei osgoi a lleihau gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae hefyd yn sefydlu targedau ailgylchu gorfodol ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Erbyn 2024/25, mae'n rhaid i gynghorau Cymru gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70%, gyda dirwyon ariannol yn cael eu rhoi ar gyfer pob tunnell sy'n is na'r targed hwn.

Fel Cyngor lle mae ein cyfradd ailgylchu yn 65.3% ar hyn o bryd, rydym yn wynebu dirwy posib o £200 y tunnell os nad ydym yn cyrraedd y targed o 70%. Mae hyn gyfwerth â £750,000 yn seiliedig ar dunelli 2022/23. Felly, bydd y strategaeth hon yn cymryd camau tuag at gynyddu ein cyfradd ailgylchu i 70% a thu hwnt i osgoi'r gost hon, ond yn bwysicach na hynny, i sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn sy'n iawn.

***Rheoliadau ailgylchu yn y gweithle***
Daeth y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle i rym ar 6 Ebrill 2024 ac mae'n ofyniad cyfreithiol i bob gweithlu, gan gynnwys busnesau, y sector gyhoeddus ac elusennau i wahanu deunyddiau ailgylchu, gan gynnwys bwyd, papur, cerdyn, gwydr, metel, plastig, cartonau, tecstilau heb eu gwerthu ac offer trydanol bach heb eu gwerthu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd mewn carthffosydd.

Ym mis Ebrill 2026, bydd Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cael eu hymestyn i gasglu gwastraff tecstilau ac offer trydanol bach erbyn mis Ebrill 2027.

Fel Cyngor, byddwn yn darparu gwasanaeth ailgylchu yn y gweithle sy'n cydymffurfio i bob sector busnes ar draws Gwynedd. Mae'r gwasanaeth yn dymuno creu cyfleoedd i wella ein gwasanaeth casgliadau masnachol a chefnogi mwy o fusnesau i ailgylchu eu gwastraff.

Mae gennym dros 2,000 o gwsmeriaid masnachol yng Ngwynedd ac rydym yn casglu pob ffrwd gwastraff sydd fel arfer yn cael ei gynhyrchu gan fusnesau, gan gynnwys papur a cherdyn, plastig a chaniau, gwastraff bwyd, gwydr a gwastraff gweddilliol. Mae ein cwsmeriaid yn amrywio o siopau cornel a chaffis i fusnesau mwy a feysydd carafanau. Ar hyn o bryd, rydym yn casglu 8,600 tunnell o wastraff masnachol, lle mae modd ailgylchu 53% ohono; byddwn yn gweithio gyda busnesau i gynyddu'r gyfran hon a chynyddu lefelau ailgylchu er mwyn annog economi wyrddach yng Ngwynedd.

Hoffem gynyddu ein lefel sylfaenol o gwsmeriaid, ynghyd â chadw ein cwsmeriaid ffyddlon drwy ddarparu gwasanaeth effeithlon, dibynadwy a gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar anghenion lleol.

Fel rhan o'r strategaeth hon, byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio, cynyddu'r nifer o gwsmeriaid busnes yr ydym yn casglu ganddynt a sicrhau ein bod wedi paratoi ar gyfer ymestyn y rheoliadau i gynnwys tecstilau ac offer trydanol bach.

***Cynllun Masnachu Allyriadau***
Ar hyn o bryd, mae ein gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei anfon i gyfleuster ynni o wastraff Parc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy, Sir y Fflint. Yn y cyfleuster hwn, mae'r gwastraff yn cael ei losgi i gynhyrchu trydan, sydd wedyn yn cael ei ffrydio i'r grid cenedlaethol. Mae'r broses hon yn adfer ynni o'n gwastraff, ond hefyd yn creu allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n gyfrannwr mawr at newid yn yr hinsawdd. O 2028 ymlaen, bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei ehangu i gynnwys llosgi deunyddiau sy'n seiliedig ar ffosil gan ynni o losgyddion gwastraff, gan gynnwys Parc Adfer. Bwriad y cynllun masnachu allyriadau yw lleihau allyriadau ac ôl troed carbon a dylai annog y trawsnewidiad i ffwrdd o danwyddau ffosil a hyrwyddo technolegau glanach ac adnewyddadwy.

Fel Cyngor, bydd y cynllun hwn yn cael effaith arnom os nad ydym yn gweithredu i leihau'r nifer o ddeunyddiau ffosil megis ffilm plastig, plastig trwm a thecstilau sy'n cael ei anfon i Barc Adfer.

Mae ein cost gyfredol i waredu'n gwastraff gweddilliol bron yn £5m y flwyddyn. Gyda'r dreth arfaethedig newydd, gall y gost ychwanegol fod yn £1.5m os nad ydym yn gweithredu i leihau cynnyrch ffosil o'r gwastraff na ellir ei ailgylchu.

Felly, yn y strategaeth hon, byddwn yn ceisio lleihau deunyddiau ffosil o'n ffrwd gwastraff na ellir ei ailgylchu er mwyn lleihau effeithiau ariannol ac amgylcheddol y cynllun hwn.

***Cyfrifoldeb Cynhyrchwr Estynedig (EPR)***

Mae Cyfrifoldeb Cynhyrchwr Estynedig (EPR) yn rhoi'r cyfrifoldeb am reoli cylch bywyd llawn pecynnu yn ôl ar gynhyrchwyr. Nod EPR yw cymell cynhyrchwyr i ddylunio a chynhyrchu deunydd pacio mae modd ei ailgylchu'n hwylus ac atal gwastraff mewn golwg. Dylai hyn gynyddu faint o wastraff cartref y gellir ei ailgylchu dros amser. Mae'r fframwaith EPR yn golygu bod cynhyrchwyr mathau penodol o ddeunydd pacio yn talu i mewn i gronfa i gefnogi cynghorau gyda chost trin neu waredu deunydd pacio nad yw'n hawdd ei ailgylchu. Mae'r swm y mae Cyngor Gwynedd yn ei dderbyn yn dibynnu ar ba mor effeithlon ac effeithiol yr ydym yn rheoli gwastraff, a gallem dderbyn cosb os nad ydym yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer hyn.

Daeth cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwr Estynedig am becynnu (pEPR) i rym ar 1 Ebrill 2025 ac mae angen i ni ystyried effeithiau'r diwygiad hwn. Efallai y bydd Gwynedd yn gweld cynnydd yn faint a math o ddeunydd pacio y gallwn ei ailgylchu gan gynyddu nifer yr ailgylchu rydyn ni'n ei gasglu. Felly, mae angen i ni sicrhau bod ein gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yng Nghaernarfon a Harlech, lle mae ein cerbydau casglu yn dadlwytho'r deunyddiau a gasglwyd, yn gallu darparu ar gyfer cynnydd mewn cyfeintiau ailgylchu. Felly, bydd y strategaeth hon yn datgan sut rydym yn bwriadu paratoi ar gyfer cynnydd yn y swm a math y deunyddiau.


***Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS)***

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) gan dargedu cynwysyddion diod defnydd sengl a chynwysyddion diod y gellir eu hailddefnyddio gydag ernes bach, sy'n cael ei ad-dalu pan gaiff y cynhwysydd ei ddychwelyd.

Bydd DRS yn helpu i leihau ysbwriel yng Ngwynedd drwy roi gwerth ariannol ar gynwysyddion diod, gan eu gwneud yn llai tebygol o gael eu taflu'n ddifeddwl. Trwy gynnwys cynwysyddion diod y gellir eu hailddefnyddio yn DRS Cymru, bydd ein cymuned yn cael ei chefnogi i symud tuag at economi gylchol lle caiff y cynwysyddion eu defnyddio dro ar ôl tro cyn cael eu hailgylchu yn gynwysyddion newydd ar ddiwedd eu hoes. Gall y DRS ddargyfeirio cynwysyddion oddi wrth ffrwd gwastraff stryd ac ailgylchu confensiynol, gan eu harwain at bwyntiau dychwelyd mewn siopau lleol. O ganlyniad, mae'n hanfodol ein bod yn deall yr effaith ar wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod y broses hon yn cael ei chydlynu'n effeithiol.

***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ceisio sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn cael yr un ansawdd bywyd o leiaf â'r hyn sydd gennym ni ar hyn o bryd.

Mae'r strategaeth hon yn anelu i ganolbwyntio ar reoli gwastraff yn unol ag egwyddorion uchaf yr hierarchaeth wastraff sy'n cynnwys atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu, a symud deunyddiau tuag at ddull cylchol yn hytrach na llinellol. Caiff hyn ei wneud i gadw adnoddau naturiol, lleihau neu gael gwared ar ryddhau nwyon tŷ gwydr niweidiol ac i amddiffyn yr amgylchedd a natur ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn 2019, fe wnaeth y Cyngor ddatgan argyfwng hinsawdd a chafodd Cynllun Argyfwng Natur a Hinsawdd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2022, ac un o benawdau'r cynllun yw sicrhau ein bod yn lleihau allyriadau carbon o brosesu a chasglu gwastraff.





.

## Cyd-destun lleol

Perfformiad Ailgylchu

Mae'r tabl isod yn dangos cyfradd perfformio ailgylchu Gwynedd rhwng 2015 a 2024. Mae targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru bellach wedi'u gosod ar 70% gyda dirwyon posibl i Gynghorau sy'n methu â chyrraedd y targed hwn. Mae ein cyfradd bresennol o 65.3% yn golygu pe baem yn methu â chynyddu ein cyfradd ailgylchu i 70%, gall Cyngor Gwynedd orfod talu dirwyon sylweddol am bob tunnell sy'n is na'r gyfradd darged.

Felly, mae angen i ni weithredu i gynyddu ein cyfradd ailgylchu a sicrhau bod Gwynedd yn cyrraedd y targed o 70% ac yn osgoi'r dirwyon hyn.



**Cyfansoddiad gwastraff na ellir ei ailgylchu yng Ngwynedd**

Canfu astudiaeth genedlaethol gan WRAP Cymru yn 2023 y gellid ailgylchu 57% o'r deunyddiau y mae cartrefi Gwynedd yn eu gwaredu yn eu bin gwyrdd neu sachau du gan ddefnyddio gwasanaethau presennol a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Gellir gweld dadansoddiad y deunyddiau yn y bin gwyrdd/ sachau du nad ydynt yn cael eu hailgylchu yn y diagram isod. Y gyfran fwyaf o'r llif gwastraff hwn oedd gwastraff bwyd a oedd yn cynrychioli 27% o'r bin gwastraff na ellir ei ailgylchu.

Nid yn unig mae gwaredu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn y bin gwastraff gweddilliol yn golygu bod adnoddau gwerthfawr yn cael eu colli, ond mae hefyd yn cyfrannu at ryddhau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cost ddiangen i waredu'r deunydd hwn a'r posibilrwydd o golli incwm o werthu deunyddiau y gellir ei ailgylchu.

Mae pob tunnell o wastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu fel arfer yn rhyddhau rhwng 0.7 ac 1.7 tunnell o garbon deuocsid (CO2), ac mae hyn yn cynnwys allyriadau o losgi plastig, coed, papur a bwyd. Mae gormod o ddeunyddiau gwerthfawr yn cael eu gwaredu ac fel o'r Strategaeth hon, rydem eisiau gweithio gydag aelwydydd er mwyn canolbwyntio ar ddargyfeirio a chasglu mwy o ddeunyddiau y gellir ei ailgylchu o'r bin gweddilliol i gefnogi ein hamcanion er mwyn cynyddu ein cyfradd ailgylchu yn uwch na 70% a thu hwnt, gan sicrhau mai dim ond eitemau nad oes modd eu hailgylchu sy'n cael eu gwaredu yn y bin gwyrdd.



## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn amlinellu gweledigaeth a blaenoriaethau Cyngor Gwynedd, ac mae sawl blaenoriaeth sydd i'w chyflawni yn gysylltiedig â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu, sy'n cynnwys:

- Gwynedd Werdd - cefnogi gostyngiad mewn allyriadau carbon, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ac yn wydn o ran effeithiau newid hinsawdd, yn ogystal ag ymrwymo i gyflwyno strategaeth gwastraff ac ailgylchu newydd i gynyddu lefel ailgylchu'r sir i gwrdd â'r targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025.
- Gwynedd Ffyniannus - cefnogi twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau, gan gydweithio â phartneriaid i helpu i hybu a datblygu economi ymwelwyr mwy cynaliadwy.
- Gwynedd Effeithlon - cefnogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau ariannol, gan gynnwys effeithiau toriadau i'r gyllideb.

## Cynllun Argyfwng Natur a Hinsawdd

Bydd ein strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu yn mynd ati i gefnogi'r uchelgais yn y Cynllun Argyfwng Natur a Hinsawdd drwyddi draw, boed hynny drwy ymdrin ag allyriadau carbon gweithredol drwy gychwyn trydaneiddio ein fflyd, neu'r effeithiau ehangach y mae defnyddio adnoddau yn ei gael ar gymdeithas, megis gwastraffu llai o fwyd.

Mae ein huchelgais i brif-ffrydio mwy o drwsio ac ailddefnyddio yn y sir drwy gefnogi caffis benthyg a thrwsio yn gam allweddol i leihau cyfraniad Gwynedd i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

## Ariannol

Mae cost rhedeg holl wasanaethau'r cyngor yn cynyddu yn flynyddol, gan arwain at ddewisiadau anodd i gydbwyso'r gyllideb. Mae cyllidebau awdurdodau lleol yn mynd yn dynnach bob blwyddyn, felly mae angen i ni ddod o hyd i fwy o arbedion. Ar gyfer rheoli gwastraff ac ailgylchu, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o fod yn fwy effeithlon a chynyddu refeniw wrth reoli risgiau ariannol o beidio â chyrraedd targedau ailgylchu neu gostau reolau masnachu allyriadau. Nod y strategaeth hon yw lleihau'r risgiau ariannol hyn a dod o hyd i ffyrdd o roi hwb i'n hincwm tra hefyd yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr megis gwneud y mwyaf o botensial taliadau o'r gronfa EPR pecynnu drwy sicrhau bod ein rheolaeth o'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn bodloni'r safon ofynnol i osgoi cosbau.

## Isadeiledd gwastraff a fflyd

Mae'r safleoedd trosglwyddo gwastraff yn Harlech a Chaernarfon yn chwarae rhan hanfodol yn ein gwaith o gasglu ac ailbrosesu gwastraff ac ailgylchu. Wrth i'r galw am driniaeth effeithlon a chyfeillgar i'r amgylchedd gynyddu, mae'n hanfodol bod y safleoedd hyn yn cael eu huwchraddio i gwrdd â safonau modern. Bydd y gwelliannau hyn yn galluogi trin mwy o ddeunyddiau ailgylchadwy, gan gryfhau ein gallu i weithredu gwasanaeth carbon sero net sy'n cefnogi economi gylchol leol a chynaliadwy.

Mae ein fflyd gwastraff yn cynnwys bron i 60 cerbyd trwm, ond mae gennym hefyd 40 cerbyd arall yn y gwasanaeth, ac mae angen i ni ystyried sut i leihau neu gael gwared â'r allyriadau o'r cerbydau hyn a pharhau i gyflwyno gwasanaeth effeithiol.

Mae angen cyflawni ein gwasanaeth yn y dyfodol yn erbyn yr amcanion a gytunwyd. Mae'r gyrwyr allweddol canlynol yn cyd-fynd gyda phob un o'r amcanion hyn ac yn darparu mwy o fanylion am y cynllun cyflawni i'w lunio ochr yn ochr â'r strategaeth.




Tud. 139

# 4. Amcan allweddol 1: Cyfathrebu ac ymgysylltu

Mae ymgysylltu effeithiol â thrigolion, busnesau a chymunedau Gwynedd yn hanfodol i wireddu ein hamcanion strategol. Er mwyn lleihau gwastraff, cynyddu cyfraddau ailgylchu a lleihau ein heffaith amgylcheddol, mae angen cydweithrediad ac ymrwymiad gan bawb. Dim ond drwy ymdrechion ar y cyd y gallwn greu gwasanaeth cynaliadwy sy'n cyfrannu at ddyfodol sero net i'r sir.

Mae Amcan Allweddol 1 yn canolbwyntio ar ddatblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol i gefnogi trigolion, gweithleoedd a chymunedau wrth drosglwyddo i economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon cynaliadwy sy'n cyfrannu at ddyfodol carbon sero net i Wynedd.

## Ymgysylltu a chyfathrebu rhagweithiol gyda thrigolion

Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu blynyddol sy'n:

- Amlinellu gweithgareddau a digwyddiadau allweddol.
- Nodi'r prif negeseuon a themâu hyrwyddo.
- Esbonio sut y byddwn yn cyrraedd trigolion a busnesau ar draws y sir.

Dangosodd yr ymgynghoriad fod 80% o drigolion Gwynedd yn dibynnu ar wefan neu ap Cyngor Gwynedd i gael gwybodaeth am gasgliadau a deunyddiau ailgylchadwy. Er bod y wefan yn derbyn adborth cymharol gadarnhaol, mae sgoriau'r ap a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol yn fwy amrywiol. Nodwyd hefyd fod dewisiadau cyfathrebu yn amrywio'n sylweddol rhwng grwpiau oedran, gan gadarnhau nad oes un dull cyfathrebu sy'n addas i bawb — boed hynny'n ddeunydd printiedig neu ddigidol.

Fodd bynnag, daeth un neges allweddol i'r amlwg: mae angen cyfathrebu clir, syml a hygyrch, gyda chanllawiau wedi'u targedu'n benodol at y rhai nad ydynt yn ailgylchu ar hyn o bryd, aelwydydd sy'n cynhyrchu gormod o wastraff, a thrigolion nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am ddull cyfathrebu amrywiol a chynhwysol sy'n cyrraedd pob rhan o'r gymuned.

## Dulliau ymgysylltu â thrigolion

- Ymweliadau wyneb yn wyneb drwy guro drysau.
- Sioeau teithiol a digwyddiadau cymunedol.
- Gwefan y Cyngor a sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- Ymgyrchoedd cyfathrebu parhaus ar wastraff bwyd, gan gynnwys rhaglenni addysg mewn ysgolion.
- Defnyddio arolygon, adborth a grwpiau ffocws i fesur effaith ac adnabod cyfleoedd i wella.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd cenedlaethol megis Caru Bwyd, Casáu Gwastraff.

- Defnyddio technoleg i gefnogi negeseuon allweddol a datrys problemau ar y safle.
- Gweithio gyda grwpiau cymunedol i wella rheoli gwastraff a chynyddu ailgylchu.
- Sicrhau bod ein negeseuon yn glir, hygyrch a syml ac wedi'u targedu'n briodol lle bo'n ymarferol.

## Gwasanaeth Casglu ar Ochr y Stryd

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod trigolion a busnesau'n deall yn glir pa ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu.
Byddwn yn:

- Defnyddio data i adnabod ardaloedd o berfformiad isel a chynnal ymgyrchoedd ymgysylltu wedi'u targedu.
- Grymuso criwiau casglu i nodi aelwydydd neu weithleoedd sydd angen cymorth ychwanegol.
- Cydweithio â Phrifysgol Bangor i wella ymgysylltu â myfyrwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.

## Canolfannau Ailgylchu

Mae ein canolfannau ailgylchu yn rhan allweddol o'r gwasanaeth, yn enwedig ar gyfer eitemau na ellir eu casglu ar ochr y stryd.

Roedd adborth yr ymgynghoriad ynghylch ein canolfannau ailgylchu yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, codwyd nifer o awgrymiadau adeiladol, gan gynnwys yr angen i adolygu'r system archebu slot, gwella hygyrchedd i drigolion nad oes ganddynt drafnidiaeth, a rhoi sylw pellach i'r amseroedd agor.

Byddwn yn:

- Hyfforddi staff i ddarparu cyngor clir ar ddidoli, ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Cyfathrebu'n glir am unrhyw fesurau newydd, megis agor bagiau i wella didoli.
- Gwella arwyddion a chyfathrebu gweledol i leihau unrhyw amwysedd.
- Adolygu hygyrchedd y canolfannau, gan gynnwys opsiynau fel 'awr dawel'.
- Chwilio am gyfleoedd i wella iechyd a diogelwch a chynyddu'r ystod o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu.

## Twristiaeth

Mae economi leol ffyniannus yn hanfodol i wneud Gwynedd yn lle deniadol i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Fel un o'r cyrchfannau twristiaeth mwyaf poblogaidd yn y DU, derbyniodd Gwynedd tua 7.8 miliwn o ymwelwyr yn 2022, o'i gymharu â phoblogaeth barhaol o 117,400. Er bod twristiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at economi'r sir, mae'r nifer uchel o ymwelwyr tymhorol yn creu pwysau sylweddol ar ein systemau rheoli gwastraff.

Yn ystod y tymor brig rhwng mis Mawrth a mis Hydref, pan fo nifer yr ymwelwyr yn fwy na dwbl, mae cyfanswm y gwastraff a gesglir drwy wasanaeth casgliadau masnachol y Cyngor yn cynyddu bron 70%. O ganlyniad, mae'n hanfodol ein bod yn darparu gwasanaeth masnachol sy'n gallu ymateb i'r galw cynyddol hwn mewn ffordd effeithlon, gynaliadwy ac yn unol â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi busnesau twristiaeth i gynyddu eu cyfraddau ailgylchu a rheoli eu gwastraff yn fwy effeithiol. Ein nod yw sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion deddfwriaethol presennol a'r newidiadau polisi sydd ar y gorwel, gan ddarparu cymorth clir a phragmatig i fusnesau ar bob cam o'r daith.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- Grymuso ein criwiau casglu i ymgysylltu'n rhagweithiol â busnesau, gan amlygu'r gwasanaethau sydd ar gael a'r cyfleoedd i wella ailgylchu ac ailddefnyddio.
- Sicrhau bod y gwasanaeth masnachol yn hygyrch, syml ac effeithlon, gan adlewyrchu safonau uchel gwasanaeth cyhoeddus Gwynedd.
- Hyrwyddo arferion rheoli gwastraff cyfrifol sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ehangach ar gyfer lleihau allyriadau carbon a gwella cynaliadwyedd amgylcheddol.

Drwy weithio'n agos gyda busnesau lleol, yn enwedig yn y sector twristiaeth, gallwn sicrhau bod y cynnydd mewn gwastraff tymhorol yn cael ei reoli'n effeithiol, gan gyfrannu at wasanaeth gwastraff ac ailgylchu sy'n adlewyrchu'r gorau o Wynedd.

## Gorfodaeth

Mae gan bob unigolyn a phob gweithle gyfrifoldeb i reoli eu gwastraff mewn modd cynaliadwy. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol i ymgysylltu ag aelwydydd a busnesau, gan ddarparu cymorth priodol pan fyddant yn wynebu heriau gyda'r broses hon.

Lle bo trigolion, er gwaethaf cymorth ac arweiniad, yn methu neu'n gwrthod rheoli eu gwastraff yn effeithiol, byddwn yn gweithredu proses orfodaeth dri cham sy'n deg, cymesur ac yn unol â gofynion statudol. Bydd y broses hon yn cynnwys:

- Anfon taflen wybodaeth i egluro'r gofynion a'r disgwyliadau.
- Anfon llythyr rhybudd ffurfiol os na cheir gwelliant.
- Defnyddio'r grymoedd statudol sydd ar gael o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Adran 46, gan gynnwys cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig lle bo hynny'n briodol.

Ein nod yw sicrhau cydymffurfiaeth drwy addysg a chymorth yn gyntaf, gan ddefnyddio gorfodaeth yn unig pan fo'n angenrheidiol i ddiogelu tegwch a chynaliadwyedd y gwasanaeth

# 5. Amcan allweddol 2: Lleihau, ailddefnyddio a thrwsio

Yn unol â chyflawni Amcan Strategol 2 ein huchelgais yw lleihau gwastraff cyffredinol a chynyddu ailddefnyddio ac atgyweirio er mwyn cefnogi economi gylchol leol sy'n wyrdd, effeithlon ac yn gynaliadwy. Mae hyn yn gofyn am reoli adnoddau yn unol â'r hierarchaeth gwastraff, gan symud oddi wrth waredu ac annog trigolion a busnesau i leihau, ailddefnyddio neu atgyweirio cynnyrch lle bo'n bosibl. Drwy ymestyn oes eitemau ac atal gwastraff diangen, gallwn leihau ein hôl troed carbon a chryfhau gwydnwch amgylcheddol y sir. Isod ceir amlinelliad o'n prif nodau i gefnogi'r trawsnewid hwn.

## Lleihau Gwastraff Cyffredinol

Dangosodd yr ymgynghoriad fod 98% o ymatebwyr yn cydnabod bod lleihau gwastraff yn bwysig, ond nododd 69% nad ydynt yn gwybod sut i wneud mwy neu fod angen rhagor o wybodaeth arnynt.

Yn ogystal, dywedodd 20% fod y presenoldeb o ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu yn rhwystr i leihau gwastraff, tra bod 18% yn pryderu am y lefel uchel o becynnu sy'n cael ei gynhyrchu. Er bod newid ymddygiad yn chwarae rhan allweddol wrth leihau gwastraff ac annog ailgylchu, nid yw newid ymddygiad ar ei ben ei hun yn ddigonol i sicrhau'r trawsnewid sydd ei angen. Mae'n hanfodol gweithredu mesurau strwythurol ac ymyriadau cenedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau systemig sy'n dylanwadu ar gynhyrchu gwastraff, megis dyluniad cynnyrch, pecynnu, a'r seilwaith sydd ar gael i gefnogi ailddefnyddio ac atgyweirio.

Drwy gyfuno newid ymddygiad gyda newidiadau strwythurol, gallwn greu system wastraff sy'n fwy effeithlon, cynaliadwy ac yn galluogi trigolion a busnesau i wneud y dewisiadau cywir yn haws.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, byddwn yn:

- Lleihau faint o wastraff cyffredinol sy'n cael ei gynhyrchu fesul person, sydd ar hyn o bryd yn cyfateb i tua 300kg fesul aelwyd, drwy gydweithio, annog a rhannu negeseuon megis "gadewch i ni eich paratoi".
- Targedu gwastraff bwyd, sy'n cyfrif am tua 27% o'r gwastraff gweddilliol cartref. Byddwn yn gweithio'n agos gyda thrigolion i godi ymwybyddiaeth o'r manteision amgylcheddol ac ariannol sy'n gysylltiedig â lleihau gwastraff bwyd, gan hyrwyddo newid ymddygiad cadarnhaol. Yn ogystal, byddwn yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag ailgylchu bwyd — megis pryderon ynghylch arogleuon — a byddwn yn annog newidiadau bach, ymarferol sy'n gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol dros amser.

Byddai lleihau gwastraff bwyd yn y llif gweddilliol yn un o'r cyfleoedd mwyaf effeithiol i leihau cyfanswm y deunyddiau sy'n cael eu rhoi yn y bin gwyrdd ac i ostwng ein hallyriadau carbon. Mae hyn oherwydd:

- Mae gwastraff bwyd ailgylchadwy yn cael ei brosesu yn y cyfleuster treulio anaerobig GwyriAD yng Ngwynedd, gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei gludo i'r cyfleuster ynni o wastraff Parc Adfer yn Sir y Fflint, gan greu allyriadau ychwanegol o gludiant a thriniaeth.
- Drwy leihau'r gwastraff hwn, gallwn leihau costau gwaredu, lleihau allyriadau carbon ac adeiladu system wastraff sy'n fwy effeithlon ac yn fwy cynaliadwy

## Cynyddu Ailddefnyddio ac Atgyweirio

Ein huchelgais yw datblygu a chefnogi hybiau ailddefnyddio ac atgyweirio sy'n defnyddio deunyddiau sy'n dod yn uniongyrchol o'n Canolfannau Ailgylchu. Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus, mae'n hanfodol sicrhau bod y cyfleusterau hyn wedi'u lleoli'n strategol, yn gweithredu ar sail fasnachol gynaliadwy, ac yn cynnig eitemau o ansawdd da am brisiau teg, gan fod yn hygyrch i bawb yn ein cymunedau.

Mae nifer o syniadau eisoes wedi'u nodi yn ein Cynllun Argyfwng Natur a Hinsawdd, ac rydym yn adeiladu ar y rhain drwy ystyried mentrau ychwanegol i hyrwyddo ailddefnyddio ac atgyweirio ledled y sir.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Archwilio'r posibilrwydd o agor siop ailddefnyddio mewn Canolfan Ailgylchu neu mewn lleoliad canol tref. Byddwn yn parhau i geisio trefniadau partneriaethol, yn fewnol neu'n allanol, gyda sefydliadau sydd â'r sgiliau, y profiad a'r gwerth cymdeithasol i weithredu'r fenter hon yn effeithiol.
- Hyrwyddo lleoliadau ail-lenwi dŵr ar draws Gwynedd i leihau'r defnydd o boteli plastig un-tro.
- Parhau i hyrwyddo defnydd o gewynnau y gellir eu hailddefnyddio, gan gynnwys darparu pecynnau cychwynnol i deuluoedd newydd.
- Ymgysylltu â chefnogi aelwydydd a busnesau i leihau eu gwastraff a chynyddu cyfleoedd ailddefnyddio.
- Cynyddu faint o wastraff swmpus sy'n cael ei ailddefnyddio, yn hytrach na'i anfon i'w waredu neu ei ailgylchu'n unig.
- Datblygu lleoliadau 'gollwng' neu siopau ailddefnyddio ar gyfer eitemau sy'n dod drwy'r Canolfannau Ailgylchu. Er bod ailgylchu'n bwysig, mae lleihau, atgyweirio ac ailddefnyddio yn gamau sydd â blaenoriaeth uwch yn yr hierarchaeth gwastraff.
- Datblygu dull cyfathrebu penodol ar gyfer myfyrwyr, yn enwedig yn ystod cyfnodau symud i mewn ac allan rhwng tymhorau academaidd, er mwyn sicrhau rheoli gwastraff cynaliadwy mewn ardaloedd myfyrwyr.
- Cydweithio gydag adrannau eraill ar fentrau megis llyfrgelloedd benthyg, canolfannau bwyd a chaffis atgyweirio, gan gryfhau'r seilwaith lleol ar gyfer economi gylchol

# 6. Amcan allweddol 3 : Cynyddu ailgylchu

Yn unol â chyflawni Amcan Strategol 3, ein nod yw sicrhau cydymffurfiaeth lawn â tharged Llywodraeth Cymru i ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio 70% o wastraff erbyn 2025.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn canolbwyntio ar ailgyfeirio'r 57% o ddeunyddiau sy'n cael eu rhoi ar hyn o bryd yn y bin gwastraff na ellir ei ailgylchu, ond sydd mewn gwirionedd yn addas i'w hailgylchu drwy ein gwasanaeth cynhwysfawr o gasgliadau wythnosol wrth ymyl y palmant.

Mae gwaredu deunyddiau y gellir eu hailgylchu drwy'r llif gwastraff cyffredinol nid yn unig yn arwain at gostau diangen, ond hefyd yn golygu colli cyfleoedd i adfer adnoddau gwerthfawr sy'n gallu cael eu hailgylchu, gan gyfrannu at economi gylchol leol a chynhyrchu incwm i'r gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau nad yw deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn cael eu gwaredu'n anghywir, rydym wedi gosod yr amcanion canlynol i gasglu ac ailgylchu mwy o ddeunyddiau gan aelwydydd a busnesau.

## Cynyddu Ailgylchu o aelwydydd

Dangosodd yr ymgynghoriad fod 84% o ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd cyrraedd y targed o ailgylchu 70% o wastraff, ac roedd 91% yn cytuno ei bod yn bwysig ailgylchu cymaint â phosibl. Fodd bynnag, nododd 40% o drigolion fod eu bin gweddilliol yn llawn erbyn y diwrnod casglu.

Er bod llawer o ymatebwyr yn honni eu bod yn ailgylchu popeth posibl, mae hyn yn cael ei wrthbrofi gan ddadansoddiad o gynnwys y bin gweddilliol. Mae'n hanfodol i'r Strategaeth hon gydnabod y bwlch rhwng canfyddiad a realiti, a mynd i'r afael â'r "gwastraff cudd" — sef bwyd a deunyddiau ailgylchadwy sy'n parhau i gael eu rhoi yn y bin gwyrdd.

Er mwyn cynyddu ailgylchu gan aelwydydd, byddwn yn:

- Hwyluso ailgylchu o gartref drwy ddarparu sachau y gellir eu hailddefnyddio i aelwydydd ar gyfer papur, cardfwrdd, plastig a chaniau, gan wella trefn a chyflwyniad wrth ymyl y palmant.
- Archwilio'r posibilrwydd o gasglu deunyddiau ychwanegol, gan gynnwys plastig hyblyg, tecstilau, offer trydanol bach (e.e. tegell, tostiwr, sychwr gwallt) a batris cartref.
- Gwella cyfleusterau ailgylchu mewn blociau o fflatiau a thai a rennir, gyda'r nod o gasglu ystod ehangach o ddeunyddiau megis tecstilau a gwastraff trydanol ac electronig bach (sWEEE), gan leihau llygredd a gwella ansawdd y deunyddiau a gesglir.
- Adnabod fflatiau lle mae angen gwella drwy gasglu data a chynnal gwaith ymchwil, ac yna datblygu cynlluniau ymgysylltu penodol i wella ansawdd ailgylchu mewn partneriaeth â landlordiaid ac asiantaethau rheoli tai.
- Cydweithio â phartneriaid yn y sector addysg uwch i wella ymgysylltu a dealltwriaeth ymhlith myfyrwyr, gan weithio gyda Phrifysgol Bangor i hyrwyddo pwysigrwydd y

gwasanaeth ailgylchu a chynyddu ymgysylltu uniongyrchol a marchnata wedi'i dargedu at y ddemograffeg hon.

Gan fod 57% o'r deunyddiau sy'n cael eu rhoi ar hyn o bryd yn y bin gweddilliol yn rhai y gellir eu hailgylchu — gan gynnwys 27% o wastraff bwyd — mae'n hanfodol ein bod yn adolygu'r ffordd y caiff gwastraff gweddilliol ei reoli. Byddwn yn ystyried lleihau capasiti neu amlder casgliadau gwastraff gweddilliol fel rhan o'n hymdrechion i annog mwy o ailgylchu ar draws Gwynedd. Bydd hyn yn cael ei wneud ochr yn ochr â chefnogi aelwydydd sydd ag angen gwirioneddol am gapasiti ychwanegol, gan sicrhau tegwch a chymesuredd.

Er bod canran sylweddol o gartrefi yn nodi bod lle ar ôl yn eu bin gwyrdd erbyn y diwrnod casglu, dangosodd yr ymgynghoriad fod gwrthwynebiad i leihau amlder casgliadau. O ganlyniad, os byddwn yn tynhau ar wastraff gweddilliol, byddwn yn gwneud hynny mewn camau graddol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac ynghyd â chefnogaeth briodol i aelwydydd.

Yn ogystal, byddwn yn sicrhau ein bod yn hwyluso ailgylchu yn fwy effeithiol drwy:

- adolygu a darparu cynwysyddion mwy addas i aelwydydd, a
- ehangu'r ystod o ddeunyddiau a gesglir wrth ymyl y palmant, gan gynnwys deunyddiau newydd lle bo hynny'n ymarferol.

Drwy gyfuno dull graddol, tystiolaethol gyda gwelliannau i'r gwasanaeth ailgylchu, ein nod yw lleihau dibyniaeth ar y bin gweddilliol a chynyddu cyfraddau ailgylchu ledled y sir.

## Canolfannau ailgylchu

Ein huchelgais yw gwella profiad trigolion wrth ddefnyddio ein Canolfannau Ailgylchu, gan gynyddu faint o ddeunyddiau sy'n cael eu hailgylchu a lleihau'r swm o ddeunyddiau ailgylchadwy sy'n cael eu gwaredu'n anghywir. Drwy wella hygyrchedd, trefn a chysondeb y safleoedd, gallwn gryfhau cyfraddau ailgylchu a sicrhau bod adnoddau gwerthfawr yn cael eu hadfer.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, byddwn yn:

- Ailgyflwyno'r arfer o agor bagiau mewn Canolfannau Ailgylchu er mwyn gwahanu mwy o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, cynyddu cyfraddau ailgylchu ac atal eitemau rhag cael eu taflu'n ddiangen.
- Gwella gosodiad, marciau ac arwyddion y safleoedd i sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio ac yn gwneud y broses o ddidoli ac ailgylchu yn fwy syml i drigolion.
- Adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer siopau ailddefnyddio a siediau gollwng mewn Canolfannau Ailgylchu, gan sicrhau bod trigolion yn gallu rhoi eitemau y gellir eu hailddefnyddio yn hawdd ac yn hyderus.
- Sicrhau bod pob safle, fel lleiafswm, yn derbyn ac yn gallu storio ar wahân yr ystod lawn o ddeunyddiau canlynol: gwydr, metel, papur, cardfwrdd, pren, gwastraff gwyrdd, agregau, pridd, pecynnu plastig, plastig caled, tecstilau, matresi, carpedi, olew mwynau, olew llysiau ac eitemau y gellir eu hailddefnyddio. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gallu ailgylchu cyfran uchel o'r defnyddiau hyn yn y dyfodol, yn enwedig coed.
- Darparu cyfleusterau mewn o leiaf un safle i dderbyn gwastraff peryglus, gan gynnwys Gwastraff Cyfarpar Trydanol ac Electronig (WEEE), paent a thoddyddion, asbestos sment a gwastraff peryglus arall o gartrefi.

- Ystyried derbyn deunyddiau ailgylchu masnachol penodol mewn rhai safleoedd lle bo hynny'n ymarferol ac yn gynaliadwy.

Drwy weithredu'r camau hyn, ein nod yw sicrhau bod Canolfannau Ailgylchu Gwynedd yn hygyrch, yn hawdd eu defnyddio ac yn chwarae rhan ganolog yn ein huchelgais i greu economi gylchol leol sy'n fwy effeithlon ac yn fwy cynaliadwy.

## Cynyddu ailgylchu mewn busnesau

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein busnesau a'n gwasanaethau lleol i'n cymunedau, ac rydym yn ymrwymo i'w cefnogi i gydymffurfio â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle. Mae gan y sector busnes gyfle allweddol i gyfrannu at uchelgais Gwynedd i fod yn gyngor Sero Net, gwella cyfraddau ailgylchu, a chynyddu'r swm o ddeunyddiau gwerthfawr sy'n cael eu hadfer.

Dangosodd arolwg diweddar (Mawrth 2026) fod 58% o ddeunyddiau ailgylchadwy yn parhau i gael eu rhoi yn y biniau gwastraff gweddilliol gan fusnesau masnachol. Mae hyn yn cynrychioli colled adnoddau, costau gwaredu diangen, a chyfle sylweddol i wella.

Ein nod yw gwneud y broses o bontio i fodel mwy cynaliadwy ac effeithlon o ran adnoddau mor syml â phosibl i fusnesau ar draws y sir. I alluogi hyn, byddwn yn gwella ac yn datblygu ein gwasanaeth casglu masnachol yn unol â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle, ac yn ymrwymo i ailgylchu llawer mwy o wastraff masnachol. Byddwn yn canolbwyntio ar leihau rhwystrau, cynyddu cyfranogiad ac annog gwahanu deunyddiau ailgylchadwy o wastraff cyffredinol

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Ymgysylltu'n rhagweithiol â phob cwsmer gwastraff masnachol i annog gwahanu ailgylchu, nodi rhwystrau a darparu cefnogaeth wedi'i theilwra i'w goresgyn.
- Cynnal archwiliadau rheolaidd a darparu canllawiau, cymorth ac atebion ymarferol i alluogi busnesau i ailgylchu mwy.
- Monitro cyfraddau ailgylchu fesul sector a lleoliad, a thargedu ardaloedd sy'n perfformio'n wael gyda ymyriadau penodol.
- Cydweithio â chymdeithasau busnes a siambr fasnach i wella gwasanaethau ailgylchu ar safleoedd masnachol.
- Lansio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wedi'u targedu ar fanteision ailgylchu a sut i wneud hynny'n effeithiol.
- Cefnogi safleoedd masnachol sy'n wynebu heriau i nodi atebion ymarferol sy'n gwneud cyfranogiad yn haws ac yn fwy effeithiol.
- Casglu adborth rheolaidd gan gwsmeriaid masnachol drwy gyfathrebu dydd i ddydd ac arolygon i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth.
- Sicrhau casgliadau prydlon ac effeithlon, gyda chynwysyddion a gwybodaeth glir sy'n diwallu anghenion busnesau ac yn eu galluogi i ailgylchu cymaint â phosibl.
- Paratoi busnesau ar gyfer ehangu'r rheoliadau i gynnwys casglu ystod ehangach o ddeunyddiau, megis offer trydanol bach a thecstilau.
- Archwilio'r posibilrwydd o ehangu mynediad busnesau i ddefnyddio ein Canolfannau Ailgylchu lle bo hynny'n ymarferol ac yn gynaliadwy.
- Helpu busnesau i leihau eu gwastraff, ac i atgyweirio ac ailddefnyddio mwy o eitemau fel rhan o ddull economi gylchol.

# 7. Amcan allweddol 4: Darparu gwasanaeth

Rydym yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n diwallu anghenion ein trigolion a'n cwsmeriaid busnes. Mae cadw at werthoedd craidd y gwasanaeth yn hanfodol, gan ein bod yn gwasanaethu ein cymunedau ac yn chwarae rhan allweddol yn eu llesiant. Ar yr un pryd, ni fyddwn yn petruso i fanteisio ar gyfleoedd i ysgogi gwelliant ac arloesi er mwyn cryfhau'r gwasanaeth ymhellach.

Ein nod yw sicrhau cyfraddau boddhad uchel, gwasanaeth dibynadwy a phrofiad cadarnhaol i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Isod rydym yn nodi ein blaenoriaethau i sicrhau ein bod yn cyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid.

Roedd darparu gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu o ansawdd uchel yn brif flaenoriaeth ymhlith ymatebwyr yr ymgynghoriad. Bydd y Strategaeth hon yn canolbwyntio'n gyntaf ar sicrhau gwasanaeth dibynadwy, o ansawdd uchel, y mae trigolion yn ymddiried ynddo ac yn ei ddeall, gan gydnabod mai hwn yw'r galluogwr allweddol ar gyfer perfformiad ailgylchu uwch a lleihau gwastraff.

## Sicrhau Gwasanaeth Casglu ac Ailgylchu o Ansawdd Uchel

Er mwyn cynnal safonau uchel o wasanaeth, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar fonitro ansawdd ac ar adborth gan ein criwiau casglu. Ein nod yw sicrhau bod pob casgliad yn cael ei gyflawni'n daclus ac yn effeithlon, gan gynnwys codi unrhyw ddeunyddiau a allai gael eu gollwng yn ystod y broses gasglu a gadael ardaloedd yn lân ar ôl pob ymweliad.

Byddwn yn:

- Casglu biniau gyda chaeadau caeedig yn unig ac yn derbyn dim gwastraff ochr. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod deunyddiau'n aros yn y cynwysyddion cywir, yn atal sbwriel ar y strydoedd ac yn annog trigolion i ailgylchu cymaint â phosibl.
- Grymuso staff casglu i nodi cartrefi neu fusnesau sy'n cael trafferth rheoli eu gwastraff, fel y gellir darparu cymorth rhagweithiol a theilwra.
- Defnyddio technoleg i wella monitro casgliadau, gwella tryloywder a chryfhau perfformiad gweithredol.

## Rheoli a Gwella Canolfannau Ailgylchu

Er mwyn sicrhau bod ein Canolfannau Ailgylchu yn gallu cyflawni'r amcanion a nodir yn y Strategaeth hon, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn cael eu defnyddio'n briodol gan drigolion Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys atal defnydd gan unigolion nad ydynt yn byw yn y sir, oni bai bod trefniadau ffurfiol ar waith gyda'n hawdurdodau cyfagos.

Byddwn yn:

- Gwella'r defnydd o'r system archebu, gan sicrhau mai trigolion Gwynedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i leihau amseroedd aros ac yn galluogi staff i ddarparu cymorth gwell i ddefnyddwyr y safleoedd.
- Ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'r wyth safle presennol a'u hamseroedd agor, er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion presennol a'r dyfodol.
- Archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno canolfan ailgylchu symudol, gan ystyried fforddiadwyedd o fewn y sefyllfa ariannol gyfredol, er mwyn gwella hygyrchedd a darpariaeth mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.

# 8. Amcan allweddol 5: Cyflawni Sero Net

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad Gwynedd i gefnogi strategaethau lleihau allyriadau carbon y Cyngor. Mabwysiadodd Cyngor Gwynedd ei Gynllun Argyfwng Natur a Hinsawdd ym mis Mawrth 2022, gyda'r uchelgais bod "y Cyngor yn sero net carbon ac yn ecolegol bositif".

Rydym yn bwriadu i'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu chwarae rhan ganolog yn y gwaith hwn drwy gyflwyno'r newidiadau sydd, yn ein barn ni, yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella'r gwasanaeth i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau gwastraff uniongyrchol yn cyfrannu bron i 10% o gyfanswm allyriadau carbon y Cyngor (2019/20), gan wneud y maes hwn yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu.

Drwy drawsnewid y ffordd rydym yn atal, casglu ac yn trin gwastraff, gallwn leihau ein hôl troed carbon yn sylweddol a chyfrannu'n uniongyrchol at nodau ehangach y Cyngor ar gyfer adfer natur a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

## Trosglwyddo i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV)

Er mwyn gweithredu'r gwasanaeth casglu a phrosesu gwastraff yn y ffordd fwyaf effeithlon ac amgylcheddol gynaliadwy, rydym yn ymrwymedig i foderneiddio ein fflyd o gerbydau. Mae'r nod hwn yn elfen allweddol o'n hymdrech i gyflawni statws Carbon Sero Net.

Ar hyn o bryd, mae bron i 100 o gerbydau disel yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu ar draws Gwynedd. Er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella perfformiad amgylcheddol, mae angen i'r fflyd hon gael ei hadnewyddu'n raddol gyda cherbydau modern ac allyriadau isel iawn (ULEVs). Fel rhan o'r trawsnewid hwn, mae dau 'telehandler' trydanol eisoes wedi'u cyflwyno i'r fflyd, gan nodi cam cadarnhaol tuag at fabwysiadu technoleg lanach. Mae hyn yn gosod sylfaen ar gyfer ehangu defnydd cerbydau trydan a hybrid mewn modd strategol a chynaliadwy.

Byddwn yn cynnal cyfnod prawf o gerbydau casglu ULEV yng ngogledd y sir i asesu eu gallu gweithredol mewn cyd-destun gwledig. Bydd canlyniadau'r cyfnod prawf yn llywio penderfyniadau ynghylch ehangu'r ddarpariaeth hon, gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cefnogaeth ariannol briodol.

Er mwyn galluogi fflyd ULEV, bydd angen isadeiledd gwefru addas, gan gynnwys mannau gwefru dros nos. Bydd hyn yn rhan o'n hadolygiad isadeiledd ehangach, gyda lleoliadau'n cael eu cynllunio'n strategol i sicrhau'r ystod orau bosibl a chysylltedd effeithlon â llwybrau casglu a safleoedd gwaredu.

## Gwella effeithlonrwydd y llwybrau casglu

Byddwn yn defnyddio meddalwedd rheoli asedau i fonitro ac optimeiddio effeithlonrwydd y gwasanaeth, gan gynnwys olrhain casgliadau a fethwyd. Bydd hyn yn ein galluogi i leihau

allyriadau carbon diangen o'n fflyd bresennol, a nodi cyfleoedd i wella llwybrau a pherfformiad gweithredol.

## Buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy

Er mwyn darparu gwasanaeth sy'n symud tuag at garbon niwtral, rydym yn cydnabod yr angen i archwilio pob cyfle i leihau allyriadau carbon. Mae ein hadeiladau a'n daliadau tir yn cynnig potensial sylweddol i gefnogi'r trawsnewid hwn drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy i bweru isadeiledd y gwasanaeth, ac o bosibl gyfrannu ynni i'r grid lleol.

Fel rhan o'n hadolygiad isadeiledd, byddwn yn cynnal astudiaethau ymarferoldeb ar safleoedd presennol ac ar safleoedd posibl yn y dyfodol i archwilio'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, megis paneli solar ffotofoltäig. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i wireddu'r uchelgais hwn lle bo hynny'n ymarferol ac yn gynaliadwy.

Drwy fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, gallwn leihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, lleihau costau gweithredu yn y tymor hir, a chyfrannu'n uniongyrchol at nod ehangach y Cyngor o fod yn sero net carbon ac yn ecolegol bositif.

## Adfer a Thrawsnewid Safleoedd Tirlenwi yng Ngwynedd

Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith trawsnewid sydd eisoes ar y gweill ar ddau gyn-safle tirlenwi yng Ngwynedd: Llwyn Isaf a Ffridd Rasus.

Mae'r safleoedd hyn yn enghreifftiau o sut y gellir adfer tir a fu gynt yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tirlenwi i greu cynefinoedd naturiol cyfoethog sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth ac at ein hymrwymiad i fod yn Sero Net.

## Llwyn Isaf

Mae Llwyn Isaf yn cynnwys dwy ardal a gafodd eu llenwi â gwastraff yn ystod yr 1980au cynnar, gyda chyfanswm o tua 600,000 tunnell o wastraff cartref a masnachol. Mae'r safle hefyd yn cynnwys 32 acer o laswelltir wedi'i wella.

Mae gwaith adfer sylweddol wedi arwain at drawsnewid yr ardal:

- Mae'r ddôl wlyb ar wyneb y twll tirlenwi wedi'i hehangu, ei gwella a'i chyfoethogi, gan greu cynefin sy'n cynnal amrywiaeth eang o fywyd gwyllt.
- Plannwyd 15,000 o goed a llwyni, ynghyd â gwrychoedd estynedig, gan greu cynefin mosaig cysylltiedig ar draws y safle.
- Crëwyd pedwar pwll a gwlypdir newydd, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn rhywogaethau dyfrol.
- Mae'r ddôl flodau gwyllt yn darparu cynefin cynhyrchiol ar gyfer pryfed peillio a mamaliaid bychan.
- Mae nifer sylweddol o flychau ystlumod ac adar wedi'u gosod ar draws y safle, gan gryfhau'r cynefin naturiol.

## Ffridd Rasus

Mae Ffridd Rasus yn cynnwys dau safle tirlenwi a gaewyd, a ddechreuodd dderbyn gwastraff yn 1981, gyda chyfanswm o tua 1.26 miliwn tunnell o wastraff cartref a masnachol. Mae'r safle'n ffinio ag ardal o 79 acer o laswelltir asid prin, sy'n gynefin o bwysigrwydd ecolegol uchel.

Mae'r gwaith adfer wedi cynnwys:

- Plannu dros 5,000 o goed, gan greu amrywiaeth o gynefinoedd ar draws wyneb y safle tirlenwi.
- Datblygu tua 40 acer o ddôl flodau gwyllt a chynefin llwyni cymysg.
- Creu cyfres o byllau mawr cysylltiedig yn y lagŵn ddraenio, wedi'i leinio â malurion llechi sych. Gan nad oedd dŵr sefyll ar y safle o'r blaen, mae hyn wedi arwain at gynnydd dramatig mewn bywyd dyfrol a thirfesur bioamrywiaeth.
- Gosod blwch ystlumod ac adar ar draws y safle, gan gynnwys man nythu ar gyfer gweilch ar y ffin orllewinol.

# 9. Amcan allweddol 6: Isadeiledd sy'n addas i'r dyfodol

## Buddsoddi yn ein Hisadeiledd Gwastraff i Ddarparu ar gyfer Gofynion y Dyfodol

Mae ein hisadeiledd presennol yn chwarae rôl ganolog wrth gefnogi ein gweithrediadau i storio, trin a rhoi gwastraff ac ailgylchu mewn swmp. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys:

- Pedwar depo cerbydau, lle cedwir cerbydau casglu gwastraff ac ailgylchu dros nos.
- Dwy orsaf drosglwyddo gwastraff yng Nghaernarfon a Harlech, ynghyd â defnyddio safle trosglwyddo preifat ar gyfer gwastraff ac ailgylchu o gartrefi, gweithleoedd a Chanolfannau Ailgylchu cyn eu hanfon ymlaen i'w prosesu.
- Caergylchu, cyfleuster ailgylchu deunyddiau a sefydlwyd yn 2005 mewn partneriaeth ag Antur Waunfawr a Chwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf. Mae'r cyfleuster yn trin tua 15,000 tunnell o bapur, plastig, caniau a chardfwrdd bob blwyddyn, ond rydym yn cydnabod ei fod bellach yn gweithredu ar ei gapasiti.
- GwyriAD Biogen, cyfleuster treuliad anaerobig 11,500 tunnell yn Llwyn Isaf, sy'n prosesu gwastraff bwyd o gartrefi a busnesau i gynhyrchu gwrtaith (digestate) gwerthfawr a digon o drydan adnewyddadwy i bweru dros 700 o gartrefi bob blwyddyn.
- Wyth Canolfan Ailgylchu ar draws y sir ar gyfer gwastraff cartref.
- Tri safle tirlenwi sydd wedi cau yng Nghilgwyn, Ffridd Rasus a Llwyn Isaf, lle rydym wedi gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i greu cynefinoedd ecolegol newydd.

## Heriau ac Uchelgeisiau ar gyfer y Dyfodol

Yn yr arolwg, nododd 76% o ymatebwyr ei bod yn bwysig trin a phrosesu gwastraff yn lleol, gyda chefnogaeth glir i'r manteision economaidd lleol sy'n deillio o hyn.

Mae'r Strategaeth hon yn anelu at gasglu ac ailgylchu ystod ehangach o ddeunyddiau, yn ogystal â chynyddu cyfaint y deunyddiau hynny. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni gyflawni ein targed o fod yn Sero Net carbon.

Er mwyn gwneud hyn, mae'n hanfodol ein bod yn moderneiddio ein hisadeiledd presennol i sicrhau ei fod yn:

- gallu ymdopi â chynnydd mewn capasiti,
- cydymffurfio â gofynion hawlenni a rheoleiddio,
- cefnogi trawsnewid i wasanaeth sy'n sero net carbon,
- galluogi gwasanaeth mwy effeithlon, dibynadwy ac integredig.

## Ein Hymrwymiad i Fuddsoddi

Er mwyn cefnogi amcanion strategol y Strategaeth hon, byddwn yn ceisio buddsoddi yn ein hisadeiledd gwastraff i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i:

- ddarparu gwasanaeth effeithiol,
- cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol,

- gwella perfformiad amgylcheddol, ac
- gyflawni'r amcanion a nodir yn y Strategaeth hon.

## Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff

- Buddsoddi yn ailddatblygu safleoedd trosglwyddo gwastraff Harlech a Chaernarfon er mwyn sicrhau eu bod yn addas i dderbyn y cynnydd disgwyliedig yn nifer a mathau o ddeunyddiau yn y dyfodol, yn cydymffurfio â gofynion hawlenni modern, ac yn cynnal ansawdd y deunyddiau i sicrhau'r prisiau incwm gorau posibl.
- Ailddatblygu ein hisadeiledd i'n galluogi i ddatgarboneiddio ein gweithrediadau, gan sicrhau ei fod yn cefnogi cerbydau allyriadau isel iawn ac yn archwilio cyfleoedd i ddefnyddio ffermydd solar i bweru ein gweithrediadau yn uniongyrchol lle bo hynny'n ymarferol.
- Ymgorffori mesurau arbed ynni wrth ailddatblygu safleoedd, gan sicrhau bod ein cyfleusterau'n fwy effeithlon ac yn cyfrannu at ein targedau sero net.
- Addasu safleoedd presennol a rhai yn y dyfodol fel eu bod yn wydn i effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â gwres eithafol neu ddŵr gormodol.
- Archwilio arloesedd a defnyddio technoleg i wneud ein safleoedd prosesu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gan wella perfformiad gweithredol a chynyddu'r gallu i drin deunyddiau'n gynaliadwy.

**Canolfannau ailgylchu**

- Ei gwneud yn haws i drigolion roi eitemau i'w hailddefnyddio yn ein Canolfannau Ailgylchu, ac yn ehangu ein partneriaethau gyda sefydliadau lleol i adfer ac ailgyfeirio eitemau y gellir eu hailddefnyddio.
- Adolygu darpariaeth ein Canolfannau Ailgylchu er mwyn sicrhau gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n cynyddu cyfraddau ailgylchu. Bydd hyn yn cynnwys gwella hygyrchedd, trefniadaeth a chysondeb arwyddion i wella profiad y cwsmer. Gall yr adolygiad hefyd ystyried dulliau amgen o ddarparu'r gwasanaeth, megis cyflwyno canolfannau ailgylchu symudol lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol.

## 10. Monitro a gwerthuso

Rydym am sicrhau bod ein strategaeth yn darparu ar gyfer pobl Gwynedd ac yn gosod llwybr ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol. Rydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud os ydym am weithredu'n fwy effeithiol. Bydd ein cynllun cyflawni yn ceisio adeiladu ar ein cryfderau presennol ond hefyd fynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu datblygu. Byddwn yn ymrwymo i raglen flynyddol o werthuso a monitro a fydd yn asesu perfformiad y strategaeth yn erbyn y mesurau a gytunwyd.

Prif nod y strategaeth hon yw gosod yr egwyddorion a'r prif uchelgeisiau y bydd tîm ailgylchu a gwastraff Gwynedd yn eu cyflawni, yn glir.

Mae'n lasbrint sy'n cyfleu pa mor uchelgeisiol yr ydym am fod wrth geisio darparu gwasanaeth sy'n cwrdd â'r heriau o gwrdd â tharged ailgylchu o 70% a dod yn wasanaeth sero net. Yr unig ffordd y gallwn gyflawni'r uchelgais honno a gwneud cyfraniad cryf i daclo argyfyngau hinsawdd a natur i genedlaethau'r dyfodol yw drwy annog datrysiadau creadigol ac arloesol i'r heriau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

## Fframwaith Perfformiad Statudol a Strategol y Strategaeth Wastraff

Mae'r fframwaith perfformiad hwn yn diffinio'r mesurau allweddol a fydd yn llywio, monitro a llywodraethu cyflawni'r Strategaeth Wastraff. Mae'n darparu cysylltiad clir rhwng cydymffurfiaeth statudol, cynaliadwyedd ariannol, perfformiad gwasanaeth, a lleihau carbon, gan sicrhau bod y Strategaeth yn gadarn, yn fesuradwy ac yn atebol.

1. Mesuriadau a deilliannau Craidd (Statudol a Strategol)

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) | Diffiniad / Mesur | Prif Risgiau | Cyfleoedd os caiff ei gyflawni | Effaith ar Gostau | Cyfraniad ar y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Ailgylchu Cartrefi (%) | Canran y gwastraff cartref a gaiff ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio | Dirwyon statudol (£600k–£750k y flwyddyn), erydiad hyder y cyhoedd a risg i enw da | Osgoi dirwyon; cryfhau achos cyllido; cynyddu hyder y cyhoedd | ↓ costau gwaredu; ↑ incwm EPR | Cynnal ≥70% erbyn 2026 a thrwy gydol oes y Strategaeth hyd at 2030. |
| Gwastraff Gweddilliol fesul Cartref (kg/cartref/blwyddyn) | Kg o wastraff gweddilliol (bin du) fesul cartref y flwyddyn | Lleihau amlygiad i ETS; costau trin a gwaredu; allyriadau carbon uwch | Cefnogi targedau datgarboneiddio corfforaethol; lleihau dibyniaeth ar EfW; arbedion hirdymor | ↓ costau EfW ac ETS | Lleihau o tua 300kg i ≤250kg fesul cartref erbyn 2030 |

2. Mesurau sy’n gyrru 70% - Disgwylir i’r cynlluniau isod gyfrannu isafswm o 6.5pt tuag at y targed ailgylchu o 70%

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) | Diffiniad / Mesur | Prif Risgiau | Cyfleoedd os caiff ei gyflawni | Effaith ar Gostau | Cyfraniad ar y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleihau Deunyddiau Ailgylchadwy yn y Gwastraff Gweddilliol | Lleihau canran y deunyddiau ailgylchadwy sy’n parhau yn y gwastraff gweddilliol o tua 57% i ≤35%. | Methiant strwythurol i gyrraedd 70% | Sail dystiolaeth glir ar gyfer newid gwasanaeth; cynnydd incwm ailgylchu; gostyngiad mewn costau | ↓ costau ETS ac EfW; ↑ incwm | Cynyddu deunyddiau ailgylchu o 12%, |
| Cyfradd Dal Gwastraff Bwyd o 25% | Canran y gwastraff bwyd a gaiff ei ddal o’i gymharu â chyfansoddiad WRAP | Colli gwerth AD; gwaredu carbon uchel | Cynyddu effeithlonrwydd a gwerth lleol GwyriAD | ↓ costau EFW a ETS; ↑ effeithlonrwydd AD | Dal >80% o’r gwastraff bwyd sydd ar gael. |
| Lleihau gwastraff sy’n cael ei gynhyrchu o 12% | Lleihau cyfaint y bin gweddilliol i 60L yr wythnos | Methiant strwythurol i gyrraedd 70%; Gwrthwynebiad i newid | Mae atal gwastraff a chyfyngu capasiti yn elfennau hanfodol i newid ymddygiad a chynnal perfformiad uchel. | ↓ costau ETS ac EfW; | Gostyngiad o 12% yn y gwastraff a anfonir i Barc Adfer erbyn 2030. |
| Ailgylchu Masnachol a Chydymffurfiaeth Busnes | Canran y busnesau sy’n cydymffurfio â gofynion gwahanu a’r gyfradd ailgylchu fasnachol. | Diffyg cydymffurfiaeth busnesau â gofynion gwahanu, gan arwain at bwysau gorfodi a cholli incwm. | Sail dystiolaeth glir ar gyfer newid gwasanaeth | ↑ incwm; ↓ gwaredu | Cynyddu ailgylchu masnachol o tua 47% i ≥60%. |
| Ailgylchu Gwastraff Stryd** | Canran y gwastraff stryd caiff ei ailgylchu | Methiant strwythurol i gyrraedd 70%. | Sail dystiolaeth glir ar gyfer newid gwasanaeth | ↓ costau ETS ac EfW; | Ailgylchu 50% o wastraff biniau stryd, gan gyfrannu hyd at 1% at y targed ailgylchu;. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Casglu plastigion meddal | Canran y plastigion meddal yn y ffrwd wastraff sy’n cael eu dal drwy’r gwasanaeth casglu ar wahân | Methiant strwythurol i gyrraedd 70%, pwysau gan y cyhoedd | Cynorthwyo i ddargyfeirio gwastraff o’r bin gweddilliol | ↓ costau ETS ac EfW; | Dal >80% o’r plastigion meddal erbyn 2028 Cyfraniad o ≥1% at y gyfradd ailgylchu statudol |
| Agor bagiau duon yn y canolfannau ailgylchu | Canran y gwastraff gweddilliol a dderbynnir mewn CA sy’n cael ei adnabod fel ailgylchadwy ac yn cael ei ddargyfeirio. | Methiant strwythurol i gyrraedd 70%. | Sail dystiolaeth glir ar gyfer newid gwasanaeth | ↓ costau ETS ac EfW; | Ailgylchu o leiaf 85% o’r gwastraff. Cyfraniad o ≥1% at y targed ailgylchu |
| Datblygu Marchnadoedd Ailgylchu Newydd (Pren a Matresi) | Canran y pren a’r matresi a gesglir sy’n cael eu hailgylchu neu eu hailddefnyddio. | Methiant strwythurol i gyrraedd 70%.; ymddygiad marchnadoedd ailgylchu | Sail dystiolaeth glir ar gyfer newid gwasanaeth | ↑ cyfrannu ar y targed statudol;<br>↓ costau gwaredu | Ailgylchu ≥50% o’r pren a gesglir erbyn 2028. Cyfraniad o ≥1.5% at y targed ailgylchu |

** dim yn rhan o’r Strategaeth hon

## 3. Mesurau Perfformiad Gwasanaeth a Chwsmer

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) | Diffiniad / Mesur | Prif Risgiau | Cyfleoedd os caiff ei gyflawni | Effaith ar Gostau | Cyfraniad ar y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Casgliadau a Fethwyd | Biniau a fethwyd fesul 100,000 o gasgliadau | Cwynion; erydiad ymddiriedaeth | Cynyddu cyfranogiad a chydymffurfiaeth | ↓ cwynion<br>↓ costau ail-gasglu | ≤60 o gasgliadau a fethwyd fesul 100,000 erbyn 2027 |
| Cynaliadwyedd Ariannol | Gweithredu'r gwasanaeth o fewn cyllideb a galluogi buddsoddi a newid. | Gorwariant | Pontio o "rheoli costau" i reoli risgiau ariannol tymor hir | Cyfleoedd i arbed | Sefyllfa ariannol niwtral o ran cyllideb erbyn 2028 drwy effeithlonrwydd, incwm a lleihau costau |
| Twf Cwsmeriaid Masnachol | Nifer y cwsmeriaid masnachol gweithredol a chanran cadw. | Colli'r farchnad i'r sector preifat | Effeithlonrwydd maint | ↑ incwm net | Cynyddu nifer o fusnesau sydd efo cytundebau masnachol |

## 4. Mesurau Economi Gylchol ac Ailddefnyddio

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) | Diffiniad / Mesur | Prif Risgiau | Cyfleoedd os caiff ei gyflawni | Effaith ar Gostau | Cyfraniad ar y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Tunellau Ailddefnyddio | Tunelloedd o wastraff wedi'u dargyfeirio i ailddefnyddio fesul 1,000 o gartrefi, drwy CA, partneriaethau cymunedol a mentrau trydydd sector. | Colli gwerth cymdeithasol | Creu swyddi; budd cymunedol | ↓ costau gwaredu;<br>↑ gwerth cymdeithasol | Budd carbon uchel |
| Nifer y Mentrau Ailddefnyddio / Atgyweirio | Nifer y mentrau ailddefnyddio ac atgyweirio gweithredol, gyda mesur effaith (tunellau, swyddi, gwirfoddolwyr | Darpariaeth dameidiog | Gwelededd yr economi gylchol | ↑ cost isel / effaith uchel | Newid diwylliannol |

## 5. Mesurau Carbon a Rheoli Costau

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) | Diffiniad / Mesur | Prif Risgiau | Cyfleoedd os caiff ei gyflawni | Effaith ar Gostau | Cyfraniad ar y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau Carbon o wastraff | Allyriadau $tCO_2e$ fesul tunnell o wastraff a gesglir a'i brosesu. | Methu targed Sero Net | Trosoledd cyllido; arweinyddiaeth | ↓ tanwydd | Gwasanaeth Carbon Isel |
| Fflyd Cerbydau Allyriadau Isel/Sero (ULEV) (%) | Canran y fflyd sy'n gerbydau allyriadau isel neu sero, gyda cherrig milltir interim. | Ansefydlogrwydd pris tanwydd | Arbedion hirdymor | ↓ costau tanwydd a chynnal a chadw | Gwasanaeth Carbon Isel |

## 6. Mesurau Gwella Isadeiledd

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) | Diffiniad / Mesur | Prif Risgiau | Cyfleoedd os caiff ei gyflawni | Effaith ar Gostau | Cyfraniad ar y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella isadeiledd prosesu gwastraff | Canran y capasiti prosesu gwastraff sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion deddfwriaethol, gweithredol a'r dyfodol. | Methu cydymffurfio efo gofynion deddfwriaethol; colled incwm; dibyniaeth ar gyllid allanol | Arloesedd gyda AI | ↑ buddsoddiad uchel | Bod Ffridd Rasus a Caergylchu yn addas i bwrpas |

Cyngor Gwynedd

## Atodiad 2 – Tabl yn dangos ymrwymiadau EPR fesul blwyddyn.

****Nodir mai amcangyfrifon yw'r rhain ar hyn o bryd, a bydd angen gwaith pellach i'w mireinio a chytuno ar y costau a'r darpariaethau terfynol.**

| Crynodeb o Gostau a Chyllid EPR (2026–2030) | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 |
|---|---|---|---|---|---|

### Categori 1: Materion sydd angen gwneud darpariaeth ar eu cyfer "rhag ofn"

### Grantiau a Chyllid Craidd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grant EPR** | **3,713,054** | **4,807,530** | **4,807,530** | **4,807,530** | **4,807,530** |
| Colli Grant SWMG (dim angen darpariaeth ar hyn o bryd) | - | - | - | - | - |
| Treth Allyriadau Carbon (ETS) | - | | | -800,000 | -800,000 |
| **EPR ar gael (os ariannir y bwlch ETS)** | **3,713,054** | **4,807,530** | **4,807,530** | **4,007,530** | **4,007,530** |

### Darpariaeth Dirwyon

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Darpariaeth Dirwy (gwneud dim)** | -610,000 | -610,000 | -610,000 | -610,000 | -610,000 |
| **Arbedion i'r ddirwy o gyflawni cynlluniau sy'n cynyddu'r targed.** | | | | | |
| Cynllun lleihau gwastraff | | | 138,400 | 276,800 | 276,800 |
| Cynyddu tunnell bwyd o 25% | | | | 41,500 | 41,500 |
| Cynyddu ailgylchu o fusnesau | | | 27,800 | 55,600 | 55,600 |
| Ailgylchu uwch o goed a matresi | | 195,000 | 195,000 | 195,000 | 195,000 |
| Ailgylchu 50% o wastraff stryd | | | 58,500 | 117,000 | 117,000 |
| Agor Bagiau duon mewn CA | | 83,200 | 83,200 | 83,200 | 83,200 |
| Casglu plastigion meddal | | | 18,300 | 73,200 | 73,200 |
| Arall | | 18,000 | 18,000 | 18,000 | 18,000 |
| | | ***296,200*** | ***539,200*** | ***860,300**** | ***860,300**** |
| **EPR ar gael (os ariannir y bwlch dirwyon)** | **3,103,054** | **4,493,730** | **4,736,730** | **4,007,530** | **4,007,530** |

*Dim dirwy

### Categori 2: Cyflawni Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu 2025-2030

### Costau Cynlluniau i Gyrraedd y Targed Ailgylchu 70%

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau gweithredu (yn flynyddol)** | | | | | |
| Cynllun lleihau gwastraff | | 200,000 | 200,000 | | |
| Hyrwyddo, ymgysylltu a gorfodaeth | | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 |
| Cynyddu tunnell bwyd o 25% | | 75,000 | 75,000 | | |
| Cynyddu ailgylchu o fusnesau | | 75,000 | 75,000 | | |
| Ailgylchu uwch o goed a matresi | | 150,000 | 150,000 | 150,000 | 150,000 |
| Ailgylchu 50% o wastraff stryd | | | 75,000 | 150,000 | 150,000 |
| Agor Bagiau duon mewn CA | | - | - | - | - |
| Casglu plastigion meddal | | | 650,000 | 650,000 | 650,000 |
| Ailgylchu cewynnau | | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 |
| **Cyfanswm costau** | | **775,000** | **1,500,000** | **1,225,000** | **1,225,000** |

**Buddsoddiadau ar gyfer Cynnal Safleoedd Presennol.**

| | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian cyfatebol CA Dolgellau | | 21,750 | | | |
| Arian cyfatebol CA Pwllheli | | 31,750 | | | |
| Costau cynnal a chadw safleoedd | 386,000 | 250,000 | 250,000 | 250,000 | 250,000 |
| Gwella Prosesau a Thrin (peiriannau) | 1,000,000 | 1,000,000 | - | - | - |
| Newidiadau i drwyddedau safleoedd | | 50,000 | 50,000 | 50,000 | |
| Datgarboneiddio fflyd | | | | 500,000 | 500,000 |
| Gwella depos casglu gwastraff | | 250,000 | | | |
| Gweithiau i uwchraddio safleoedd Ffridd Rasus a Caergylchu os nad yw'r datblygiadau am safle newydd yn cychwyn yn fuan | | | *960,000*** | | |
| **Cyfanswm costau ymrwymiadau eraill** | **1,386,000** | **1,603,500** | **300,000** | **800,000** | **750,000** |

**Categori 3: Sefydlu Cronfa Cydariannu i Ddatblygu Safleoedd y Dyfodol yng Nghaernarfon a Harlech**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Cydariannu Safleoedd y Dyfodol** | **1,247,574*** | **2,115,230** | **2,936,730**** | **1,982,530** | **2,032,530** |

*Cynnwys £469,480 i ddelio efo gorwariant 25-26
** Argymhellir rhoi y swm yma mewn Cronfa Cydariannu

Byddai unrhyw gyllid na defnyddir yn cael ei gadw mewn cronfa

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae chwe phrif amcan wedi adnabod yn y Strategaeth.

- Sut rydem yn cyfathrebu ac ymgysylltu - un o'n prif amcanion strategol yw sicrhau fod trigolion, busnesau a'r gymuned yn ehangach yn deall ac yn ymrwymedig efo ein hamcanion. Mae'n amhosibl inni gyrraedd ein hamcanion yn ynysig fel Cyngor Gwynedd a byddwn angen help ac ymroddiad pob preswylydd a busnes yng Ngwynedd i'n cefnogi i gyrraedd y weledigaeth. Byddwn ni yn arwain y ffordd drwy roi cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu yn ei le, ac yn asesu effeithlonrwydd ein hymgyrchoedd ac yn addasu yn dilyn adborth a dadansoddi data. Mi fyddwn hefyd yn grymuso criwiau i adnabod eiddo sy'n cael trafferth i ailgylchu, gwella hygyrchedd a hyfforddi gweithwyr safle ein Canolfannau Ailgylchu, saernïo ein busnes Gwastraff Masnachol, ac ystyried gorfodi o dan bwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd.

- Lleihau gwastraff, ailddefnyddio a thrwsio - rydem angen rheoli ein gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff, gan leihau'r gwastraff rydem yn ei gynhyrchu a symud tuag at feddylfryd economi gylchol. Byddwn yn defnyddio ein Canolfannau Ailgylchu fel pwynt i hybu ailddefnyddio a thrwsio deunyddiau.

- Cynyddu Ailgylchu - mae rhaid inni gwrdd â'r targed cenedlaethol i ailgylchu 70% o'n gwastraff. Mae bygythiad y gallwn wynebu dirwyon am fethu'r targed, ond mae dadansoddiad diweddar wedi dangos y gall 57% o'r gwastraff yn y bin gwyrdd gael ei

ailgylchu. Mae'r deunyddiau ailgylchu yn y bin gwrdd yn gostus i'w losgi ond hefyd yn cynnwys deunyddiau 'fossil-based' sy'n rhyddhau allyriadau carbon diangen. Mi fyddwn yn ystyried lleihau capasiti wythnosol y bin gwyrdd [amylder casglu] er mwyn annog mwy o ailgylchu a byddwn yn ystyried cynnig cyfleusterau i allu ailgylchu mwy o ddeunyddiau. Byddwn hefyd yn cydweithio efo busnesau drwy'r ochr Gwastraff Masnachol i uchafu ailgylchu o'r gweithle a busnesau yn gyffredinol.

- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel - rydem yn angerddol ein bod eisiau rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i'n trigolion a busnesau yma yng Ngwynedd ac ein bod drwy hynny yn cael lefel bodlonrwydd uchel. Byddwn yn gwarchod y gwasanaethau craidd ond ni fyddwn ofn mentro a chymryd cyfleoedd i symbylu cynnydd yn y maes yma, megis defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.
- Cyflawni sero net - yn ymochrol efo amcanion strategol y Cyngor byddwn yn mynd ati i leihau ein hallyriadau carbon a gweithio at greu gwasanaeth sero net. Bydd hyn yn golygu newid ein fflyd i rai di-garbon / carbon isel (ULEV), gwella effeithlonrwydd ein cylchdeithiau, edrych am gyfleoedd i osod ynni adnewyddadwy yn ein safleoedd a pharhau i fuddsoddi yn ecoleg yr hen safleoedd tirlenwi.
- Sicrhau isadeiledd addas i'r dyfodol - un arall o'n prif amcanion am y tymor byr ydi gwella safon ein deunyddiau ailgylchu i'r farchnad, ac mae hyn yn cwmpasu buddsoddiad sylweddol yn ein safleoedd trin a phrosesu deunyddiau yn Harlech a Caernarfon. Byddwn yn edrych am gyfleoedd i brosesu mwy o'r defnyddiau ein hunain yn hytrach na bod yn rhy ddibynnol ar y sector breifat a byddwn yn gwella hygyrchedd ein Canolfannau Ailgylchu.

## 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Roland Thomas, Pennaeth Adran Cynorthwyol – Adran Amgylchedd

## 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mae materion cydraddoldeb wedi cael ystyriaeth wrth i'r cynigion gael eu datblygu. Mae rhain wedi eu cynnwys yn yr asesiad yma a baratowyd gyntaf ym mis Mai 2025, ond wedi ei ddiweddaru yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

| |
|---|
| Ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2025. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Cafwyd caniatad gan y Cabinet i fynd allan i ymgynghori yn gyhoeddus ar y Strategaeth ar 10/06/2025. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng Hydref a Tachwedd 2025 gyda 1,266 o ymatebion.

Roedd modd llenwi'r arolwg ar bapur neu ar-lein, gyda fersiynau hawdd eu darllen hefyd wedi eu darparu. Fe hyrwyddwyd yr arolwg trwy ddatganiadau i'r wasg, negeseuon amlwg ar wefan y Cyngor ar dudalennau perthnasol a chyfres o negeseuon ar gyfrifon cymdeithasol corfforaethol. Fe gyhoeddwyd cardiau i'w rhannu gyda defnyddwyr y canolfannau ailgylchu yn hyrwyddo'r arolwg, rhaeadrwyd gwybodaeth i rhanddeiliaid allweddol a chynhaliwyd nifer o sesiynau galw-heibio mewn canolfannau (llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden) i annog cyfranogiad.

Dadansoddwyd yr ymatebion gan CRS/WRAP gan ddefnyddio dull systematig er mwyn nodi themâu allweddol, lefelau cefnogaeth, a meysydd pryder neu welliant. Roedd y sampl yn cynrychioli'r boblogaeth yn dda o ran lleoliad a demograffeg, er bod rhai gwahaniaethau oedran a rhywedd.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ar y gwaith yn y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu ar 12/09/2024 i'r Pwyllgor Craffu Cymunedol. Crynodeb y cyflwyniad oedd "bod yr Adran wedi gweithredu ar nifer o faterion ac wedi gweld cynnydd ar amryw o brosiectau yn ystod y ddwy flynedd bellach. Mae'r Adran wedi llunio rhaglen waith manwl i'n galluogi i adolygu rhai meysydd ymhellach a chynnig datrysiadau i sicrhau fod y maes Gwastraff ac Ailgylchu yn cynnig gwasanaethau effeithlon, safonol a diogel, a'n bod yn parhau i gyfarch targedau ailgylchu uchelgeisiol Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf. Rydem yn dawel hyderus ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir ac ein bod yn gallu dangos gwelliant yn y gwasanaethau.

**2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Dim |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Dim yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir. Fodd bynnag, fe fyddwn yn gofalu bod ein gohebiaeth a'n negeseuon yn ddigon clir (ac yn cynnwys digon o luniau) er mwyn sicrhau bod ein trigolion ble nad y Gymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn deall ein negeseuon.<br><br>Mae rhai pobl o wahanol cenedligrwydd yn naturiol byw o fewn eiddo sy'n cartrefu teuluoedd estynedig. Mae 3,143 (6.1%) o drigolion yn byw mewn aelwydydd efo 5 person neu fwy. Mi fyddwn yn asesu'r cartrefi yma i sicrhau bod nifer a chyfaint y cyfarpar yn ddigonol. Mae hyn yn berthnasol i dai aml-denantiaeth (HMO). |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir. Byddwn yn parhau i sicrhau fod arwyddion, negeseuon ac unrhyw feddalwedd newydd yn ddwyieithog. |
| **Anabledd** | Dim | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir.<br><br>Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth casglu Cynhyrchion Hylendid Amsugnol (AHP) ac yn parhau i gynnig casgliadau o ddrws cefn. Yn ogystal mae'r gwasanaeth casgliad swmpus yn bodoli.<br><br>Mi fyddwn yn ystyried fod ein poblogaeth yn mynd hyn ac efallai yn datblygu cyflyrau sy'n eu diffinio yn anabl (e.e. dementia). Mi fyddwn yn ceisio sicrhau bod ein negeseuon mor hawdd â phosibl i'w dilyn, a bod ein system ailgylchu hefyd yn aros yn syml.<br><br>Fe fyddwn yn gwrando os oes angen bin mwy neu gyfarpar ychwanegol ar gyfer papur a chardfwrdd ar gyfer gwastraff meddygol a all gael ei gynhyrchu.<br><br>Er mai ein dyhead yw bod ein trigolion yn defnyddio sachau hesian i ailgylchu, mi fyddwn yn parhau i gynnig y system troli i rai syth methu cario neu ddefnyddio'r sachau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Fe all dyddiau casglu gwahanol achosi cymhlethdod i bobl sydd efo problemau cofio neu yn dioddef efo iechyd meddwl, a byddwn yn gwneud ein gorau i geisio lleddfu hyn drwy gyfathrebu yn gyson a chlir.<br><br>Gall pobl ddall, rhannol ddall, neu liwddall gael trafferthion efo gwahaniaethu rhwng sachau hesian, a byddwn yn ymgynghori efo'r grŵp yma cyn dewis lliwiau a sicrhau fod lluniau eglur ar y sach i wahaniaethu rhwng math o wastraff.<br><br>Byddwn yn ystyried gorfodi os ydi biniau yn cael eu gadael ar y palmant am amser hir wedi i'r casgliad gymryd lle. Nid ydym am i'n cyfarpar fod yn rhwystr i bobl mewn cadair olwyn neu ddall ddefnyddio palmentydd.<br><br>Mi fyddwn yn ystyried "awr dawel" yn ein canolfannau ailgylchu ble bydd pobl hyn neu gyda anableddau yn gallu dod i'n safleoedd heb orfod archebu slot.<br><br>Mae risg y gallai'r rhai sy'n anabl gael trafferth gwahanu eu gwastraff i'w ailgylchu ac felly gallant gynhyrchu gwastraff gormodol. Os bydd preswylydd yn cael ei nodi fel un nad yw'n gallu gwahanu ei wastraff, darperir cymorth ychwanegol. |
| **Rhyw** | Dim | Dim yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir.<br><br>Bydd ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn defnyddio iaith gynhwysol, gan osgoi gwahaniaethu ar sail hunaniaeth rhywedd |
| **Oedran** | Dim | Dim yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir.<br><br>Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth casglu Cynhyrchion Hylendid Amsugnol (AHP) ac yn parhau i gynnig casgliadau o ddrws cefn. Yn ogystal mae'r gwasanaeth casgliad swmpus yn bodoli.<br><br>Rydem yn gwybod bod 11% o boblogaeth Gwynedd dros 75 oed heddiw ac felly byddwn yn ceisio sicrhau bod ein negeseuon mor hawdd â phosibl i'w dilyn, a bod ein system ailgylchu hefyd yn aros yn syml.<br><br>Fe fyddwn yn gwrando os oes angen bin mwy neu gyfarpar ychwanegol ar gyfer papur a chardfwrdd ar gyfer gwastraff meddygol a all gael ei gynhyrchu.<br><br>Er mai ein dyhead yw bod ein trigolion yn defnyddio sachau hesian i ailgylchu, mi fyddwn yn parhau i gynnig y system troli i rai syth methu cario neu ddefnyddio'r sachau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Fe all dyddiau casglu gwahanol achosi cymhlethdod i bobl hyn sydd efo problemau cofio, a byddwn yn gwneud ein gorau i geisio lleddfu hyn drwy gyfathrebu yn gyson a chlir.<br><br>Mi fyddwn yn ystyried “awr dawel” yn ein canolfannau ailgylchu ble bydd pobl hyn yn gallu dod i’n safleoedd heb orfod archebu slot.<br><br>Mae risg y gallai'r rhai pobl oedrannus gael trafferth gwahanu eu gwastraff i'w ailgylchu ac felly gallant gynhyrchu gwastraff gormodol. Os bydd preswylydd yn cael ei nodi fel un nad yw'n gallu gwahanu ei wastraff, darperir cymorth ychwanegol.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod ein strategaeth gyfathrebu yn cael ei anelu at drigolion o bob oedran yn ein cymdeithas, gan gynnwys targedu ysgolion - 20% o drigolion Gwynedd heddiw o dan 18 oed.<br><br>Mae risg o “*wishcycling*” gan ein pobl ifanc heblaw ein bod yn rhoi negeseuon clir allan am beth y gellir ei ailgylchu gan Gyngor Gwynedd. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir. Nid oes bwriad dod a’r gwasanaeth casglu clytiau i ben. Gall fwy o wastraff gael ei gynhyrchu gan blant ac efallai bydd angen ystyried os oes ceisiadau am gyfarpar ychwanegol ar sail hyn.. Byddwn yn parhau i hyrwyddo clytiau ‘go iawn’. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir. |
| **Pobl heb gar** | Dim | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol mewn unrhyw newidiadau ag argymhellir, ond yn amlwg oherwydd lleoliadau nifer o’n canolfannau ailgylchu, mae’n anymarferol iddynt gyrraedd y safle. Mi fyddwn yn parhau i gynnig y gwasanaeth casgliadau swmpus. |

**3.2 Mae’n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu’n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a**

**beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Efallai | Os bydd penderfyniad i ystyried lleihau capasiti y bin gweddilliol mi fydd rhai teuluoedd yn ei chael hi yn anodd i leihau eu gwastraff i gapasiti o 60litr yr wythnos. Mi gafodd hyn ei godi yn yr ymgynghoriad gan rai. Ond byddwn yn gweithio efo'r teuluoedd yma i'w haddysgu am ailgylchu ac fe fyddwn yn gallu cynnig bin mwy o faint i deuluoedd 'mawr'. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Dim yn berthnasol | |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Un o brif amcanion y Strategaeth yw **darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.** Rydem yn angerddol ein bod eisiau rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i'n trigolion a busnesau yma yng Ngwynedd ac ein bod drwy hynny yn cael lefel bodlonrwydd uchel. Byddwn yn gwarchod y gwasanaethau craidd ond ni fyddwn ofn mentro a chymryd cyfleoedd i symbylu cynnydd yn y maes yma, megis defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Bydd gwireddu'r Strategaeth yn cael effaith bositif ar drigolion ac ymwelwyr Gwynedd drwy:
- Ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i holl drigolion a busnesau Gwynedd
- Cyflawni amcanion Gwynedd Werdd a gwella ansawdd a gwarchod yr amgylchedd lleol
- Chwarae rhan flaenllaw i greu economi gylchol yn lleol, ble bydd nwyddau yn cael eu hailddefnyddio a thrwsio. Mae tystiolaeth yn dangos bod hyn yn gallu cynnig sgiliau a phrofiad i weithwyr, sydd efallai dan anfantais mewn gweithle confensiynol ac yn sicr all ychwanegu gwerth cymdeithasol.
- Gwella ecoleg o fewn ardal ei hen domeni sbwriel
- Lleihau costau fel bod modd buddsoddi mwy mewn gwasanaethau eraill y Cyngor

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Na.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Amherthnasol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd y tim codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu allan yn y maes yn asesu unrhyw effaith newid trefniadau casglu. Byddwn yn defnyddio data o system cwynion ac ymholiadau i fonitro effaith. |

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Chwarterol – Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb (Gorffennaf 2026) |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog perthnasol:** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Gorffennaf 2026 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron sef y pedwerydd adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

**2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2025 i gydgysylltu'r holl gefnogaeth, adolygiadau, archwiliadau a ffrydiau gwaith eraill sy'n ymwneud â'r ymateb i droseddau a gyflawnwyd gan gyn Bennaeth Ysgol, Neil Foden.

2.2 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant (*Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*) yn hydref 2025, mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Ymateb ym mis Mawrth 2026, yn unol â'r argymhellion a nodwyd.

2.3 Bu addewid i barhau i adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.

2.4 Rhennir yr adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau a'r hyn sydd wedi ac yn parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Comisiynwyd y Prif Weithredwr i roi trefniadau mewn lle i weithredu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Cabinet.

3.2 Penodwyd yr Athro Sally Holland i ymgymryd a rôl Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ym mis Chwefror 2025. Mae Sally yn Athro Gwaith Cymdeithasol yng Nghanolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn gyn Gomisiynydd Plant Cymru (2015-2022).

3.3 Fel yr addewid, bydd Sally yn adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb. Dyma'r bedwaredd o'r adroddiadau hyn (gweler adroddiadau blaenorol - Gorffennaf 2025, Tachwedd 2025, Mawrth 2026).

**4. Camau nesaf**

4.1 Gwaith y Bwrdd yn parhau gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Cabinet ar gynnydd ymhen 3 mis.

**5. Sylwadau Swyddogion Statudol.**

**5.1 Prif Swyddog Cyllid**

*Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant a nid oes gennyf sylwadau pellach i'w cynnig*

**5.2 Swyddog Monitro**

*Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu gan y Cabinet gyda Chadeirydd Annibynnol i gydlynu a sicrhau cynnydd ar y Cynllun Ymateb a fabwysiadwyd ganddo. Mae'n allweddol i'r trefniant llywodraethu hwn bod y Cabinet yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn y gwaith hollbwysig yma. Mae adroddiad gan y Cadeirydd Annibynnol, yr Athro Sally Holland yn ddull tryloyw a chadarn o ddarparu'r sicrwydd hwnnw. Rwy'n croesawu'r adroddiad diweddaraf yma.*

# ADRODDIAD CHWARTEROL I'R CABINET:
# BWRDD RHAGLEN Y CYNLLUN YMATEB

**YR ATHRO SALLY HOLLAND: CADEIRYDD Y BWRDD YMATEB**

DYDDIAD: 7 Gorffennaf 2026

---

## Cyflwyniad

Ers fy adroddiad diwethaf i'r Cabinet ym mis Mawrth 2026, mae Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb wedi parhau i oruchwylio ymateb y Cyngor i'r argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad Ymarfer Plant, *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*, a'r Cynllun Ymateb ehangach.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r datblygiadau allweddol a'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter diwethaf.

## Y Sefyllfa Gyfredol

Mae'r gwaith yn parhau ar draws pob maes o'r Cynllun Ymateb yn erbyn y saith thema allweddol:

1. Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr
2. Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant
3. Hyfforddiant a Pholisïau
4. Llywodraethu Ysgolion
5. Arferion Cyfyngol
6. Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng
7. Cefnogi Ysgol Friars

Cyflwynir adroddiadau cynnydd manwl i'r Bwrdd gan yr arweinwyr thema, gan dynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd, blaenoriaethau, risgiau a heriau, dibyniaethau a goblygiadau i adnoddau. Mae aelodau'r bwrdd wedi croesawu'r trefniadau adrodd gwell, gan nodi eu bod yn darparu mwy o eglurder ynghylch cynnydd, mesurau a chanlyniadau.

Mae datblygiadau'r chwarter hwn wedi cynnwys:

**Arolwg Estyn o Ysgol Friars**

Mae canlyniad arolwg diweddar Estyn ar Ysgol Friars, wedi'i rannu gyda'r Bwrdd. Roedd yn galonogol nodi'r gydnabyddiaeth o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers penodi'r Pennaeth Margaret Davies ym mis Ebrill 2025. Er bod yr adroddiad yn nodi meysydd sydd angen sylw pellach, nodwyd gwelliannau mewn trefniadau diogelu, arweinyddiaeth a llywodraethu'r

ysgol. Mae'r adroddiad hwn yn darparu golwg allanol bwysig i ategu'r adroddiadau mewnol am gynnydd yr ysgol y mae'r Bwrdd wedi'u derbyn o'r blaen.

**Llais y Plentyn**

Mae Strategaeth Llais y Plentyn wedi'i datblygu a'i diweddaru yn dilyn adborth gan aelodau'r Bwrdd. Mae atodiadau ategol wrthi'n cael eu cwblhau'n derfynol ar hyn o bryd, gyda'r bwriad i ymgysylltu â'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc, Grwpiau Strategol Addysg a Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd yn dilyn y cyfnod arholiadau TGAU.

Rwyf wedi ceisio sicrwydd bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu dal o ystod ddigon eang o grwpiau a phrofiadau. Yn benodol, roeddwn yn awyddus i ddeall sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â gofalwyr ifanc, plant anabl, plant sydd â phrofiad o ofal, pobl ifanc ddigartref a grwpiau eraill nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed yn rheolaidd. Roeddwn yn falch o ddeall bod Cyngor Gwynedd yn recriwtio Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogiad ymroddedig i helpu i gryfhau'r gwaith hwn.

Mae'r gwaith hwn yn nodi cam pwysig yn uchelgais Gwynedd i ddod yn Sir sy'n gyfeillgar i blant, yn dilyn fframwaith a osodwyd gan UNICEF. Mae'r dull rhagweithiol a hirdymor hwn yn nodi trawsnewidiad o fod yn ymateb i fylchau 'ar y pryd', gan ddilyn y broses Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, tuag at ddull ataliol hirdymor.

**Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant Diogelu**

Mae gwaith pellach wedi'i wneud i gryfhau ymwybyddiaeth diogelu ar draws y gweithlu. Mae fideo ymwybyddiaeth diogelu newydd wedi'i ddatblygu i wella hygyrchedd, yn enwedig ar gyfer staff nad ydynt yn cael mynediad rheolaidd i systemau'r Cyngor. Er bod y Bwrdd yn croesawu'r datblygiadau hyn, mae’n rhaid i'r ffocws nawr fod ar effaith. Mae'n bwysig bod y mentrau hyn yn arwain nid yn unig at gyfraddau cwblhau gwell ond hefyd at well dealltwriaeth o gyfrifoldebau diogelu a sut y dylid cydnabod pryderon a'u hadrodd yn ymarferol. Hefyd, rhaid i staff deimlo'n hyderus y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifri.

**Cynllunio ar gyfer Argyfwng**

Mae cynnydd yn parhau o ran datblygu trefniadau cynllunio argyfwng ar gyfer ysgolion. Roeddwn yn falch o weld bod ymgysylltiad â phenaethiaid trwy gydol y broses hon, sydd wedi darparu her briodol ac awgrymiadau adeiladol ar gyfer gwelliannau. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod trefniadau'n cael eu llywio gan brofiad gwirioneddol a'u bod yn ymarferol i ysgolion eu gweithredu. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, bydd yn bwysig sicrhau bod dealltwriaeth dda o'r cynlluniau, a'u bod yn cael eu profi a'u hymgorffori'n dda.

**Atebolrwydd Cyhoeddus a Thryloywder**

Rwy'n croesawu datblygiad y wefan sy'n wynebu'r cyhoedd, dogfen gryno sy'n addas i blant a theuluoedd, a ffeithluniau ategol sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r meysydd lle mae gwaith pellach yn parhau. Dylai'r adnoddau hyn helpu i wella tryloywder a dealltwriaeth ymhlith preswylwyr, rhanddeiliaid a goroeswyr.

Rwyf hefyd yn falch fod Cylch Gorchwyl y Bwrdd wedi'i ddiwygio a bod papurau'r Bwrdd bellach yn cael eu cyhoeddi ar ôl pob cyfarfod. Mae hwn yn gam pwysig i fod yn fwy agored a chryfhau atebolrwydd cyhoeddus.

**Blaenoriaethu Gweithgareddau**

Mae'r Bwrdd wedi adolygu fframwaith blaenoriaethu diwygiedig ar gyfer y Cynllun Ymateb. O ystyried graddfa'r gweithgarwch sydd ar y gweill, croesewir cyflwyno dull cliriach o flaenoriaethu. Er bod yr holl gamau gweithredu yn parhau i fod yn bwysig, dylai'r fframwaith helpu i sicrhau bod sylw, capasiti ac adnoddau yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n cyflwyno'r risg fwyaf ac sy'n gofyn am y gweithredu mwyaf brys.

Ym mis Mawrth, cymeradwywyd cyllideb o oddeutu £600k i gefnogi'r ffrydiau gwaith o dan y Bwrdd Rhaglen. Rwy'n croesawu'r dyraniad hwn, sy'n darparu ymrwymiad adnoddau clir i gefnogi'r gwaith cyflawni a helpu i symud ymlaen â'r rhaglen yn gyflym. Bydd y ffocws nawr ar sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r blaenoriaethau ym mhob maes gwaith.

## Craffu a Sicrwydd

**Mesurau Deilliant**

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu a mireinio mesurau effaith. Mae'r Bwrdd wedi ailadrodd pwysigrwydd canolbwyntio ar ddangosyddion ystyrlon o gynnydd, gan gynnwys adborth ansoddol gan blant a phobl ifanc. Er bod llawer iawn o waith wedi'i wneud i ddatblygu polisïau, fframweithiau a gweithdrefnau, mae'r Bwrdd yn parhau i bwysleisio'r angen i symud y tu hwnt i ddull cydymffurfio neu "ticio bocsys". Dylai mabwysiadu polisi gael ei weld fel y man cychwyn yn hytrach na'r pwynt terfynol. Y brif flaenoriaeth nawr yw deall gwir effaith y newidiadau hyn ar ymarfer y gweithlu, diwylliant sefydliadol ac, yn bwysicaf oll, diogelwch a lles plant. Mae rhai mesurau deilliant yn dechrau cael eu cyflwyno i'r Bwrdd, ac mae aelodau'r Bwrdd yn awyddus i weld mwy o'r rhain yn ystod y misoedd nesaf.

**Fframwaith Sicrwydd Ansawdd**

Mae'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar gyfer gwasanaethau plant wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r Bwrdd. Rwy'n falch o weld bod y darn pwysig hwn o waith nawr yn ei le. Mae'n gosod y

weledigaeth, y gwerthoedd a'r disgwyliadau ar gyfer gweithgarwch sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth, gan gynnwys cyfrifoldebau, trefniadau dysgu, gofynion goruchwylio a mecanweithiau ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae angen i'r ffocws nawr symud i sicrhau ei fod yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol ar draws y gweithlu a'i wreiddio mewn ymarfer dydd i ddydd, fel bod y gwelliannau a fwriedir yn cael eu gwireddu yn ymarferol yn hytrach nag aros ar lefel weithdrefnol.

**Grŵp Sicrwydd Llywodraeth Cymru**

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Sicrwydd Gweinidogol ar ôl i *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder* gael ei gyhoeddi. Yn dilyn etholiad y Senedd, mae rhywfaint o ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn ag amserlenni ac ymgysylltu yn y dyfodol, wrth i Weinidogion newydd sefydlu eu blaenoriaethau a'u trefniadau gwaith. Ar hyn o bryd, mae sefyllfa tymor hwy y grŵp hwn yn parhau i fod yn aneglur, er bod disgwyl y daw eglurder pellach wrth i'r weinyddiaeth newydd sefydlu.

Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn y Bwrdd wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiadau cenedlaethol sy'n parhau o lywodraethu diogelu a chyrff llywodraethu ysgolion. Disgwylir i ganfyddiadau'r rhain gael goblygiadau i'r holl awdurdodau lleol a byrddau diogelu rhanbarthol.

## Camau Nesaf

Wrth i'r Bwrdd symud i'r chwarter nesaf, bydd yn:

- Parhau i adolygu a chynghori ar weithrediad y Cynllun Ymateb a'r blaenoriaethau perthnasol sy'n codi o'r AYP.
- Parhau â'r gwaith ar fesur effaith, gan sicrhau bod hyn yn cael ei ddatblygu mewn ffordd gymesur a chynaliadwy.
- Parhau i adolygu rôl a hyd oes y Bwrdd fel endid ar wahân, gan gynnwys sut mae hyn yn cyd-fynd â threfniadau llywodraethu a chraffu ehangach y Cyngor. Trafodwyd hyn gyda Bwrdd Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru cyn yr etholiad. Bydd nawr angen ystyried trefniadau'r dyfodol gyda'r Llywodraeth newydd.

## Sylwadau i Gloi

I gloi, hoffwn gydnabod yr ymrwymiad a ddangoswyd gan aelodau'r Bwrdd yn ystod cyfnod o ddatblygiad parhaus ac aeddfedrwydd cynyddol yn nhrefniadau'r Bwrdd. Mae gwaith sylweddol wedi digwydd i gryfhau'r adrodd, a byddwn hefyd yn canmol cyfraniad yr arweinwyr thema am eu gwaith parhaus wrth ddatblygu a chyflawni meysydd y rhaglen. Mae

aelodau allanol ac aelodau etholedig wedi parhau i graffu a herio'n adeiladol a rhoi cyngor cefnogol trwy gydol y cyfnod hwn.

Wrth i'r Bwrdd symud i'w gyfnod nesaf, bydd angen ffocws cryfach ar fesur effaith a sicrhau bod newidiadau'n cael eu hymgorffori'n briodol mewn ymarfer. Fel rhan o hyn, bydd hefyd yn bwysig parhau i ystyried rôl tymor hwy y Bwrdd, gan sicrhau bod trefniadau'n parhau i fod yn gymesur ac yn cyd-fynd â strwythurau llywodraethu ehangach. Yn ogystal, bydd angen cadw llygad ar oblygiadau etholiad diweddar y Senedd wrth i drefniadau llywodraethu a goruchwylio yn y dyfodol ddatblygu o dan y weinyddiaeth newydd.

Fel sylw olaf, hoffwn gydnabod yr adroddiadau diweddar am gam-drin plant yng Nghanolfan Brynffynnon hyd at pan gaewyd y ganolfan yn 2014, ynghyd â'r materion cyflogaeth hir a ddilynodd. Nid oes gan y Bwrdd Ymateb rôl i ymchwilio i ddigwyddiadau yn y gorffennol, ond yn hytrach i ganolbwyntio ar ddiogelu nawr ac yn y dyfodol. Serch hynny, rwy'n cydnabod effaith barhaus methiannau diogelu difrifol yn y gorffennol ar hyder plant, rhieni, staff a phoblogaeth ehangach Gwynedd ynghylch gallu'r Cyngor i ddiogelu plant mewn addysg. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy angenrheidiol byth i'r Cyngor gymryd camau clir a thryloyw i adennill yr hyder hwnnw ac i ddangos nid yn unig newidiadau polisi ond hefyd newidiadau mewn arferion a diwylliant bob dydd.

**Yr Athro Sally Holland**
Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Gorffennaf 2026** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dewi Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2025/26** |

**1. Y Penderfyniad A Geisir**

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

**2. Y Rheswm Dros Yr Angen Am Benderfyniad**

2.1. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

2.2. Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol adrodd yn gyson a rheolaidd i Aelodau Etholedig ar faterion diogelu.

**3. Cefndir**

3.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod y cyfnod.

3.2. Credir bod yr adroddiad yn darparu crynodeb cywir a chytbwys o waith y Panel, gan adlewyrchu'r prif heriau, y cynnydd a wnaed, a'r meysydd lle mae angen gweithredu pellach.

3.3. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal (4 Mehefin), lle bu trafodaeth adeiladol ar ei gynnwys. Cydnabu'r aelodau bwysigrwydd y materion dan sylw a chytunwyd bod hwn yn faes pwysig sy'n haeddu craffu parhaus.

**4. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i) Y Swyddog Monitro:**

Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodeb priodol o'r gwaith Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cabinet ynglŷn â'r cyfrifoldeb allweddol yma.

**ii) Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

# ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

## 2025/26

# CIPOLWG O'R FLWYDDYN 2025/26

**94%** 2%
o gyfeiriadau diogelu (Oedolion) yr ymatebwyd iddynt o fewn 7 diwrnod

**8,069** 284
o gyfeiriadau i Wasanaethau Plant

**84%** 2.3%
o gyfeiriadau diogelu (Plant) yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnod statudol (24 awr)

**792** 42
o gyfeiriadau diogelu oedolion

**75.9%** 39.5%
o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant Diogelu (Grŵp A)

**319** 37
o drigolion yn aros am asesiad DoLS (31.3.26)

**100%** 3%
o ysgolion wedi cyflwyno hyfforddiant diogelu i'r holl staff

**282** 20
o blant yn derbyn eu haddysg gartref

**74.7%** 15.2%
o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant VAWDASV

**293** 12
o blant mewn gofal (31.3.26)

**100%**
o'r asesiadau risg a gyflwynwyd i Gynadleddau Achos (Plant) yn dangos ansawdd uchel wrth wneud penderfyniadau.

**126** 20
o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (31.3.26)

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Bu'n gyfnod cythryblus a heriol dros ben i Gyngor Gwynedd ym maes diogelu gyda'r angen i wella a chryfhau systemau diogelu yn ganolog I'n gwaith eleni ac felly y bydd hefyd ar gyfer y flwyddyn sydd ar ddod.

1.2. Cyflwyna'r adroddiad hwn drosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu dros y cyfnod Ebrill 2025 hyd at Fawrth 2026. Amlinellir y gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor, yn ogystal â'r gwaith a wnaed mewn partneriaeth ag eraill, gan geisio rhoi darlun teg, cytbwys a thryloyw o'r cynnydd a'r heriau.

1.3. Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.

1.4. Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.

1.5. Mae tymor Cadeirydd y Panel yn ddwy flynedd. Hyd at Fehefin 2025, Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd, oedd y Cadeirydd. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025, etholwyd y Cynghorydd Dewi Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2025–2027.

1.6. Mae Grŵp Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion ymarferol y maes gwaith. Grŵp mewnol o swyddogion yw hwn, gyda Person Diogelu Dynodedig pob adran yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu.

1.7. Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd cylchoedd gorchwyl y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu, gan wneud mân newidiadau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

## 2. ADOLYGU'R POLISI DIOGELU

2.1. Cynhelir adolygiad o Bolisi Diogelu'r Cyngor ar gylch dwy flynedd. Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2.2. Rhwng Ionawr a Mawrth 2026 cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi. Sefydlwyd is-grŵp i arwain yr adolygiad, yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol,

Rheolwyr Diogelu Plant ac Oedolion, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Pennaeth yr Adran Oedolion, Swyddog Diogelwch Cymunedol, ac Uwch Swyddog Gweithredol.

2.3. Gwnaed nifer o newidiadau i'r Polisi Diogelu yn dilyn yr adolygiad, gan gynnwys cryfhau eglurder a defnyddioldeb y ddogfen. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar egluro'r llwybr ar gyfer codi pryderon, gan ei amlygu'n glir ar ddechrau'r ddogfen. Datblygwyd gweithdrefnau mwy ymarferol ar gyfer adrodd a chofnodi pryderon, gan gynnwys adran newydd fanwl sy'n nodi'r wybodaeth y dylid ei chofnodi wrth weld neu glywed am fater diogelu.

2.4. Cryfhawyd atebolrwydd a rôl arweiniol uwch swyddogion, ac amlygwyd hefyd yn gliriach rolau a chyfrifoldebau unigolion a gwahanol grwpiau o staff.

2.5. Eglurwyd y gofynion hyfforddiant yn amlycach, gan bwysleisio disgwyliadau hyfforddiant mandadol a rheolaidd (pob tair mlynedd) ar gyfer staff ac aelodau etholedig, ynghyd â chryfhau trefniadau monitro cydymffurfiaeth.

2.6. Cymerwyd camau pellach i gryfhau atebolrwydd ar draws y Cyngor ym maes diogelu. Mae'r Polisi bellach yn cynnwys y gofynion isod:

- Cynnwys data (%) nifer sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu a hyfforddiant trais yn y cartref fel rhan o'r broses Herio Perfformiad ym mhob adran.
- Sefydlu diogelu fel eitem barhaol ar agenda'r Tîm Rheoli Corfforaethol.
- Gofyn i bob adran gynnwys diogelu fel eitem reolaidd ar agenda eu timau rheoli adrannol.
- Parhau â'r drefn o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a'r Cyngor llawn.

2.7. Derbyniwyd mewnbwn gan aelodau'r Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu ehangach, a gyfrannodd at wella'r ddogfen ymhellach. Bydd y polisi diwygiedig yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol. Bydd hefyd yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i'r Cyngor Llawn.

## 3. ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

3.1. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru, *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder*, ym mis hydref 2025, lluniwyd cynllun ymateb cynhwysfawr gan Gyngor Gwynedd i fynd i'r afael â'r argymhellion, ynghyd â materion ehangach a nodwyd mewn archwiliadau ac ymchwiliadau cysylltiedig. Roedd hwn yn adroddiad heriol a damniol, ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwersi pwysig i'w dysgu.

3.2. Sefydlwyd Bwrdd Ymateb i oruchwylio'r gwaith, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sally Holland, cyn Gomisiynydd Plant Cymru. Nod y Bwrdd yw sicrhau cynnydd cadarn a rhoi sicrwydd i'r

Cyngor, aelodau etholedig a rhanddeiliaid fod camau pendant yn cael eu cymryd i gryfhau trefniadau diogelu ac i wella profiadau plant ac oedolion bregus yng Ngwynedd.

3.3. Ers hynny, mae'r bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi elwa ar fewnbwn ac arweiniad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn a Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd hefyd y dysgu o'r archwiliad ar y cyd gan AGC ac Estyn ym mis Tachwedd 2025. Mae Sally Holland yn adrodd yn chwarterol i Gabinet y Cyngor, tra bod Grŵp Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion.


3.4. Erbyn Mawrth 2026, cyflawnwyd cynnydd cadarnhaol ar nifer o'r camau a nodwyd. Fodd bynnag, erys gwaith pellach, ac mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i weithredu ar y dysgu a sicrhau gwelliannau parhaus.

3.5. Mae'r Panel Strategol Diogelu hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran craffu ar gynnydd, gan gynnwys monitro lefelau hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor. Bydd ganddo rôl gryfach yn y dyfodol o ran darparu trosolwg strategol o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## 4. PERFFORMIAD A CHYNNYDD YN Y MAES DIOGELU

### 4.1. Diogelu Plant

4.1.1. Derbyniwyd **8,069** o gyfeiriadau i wasanaethau plant yn 2025/26. Mae hyn yn gynnydd o **3.7%** yn y nifer o gyfeiriadau o gymharu â 7785 y llynedd.



4.1.2. Unwaith eto, mae'r pwysau ar y gwasanaeth wedi bod yn sylweddol, gyda'r gweithlu'n hynod brysur yn cefnogi plant a theuluoedd ar draws y sir. Nodir bod natur yr achosion a welir bellach yn llawer mwy dwys a chymhleth nag yn y gorffennol. Yn ystod 2025/26, gwelwyd cyfeiriadau ar gyfer teuluoedd gyda nifer o blant, lefelau uwch o esgeulustod, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a theuluoedd newydd yn dod i sylw, gan ychwanegu at yr heriau gweithredol.


4.1.3. Gwelir cynnydd yn y nifer sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant eleni. Ar 31 Mawrth 2025 roedd y nifer o blant ar y gofrestr yn **106**, ac eleni mae'r nifer yn **126**. Mae cam-drin emosiynol yn parhau i fod y prif reswm dros gynnwys plant ar y gofrestr a gweler fod mae plant yn tueddu i aros ar y gofrestr am gyfnodau hirach erbyn hyn. Gwelir patrymau tebyg mewn sawl Awdurdod Lleol a bwriedir ystyried dulliau amgen o gefnogi plant dros y flwyddyn sydd i ddod.

4.1.4. Cafodd **84% (↑2%)** o adolygiadau amddiffyn plant eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn parhau yn uchel ar **100%**.

4.1.5. Mae'r gwaith Rhan 5 o weithdrefnau diogelu Cymru ar gynnydd eto eleni. Mae Rhan 5 yn ymwneud â phryderon diogelu am ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth, ac mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am y rhai y mae eu gwaith, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg. Bwriedir cynyddu capasiti drwy greu swyddi ychwanegol o fewn yr Uned Diogelu yn fuan yn 2026/27.

4.1.6. Erbyn hyn mae Gwasanaethau Plant Gwynedd yn mabwysiadu dull rhagweithiol o sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed wrth ymateb i bryderon sy'n ymwneud ag unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae rhai heriau o ganlyniad i wrthodiad rhieni yn golygu bod angen gwneud asesiadau unigol i benderfynu ar y camau priodol.

4.1.7. Ar ddiwedd mis Mawrth roedd **293 (↑12)** o blant mewn gofal. O'r cyfanswm plant mewn gofal mae **66%** mewn lleoliadau maeth, **28** (**10%)** mewn lleoliadau preswyl a **50 (17%)** wedi ei lleoli gyda'u rhieni. Roedd **3** plentyn mewn lleoliad mabwysiedig ar ddiwedd y cyfnod, gyda **12** person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.




4.1.8. Yn ystod 2025/26 defnyddiwyd trefniadau lleoliadau heb gofrestriad (OWR) ar gyfer **4** o bobl ifanc mewn gofal. Yn anffodus mae'r sefyllfa yn genedlaethol erbyn hyn yn un llawer mwy difrifol, gyda'r mwyafrif, os nad pob awdurdod yn cael eu gorfodi i sicrhau fod trefniant o'r fath ar gael oherwydd diffyg lleoliadau cofrestredig ar draws y Deyrnas Unedig.

4.1.9. Pan mae angen lleoli plentyn mewn gofal, dymunir eu cadw yn agos at eu teulu a'u bro. Felly, canolbwyntir ar ddod o hyd i ffyrdd o letya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at adref, fel y gallent barhau i fod yn rhan o'u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cymorth. Mae datblygu Cartrefi Grŵp Bychain felly yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28.

4.1.10. Mae dau gartref eisoes yn weithredol ym Morfa Bychan a Deiniolen, gyda'r plant wedi setlo'n dda yn y lleoliadau. Mae gwaith adnewyddu bron a gorffen erbyn hyn ar gyfer y cartref yn Edern. Prynwyd trydydd tŷ yng Nghricieth llynedd gyda'r broses gofrestru gydag Archwilio Gofal Cymru yn mynd rhagddo. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn ar y tŷ gyda'r gobaith y bydd y gwaith yn cwblhau yn fuan yn 2026/27.

4.1.11. Parha cost uchel lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir i roi pwysau sylweddol ar y gyllideb, gyda rhai costau'n codi'n annisgwyl ac yn anodd eu rhagweld ymlaen llaw. Er bod rhai lleoliadau o'r fath yn anochel, mae'r pwysau hwn wedi arwain y Cyngor i gyflymu'r gwaith o ddatblygu cartrefi grŵp bychain er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth leol a lleihau'r ddibyniaeth ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag agenda dielw plant Llywodraeth Cymru, sydd yn ceisio sicrhau bod gofal

a llety plant yn cael ei ddarparu ar sail anghenion plant yn hytrach nag elw. Crëwyd rôl benodol i gefnogi a chyflymu'r rhaglen yn ystod 2026/27.

4.2. **Diogelu Oedolion**

4.2.1. Derbyniwyd **792** o adroddiadau Oedolion yn ystod 2025/26, bu hyn yn gynnydd o'r **750** adroddiad a dderbyniwyd yn ystod 2024/25. Ar gyfartaledd, cafodd **94.4%** (**↑2.3%**) o'r ymholiadau cychwynnol a.126 o atgyfeiriadau diogelu wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 7 diwrnod.

4.2.2. O'r adroddiadau oedolion mewn perygl a dderbyniwyd, rheolwyd y risg mewn **100%** o'r achosion.

4.2.3. Er bod yr adran wedi penodi Swyddog Diogelu rhan-amser ychwanegol, mae capasiti'n parhau'n heriol oherwydd salwch hirdymor o fewn y tîm. O ganlyniad, mae'r baich gwaith ychwanegol wedi disgyn ar arweinwyr Timau Adnoddau Cymunedol a'r Timau Gwaith Cymdeithasol i gwblhau'r gwaith diogelu. Er mwyn rheoli'r risg, mae swydd dros-dro bellach wedi'i hysbysebu; fodd bynnag, mae recriwtio wedi bod yn heriol, gan olygu bod angen ail-hysbysebu'r swydd.

4.2.4. Mae'r swyddogion yn cynnal gwaith monitro rheolaidd ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon, gan sicrhau bod gofal diogel ac o ansawdd uchel yn cael ei gomisiynu. Dengys y data bod ymweliadau rheolaidd yn cael eu cynnal â chartrefi preswyl. Cyflwynwyd ffurflen cyn-fonitro sy'n cynorthwyo swyddogion i baratoi'n fwy effeithiol ar gyfer ymweliadau ac i ganolbwyntio ar feysydd risg posibl.

4.2.5. Mae'r tîm hefyd yn cyfarfod bob pythefnos gyda'r Tîm Meddyginiaethau a rheolwyr mewnol i drafod gwallau meddyginiaeth a darparu cymorth priodol. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddiogelwch preswylwyr o fewn y ddarpariaeth.

4.2.6. Mae un darparwr yn parhau o dan y drefn Pryderon Cynyddol, ac mae embargo ar fynediadau newydd wedi bod mewn lle ers mis Hydref 2025. Mae'r embargo hwn yn effeithio ar allu'r gwasanaethau i leoli unigolion yn yr ardal honno, ac mae ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud i gydweithio â'r darparwr er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gweithredu'n llawn.

4.2.7. Mae pryder ynghylch y gwasanaeth DoLS (Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid – Deprivation of Liberty Safeguards) yn parhau. Ar ddiwedd Mawrth 2026, roedd **319** o unigolion yn aros am asesiad DoLS, o'i gymharu â **356** ar ddiwedd Mawrth 2025. Mae'n angenrheidiol blaenoriaethu achosion yn ôl lefel y risg, gan roi sylw penodol i unigolion sy'n byw mewn llety gyda chymorth, lle mae angen cyflwyno cais i'r Llys Gwarchod er mwyn awdurdodi amddifadu o ryddid.

4.2.8. Gwnaed bid llwyddiannus yn ystod 2024/25 i gyflogi dau Asesydd Budd Gorau ar sail parhaol. Tra benodwyd dwy unigolyn i'r rolau, nid oedd ganddynt y cymhwyster na'r profiad i gychwyn yn syth. Bellach mae'r ddwy wedi cwblhau eu hyfforddiant, wedi cymhwyso ac wedi cychwyn ar eu llwyth achos.

4.3. **<u>Addysg</u>**

4.3.1. Yn ystod 2025/26, mae'r Tîm Diogelu a Llesiant Ysgol wedi cynnal ymweliadau ag 89 ysgol i adolygu a sicrhau ansawdd trefniadau, polisïau a gweithdrefnau diogelu. Ers Ionawr 2025, mae pob ysgol yn derbyn ymweliad blynyddol i asesu ansawdd eu trefniadau diogelu, gan sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws y sir.

4.3.2. Mae bron pob un ysgol ymwelwyd â hwy yn 2025/26 cydymffurfio gyda threfniadau diogelu priodol. O'r ymweliadau hyn **4 ysgol** sydd wedi derbyn ail ymweliad er mwyn gwirio agweddau fel trefniadau cofnodi presenoldeb / absenoldeb a cynnwys posteri Diogelu.

4.3.3. Mae Arolwg Blynyddol Diogelu yn cael ei gwblhau gan pob ysgol yn flynyddol. Mae'r canfyddiadau diweddaraf yn nodi:

- **95% (↑1%)** o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- **85% (→aros yr un fath)** o Lywodraethwyr Dynodedig Ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd diwethaf;
- **100% (↑3%)** o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Gaeaf;
- **100% (aros yr un peth)** o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yr ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

4.3.4. Ers Ebrill 2025 mae'r Gwasanaeth Diogelu a Llesiant wedi cynnal:

- **3** sesiwn hyfforddiant Diogelu i Gadeiryddion a Llywodraethwyr Diogelu dynodedig
- **14** sesiwn hyfforddiant Person Diogelu Dynodedig gyda cyfanswm o **161 unigolyn** yn mynychu .

Yn ogystal, mae'r swyddog Arweiniol Dynodedig wedi cynnal sesiynau hyfforddiant i athrawon llanw, staff blynyddoedd cynnar, tîm moderneiddio addysg a staff Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

4.3.5. Yn mis Chwefror 2026, penodwyd aelod ychwanegol er mwyn cynyddu capasiti y Tîm Diogelu a Llesiant Addysg. Mae'r tîm eisoes wedi datblygu adnoddau newydd i

gryfhau ymateb ysgolion i faterion diogelu, gan gynnwys siartiau llif syml ar gyfer pryderon diogelu a honiadau yn erbyn staff, ynghyd â phosteri safonol i'w harddangos yn yr ysgolion a'u gwefannau. Mae'r deunyddiau'n cynnwys manylion y personau diogelu dynodedig a chadeiryddion, manylion y Tîm Diogelu a Llesiant Addysg ac yn cefnogi eglurder a hygyrchedd gwybodaeth i staff, llywodraethwyr a rhieni.

4.3.6. Mae pob ysgol wedi yn mabwysiadu'r polisi enghreifftiol 'Hyrwyddo mesurau ac arferion fydd yn arwain at ddefnyddio a lleihau ymyrraeth gyfyngol.' Mae hyn yn cael ei wirio yn ystod yr ymweliadau ansawdd diogelu blynyddol. Mae gwerthusiad allanol wedi ei gomisiynu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r canllawiau cenedlaethol yn ogystal â datblygu trefniadau a darpariaethau hyfforddi ymhellach. Bydd argymhellion y gwerthusiad yn arwain at ddatblygu a chryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i ysgolion, gan eu harfogi i ymateb yn ddiogel mewn achosion o ymyrraeth gyfyngol, wrth wrando ar lais y disgybl a bod yn adlewyrchol o unrhyw ymyrraeth o'r fath

4.3.7. Ar ddiwedd Mawrth 2026 yr oedd cyfanswm o **282 (↑7.63%)** o blant yn derbyn eu haddysg gartref o ddewis rhieni. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys **158** o blant sydd yn hanesyddol ar y gofrestr a **124** o'r newydd ers Medi 2025. Nid yw pob plentyn sydd ar y gofrestr wedi cofrestru mewn ysgol yn flaenorol, gyda rhai yn symud mewn i'r Sir ond ddim am gofrestru mewn ysgol ac eraill yn gwneud y penderfyniad yn fuan iawn o addysgu gartref o oedran statudol addysg.

4.3.8. Y prif resymau am ddewis rhiant i addysgu gartref yw ei ffordd o fyw/ideolegol ond gôr-bryder a phroblemau iechyd meddwl ar gynnydd. Llwyddwyd i gadw cyswllt cyson gyda mwyafrif y teuluoedd yma gyda nifer fychan yn gwrthod unrhyw gyswllt (yn unol a'u hawliau).

4.4. **<u>Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)</u>**

4.4.1. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan godi ymwybyddiaeth, darparu cefnogaeth i ddioddefwyr a gwella ymateb gwasanaethau.

4.4.2. Yn dilyn cais wedi'i baratoi gan swyddogion o'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol, derbyniodd y Cyngor achrediad 'Rhuban Gwyn' ym mis Mai 2022. Mae Rhuban Gwyn yn sefydliad sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth ac annog pobl, yn enwedig dynion, i weithredu yn erbyn trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

4.4.3. Gweithiwyd hefyd â'r Heddlu i ddatblygu menter o'r enw 'Parthau Diogel' ym Mangor a Chaernarfon. Mae'r dull yn un syml ond effeithiol, gan ganolbwyntio ar

wella gwyliadwriaeth naturiol, goleuadau a defnyddio'r systemau teledu cylch cyfyng presennol mewn lleoliadau allweddol. Gwnaed cais llwyddiannus i'r Swyddfa Gartref am gyllid i gefnogi'r prosiect, ac mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo.

4.4.4. Mae **11.1 o bob mil o'r boblogaeth** yng Ngwynedd yn profi trais domestig yn flynyddol (1.1%). Mae hyn yn cymharu â 10.4 ym Môn, 17.5 yn Sir Ddinbych ac 16.5 yng Nghonwy. Yn ystod 2025/26, mae'r Cyngor wedi comisiynu Gorwel (drwy Grŵp Cynefin) a DASU (Uned Diogelwch Trais Teuluol) i ddarparu gwasanaethau cefnogaeth i ddioddefwyr, gan gynnwys cefnogaeth ymarferol ac emosiynol, tai a lloches i unigolion mewn argyfwng, cyngor diogelwch, eiriolaeth ac arweiniad i lywio'r system gyfiawnder.

4.4.5. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud cais llwyddiannus drwy'r Grant Cyfalaf VAWDASV Llywodraeth Cymru i brynu 100 o gamerâu diogelwch i gefnogi goroeswyr cam-drin domestig yn yr ardal. Bydd y camerâu'n cael eu dosbarthu drwy bartneriaid allweddol, gan gynnwys yr Heddlu, DASU a Gorwel, er mwyn darparu cefnogaeth ymarferol i unigolion sy'n wynebu risg.

4.4.6. Yn ogystal, yn dilyn trafodaethau gyda Chymorth i Ferched Cymru ynghylch cefnogi goroeswyr cam-drin domestig byddar, trefnodd y Bartneriaeth hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain (BSL) drwy Goleg Llandrillo ar gyfer staff Siop Gwynedd a sefydliadau cam-drin domestig lleol. Bydd adborth yn cael ei gasglu gan y cyfranogwyr er mwyn asesu effaith y sesiwn ac i nodi unrhyw anghenion pellach, gyda'r posibilrwydd o drefnu sesiynau ychwanegol yn unol â'r galw.

4.4.7. Mae'r Adran Tai, drwy gyllid Grant Cefnogi Tai, wedi comisiynu asesiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau Trais Domestig er mwyn cryfhau cydweithio ac yn hwyluso comisiynu ar y cyd i'r dyfodol. Cytunwyd bod y gwasanaethau presennol a'r trefniadau wedi bod yn rhy ddatgymalog, ac y byddai'n fuddiol sefydlu gweithgor penodol ar drais yn y cartref o fewn y Cyngor.

4.4.8. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cenedlaethol i adolygu'r gwasanaethau Trais Domestig. Nodir bod gwahaniaethau sylweddol yn y modelau ariannu a darparu ar draws rhanbarthau. Er enghraifft, yn y gogledd mae cyllid yn cael ei sianelu drwy'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, tra mewn ardaloedd eraill mae'n mynd yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Mae'r ymgynghoriad felly'n gyfle i Lywodraeth Cymru ystyried cysoni'r dulliau gweithredu ar draws y wlad.

4.4.9. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn yn gyfrifol am gomisiynu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR) yng Ngwynedd. Mae un adolygiad DHR

wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Swyddfa Gartref ac ar fin cael ei gyhoeddi a mae drafft cyntaf o adolygiad DHR arall wedi gyflwyno cyn y Nadolig.

4.4.10. Erbyn hyn, caiff y ddyletswydd statudol hon ei chyflawni drwy'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR), sy'n ymgorffori Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs) o fewn yr un broses adolygu a ddefnyddir bellach ar gyfer pob adolygiad diogelu yng Nghymru. Mae'r adolygiad cyntaf i ddilyn y drefn hon wedi cychwyn, gyda cyfarfod cyntaf o'r Panel wedi cyfarfod mis Mawrth 2026.

4.4.11. Erbyn hyn mae'r e-fodiwl Trais yn y Cartref (VAWDASV) yn statudol i holl aelodau staff. Mae'n hollbwysig fod y gweithlu yn derbyn yr hyfforddiant i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi unigolion ac i godi ymwybyddiaeth. Mae'r hyfforddiant 'Ask and Act' hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn rhoi hyder i staff i helpu unigolion sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Ar 31 Mawrth 2026 roedd **74.7%** o staff y Cyngor (gan gynnwys staff Parhaol, Achlysurol a Chyfnod Penodol) wedi cwblhau'r hyfforddiant.

4.4.12. Cynhaliwyd rhagor o sesiynau hyfforddiant 'Ymyrryd gan Wylwyr' i staff y Cyngor. Darparwyd hwn gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o helpu unigolion ddelio â sefyllfaoedd niweidiol posibl fel aflonyddu rhywiol, gan roi hyder i gael sgyrsiau gyda ffrindiau a chydweithwyr am y materion hyn.

4.4.13. Eleni, comisiynwyd cyfres o sesiynau hyfforddiant i staff gan Men at Work, mudiad a sefydlwyd gan Michael Conroy, er mwyn rhoi mwy o hyder ac adnoddau ymarferol i weithwyr proffesiynol gynnal sgyrsiau adeiladol gyda bechgyn a dynion ifanc ar ystod o bynciau sensitif a phwysig. Roedd hyn yn cynnwys perthnasau iach, dylanwadau ar-lein, stereoteipio o ran rhyw, hunanddelwedd, ymddygiadau peryglus, effeithiau pornograffi a llesiant. Roedd yr hyfforddiant yn cynnig dull ymarferol, agored ac ystyriol o gefnogi staff i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc ar y materion hyn, a derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhai a fynychodd.

## 4.5. **Troseddu**

4.5.1. Mae'r Cyngor yn cydweithio â'r Heddlu drwy'r Bwrdd Partneriaeth Cymunedol, a ceir trosolwg rheolaidd o lefelau trosedd o fewn Gwynedd. Yn ystod 2025/26, gwelwyd **cynnydd bychan o 3.6%** yn nifer y troseddau yng Ngwynedd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

4.5.2. Mae lefel y Troseddau Rhyw a gofnodwyd hyd yma yn 2025/26 yng Ngwynedd wedi gweld **gostyngiad o 1.5%** gymharu â 2024/25. Gall fod amrywiadau sylweddol mewn troseddau a adroddir o wythnos i wythnos, yn rhannol oherwydd adrodd o droseddau hanesyddol.

4.5.3. Mae troseddau meddiangar (acquisitive) yn cynnwys y categorïau Byrgleriaeth Breswyl, Byrgleriaeth Busnes a Torri mewn i eiddo, Lladrad, Troseddau Cerbyd a Dwyn a Thrin. Mae Byrgleriaeth Breswyl a Byrgleriaeth Busnes a Chymuned gostwng eleni, ond fe welir cynnydd yn y niferoedd o Droseddau Cerbyd, Lladrad personol a Dwyn a Thrin.

4.5.4. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngwynedd wedi gweld gostyngiad hyd yma o **0.7%** yn 2025/26, o gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25. Gwneir gwaith cydweithredol gyda Chynghorau Tref a Chymuned, yr Adran Briffyrdd a'r Heddlu, er mwyn gosod camerâu teledu cylch cyfyng (CCTV) lle bo'r angen yn codi fwyaf.

4.5.5. Daeth y Dyletswydd Trais Difrifol i rym yn genedlaethol ym mis Ionawr 2023. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i baratoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Cyhoeddwyd Strategaeth derfynol Gogledd Cymru yn Ionawr 2024. Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o'r gwaith yma ers y cychwyn ac yn parhau i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio Rhanbarthol i weithredu'r Ddyletswydd.

4.5.6. Fel rhan o'r ddyletswydd, derbyniodd y Bartneriaeth gyllid o £65k ar gyfer projectau ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau trais difrifol gan blant a phobl ifanc. Cwblhawyd sawl prosiect erbyn Ebrill 2026, gan gynnwys:

- Sesiynau addysgol "Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol" gan RASASC Cymru i godi ymwybyddiaeth o drais rhywiol ac annog newid agweddau ac ymddygiad.
- Ymgyrch ymwybyddiaeth ar werthu *vapes* anghyfreithlon a cham-fanteisio ar blant, gyda ffocws ar gynyddu adrodd a rhannu gwybodaeth.
- Cynyddu darpariaeth ieuenctid dros wyliau'r haf a hanner tymor gyda gweithgareddau wedi'u targedu ar gyfer pobl ifanc 11–25 oed mewn ardaloedd risg uchel o droseddu a thrais.
- Prosiect ysgolion dan arweiniad yr Adran Addysg i atal trais difrifol, yn cynnwys hyfforddiant, mentora a gwaith grŵp i leihau gwaharddiadau a chadw disgyblion yn ddiogel ac mewn addysg.

## 4.6. <u>Caethwasiaeth Fodern</u>

4.6.1. Mae caethwasiaeth fodern yn rhychwantu sawl math o gam-fanteisio sef, llafur, troseddol, cam-fanteisio rhywiol a chaethwasanaeth domestig. Yng Ngogledd Cymru, mae achosion Caethwasiaeth Fodern yn yr ardal yn ymwneud yn bennaf â cham-fanteisio cyffuriau, lle mae'r dioddefwyr yn aml yn wryw ifanc sydd yn cael ei orfodi i fasnachu cyffuriau, fel arfer drwy linellau sirol. Yn rhanbarthol, mae hyrwyddo diogelu cyd-destunol er mwyn gweithio hefo plant a phobl ifanc sy'n agored i gam-fanteisio a/neu gaethwasiaeth fodern yn flaenoriaeth o fewn Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru.

4.6.2. Mae'r Heddlu yn codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymysg awdurdodau a busnesau ar draws y rhanbarth, ac yn cynnal ymweliadau rheolaidd â gwestai a safleoedd gwyliau ac yn darparu llenyddiaeth mewn clinigau a meddygfeydd iechyd rhywiol.

4.6.3. Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024, derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru 112 o gyfeiriadau yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern, masnachu pobl neu ecsbloetiaeth drwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gyda 13 o'r rhain yn ymwneud â Gwynedd. Derbyniwyd hefyd 6 adroddiad drwy'r trefniant Dyletswydd i Hysbysu, gydag 1 yn ymwneud â Gwynedd.

4.6.4. Yn 2025, gostyngodd nifer y cyfeiriadau i 95, gyda 9 yn ymwneud â Gwynedd. Derbyniwyd 2 adroddiad drwy'r trefniant Dyletswydd i Hysbysu yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw un yn ymwneud â Gwynedd.

4.7. **Gwrthderfysgaeth**

4.7.1. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu, yn ogystal â bod yn aelod o'r grwpiau cyffelyb rhanbarthol, er enghraifft, Bwrdd Contest. Nod y grŵp yw cryfhau diogelwch mewn mannau cyhoeddus, gwella parodrwydd i ymateb i ddigwyddiadau, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel.

4.7.2. Yn ystod 2025/26, parhawyd â gwaith paratoi i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Martyn's Law, a ddisgwylir i ddod i rym yn 2027; bu'r Grŵp hefyd yn ystyried y Polisi Llogi lleoliadau yn ystod y flwyddyn, ynghyd â materion diogelwch penodol a godwyd gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru mewn perthynas â llwybrau beicio.

4.7.3. Yn 2024/25 bu i'r Cyngor ymgymryd â phroses sicrwydd ansawdd gyda'r Swyddfa Gartref er mwyn cwrdd â gofynion statudol o dan y ddyletswydd Atal. Adnabuwyd cryfderau fel yr ymdrech i gyd-weithio'n rhanbarthol a'r gwaith o reoli risg mewn perthynas â radicaleiddio.

4.7.4. O ganlyniad i'r broses yma, derbyniwyd dau argymhelliad pellach, sef: datblygu Polisi Llogi lleoliadau a datblygu strategaeth hyfforddiant atal. Fel nodir uchod mae'r Polisi Llogi wedi derbyn sylw yn ystod y flwyddyn, ac unwaith mae'r adnoddau hyfforddiant Cymraeg ar gael bydd modd gweithredu'r cynllun hyfforddiant "atal" newydd.

4.8. **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

4.8.1. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am brosesu gwiriadau troseddol. Pwrpas gwiriadau DBS yw cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio a thrwyddedu mwy diogel, ond dim ond un rhan o arfer recriwtio yw gwiriad. Pan fydd gwiriad wedi'i brosesu gan y DBS a'i gwblhau, bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystysgrif DBS.

4.8.2. Bu'r Grŵp Gweithredol yn ymgymryd â gwaith sylweddol i wirio, herio ac ailymweld â'r drefn gorfforaethol o ran y DBS. O ganlyniad, mae Adrannau bellach yn perchnogi mwy ar y trefniadau DBS ac mae hyn wedi trawsnewid sut mae'r Grŵp Gweithredol yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth ar ddadleniadau adrannol.

4.8.3. Mae'r sefyllfa DBS wedi sefydlogi yn ystod y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o adrannau yn cyflawni 100% o gydymffurfiaeth, sef bod gan bob aelod o staff sydd angen DBS ar gyfer eu rôl dystysgrif gyfredol. Lle nad oes gan unigolion DBS cyfredol, darperir eglurhad clir i'r Grŵp, ac hynny yn bennaf yn gysylltiedig ag absenoldebau hirdymor neu gyfnodau mamolaeth. Mae adrannau'n parhau i fonitro'r sefyllfa'n barhaus er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a rheoli unrhyw fylchau yn amserol.

## 4.9. <u>**Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol**</u>

4.9.1. Yn ystod y flwyddyn, bu ymdrech sylweddol i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfraddau cwblhau hyfforddiant diogelu ar draws y sefydliad. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at gynnydd yn nifer y staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant mandadol.

4.9.2. Ar 31 Mawrth 2025, roedd **36.4%** o staff y Cyngor wedi cwblhau'r e-fodiwl diogelu. Erbyn 31 Mawrth 2026, roedd y ganran hon wedi mwy na dyblu, gyda **75.9%** o staff y Cyngor bellach wedi cwblhau'r e-fodiwl. Dylid nodi bod y cynnydd hwn yn rhannol oherwydd newid yn y ffordd y caiff y data eu hadrodd, gan fod ffigurau 2025 yn cynnwys athrawon ysgolion tra bod ffigurau 2026 yn eu heithrio.

4.9.3. Anogir pob Cynghorydd i fynychu hyfforddiant diogelu (hyfforddiant penodol – Grŵp F). Mae **87% o Gynghorwyr** wedi cwblhau'r hyfforddiant ac bydd sesiwn pellach yn cael ei chynnal yn fuan yn 2026/27.

4.9.4. Er bod cwblhau'r hyfforddiant yn bwysig, mae sicrhau lefel briodol o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymysg staff ac aelodau yn bwysicach fyth. Yn dilyn cais gan y Grŵp Gweithredol Diogelu, cynhaliwyd archwiliad mewnol i asesu lefel ymwybyddiaeth gweithwyr maes y Cyngor o'r Polisi Diogelu. Amlygodd yr archwiliad fod angen gwneud mwy o waith i sicrhau dealltwriaeth gyson o'r Polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

4.9.5. Penodwyd Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i sicrhau fod pob aelod staff Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu. Bydd y rôl yn hyrwyddo negeseuon allweddol bod diogelu yn fusnes i bawb ac yn addysgu staff i fod yn fwy gwyliadwrus ac i hybu hyder wrth adrodd am bryderon.

4.9.6. Gweithia'r Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i gynyddu'r nifer o staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant diogelu mandadol. Er bod staff mewn swyddfeydd wedi'u cyfarwyddo i ddefnyddio'r platfform e-dysgu, yr her yw cyrraedd aelodau staff rheng flaen sydd heb fynediad i systemau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. I oresgyn yr her hon, paratowyd fideo cynhwysfawr fydd yn cael ei gyflwyno i'r gweithlu mewn sesiynau torfol hawdd ei gyrraedd ac yn hawdd ei ddeall.

4.9.7. Mae'r Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol hefyd yn cyd-weithio efo'r Grŵp Gweithredol Diogelu i ddatblygu tudalen ganolog ar y mewnrwyd gyda'r holl wybodaeth hyrwyddo/gysylltiedig i'r gweithlu ynghylch diogelu. Mae hyn yn cynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol, manylion Swyddogion Diogelu Dynodedig, hyfforddiant mandadol a chysylltiadau ar gyfer cymorth.

4.9.8. Bwriedir cynnal archwiliad mewnol pellach yn ystod hydref 2026 er mwyn asesu effeithiolrwydd y trefniadau presennol a lefel y ddealltwriaeth ar draws y sefydliad. Bydd hyn hefyd yn gyfle i werthuso a yw'r ymyraethau newydd wedi cynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff, ac i adnabod unrhyw fylchau pellach lle bydd angen darparu cymorth neu arweiniad ychwanegol.

## 5. GWETHIO MEWN PARTNERIAETH

5.1. Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae cyd-weithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol drwy'r **Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru** ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma - https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

5.2. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad gan Lywodraeth Cymru i lywodraethiant a threfniadau goruchwylio diogelu. Mae'r adolygiad cenedlaethol hwn yn canolbwyntio ar ba mor addas yw'r strwythurau presennol, gan archwilio rolau'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, sut mae'r cyrff hyn yn cydweithio â rheoleiddwyr ac arolygiaethau, a pha welliannau sydd eu hangen i gryfhau atebolrwydd a llywodraethiant. Disgwylir adroddiad terfynol yn ystod gwanwyn 2026.

5.3. Mae **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn** hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Mae gan nifer

o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein gwefan.

## 6. Y DYFODOL

6.1. O ran blaenoriaethau'r Panel ar gyfer y flwyddyn i ddod, bwriedir canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Gweithredu a monitro ymateb y Cyngor i argymhellion adroddiad *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder*, gan sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwreiddio ar draws y sefydliad.
- Cryfhau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a diwylliant diogelu corfforaethol ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys cynyddu cwblhau hyfforddiant a sicrhau bod staff yn hyderus i weithredu ar bryderon.
- Cyhoeddi fideo diogelu er mwyn ei gwneud yn hawdd a hygyrch i weithwyr maes gwblhau'r hyfforddiant mandadol.
- Cynyddu capasiti o fewn y gwasanaethau diogelu, yn enwedig mewn perthynas â gwaith Rhan 5, diogelu oedolion a'r trefniadau DoLS.
- Datblygu ymhellach y gwaith partneriaeth rhanbarthol a lleol gyda'r Heddlu, ysgolion, y Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn ymateb yn fwy effeithiol i risgiau diogelu cymhleth.
- Parhau i gryfhau trefniadau llywodraethiant, atebolrwydd a chraffu corfforaethol ym maes diogelu, gan gynnwys rôl y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu.
- Cynnal archwiliadau mewnol pellach i asesu effeithiolrwydd trefniadau newydd ac i adnabod unrhyw fylchau pellach mewn ymwybyddiaeth, hyfforddiant neu ymarfer.

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Adolygiad Polisi Diogelu (2026)* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cynghorydd Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg a Cadeirydd y Panel Diogelu Strategol* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | *7 Gorffennaf 2026* |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Fod y Cabinet yn mabwysiadu Polisi Diogelu Diwygiedig 2026 ac yn cymeradwyo y camau ymwybyddiaeth a nodir yn yr adroddiad.

**2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Mae'r Polisi Diogelu yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014).

2.2 Cytunodd y Panel Strategol Diogelu y dylid adolygu'r Polisi Diogelu bob dwy flynedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu gofynion deddfwriaethol, canllawiau cenedlaethol ac arfer da.

2.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniad adolygiad 2026 o'r Polisi. Gofynnwn am gymeradwyaeth y Cabinet er mwyn mabwysiadu'r Polisi diwygiedig.

**3. Cyflwyniad / Cefndir**

3.1 Rhwng Ionawr a Mawrth 2026 cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi. Sefydlwyd is-grŵp i arwain yr adolygiad, yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwyr Diogelu Plant ac Oedolion, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Pennaeth yr Adran Oedolion, Swyddog Diogelwch Cymunedol, ac Uwch Swyddog Gweithredol.

3.2 Gwnaed nifer o newidiadau i'r Polisi Diogelu yn dilyn yr adolygiad, gan gynnwys cryfhau eglurder a defnyddioldeb y ddogfen. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar egluro'r llwybr ar gyfer codi pryderon, gan ei amlygu'n glir ar ddechrau'r ddogfen.

3.3 Datblygwyd gweithdrefnau mwy ymarferol ar gyfer adrodd a chofnodi pryderon, gan gynnwys adran newydd fanwl sy’n nodi’r wybodaeth y dylid ei chofnodi wrth weld neu glywed am fater diogelu.

3.4 Cryfhawyd atebolrwydd a rôl arweiniol uwch swyddogion, ac amlygwyd hefyd yn gliriach rolau a chyfrifoldebau unigolion a gwahanol grwpiau o staff.

3.5 Eglurwyd y gofynion hyfforddiant yn amlycach, gan bwysleisio disgwyliadau hyfforddiant mandadol a rheolaidd (pob tair mlynedd) ar gyfer staff ac aelodau etholedig, ynghyd â chryfhau trefniadau monitro cydymffurfiaeth.

3.6 Cymerwyd camau pellach i gryfhau atebolrwydd ar draws y Cyngor ym maes diogelu. Mae’r Polisi bellach yn cynnwys y gofynion isod:

- Cynnwys data (%) nifer sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant diogelu a hyfforddiant trais yn y cartref fel rhan o’r broses Herio Perfformiad ym mhob adran.
- Sefydlu diogelu fel eitem barhaol ar agenda’r Tîm Rheoli Corfforaethol.
- Gofyn i bob adran gynnwys diogelu fel eitem reolaidd ar agenda eu timau rheoli adrannol.
- Parhau â’r drefn o gyflwyno’r Adroddiad Blynyddol i’r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a’r Cyngor llawn.

3.7 Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ar y Polisi diwygiedig gydag aelodau’r Panel Strategol Diogelu ac aelodau’r Grŵp Gweithredol Diogelu. Derbyniwyd nifer o sylwadau gwerthfawr yn ystod y broses, gan gynnwys awgrymiadau i symud y rhifau cyfeirio a’r llif gweithredu i’r dudalen flaen er mwyn gwella hygyrchedd, ac i egluro ac amlygu rôl y Person Dynodedig Diogelu yn fwy pendant o fewn y polisi.

3.8 Cynhaliwyd hefyd trafodaethau gyda’r Tîm Caffael i adolygu a diwygio’r cymal sy’n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir, er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau a’r cyfrifoldebau diogelu yn cael eu hadlewyrchu’n glir ac yn gyson yn y trefniadau comisiynu.

3.9 Cyflwynwyd y Polisi drafft i’r Pwyllgor Craffu Gofal ar 4 Mehefin hefyd, lle bu trafodaeth adeiladol a defnyddiol ar ei gynnwys. Yn dilyn y drafodaeth, codwyd dau bwynt i’w hystyried:

- Dylid cynnwys cyfeiriad penodol at ddiogelu ar-lein er mwyn adlewyrchu’r heriau a’r risgiau cyfoes sy’n wynebu plant ac oedolion bregus. **Mae hyn wedi’i gynnwys drwy ychwanegu cyfeiriad at y gweithdrefnau diogelu perthnasol.**

- Dylid amlygu’r diffiniadau o ddiogelu yn gynharach yn y ddogfen er mwyn gwella eglurder. **O ganlyniad, mae’r diffiniadau wedi’u symud i dudalen gyntaf y Polisi.**

3.10 Bydd mabwysiadu’r Polisi newydd yn sicrhau bod gan y Cyngor weithdrefn ddiogelu gadarn yn ei lle, ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy’n wynebu risg.

**4. Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb**

4.1 Yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (“Y Ddeddf”) (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i’r Cyngor dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.

4.2 Nid oes Asesiad Effaith Cydraddoldeb newydd wedi’i baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn, gan nad yw’r gofynion statudol na’r cyfrifoldebau sylfaenol a osodir ar y Cyngor wedi newid. Mae’r diwygiadau a gynigir yn bennaf yn darparu eglurder pellach i staff ac Aelodau Etholedig ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

4.3 Fodd bynnag, gan fod cyfnod sylweddol wedi mynd heibio ers mabwysiadu’r polisi gwreiddiol, bwriedir cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn fel rhan o’r adolygiad nesaf o’r Polisi er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu arfer da.

**5. Camau Nesaf**

5.1 Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo’r Polisi, bydd copi yn mynd gerbron y Cyngor Llawn nesaf fel atodiad i’r Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu 2025/26. Teimlir fod hyn yn gam pwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau etholedig.

5.2 Bydd angen gwaith pellach i hyrwyddo’r Polisi diwygiedig ymysg holl staff y Cyngor er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyson o’u cyfrifoldebau diogelu. Mae’r Cyngor wedi penodi Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol, a bydd hyrwyddo’r Polisi a’r hyfforddiant diogelu a chodi ymwybyddiaeth o’i gynnwys yn rhan allweddol o’i rhaglen waith dros y misoedd nesaf.

## 6. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 6.1 **Prif Swyddog Cyllid**

*Dim gwrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.*

### 6.2 **Swyddog Monitro**

*Mae'r Polisi Diogelu yn cefnogi  yr ystod o gyfrifoldebau  sydd yn ymwneud a diogelwch a lles ein trigolion. Golygai fod ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu a'r disgwyliadau ynglŷn a'r mater pwysig yma yn eglur ac ar gael mewn un ddogfen. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr penderfyniad a geisir.*

**Rhestr Atodiadau:**

- Polisi Diogelu (Adolygiad 2026)

# Cyngor Gwynedd

## Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod

**(Cyfeirir ato fel Polisi Diogelu ar gyfer Cyngor Gwynedd)**

Adolygwyd Mehefin 2026

**Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb ar bawb sy'n cynrychioli, neu sy'n gweithio ar ran y Cyngor. Mae cyfrifoldeb ar bawb i adrodd am unrhyw bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso.**

**GWEITHDREFN I GYFEIRIO UNRHYW BRYDER**

1. Dylid cysylltu â'r Heddlu (999) heb oedi ar unwaith os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl dybryd.

2. Dylai unrhyw aelod o staff neu Cynghorwyr sydd â phryderon am ddiogelwch plentyn neu oedolyn gysylltu ar unwaith gyda'r canlynol:

**Tîm Derbyn Cyfeiriadau ar 01766 772577**

**Dewiswch opsiwn 1 = Plant**
**Dewiswch opsiwn 2 = Oedolion**

Am unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch plentyn neu oedolyn y tu allan i oriau swyddfa arferol, **ar ôl 5:00pm dydd Llun i ddydd Gwener ac ar benwythnosau a Gwyliau'r Banc,** dylid cysylltu â:

**Thîm Tu Allan i Oriau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01248 353551**

3. Dylai unrhyw aelod o staff sydd yn ansicr a oes mater diogelu plentyn neu oedolyn drafod â Person Diogelu Dynodedig yr Adran neu eu rheolwr llinell. Os nad ydynt ar gael, yna dylid cyfeirio'r mater ar unwaith i'r Timau a nodir uchod.

## 1. DIFFINIADAU

1.1. Mae **"Diogelu"** yn ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion. Mae'n golygu atal cam-drin neu niwed, a hybu llesiant, gan gynnwys annog:

- iechyd meddwl, corfforol ac emosiynol
- diogelu rhag niwed ac esgeulustod

- addysg, hyfforddiant a hamdden
- cyfraniad adeiladol i'r gymdeithas
- llesiant cymdeithasol ac economaidd

1.2. Mae **"Amddiffyn"** yn ymateb i'r pryderon am y tebygolrwydd o niwed arwyddocaol ar unigolyn, sy'n golygu person mewn perygl o gam-driniaeth ac esgeulustod. Caiff y trefniadau ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl rhag cam-driniaeth eu hamlinellu yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, a'u gweithredu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.

## 2. CYFLWYNIAD

2.1. Prif flaenoriaeth Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag cam-drin, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, cam-drin domestig a chamfanteisio.

2.2. Mae gan bawb yng Nghyngor Gwynedd gyfrifoldeb am greu amgylchedd sy'n sicrhau fod plant ac oedolion yn llai tebygol o gael eu cam-drin. Caiff y trefniadau diogelu hyn eu hamlinellu yn y polisi hwn, ac maent yn gyfrifoldeb ar bob gwasanaeth o fewn Cyngor Gwynedd.

2.3. Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â chyfrifoldebau arweiniol i amddiffyn plant ac oedolion a all fod yn dioddef o niwed ac esgeulustod.

2.4. Disgwylir i weithwyr Cyngor Gwynedd a Chynghorwyr weithredu yn ôl yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn bob amser, boed yn ystod oriau gwaith neu fel arall.

## 3. DEDDFWRIAETH

3.1. Adran 28 Deddf Plant 2004:
Mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau ei fod yn ymgymryd â'i swyddogaethau i ddiogelu a hybu lles plant.

3.2. Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998:
Mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau bod y camau rhesymol yn cael eu cymryd i amddiffyn oedolion ac atal trosedd ac anhwylder pan yn ymgymryd â'i swyddogaethau.

3.3. Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:
Mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i hybu llesiant plant ag oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant fel rhywbeth gydag wyth agwedd gyffredin, mae un o'r rheini yn cynnwys amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod.

3.4. Adran 2 Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2020:
Mae dyletswydd ar weithwyr a gwirfoddolwyr Cyngor Gwynedd i adrodd am unrhyw blentyn neu oedolyn a ystyrir o fod mewn perygl o gam-drin, esgeulustod a/neu niwed.

3.5. Hawliau'r Plant:

Mae egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail i ddiogelu plant drwy gydnabod bod gan bob plentyn yr hawl i gael ei amddiffyn rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod, a gosod dyletswydd glir ar oedolion, sefydliadau a'r Wladwriaeth i hyrwyddo eu lles, gwrando ar eu barn, a gweithredu er eu budd gorau bob amser. Mae Erthygl 19 yn benodol berthnasol i ddiogelu.

3.6. Hawliau Dynol:

O dan fframwaith hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig, mae gan bob unigolyn hawl i hawliau a rhyddid sylfaenol y mae'n rhaid i'r Wladwriaeth eu parchu, eu hamddiffyn a'u cyflawni. Mae Erthygl 3, Erthygl 6 ac Erthygl 8 yn benodol berthnasol i ddiogelu.

## 4. EGWYDDORION

4.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb ar bawb sy'n cynrychioli, neu sy'n gweithio ar ran y Cyngor.

4.2. Mae gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i gael eu diogelu rhag niwed, gamfanteisio a chamdriniaeth.

4.3. Mae Cyngor Gwynedd yn rhoi diogelu a llesiant plant ac oedolion yn ganolog yn ein polisïau a gweithdrefnau.

4.4. Mae gan bob plentyn ac oedolyn (waeth beth fo eu cefndir) yr hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, camdriniaeth, gamfanteisio, gamfeithrin (grooming), bwlio na gwahaniaethu.

4.5. Gweithreda Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth â phlant, eu rhieni, gofalwyr ac oedolion, yn ogystal ag asiantaethau eraill i ddiogelu a hybu llesiant plant ac oedolion.

4.6. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar i leihau'r tebygolrwydd bod cam-drin neu niwed yn digwydd.

## 5. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

5.1. Mae pob Cynghorydd, aelod o staff, gwirfoddolwr a darparwr gwasanaethau ar gontract yn gyfrifol am ddilyn yr arweiniad a chanllawiau a nodir yn y Polisi hwn.

### 5.2. SWYDDOGAETHAU SWYDDOGION A CHYNGHORWYR ALLWEDDOL

5.2.1. Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

| Enw: | Rhif Ffôn: | Cyfeiriad E-bost: |
|---|---|---|
| Huw Dylan Owen | 01286 679387 | DylanOwen@gwynedd.llyw.cymru |

5.2.1.1. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â'r cyfrifoldeb terfynol ar faterion diogelu. Bydd yn sicrhau bod mesurau a threfniadau diogelu priodol gan y Cyngor, ac yn gyfrifol am adrodd ar y trefniadau hyn yn gyson i Gynghorwyr.

5.2.1.2. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr fod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posib rhwng ei rôl a'r cyfrifoldeb am faterion diogelu corfforaethol. Pe byddai gwrthdaro o'r fath yn codi, dylai'r Cyfarwyddwr dynnu ei hun o un o'r rolau am gyfnod y sefyllfa a bydd y cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r Prif Weithredwr.

5.2.2. Cynghorwyr

5.2.2.1. Dylai pob Cynghorydd weithredu'n unol â gweithdrefnau'r Polisi hwn a dilyn y canllawiau a'r gweithdrefnau a atodwyd i'r Polisi er mwyn diogelu plant ac oedolion rhag niwed a chamdriniaeth.

5.2.2.2. Mae'n ddisgwyliad ar bob Cynghorydd ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion bob tair mlynedd. Cedwir cofrestr o'r bobl sy'n cwblhau'r hyfforddiant gan adrodd ar hyn fel rhan o drefniadau monitro perfformiad a gydlynir gan y Panel Strategol Diogelu.

5.2.3. Aelodau Cabinet

| Enw: | Cyfeiriad E-bost: |
|---|---|
| Cynghorydd Menna Trenholme<br>*Aelod Cabinet - Plant a Theuluoedd* | Cynghorydd.MennaTrenholme@gwynedd.llyw.cymru |
| Cynghorydd Dilwyn Morgan<br>*Aelod Cabinet - Oedolion* | Cynghorydd.DilwynMorgan@gwynedd.llyw.cymru |
| Cynghorydd Dewi Jones<br>*Aelod Cabinet - Addysg* | Cynghorydd.DewiJones@gwynedd.llyw.cymru |

5.2.3.1. Bydd Aelodau'r Cabinet i Oedolion, Addysg a Phlant a Theuluoedd yn cadw trosolwg ar faterion diogelu ar draws y Cyngor.

5.2.3.2. Bydd yr Aelodau Cabinet hyn yn aelodau sefydlog o'r Panel Strategol Diogelu. Bydd yr Aelodau Cabinet yn adrodd ar waith y Panel Strategol i'r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

5.2.4. Pwyllgor Craffu Gofal

5.2.4.1. Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal yn craffu a derbyn gwybodaeth ynglŷn â rhaglen waith y Panel Strategol drwy'r Adroddiad Blynyddol.

5.2.5. Y Cyngor Llawn

5.2.5.1. Bydd pob Cynghorydd yn derbyn Adroddiad Blynyddol ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

## 5.3. **SWYDDOGAETHAU ADRANNAU'R CYNGOR, RHEOLWYR A STAFF**

5.3.1. Dylai pob Adran o fewn y Cyngor gymryd perchnogaeth lawn o'u cyfrifoldebau diogelu ac hyrwyddo gweithdrefnau i adrodd ar unrhyw bryderon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu.

5.3.2. Pob Aelod o Staff

5.3.2.1. Mae gan bob aelod o staff a gwirfoddolwyr gyfrifoldeb i weithredu eu dyletswyddau mewn modd sy'n diogelu a hybu lles plant ac oedolion.

5.3.2.2. Mae'n rhaid i bob aelod staff ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion **bob tair mlynedd.** Cedwir cofrestr o'r bobl sy'n cwblhau'r hyfforddiant gan adrodd ar hyn fel rhan o drefniadau monitro perfformiad adrannol a'r Panel Strategol Diogelu.

5.3.3. Penaethiaid Adran

5.3.3.1. Mae cyfrifoldeb am ddiogelu a gweithredu'r Polisi hwn o fewn pob Adran ar bennaeth yr Adran.

5.3.3.2. Dylai pob Pennaeth Adran sicrhau bod pob aelod o staff mewn swyddi perthnasol yn cael eu gwirio drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a bod eu staff yn cydymffurfio â'r Polisi hwn. Bydd cydymffurfiaeth yn y maes hwn yn cael ei gofnodi a'i graffu gan y Panel Strategol Diogelu.

5.3.3.3. Bydd diogelu ar raglen pob cyfarfod Tîm Rheoli Corfforaethol.

5.3.3.4. Dylai pob Pennaeth Adran sicrhau bod diogelu ar raglen Tîm Rheoli Adrannol yn gyson.

5.3.4. Rheolwyr Llinell

5.3.4.1. Mae pob Rheolwr Llinell yn gyfrifol am sicrhau bod eu timau wedi derbyn o leiaf yr hyfforddiant mandadol diogelu (Grŵp A) sydd ei angen arnynt a bod yr hyfforddiant yn gyfoes a pherthnasol i'w cyfrifoldebau.

5.3.5. Person Diogelu Dynodedig

5.3.5.1. Mae pob Adran o'r Cyngor wedi enwebu "Person Diogelu Dynodedig" sy'n gyfrifol am:

- ymgyfarwyddo'u hunain gyda'r Polisi hwn ynghyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru;
- weithredu fel y brif ffynhonnell am gyngor a chefnogaeth materion diogelu i staff eraill yn yr Adran;
- sicrhau bod gweithdrefnau mewnol effeithiol ar gyfer ymdrin â phryderon o fewn yr Adran;
- mynychu'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer "Person Diogelu Dynodedig";
- cadw trosolwg ar gydymffurfiaeth staff o fewn eu Hadran gyda'r hyfforddiant perthnasol.

5.3.5.2. Bydd y Person Diogelu Dynodedig ar gyfer pob adran yn aelod o'r Grŵp Gweithredol Diogelu, sydd yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu.

5.3.5.3. Mae cyfrifoldeb ar bob Adran i sicrhau bod pob Aelod Staff yn ymwybodol pwy yw'r Person Diogelu Dynodedig.

5.3.6. Sefydliadau a gomisiynir gan Cyngor Gwynedd

5.3.6.1. Mae'n ofynnol i bob sefydliad a gomisiynir gan Gyngor Gwynedd:

- Drefnu a chynnal gwiriadau priodol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob aelod o staff perthnasol.
- Sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio'n llawn â egwyddorion a gofynion y Pholisi a Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant diogelu priodol ac yn ei adnewyddu'n rheolaidd, fel eu bod yn deall eu rolau, eu cyfrifoldebau a'r disgwyliadau.
- Rhoi gwybod yn brydlon i reolwyr perthnasol y Cyngor am unrhyw bryderon diogelu neu faterion amddiffyn sy'n codi.

5.3.6.2. Cyfrifoldeb rheolwr y contract yw sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r holl ofynion uchod.

5.3.6.3. Rhaid cynnwys y gofynion a nodir ym mharagraff 5.3.6.1 ym mhob:

- ddogfen dendro
- cytundeb gwasanaeth
- chontract perthnasol

## 6. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

6.1. Panel Strategol Diogelu

6.1.1. Mae'r cyfrifoldeb am gynnal trosolwg o drefniadau diogelu plant ac oedolion wedi'i ddirprwyo gan y Cabinet i'r Panel Strategol Diogelu.

6.1.2. Prif gyfrifoldebau'r Panel yw sicrhau bod:

- trefniadau corfforaethol ac adrannol cadarn yn eu lle i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngwynedd.
- trefniadau cyfathrebu eglur a diamwys yn eu lle ar draws y sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth am y swyddogion allweddol ym mhob gwasanaeth sy'n gyfrifol am faterion diogelu plant ac oedolion.
- dealltwriaeth glir gan aelodau etholedig o'r polisïau a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed a/neu gam-drin.

6.1.3. Mae'r Panel yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Gweler rhagor o wybodaeth am y Panel Strategol Diogelu yn ei gylch gorchwyl (**ATODIAD 1**).

6.2. <u>Grŵp Gweithredol Diogelu</u>

6.2.1. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu ac yn gweithredu'n unol â chanllaw a gofynion y Panel hwnnw ac yn annibynnol.

6.2.2. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn monitro'r perfformiad ar draws y gwasanaethau o bersbectif diogelu plant ac oedolion. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu ym mhob cyfarfod y panel, gan amlinellu unrhyw bryderon neu rwystrau'n glir.

6.2.3. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn sicrhau bod:

- Dealltwriaeth glir yng ngweithle'r Cyngor, a'r rheini sy'n gweithio ar ran y Cyngor, o'r polisïau a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed a/neu gam-drin.
- Aelodau, staff a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant diogelu priodol ac amserol.
- Recriwtio diogel yn digwydd a bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei ddefnyddio'n gyson.

6.2.4. Gweler rhagor o wybodaeth am y Grŵp Gweithredol Diogelu yn ei gylch gorchwyl (**ATODIAD 2**).

## 7. ADRODD, MONITRO AC ADOLYGU

7.1. Bydd Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn adrodd ar berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â Pholisi a Chanllawiau Diogelu. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Cyngor Llawn.

7.2. Bydd y Polisi Diogelu hwn yn cael ei adolygu pob dwy flynedd neu os oes newidiadau'n cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth neu wrth ystyried newidiadau mewn arferion gweithio a all godi o ddigwyddiadau neu honiadau.

---

**ATODIADAU**

- **ATODIAD 1:** Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu
- **ATODIAD 2:** Cylch Gorchwyl Grŵp Gweithredol Diogelu
- **ATODIAD 3:** Cofnodi Pryder

**DOLENNI DEFNYDDIOL**

- **Arwyddion o Gam-drin:** Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- **Cod Ymddygiad Ymarfer Gweithlu:** Dogfen
- **Hyfforddiant Diogelu Mandadol (Grŵp A):** Porth E-ddysgu
- **Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol:** Gweithdrefn Recriwtio a Phenodi
- **Person Diogelu Dynodedig Adrannol:** Pwy yw pwy
- **Ffurflen Gyfeirio:** Dogfen (ar gyfer person broffesiynol / asiantaeth yn unig)
- **Rôl Diogelu ar gyfer Cynghorwyr:** Gwefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- **Ymdrin â Honiadau Swydd o Ymddiriedaeth**: Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Adran 5)
- **Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein:** Gweithdrefnau Diogelu Cymru: Camdrin Arlein

**ATODIAD 1**

# Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol mewn grym, mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnull Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sydd yn cynrychioli Aelodau ac uwch reolwyr o holl adrannau'r Cyngor.

1.2. Disgwylir i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion arwain a chynghori ar y gofynion diogelu sydd ym mharagraffau 64-69 o Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.

1.3. Mae hefyd angen i bob asiantaeth sefydlu trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau bod yr agenda gwrthderfysgaeth, atal radicaleiddio a materion diogelwch cymunedol yn cael y sylw priodol.

1.4. I bwrpas y Panel hwn, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag 'amddiffyn' unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

## 2. CYLCH GORCHWYL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU

2.1. Nod y Panel yw rhoi sicrwydd i Aelodau ac i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr uwch swyddog o fewn y Cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol llawn am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion, bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion. Bydd y Panel yn diwallu 3 dyletswydd statudol, sef:

- dyletswydd gorfforaethol cyffredinol i ddiogelu,
- dyletswydd statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
- ddyletswydd diogelwch cymunedol.

2.2. Er mwyn diwallu'r dyletswyddau hyn, disgwylir i'r Panel:

- Adnabod unrhyw fylchau mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol a chymeradwyo rhaglenni gwaith er mwyn ymateb i'r rhain. Cydweithio gyda Grŵp Gweithredol Diogelu i ymateb i unrhyw fylchau adnabuwyd.
- Adnabod gwersi i'w dysgu, ar lefel gorfforaethol, o adolygiadau achosion difrifol ac o adolygiadau perthnasol eraill a sicrhau gweithredu ar y rhain. (Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant ac Adolygiad Lladdiad Domestig).
- Adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau allanol a mewnol a sicrhau gweithredu ar y rhain.
- Hysbysu aelodau arweiniol perthnasol o faterion/datblygiadau allweddol ym maes diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.

- Bod yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff y Cyngor a phob aelod etholedig o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu.
- Bod yn gyfrwng i sicrhau bod aelodau staff ac aelodau etholedig yn derbyn hyfforddiant addas (er enghraifft y ddau fandadol VAWDASV a Atal) yn amserol a monitro presenoldeb yn yr hyfforddiant yma.
- Sicrhau cydberthynas waith rhyngadrannol a chyfathrebu effeithiol o fewn y Cyngor yn y maes diogelu.
- Sicrhau bod trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd â'r gofyn cyfreithiol i sicrhau bod staff yn gymwys i weithio yn y swyddi a rheoleiddir.
- Sicrhau trosolwg ar faterion ehangach Diogelu gan gynnwys gweithdrefnau gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol.

**3. MONITRO PERFFORMIAD**

3.1. Bydd gan y Panel Strategol Diogelu gyfrifoldeb i fonitro ac i herio perfformiad sydd yn ymwneud â'r maes Diogelu.

**4. CADEIRYDDIAETH**

4.1. Bydd y Panel yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob dwy flynedd.

**5. AMLDER CYFARFODYDD**

5.1. Bydd y Panel yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn.

**6. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD**

6.1. Mae'r Panel Strategol Diogelu yn atebol i'r Cabinet. Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn flynyddol. Mi fydd yr Adroddiad hwnnw hefyd yn mynd gerbron y Cyngor Llawn yn flynyddol.

6.2. Mae rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen)] yn gyfrifoldeb i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol.

**7. AELODAETH**

| **Teitl** |
|---|
| Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant |
| Aelod Cabinet Addysg |
| Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol |
| Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol |
| Prif Weithredwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |

| |
|---|
| Pennaeth Adran Addysg |
| Pennaeth Adran Oedolion |
| Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol |
| Cadeirydd y Grŵp Gweithredol Diogelu |
| Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol |
| Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Môn a Gwynedd |
| Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl |

**ATODIAD 2**

## Cylch Gorchwyl Grŵp Gweithredol Diogelu

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol mewn grym, mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnull Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sydd yn cynrychioli Aelodau ac uwch reolwyr o holl adrannau'r Cyngor.

1.2. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu, ac yn gweithio i arweiniad y Panel hwnnw.

1.3. I bwrpas y Grŵp hwn, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag 'amddiffyn' unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

## 2. CYLCH GORCHWYL Y GRŴP GWEITHREDOL DIOGELU

2.1. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn gweithredu'n unol â chanllaw a gofynion y Panel Strategol Diogelu.

2.2. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn monitro'r perfformiad ar draws y gwasanaethau o bersbectif diogelu plant ac oedolion. Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu ym mhob cyfarfod, gan amlinellu unrhyw bryderon neu rwystrau'n glir. Bydd y Panel yn cydweithio gyda Grŵp i ymateb i unrhyw bylchau adnabuwyd.

2.3. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn sicrhau bod:

- Dealltwriaeth glir yng ngweithle'r Cyngor, a'r rheini sy'n gweithio ar ran y Cyngor, o'r polisïau a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed a/neu gam-drin.
- Pob adran yn y Cyngor gyda'i gweithdrefnau diogelu ei hunain wedi'u dogfennu a'u defnyddio'n briodol, ac yn gydnaws â Pholisi Diogelu'r Cyngor.
- Staff a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant diogelu priodol ac amserol.
- Recriwtio mwy diogel yn digwydd a bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei ddefnyddio'n gyson ac yn effeithiol.

2.4 Bydd y Person Diogelu Dynodedig yn ymgymryd a rôl codi ymwybyddiaeth o fewn eu Hadrannau.

3 **CADEIRYDDIAETH**

3.4 Bydd y Panel yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob dwy flynedd.

4 **AMLDER CYFARFODYDD**

4.4 Bydd y Grŵp yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn.

5 **LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD**

5.4 Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu.

5.5 Mae rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen)] yn gyfrifoldeb i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol.

6 **AELODAETH**

6.4 Aelodaeth y Grŵp Gweithredol yw Person Diogelu Dynodedig ar gyfer y maes diogelu plant ac oedolion o fewn pob Adran o fewn y Cyngor.

6.5 Mae rhestr o’r Person Diogelu Dynodedig ar gyfer pob Adran i’w weld ar hunanwasanaeth staff.

## ATODIAD 3

# Cofnodi Pryder

**Os oes perygl ar unwaith ...**

Os ydych yn credu bod unigolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, **ffoniwch 999 ar unwaith.**

**Os oes pryder ond dim perygl ar unwaith...**

Os ydych yn pryderu bod plentyn (dan 18 oed) neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, dylech gofnodi'r pryder yn syth.

Os yn haws, ffoniwch **01766 772577** am sgwrs. Byddai'n ddymunol i chi gofnodi hynny ar bapur yn ysgrifenedig, neu y ffordd hawsaf i gofnodi fyddai e-bost at eich rheolwr / uwch weithiwr neu'r Person Diogelu Dynodedig gyda'r wybodaeth ganlynol:

- **Enwau a chyfeiriadau'r unigolion yr ydych yn bryderus** ynglŷn â nhw. Os oes manylion ychwanegol ar gael (dyddiad geni er enghraifft) dylech eu nodi, ond does dim disgwyl i chi fynd i holi am y rhain.

**Dylech nodi ...**

- **Beth ddigwyddodd?**
- **Beth welsoch chi?**
- **Beth glywsoch chi?**
- **Beth ddwedwyd wrthych?**
- **Lle a phryd digwyddodd y digwyddiad?**
- **Pam eich bod yn bryderus?**

**Cadwch y cofnod yn ffeithiol, heb gynnwys barn bersonol. Gellir dyfynnu union eiriau a ddefnyddiwyd os yn cofio.**

**Dylech hefyd nodi ...**

- **Eich enw a rôl**
- **Dyddiad ac amser y cofnodi**

*Dylech lofnodi'r cofnod os yw ar bapur, nid oes angen os yw'n e-bost i'ch rheolwr / uwch weithiwr neu Person Diogelu Dynodedig yr Adran.*

**Beth fydd yn digwydd wedyn?**

- Bydd eich rheolwr / uwch weithiwr neu *Person Diogelu Dynodedig yr Adran* yn ystyried a ddylid anfon y wybodaeth ymlaen ar unwaith i'r tîm derbyn cyfeiriad yn y gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwneir hyn drwy Ffurflen Gyfeirio Diogelu, sydd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor.

**Dylid trin yr wybodaeth hon yn gyfrinachol a dim ond ei rhannu gyda'r unigolion priodol.**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Gorffennaf 2026 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Huw Wyn Jones,<br>Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 682684 |
| **Teitl yr Eitem:** | **Dyrannu gwarged incwm o'r Premiwm Ail Gartrefi a Thai Gwag ar gyfer 2025-26** |

---

### 1. PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Dyrannu'r incwm ychwanegol o'r premiwm ar eiddo gwag ac ail-gartrefi i'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn Rhan 4 isod.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae'n ofynnol i gynghorau bennu defnydd o'r premiwm yn unol â'r Canllawiau Statudol Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi | LLYW.CYMRU.

2.2. Mae'r Cyngor wedi casglu incwm o'r premiwm yn ystod 2025/26 oedd uwchlaw yr amcangyfrifon sydd angen ei glustnodi i feysydd blaenoriaeth.

2.3. Yn unol â'r trefniadau arferol, cynhaliwyd adolygiad alldro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyfrifo y gwir incwm a gwariant y Cyngor yn erbyn y gyllideb; roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'r incwm a dderbyniwyd o'r premiwm.

2.4. Adroddwyd ar ganlyniadau'r gwaith i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2026 ac un o'r penderfyniadau a wnaed oedd fod tanwariant o (£914k) ar Bremiwm Treth Cyngor ym mlwyddyn ariannol 2025/26 yn cael ei drosglwyddo i gronfa Premiwm Treth Cyngor gyda'i ddefnydd i'w benderfynu gan y Cabinet: Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 19eg Mai, 2026, 1.00 y.h.

## 3. CYFLWYNIAD

3.1. Mae gan Gyngor Gwynedd bwerau, o dan ddeddfwriaeth Treth Gyngor, i godi premiwm ar ail gartrefi ac ar dai gwag hirdymor. Mae'r premiwm yn cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor, ac mae'r canllawiau statudol yn gosod disgwyliadau clir ynghylch sut y dylid ystyried a defnyddio'r incwm hwn.

3.2. Ar 19 Mai 2026 cymeradwyodd y Cabinet raglen o brosiectau i ddyrannu cyfanswm o £1,222,100 o incwm Premiwm Treth Cyngor. Roedd y swm yma yn gyfuniad o £893,700 o incwm ychwanegol o gynyddu'r premiwm ar eiddo gwag i 150% fydd ar gael o flwyddyn ariannol 2026/27 ymlaen, a £328,400 o incwm blynyddoedd blaenorol nad oedd wedi ei ddyrannu hyd hynny.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Cyd-destun

4.1. Mae cyfanswm gwarged o **£917,770** ar gyfer 2025/26 ar gael i'w ddyrannu, sy'n gyfuniad o £3,700 o Premiwm hyd at ac yn cynnwys 2024-25 sydd heb ei ymrwymo eto (adroddiad Cabinet 19 Mai 2026) a £914,070 Premiwm 2025-26 a gasglwyd uwchlaw'r ymrwymiadau.

4.2. Fel sydd wedi ei nodi mewn adroddiadau blaenorol ar ddyrannu incwm y premiwm byddwn angen adolygu fforddiadwyedd yr holl ymrwymiadau wrth symud ymlaen er mwyn ymateb i amrywiadau posibl yn y gyfradd casglu, eiddo yn symud rhwng trethi domestig ac annomestig; a chostau yn cynyddu.

Defnydd o'r Premiwm

4.3. Mae'n ofynnol i gynghorau ystyried gofynion y Canllawiau Statudol Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi | LLYW.CYMRU wrth bennu defnydd o'r premiwm.

4.4. Bwriedir i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol godi premiwm fod yn adnodd i helpu i wneud y canlynol:

- sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy
- helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy

4.5. Gall awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, ond fe'i hanogir i'w ddefnyddio er mwyn helpu i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

4.6. Mae disgwyl i'r Cyngor gyhoeddi, er tryloywder, sut mae'r incwm ychwanegol a godwyd wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r problemau a gaiff eu hachosi gan eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, neu fynd i'r afael â phroblemau tai lleol eraill.

4.7. Yn y gyfarfod ar 19 Mai 2026, penderfynodd y Cabinet ar ymrwymiadau newydd o'r Premiwm Treth Cyngor, sy'n golygu mai defnydd presennol y Premiwm ar gyfer 2026-27 yw:

| | £ |
|---|---|
| Cynllun Gweithredu Tai | 8,115,120 |
| Digartrefedd | 3,369,510 |
| Swyddi Tai | 165,840 |
| Swydd Trethi | 59,890 |
| Swydd Cyfrifeg Newydd | 60,040 |
| Swyddi Trethi Newydd | 136,420 |
| Bidiau Parhaol Digartrefedd | 936,880 |
| Staffio Tim Tai Gwag | 200,000 |
| Adroddiadau a Gwaith Paratoi | 60,000 |
| Grant Cartrefi Gwag | 500,000 |
| Costau Gorfodi Eiddo Gwag | 50,000 |
| Fforwm Rhwydweithio | 10,000 |
| Cronfa Gymunedol | 150,000 |
| System Ffurflenni Trethi Ar-lein (un-tro) | 78,500 |
| System Ffurflenni Trethi Ar-lein (swm parhaol) | 63,900 |
| Swyddogion Adennill | 106,000 |
| | |

<u>Cynigion Newydd</u>

4.8. Rydym wedi cychwyn drwy edrych ar y bidiau diweddar i adnabod unrhyw geisiadau o angen addas o'r adrannau nas y'i hariannwyd drwy'r drefn honno, fel man cychwyn.

| Swm Parhaol £ | Swm Un-tro £ | Disgrifiad | Effaith |
|---|---|---|---|
| 95,180 | 330,000 | Storio a Cludo eiddo aelwydydd mewn llety argyfwng / llety dros dro | Mae potensial i bob aelwyd sy'n cael eu lletya mewn llety argyfwng fod angen sicrwydd o ddiogelu eu heiddo tra'n disgwyl am lety parhaol. Yn 2025/26, cafodd 632 o aelwydydd eu lleoli mewn llety argyfwng.<br><br>Mewn adeg emosiynol a thrawmatig o fod yn ddigartref, bydd storio eiddo personol yn ddiogel yn rhoi sicrwydd i bobl sy'n canfod eu hunain yn ddigartref, a bydd ganddynt fynediad rhwydd atynt yn unol â'u hawliau sylfaenol.<br><br>Sicrhau bod eiddo personol unigolion (rhai sydd â chyswllt emosiynol neu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | werth sentimental) yn cael eu trin â pharch<br><br>Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol<br><br>Arbed gorwariant i'r adran (yn 2025-26 roedd swm y gorwariant yn £232,000) |
| 64,420 | | Swydd Rheolwr Prosiect I'r Cynllun Gweithredu Tai | Bydd y rheolwr prosiect yn gweithio ar oddeutu 7 o brosiectau datblygu yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â chynnig cefnogaeth gyffredinol i amcanion y Cynllun Gweithredu Tai. |
| **159,600** | **330,000** | **Cyfanswm** | |
| | **489,600** | | |

4.9. Argymhellir peidio â dyrannu'r gweddill ar y pwynt hwn gan adolygu'r ymrwymiadau a'u fforddiadwyedd yn rhan o Adolygiad Tachwedd rhag gor-ymrwymo oherwydd y rhesymau a nodwyd yn 3.1 uchod. Mae'r uchod yn golygu ymrwymo 53% o'r incwm ychwanegol a amcangyfrifir.

## 5. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

5.1. Mae asesiad effaith ar y cynigion wedi cael ei baratoi ac mae wedi ei gynnwys yn yr Atodiad. Mae'r asesiad yn rhagweld effaith niwtral y penderfyniad a geisir.

## 6. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

6.1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

6.2. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

6.3. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
- Trigolion sy'n Iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

6.4. Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

6.5. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o “Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy’n fforddiadwy ac sy’n gwella eu hansawdd bywyd”.

6.6. Mae’r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni’r weledigaeth hon:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

6.7. Mae’r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda’i gilydd, yn mynd ati i wireddu’r amcanion hyn.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1. Os bydd y Cabinet yn penderfynu ariannu’r cynlluniau a amlinellir yn y tabl uchod, byddant yn cael ei gweithredu yn 2026/27.

<u>Sylwadau’r Swyddogion Statudol</u>

**Sylwadau’r Prif Swyddog Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda’r Aelod Cabinet i baratoi’r adroddiad yma ac yn cadarnhau’r cynnwys.

**Sylwadau’r Swyddog Monitro:**

Mae dyrannu a blaenoriaethu yr incwm o’r premiwm yn fater i’r Cabinet benderfynu arno. Rwy’n fodlon fod yr argymhelliad yn briodol ac yn cyd fynd a’r hyblygrwydd sydd yn yr Arweiniad Statudol.

# Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

# Dyraniad Premiwm Mehefin 2026

**Awdur:** Dewi Aeron Morgan (CYLLID)

**Teitl Swydd:** Pennaeth Cyllid

**Dyddiad**: 03/06/2026

**Fersiwn:** Fersiwn TA

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

### 1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Gosod dyraniadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol

### 2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Dyrannu gwarged yn y Premiwm Treth Cyngor a gasglwyd yn 2025/26 ac nad yw wedi ei ddyrannu eto. Mae oddeutu £914,000 yn weddill i'w ddyrannu ar ôl ymrwymiad sydd wedi eu gwneud.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Swyddogion yn yr adrannau sy'n cael eu heffeithio, a'r Aelodau Cabinet perthnasol.

## CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Wedi ymgynghori gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor | 5/6/2026 12:00:00 AM | Mae mwyafrif helaeth o incwm y Premiwm eisioes wedi cael ei glustnodi ond gwarged yn 2025/26 wedi rhoi cyfle i ddefnyddio'r arian i ariannu cynlluniau penodol yn y maes tai. |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol | Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol |
|---|---|---|
| **Hil** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Anabledd** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Rhyw** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Oedran** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Crefydd a Chred** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Ail-bennu rhywedd** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |

| | | |
|---|---|---|
| **Priodas a Phartneriaetgh Sifil** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Iaith Gymraeg** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Hawliau Dynol** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |
| **Arall** | Mae'r defnydd o'r arian yn ymwneud â buddsoddi er mwyn osgoi costau cadw, ac i ariannu swydd rheolwr prosiect. | Effaith niwtral. |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Nag oes

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Mae penderfyniadau blaenorol wedi eu cynnal dros sawl blwyddyn wrth glustnodi defnydd y Premiwm.  Wrth ystyried y penderfyniadau hyn, ni ystyrir fod y penderfyniadau yn effeithio ar y grwpiau hyn.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Mae'r cynnig yma yn cynorthwyo'r Adran Tai ac Eiddo i weithredu camau positif er mwyn osgoi costau cadw dodrefn ayb yn y maes tai, ac er mwyn gweithredu prosiectau penodol.  Mae sylw wedi ei roi i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb ond ni welir fod yr hyn sydd yn y cael ei gynnig yn y penderfyniad a geisir yn cael effaith yn y maes yma.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Cynnig i arbed rheoli costau sydd yma a bydd y prosiectau yn cynorthwyo'r Adran Tai ac Eiddo i wireddu prosiectau.  Bydd hyn o'i natur yn mynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol.

**10. Sut mae’r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â  gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â  pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Dim yn berthnasol - storio nwyddau sydd dan sylw yma, yn ogystal â swydd rheolwr prosiect.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i’r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Mae’r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy’n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.
Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o “Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy’n fforddiadwy ac sy’n gwella eu hansawdd bywyd”.
Mae’r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni’r weledigaeth hon:
☐ Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
☐ Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
☐ Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
☐ Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
☐ Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.
Mae’r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda’i gilydd, yn mynd ati i wireddu’r amcanion hyn.

**CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau**

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Na fydd

**Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?**

**Caffael:**

-

**Partneriaeth:**

-

**CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer**

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Mae'r cynnig yn ffordd i fuddsoddi er mwyn ein caniatau i weithredu mewn ffordd rhatach, drwy fewnoli'r gwasanaeth.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**
Dim

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Dim effaith negyddol

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Dim effaith negyddol

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Ni ystyrir fod hynny'n angenrheidiol.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Ni ystyrir fod hynny'n angenrheidiol.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Ni ystyrir fod hynny'n angenrheidiol.

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arewiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu gwerth am arian y cynllun | 3/31/2027 12:00:00 AM | Blynyddol | Pennaeth Cyllid | Na |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth** |
|---|---|---|---|
| Adolygu gwerth am arianol | Blynyddol | Pennaeth Cyllid | Na |

**CYNGOR GWYNEDD**
**Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 07 Gorffennaf 2026 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| **Swyddog Cyswllt:** | Sioned E Williams,<br>Pennaeth Economi a Chymuned |
| **Teitl yr Eitem:** | **CRONFA TWF LLEOL: CYNLLUNIAU 2026/27 GWYNEDD** |

## 1. PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cytuno i ymrwymo'r £6,317,640 o'r arian ddarparwyd i Gyngor Gwynedd ei ddyrannu i brosiectau yn 2026/27, i'r 10 cynllun a restrir yn yr adroddiad.

1.2. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Economi a Chymuned, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr, i gadarnhau manylion y cynlluniau a'r cyfraniad ariannol, penderfynu ar ddarparu llythyr cynnig ac unrhyw ddogfennaeth arall ar gyfer cytuno ariannu'r prosiectau.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Adroddwyd ar ddyfodiad y Gronfa Twf Lleol (Local Growth Fund - LGF) i Cabinet 10 Mawrth.

2.2. Mae blwyddyn gyntaf y Gronfa (2026/27) bellach wedi cychwyn a chynnig o arian gan Lywodraeth Cymru i Gogledd Cymru wedi ei dderbyn.

2.3. Mae blaenoriaethau'r LGF yn wahanol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (Shared Prosperity Fund - SPF) sydd wedi bod ar waith ers 2022; ond ystyrir 2026/27 yn flwyddyn bontio i drefniadau newydd yr LGF.

2.4. Yn unol â dymuniad Llywodraeth Cymru, bydd y trefniadau llywodraethu a gweinyddu sefydlwyd ar gyfer yr SPF yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer 2026/27.

2.5. Bydd cyfrifoldeb am yr LGF yn trosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru o 2027/28 ymlaen.

2.6. Mae £6,317,640 o gyllideb y gogledd ar gyfer 2026/27 ar gael i Cyngor Gwynedd ei ymrwymo i brosiectau. Mae 73% o'r arian yn gyfalaf ac

mae gofyn cynllunio ar y sail fod yr arian yn cael ei wario cyn 31 Mawrth 2027.

## 3. CYFLWYNIAD

Cefndir

3.1. Ers 2022 mae Gogledd Cymru wedi derbyn arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) gan Lywodraeth y DG. Roedd yr SPF yn cael ei weinyddu ar y cyd gan siroedd y gogledd (drwy law Cyngor Gwynedd) gyda dyraniad o arian i bob sir benderfynu ar ei ddefnydd.

3.2. Mae £32.15 miliwm wedi ei fuddsoddi gan Cyngor Gwynedd drwy law yr SPF. Mae'r arian wedi elwa unigolion, mentrau, sefydliadau lleol a chymunedau ym mhob cwr o Wynedd (mae enghreifftiau o gynlluniau sydd wedi derbyn cefnogaeth ar gael ar wefan y Cyngor). 2025/26 oedd blwyddyn olaf cyllid yr SPF.

3.3. Y Gronfa Twf Lleol (LGF) yw'r rhaglen newydd sydd wedi dod yn lle'r SPF. Bydd £547 miliwn yn dod i Gymru o'r LGF dros dair blynedd o 2026/27 i 2028/29.

3.4. Mae'r LGF yn parhau i fod yn rhaglen gan Lywodraeth y DG ond Llywodraeth Cymru fydd yn derbyn yr arian ac yn atebol am ei wariant. Bwriad Llywodraeth Cymru yw dethol rhan helaeth o'r arian i ranbarthau a'u dymuniad yw gwneud hyn drwy law y Cydbwyllgorau Corfforedig (Uchelgais Gogledd Cymru yw'r Cydbwyllgor Corfforedig sy'n berthnasol i Wynedd).

3.5. Mae cyllid i'r LGF yng Nghymru wedi ei gadarnhau hyd at 31 Mawrth 2029. Ar 23 Mawrth roedd cyhoeddiad bod Llywodraeth y DG a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gynllun buddsoddi tair blynedd ar gyfer y Gronfa.

3.6. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried 2026/27 yn flwyddyn bontio i ganiatáu amser i'r Cydbwyllgorau Corfforedig baratoi a chynllunio, felly bydd trefniadau gweinyddu a llywodraethu'r SPF yn parhau i gael eu defnyddio eleni.

3.7. Cyngor Gwynedd fydd Awdurdod Lleol arweiniol yr LGF ar ran siroedd y gogledd yn 2026/27. Mae'r Cyngor wedi derbyn llythyr cynnig am arian 2026/27 Gogledd Cymru gan Lywodraeth Cymru. Arwyddwyd y cynnig ar 23 Ebrill.

Cyllideb 2026/27

3.8. Mae £33,781,826 o arian Cronfa Twf Lleol wedi ei ymrwymo i'r gogledd ar gyfer 2026/27. Bydd 70% o'r arian yn cael ei dderbyn ar ffurf cyfalaf.

3.9. Gan ddilyn yr egwyddor o barhau dull gweithredu'r SPF mae cytundeb ymhlith siroedd y gogledd i ganiatáu ardaloedd unigol i benderfynu ar ddefnydd yr arian ar sail dosbarthiad gofodol yr SPF. Mae 19.3% o ddyraniad Gogledd Cymru wedi ei neilltuo i Wynedd.

3.10. £6,524,379 yw'r cyfanswm sydd wedi ei ddyrannu i Wynedd. Yn unol â'r arfer sefydlwyd gan yr SPF mae 4% o'r arian (£260,975) wedi ei glustnodi ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Gronfa; o brofiad nid oes angen y swm yma yn llawn, felly bwriedir cynllunio ar y sail fod £6,317,640 ar gael i'w ymrwymo i weithgaredd.

3.11. Rhaniad yr arian ar gael i gefnogi prosiectau yw:

Cyfalaf £4,567,378 (72%)

Refeniw £1,750,262 (28%)

3.12. Mae'r gyllideb yn doriad o 20% (£1.6 miliwm) o'r SPF yn 2025/26. Mae'r newid ym mhwyslais y cyllid i arian cyfalaf yn golygu y bydd £4.2 miliwn (70%) yn llai o arian refeniw ar gael yn 2026/27.

Blaenoriaethau'r Gronfa Twf Lleol

3.13. Er ei fod yn disodli'r SPF mae bwriad a blaenoriaethau'r LGF yn wahanol, gan adlewyrchu blaenoriaethau newydd Llywodraeth y DG a'r newid yng nghyfansoddiad yr arian (h.y. y symudiad o arian refeniw i arian cyfalaf yn bennaf).

3.14. Yr uchelgais yw *cefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael â'r problemau sy'n arwain at anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru*.

3.15. Mae tair blaenoriaeth i'r Gronfa ac wyth o amcanion. Blaenoriaethau'r Gronfa yw:

- Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol
- Cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i mewn i waith
- Gwella seilwaith rhanbarthol

3.16. Mae Atodiad B Cynllun Buddsoddi'r Gronfa yn rhestru amcanion yr LGF yng Nghymru ac yn cynnwys gwybodaeth am y gweithgareddau sydd dan sylw gan Lywodraeth Cymru o fewn eu blaenoriaethau.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1. Mae'r Gronfa Twf Lleol (LGF) yn wahanol i'r SPF; mae'r LGF yn blaenoriaethu datblygu'r economi a sicrhau twf gan bwysleisio gweithgaredd sydd o bwys rhanbarthol. Nid oes sylw i ddatblygu cymunedol o fewn y Gronfa ac mae'r sgôp ar gyfer gweithgaredd adfywio wedi lleihau.

4.2. Mae oblygiadau'r newid i wariant sy'n gyfalaf yn bennaf hefyd yn sylweddol, yn arbennig o ystyried fod yn rhaid cynllunio ar y sail fod gofyn cwblhau gwariant erbyn 31 Mawrth 2027.

4.3. Mae hefyd gofyn cynllunio gyda gwybodaeth anghyflawn ac o fewn amserlen fer. Diwedd mis Mawrth cadarnhawyd y gyllideb, dim ond dangosyddion drafft ar gyfer yr LGF yng Nghymru sydd ar gael ac mae canllawiau'r Gronfa eto i'w cyhoeddi.

4.4. Mae adeiladu portffolio o gynlluniau ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yng Ngwynedd yn 2026/27 wedi ei fframio gan yr uchod a'r gofynion ymarferol o gyflawni'r amodau yn fwyaf arbennig.

Egwyddorion ac ystyriaethau

4.5. Mae'r uchod yn llywio dewisiadau'r Cyngor ar gyfer yr LGF. Yn ddelfrydol, yn unol â'n harfer, byddai trefn agored wedi ei gynnal i wahodd ceisiadau er mwyn rhoi cyfle i fentrau a sefydliadau lleol gyflwyno eu cynigion; ond nid oes amser digonol ac mae elfennau o'r wybodaeth fyddai'n ddisgwyliedig gan ymgeiswyr yn parhau i fod yn anhysbys.

4.6. Er hyn, mae ymdrech wedi bod i adnabod rhestr o fuddsoddiadau all fod yn gymwys ac yn briodol i dderbyn arian gan y Cyngor o'r LGF yn 2026/27, yn seiliedig ar:

- Cynlluniau Adfywio Ardal Lleol y sir;
- Mewnbwn rhanddeiliaid a phartneriaid i gynllun cyflawni arfaethedig ein Strategaeth Economaidd;
- adborth swyddogion sy'n gweithio gyda chymunedau a mentrau; a,
- chynlluniau presennol all fod yn addas i'r LGF.

Anogwyd unrhyw un gydag awgrymiadau addas i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd (wele gwefan y Cyngor).

4.7. Mae'n bwysig nodi mai un ymhlith ystod o rhaglenni ariannu ydi'r LGF ac mai nid dyma'r unig ffynhonnell o fuddsoddiad yn y sir. Mae gwariant sylweddol yng Ngwynedd ar y gweill neu ar waith drwy law Cais Twf Gogledd Cymru, y Gronfa Adfywio Lleol, y rhaglen Trawsnewid Trefi a'r rhaglen Balchder Bro sydd am elwa ardaloedd ledled y sir.

4.8. Bydd pob cynllun a gefnogir drwy law yr LGF angen dangos eu bwriad i gyfrannu'n gadarnhaol i ddyfodol y Gymraeg.

4.9. Bydd hefyd yn ofynnol i bob rhaglen wireddu'r egwyddorion isod (sefydlwyd yn gan y Cyngor ar gyfer yr SPF yn lle gyntaf):

a) Fod ymdrech fwriadol i sicrhau fod yr arian a'r budd yn deillio ohono yn elwa cymunedau a thrigolion ym mhob rhan o Wynedd.

b) Fod ymdrech fwriadol i annog gweithgareddau (a sefydliadau) nad ydynt wedi derbyn arian yn flaenorol gael mynediad i gymorth.

4.10. Tu hwnt i'r uchod, yr ystyriaethau allweddol ar gyfer dod â phecyn o gynigion ynghyd i dderbyn arian o ddyraniad Cronfa Twf Lleol Gwynedd oedd:

1. yr angen i sicrhau fod pob rhan o Wynedd yn elwa;
2. aliniad gyda blaenoriaethau'r Strategaeth Economaidd;
3. perthnasedd i brosiectau Gwynedd Llewyrchus Cynllun y Cyngor;
4. cyd-fynd gyda blaenoriaethau lleol y Cynlluniau Adfywio Ardal;
5. ffit gyda blaenoriaethau ac amcanion y Gronfa Twf Lleol a Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru;
6. **ymarferoldeb gweithredu o fewn y cyfyngiadau amser yr LGF** (sef cynllunio ar y sail fod angen gwario cyn 31 Mawrth 2027).

Y cynigion dan sylw

4.11. Ar sail yr ystyriaethau uchod, mae 10 prosiect wedi eu lunio ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yng Ngwynedd yn 2026/27. Mae nifer o'r prosiectau hyn yn cynnwys rhaglen o weithgareddau er mwyn sicrhau fod pob rhan o Wynedd yn gallu gweld budd o'r cynlluniau .

4.12. Yng ngoleuni'r amserlen gyfyngedig ar gyfer datblygu a chyflawni gweithgaredd wedi ei ariannu gan yr LGF, mae datblygiad yr elfennau unigol o fewn y rhaglenni yn parhau, a bydd cyfansoddiad y gweithgaredd yn esblygu wrth i wybodaeth bellach ddod i law.

4.13. Mae'r pecyn o weithgaredd dan sylw wedi ei drafod a derbyn mewnbwn gan bartneriaid y Cyngor drwy law y Grŵp Ymgynghorol sefydlwyd i berwyl yr SPF, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, busnes a'r trydedd sector.

4.14. Mae'r rhaglenni wedi eu dethol ar sail themâu ein Strategaeth Economaidd; *mentergarwch, pobl* a *lle*:

| MENTERGARWCH | amcangyfrif: | £1.27M | 20% |
|---|---|---|---|

M1: Rhaglen cymorth a chefnogaeth Menter Gwynedd £990k

Pecyn o gymorth ymarferol ac ariannol gan Gyngor Gwynedd a darparwyr cefnogaeth busnes eraill yn y sir (Prifysgol Bangor, Hwb Mentergarwch a Cwmpas) i helpu mentrau newydd wedi eu harwain can ferched neu bobl ifanc sefydlu, ac i gefnogi mentrau lleol i fabwysiadu technoleg, arloesi a lleihau eu costau.

M2: <u>Canolfan arloesi, busnes a sgiliau Trawsfynydd</u> £280k

Cwblhau'r cynllunio manwl fydd yn sicrhau buddsoddiad o £20 miliwn+ i adeiladu canolfan a pharc gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd er mwyn creu cyfleoedd gwaith yn yr ardal a pharatoi trigolion a mentrau lleol i wneud y gorau o'r cyfle.

| POBL | amcangyfrif: | £1.56M | 25% |
|---|---|---|---|

P1: <u>Rhaglen cymorth Gwaith Gwynedd</u> £462k

Pecyn o gymorth gan Gyngor Gwynedd a darparwyr lleol megis Gisda a chymdeithasau tai'r sir i helpu pobl leol sydd ddim yn gweithio i gael yr help maent ei angen i sicrhau swydd, ac i hwyluso pobl mewn swyddi elfennol i wella eu sgiliau er mwyn cael mwy o gyflog.

P2: <u>Rhaglen sgiliau gweithlu Gwynedd</u> £600k

Pecyn o help gan Grŵp Llandrillo-Menai i a) cefnogi pobl ifanc bregus i drosglwyddo yn llwyddiannus i fyd gwaith a b) helpu mentrau lleol gael y sgiliau cywir er mwyn addasu i newidiadau yn yr economi ac i dyfu a chreu gwaith.

P3: <u>Rhaglen sefydlu rhwydwaith *Gwynedd yn ei gymuned*</u> £495k

Rhaglen i ddatblygu a threialu'r cysyniad o ddatblygu rhwydwaith o leoliadau i ddarparu cymorth cyflogadwyedd, datblygu sgiliau a chymorth i fentrau ledled Gwynedd wedi eu cydleoli gyda llyfrgelloedd y sir.

| LLE | amcangyfrif: | £3.45M | 55% |
|---|---|---|---|

Ll1: <u>Talebau Talent *Nôl i Wynedd*</u> £100k

Adeiladu ar weithgaredd o fewn Cynllun y Cyngor i annog / gefnogi pobl ifanc i aros a dychwelyd i'r sir drwy gydweithio â Prifysgol Bangor i sicrhau cyfleoedd gwaith yn lleol i raddedigion.

Ll2: <u>Cronfa effeithlonrwydd ynni asedau cymunedol</u> £350k

Darparu cymorth ariannol drwy law Mantell Gwynedd i helpu gosod offer fydd yn lleihau costau ynni asedau cymunedol y sir a'u gwneud yn hwy hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol.

Ll3: Rhaglen Ganol Dinas Bangor £547k

Cwblhau'r cynllunio manwl a sicrhau pecyn asedau ar gyfer defnyddio hamdden, iechyd a lles yn arf ar gyfer adfywio canolfan masnachol dinas Bangor.

Ll4: Rhaglen isadeiledd tir ac eiddo i alluogi twf £1.06M

Rhaglen o fuddsoddiadau i wella a chynyddu'r ddarpariaeth o unedau gwaith yn y sir gan alluogi mentrau lleol i sefydlu a thyfu. Gweithgaredd yn cynnwys gwella'r amgylchedd gwaith i fusnesau, darparu unedau ychwanegol a pharatoi cynlluniau manwl ar gyfer targedu arian pellach i sefydlu mwy o unedau yn y dyfodol.

Ll5: Rhaglen asedau diwylliant i alluogi twf £1.39M

Rhaglen o fuddsoddiadau ar draws Gwynedd yn asedau diwylliant, hamdden a threftadaeth i hwyluso ac annog datblygiad yr economi lleol.

4.15. Cyfanswm yr ymrwymiadau uchod yw £6.28 miliwn. Gellir gweld peth amrywiaeth yn y costau ac mae tua £42,000 yn weddill i'w ddyrannu wrth i fanylion terfynol y cynlluniau ddod i law.

4.16. Mae Atodiad 1 yn cynnwys amlinelliad pellach o'r cynlluniau unigol. Mae Atodiad 2 (sydd ar gael i Aelodau'r Cabinet yn unig) yn amlinellu cyllideb y prosiectau dan sylw ynghyd ac unrhyw cydariannu.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. Drwy law yr adroddiad yma bydd y Cabinet yn penderfynu ar gefnogi'r 10 prosiect sydd wedi eu rhestru uchod ac yn pennu'r dyraniad o arian LGF.

5.2. Ar sail cefnogaeth y Cabinet i'r portffolio o gynlluniau bydd manylion terfynol y prosiectau unigol yn cael eu datblygu a'u cadarnhau drwy ffurflen gais.

5.3. Bydd cwblhau'r ffurflen cais yn gofyn am fanylion gweithgaredd y cynlluniau, cadarnhad o'r costau, canlyniadau arfaethedig ac aliniad y gweithgaredd dan sylw i'r LFG a blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a cenedlaethol. Bydd hefyd yn ofynnol paratoi asesiad effaith a manylu sut mae'r cynllun yn cyfarch gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyfrannu at lewyrch y Gymraeg.

5.4. Bydd y Pennaeth Economi a Chymuned, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr yn asesu'r ffurflenni ac yn cadarnhau manylion y cynlluniau a'r cyfraniad ariannol. Ar y sail yma bydd modd gofyn i gytundebau ariannol gael eu llunio a'u rhyddhau; gyda'r nod fod gweithgaredd ar waith cyn yr haf.

5.5. Dim ond ar gyfer blwyddyn gyntaf y Gronfa Twf Lleol (2026/27) mae‘r cyllideb wedi ei gadarnhau a bydd cyfrifoldeb ar gyfer y Gronfa yn trosglwyddo i'r Cydbwyllgor Corfforedig (Uchelgais Gogledd Cymru) yn Ebrill 2027. Mae gofyn cynllunio ar y sail fod yr arian sydd yn cael ei ymrwymo drwy law'r adroddiad angen ei wario cyn 31 Mawrth 2027

5.6. Mae'r Cydbwyllgor yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2026/27 er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer blwyddyn 2 a 3 y Gronfa. Bydd y gwaith yn cynnwys paratoi gweledigaeth a chynllun twf yn nodi'r bwriad ar gyfer buddsoddi'r £70.61 miliwm fydd ar gael i'r rhanbarth ar gyfer y cyfnod.

5.7. Er na fydd modd i'r Cydbwyllgor gadarnhau unrhyw ymrwymiadau ariannol i gynlluniau, dymunwn geisio derbyn eu cefnogaeth mewn egwyddor i gefnogi rhai cynlluniau yng Ngwynedd sydd yn flaenoriaeth ranbarthol mor fuan ac y bo modd, gyda chynlluniau Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd (M2) a Chanol Dinas Bangor (Ll3) yn flaenoriaeth yn y lle gyntaf.

## 6. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

6.1. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

*"Mae'r arian sydd yn cael ei gynnig i Wynedd dan y cynllun ar gyfer 2026/27 yn sylweddol is na'r hyn a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod blaenorol, ac mae newid proffil yr ariannu gan roi mwy o bwyslais ar arian cyfalaf yn ychwanegu i'r her. Fel mae'r adroddiad yn ei wneud yn glir, mae'n rhaid gwario'r arian yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ac mae hynny am fod yn hynod o heriol o ystyried yr amser cyfyngedig sydd wedi bod ar gael i adnabod prosiectau a chynllunio ar eu cyfer. Mae eisoes yn fis Mehefin, a thra'n cydnabod nad oedd modd defnyddio'r dull a ffafrir i adnabod prosiectau addas mae'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad yn cynnig datrysiad pragmatig ac rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."*

6.2. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*"Fel y nodir yn yr adroddiad mae'r penderfyniad a geisir yn seiliedig ar sefyllfa drosiannol wrth i reoli'r gronfa yma gael ei drosglwyddo CBC y Gogledd, Gan fod yn amserlen yn hynod o fyr mae angen creu cyfundrefn all ateb i'r her yma. Mae'r dirprwyo a gynigir yn ymateb i hyn mewn ffordd briodol. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir."*

**Rhaglen cymorth a chefnogaeth Menter Gwynedd (M1) MENTERGARWCH**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 990k |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | 130K |

2. Partneriaeth arfaethedig

   Cyngor Gwynedd (yn arwain), Prifysgol Bangor, Hwb Menter, Cwmpas

3. Gweithgaredd arfaethedig

   - Cymorth / grant i ferched a phobl ifanc i gychwyn menter o fewn y sectorau penodol
   - Cymorth / grant i fentrau gyda photensial twf i ddatgarboneiddio ac i fabwysiadu technoleg
   - Cefnogi mentrau lleol i elwa o arbenigedd y Brifysgol
   - Cefnogi mentrau sy'n dymuno trosi i berchnogaeth y gweithlu

4. Ardal cyflawni

   Bydd y prosiect ar waith ledled Gwynedd.

5. Deilliannau tebygol

   - Merched wedi eu sbarduno i gychwyn menter lleol
   - Pobl ifanc lleol wedi eu cefnogi i gychwyn mentrau
   - Mwy o fentrau o fewn sectorau fydd yn ychwanegu gwerth i'r economi lleol
   - Mentrau lleol yn y sir o fewn sectorau sy'n tyfu wedi cael help
   - Mwy o fentrau lleol yn defnyddio arbenigedd y Brifysgol
   - Y Brifysgol wedi ei wreiddio mwy yn y cymuned fusnes lleol
   - Mentrau lleol hir sefydlog yn parhau ac yn aros ym mherchnogaeth lleol

6. Amcangyfrif canlyniadau

   - Mentrau lleol wedi derbyn cymorth 65

**Canolfan arloesi, busnes a sgiliau Trawsfynydd (M2)** **MENERGARWCH**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 280k |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | Dim |

2. Partneriaeth arfaethedig

   Cyngor Gwynedd (yn arwain), M-SParc, NRS / NDA, Llywodraeth Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

3. Gweithgaredd arfaethedig

   - Paratoi Achos Busnes Llawn ar gyfer y Ganolfan
   - Paratoi dyluniadau manwl y Ganolfan a sicrhau hawl cynllunio
   - Paratoi mentrau lleol i fanteisio ar y cyfleodd
   - Paratoi pobl ifanc lleol i fanteisio ar y cyfleoedd

4. Ardal cyflawni

   Bydd y prosiect ar waith yn Bro Ffestiniog

5. Deilliannau tebygol

   - £20M+ yn ei le i adeiladu'r Ganolfan
   - Dyluniadau wedi derbyn caniatâd cynllunio
   - Dogfennau tendr ar gyfer penodi adeiladwyr wedi eu llunio
   - Mentrau lleol yn barod i fanteisio
   - Pobl ifanc lleol yn dymuno aros yn yr ardal i fanteisio ar y cyfleoedd

6. Amcangyfrif canlyniadau

| | |
|---|---|
| • Pobl lleol wedi derbyn cefnogaeth | 20 |
| • Mentrau lleol wedi ymgysylltu | 40 |

**Rhaglen cymorth Gwaith Gwynedd (P1)** **POBL**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 462k |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | Dim |

2. Partneriaeth arfaethedig

   Cyngor Gwynedd (yn arwain), Gisda, Adra / cymdeithasau tai

3. Gweithgaredd arfaethedig

   - Cymorth i gyfeirio unigolion economaidd anweithgar i'r rhaglenni cywir
   - Help i unigolion mewn swyddi elfennol wella eu sgiliau a cael swydd well
   - Cefnogi pobl ifanc gyda anghenion cymhleth i fod yn barod i gael help i sicrhau swydd
   - Cefnogi unigolion gyda anableddau dysgu - sydd ddim yn cyrraedd trothwy cymorth prif lif - yn cael swydd
   - Helpu tenantiaid cymdeithasau tai i gael mynediad i hyfforddiant / profiad gwaith

4. Ardal cyflawni

   Bydd y prosiect ar waith ledled Gwynedd.

5. Deilliannau tebygol:

   - Pobl lleol yn cael mynediad i'r cymorth cywir
   - Mwy o bobl lleol yn llwyddo ar ôl derbyn cymorth
   - Llai o bobl ifanc yn trosi'n anweithgar economaidd
   - Pobl lleol yn cael help i gyflawni eu potensial ac yn llai tebygol o fod yn dioddef o dlodi mewn gwaith

6. Amcangyfrif canlyniadau:

| | |
|---|---|
| • Pobl yn cael help i sicrhau swydd | 120 |
| • Pobl wedi mynychu hyfforddiant achrededig | 115 |

**Cynllun sgiliau gweithlu Gwynedd (P2)** **POBL**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 600k |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | Dim |

2. Partneriaeth arfaethedig

   Grŵp Llandrillo Menai (yn arwain), cyflogwyr lleol

3. Gweithgaredd arfaethedig

   - Help i sicrhau fod pobl ifanc bregus yn aros yn y Coleg ac yn cwblhau eu cyrsiau
   - Help i sicrhau fod pobl ifanc bregus yn trosglwyddo'n llwyddiannus i hyfforddiant pellach neu swydd pan yn gorffen yn y coleg
   - Hyfforddiant i weithwyr mentrau lleol i wella eu sgiliau
   - Uwchraddio offer peirianyddol y Coleg yn Nolgellau

4. Ardal cyflawni

   Bydd y prosiect ar waith ledled Gwynedd.

5. Deilliannau tebygol:

   - Llai o bobl ifanc yn trosi'n anweithgar economaidd
   - Gweithwyr lleol yn gwella eu sgiliau ac yn gallu cyflawni eu potensial
   - Mentrau lleol gyda'r sgiliau cywir i'w galluogi i ddatblygu
   - Mwy o gyrsiau i gyflogwyr yn Meirionnydd

6. Amcangyfrif canlyniadau:

| | |
|---|---|
| • Pobl yn cael help i sicrhau swydd | 200 |
| • Pobl wedi mynychu hyfforddiant achrededig | 80 |

**Cynllun sefydlu rhwydwaith *Gwynedd yn ei gymuned* (P3)** **POBL**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 495k |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | 125k |

2. Partneriaeth arfaethedig

   Cyngor Gwynedd (yn arwain), Canolfan Byd Gwaith, Cyngor ar Bopeth / Cyngor Canolbarth Cymru, cymdeithasau tai lleol

3. Gweithgaredd arfaethedig

   - Datblygu model i sefydlu rhwydwaith cynaliadwy o ganolfannau ledled Gwynedd i ddarparu hyfforddiant, cefnogaeth cyflogadwyedd, cyngor busnes a mynediad i wasanaethau
   - Pelota'r model yn Tywyn ar safle'r llyfrgell drwy addasu'r adeilad, gwella cysylltedd digidol a darparu gofodau hygyrch
   - Datblygu cynlluniau manwl i ymestyn y model i Abermaw a Blaenau Ffestiniog
   - Datblygu darpariaeth ledled Gwynedd i helpu bobl lleol i allu cychwyn defnyddio'r we i gael mynediad i wasanaethau, gwella sgiliau a sicrhau gwaith

4. Ardal cyflawni

   Bydd buddsoddiad uniongyrchol yn ardaloedd Bro Dysynni a cynlluniau ar gyfer buddsoddiad yn Ardal Dolgellau a Bro Ffestiniog. Bydd elfen o'r prosiect hefyd ar waith ledled Gwynedd

5. Deilliannau tebygol:

   - Ail-ddatblygu Llyfrgell Tywyn yn enghraifft o sut ellir addasu gofod presennol i ymestyn ei allu i ddarparu ystod o wasanaethau
   - Datblygu model amgen ellir ei gyflwyno ledled Gwynedd .
   - Mwy o bobl yn cael mynediad at wasanaethau cyflogadwyedd a chyngor gwaith
   - Mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau digidol a gwasanaethau ar-lein
   - Mwy o bobl yn derbyn cymorth costau byw a gwasanaethau partner
   - Gwell sgiliau a hyder digidol ymhlith defnyddwyr

6. Amcangyfrif canlyniadau:

   - Canolfan cymorth newydd wedi ei ddatblygu 1

**Cynllun Talebau Talent Nôl i Wynedd (Ll1)** **LLE**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 100k |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | Dim |

2. Partneriaeth arfaethedig

   Cyngor Gwynedd (yn arwain), Prifysgol Bangor

3. Gweithgaredd arfaethedig

   - Lleoli graddedigion lleol yn mentrau lleol am hyd at 3 mis.

4. Ardal cyflawni

   Bydd y prosiect ar waith ledled Gwynedd.

5. Deilliannau tebygol:

   - Graddedigion lleol yn cael profiad gwaith mewn menter lleol
   - Hyrwyddo cyfleoedd gwaith i raddedigion yng Ngwynedd
   - Mentrau lleol yn elwa o dalent bobl ifanc lleol

6. Amcangyfrif canlyniadau:

| | |
|---|---|
| • Mentrau lleol wedi derbyn cymorth | 14 |
| • Pobl ifanc yn cael cyfle i weithio o fewn eu cymuned | 14 |

**Cronfa Effeithlonrwydd Ynni Isadeiledd Cymdeithasol (Ll2)** **LLE**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 350k |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | Dim |

2. Partneriaeth arfaethedig

Mantell Gwynedd (yn arwain), Adran Economi a Chymuned

3. Gweithgaredd arfaethedig

- Cymorth / grant i fentrau a sefydliadau cymunedol gwirfoddol gyda photensial twf i ddatgarboneiddio ac i fabwysiadu technoleg

4. Ardal cyflawni

Bydd y prosiect ar waith ledled Gwynedd.

5. Deilliannau tebygol:

- Mentrau cymunedol yn mabwysiadu technoleg ac yn datgarboneiddio asedau
- Costau rhedeg asedau cymunedol yn gostwng
- Asedau cymunedol yn parhau yn hyfyw

6. Amcangyfrif canlyniadau:

- Mentrau cymunedol lleol wedi derbyn cymorth 15
- Gwelliannau i gyfleuster cymunedol 15

**Cynllun Canol Dinas Bangor (Ll3)** **LLE**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 497k |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | 100k |

2. Partneriaeth arfaethedig

Cyngor Gwynedd (yn arwain), Byw'n Iach, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

3. Gweithgaredd arfaethedig

- Cam pellach yn natblygiad achos busnes ar gyfer datblygu Canolfan Iechyd Menai wedi ei gwblhau
- Gwarchod asedau i hwyluso defnyddio hamdden, iechyd a lles yn arf ar gyfer adfywio canolfan masnachol dinas Bangor.

4. Ardal cyflawni

Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni yn Ardal Bangor

5. Deilliannau tebygol

- Cynnydd yn natblygiad y weledigaeth ar gyfer defnyddio hamdden, iechyd a lles yn arf ar gyfer adfywio dinas Bangor
- Cynnydd yn natblygiad cynllun Canolfan Iechyd a Lles Menai
- Asedau o fudd i'r gymuned / cymdeithas wedi eu gwarchod

6. Amcangyfrif canlyniadau

- Tir wedi ei ddatgloi ar gyfer ei ddatblygu 0.54 hectar

**Cynllun Tir ac Eiddo i Alluogi Twf (Ll4)** **LLE**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 1.06M |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | 1.85M |

2. Partneriaeth arfaethedig

Cyngor Gwynedd (yn arwain), Llywodraeth Cymru, Mart Dolgellau, Adra, Plas Heli, Antur Nantlle, Ynni Stradau / Cwmni Bro

3. Gweithgaredd arfaethedig

- Cwblhau unedau menter ym Minffordd
- Gwelliannau i wedd a golwg / amgylchedd ystadau diwydiannol i gefnogi'r busnesau wedi eu lleoli yno
- Rhagbaratoi a chynllunio unedau newydd ym Mharc Busnes Tywyn
- Datblygu menter i adfer a gosod eiddo masnachol gwag
- Rhagbaratoi a chynllunio unedau newydd yn Nglyn Rhonwy
- Datblygu safle Mart Dolgellau.
- Gwaith dichonoldeb a chreu dyluniadau technegol ar gyfer cynllun ynni yn Nhanygrisiau
- Datgarboneiddio Canolfan Menter yn Nhalysarn
- Trosi gofod segur yn 4 uned gwaith / targedu buddsoddiad masnachol yn Penrhyn Glandon

4. Ardal cyflawni

Elfennau yn berthnasol i'r sir yn ei gyfanrwydd a datblygiadau penodol yn Ardaloedd Porthmadog / Penrhyndeudraeth, Bro Dysynni, Bro Peris Ardal Dolgellau, Bro Ffestiniog, Bro Lleu / Nantlle ac Ardal Pwllheli.

5. Deilliannau tebygol:

- Cynlluniau mewn llaw i sicrhau arian i ddatblygu mwy o unedau gwaith
- Safleoedd gwaith yn fwy cynaliadwy a deniadol i fuddsoddiad
- Lleihau costau ynni fentrau
- Mwy o unedau busnes ar gael i fentrau lleol

6. Amcangyfrif canlyniadau:

- Cyfleusterau wedi eu hadnewyddu — 10
- Gofod newydd ar gael i fentrau — 1.58 hectar

**Cynllun Diwylliant er Twf (Ll5)** **LLE**

1. Rhagolygon ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Twf Lleol | £ | 1.39M |
| Arian o ffynonellau eraill | £ | 472k |

2. Partneriaeth arfaethedig

   Adran Economi a Chymuned (yn arwain), CPD Caernarfon, Rheilffordd Llyn Tegid, Byw'n Iach, Cwmni Tabernacl, Menter y Tŵr, Galeri Cyf., Y Ganolfan, Porthmadog

3. Gweithgaredd arfaethedig

   - Datblygiad Yr Oval i sicrhau gemau pêl-droed rhyngwladol
   - Ymestyn llwybr Rheilffordd Llyn Tegid ganol Y Bala
   - Sefydlu Byw'n Iach Penllyn yn ganolfan rhagoriaeth chwaraeon dŵr
   - Uwchraddio Tafarn y Fic, Bethesda, i gynnwys Llety
   - Gwella darlithfa a siop Amgueddfa Lloyd George
   - Gwella isadeiledd diwylliannol
   - Gwella cyfleusterau harbyrau
   - Uwchraddio isadeiledd masnachol yn harbwr Aberdyfi, Abermaw a Porthmadog
   - Gwella isadeiledd arfordirol pendraw Llŷn
   - Datblygu stablau Menter y Tŵr i unedau busnes ac amgueddfa treftadaeth

4. Ardal cyflawni

   Datblygiadau yn Ardal Caernarfon, Ardal Y Bala / Penllyn, Dyffryn Ogwen, Ardal Pwllheli, Bro Peris, Bro Dysynni, Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, ac Ardal Dolgellau.

5. Deilliannau tebygol:

   - Adnoddau diwylliannol, treftadaeth ac hamdden wedi eu datblygu
   - Diwydiant pysgota lleol wedi ei gefnogi
   - Gofod newydd i fusnesau lleol

6. Amcangyfrif canlyniadau:

   - Cyfleusterau wedi eu gwella

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Cydbwyllgor Cenedlaethol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru – lleihau cworwm y cyfarfod* |
| **Aelod Cabinet:** | *Menna Trenholme* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Sharron Carter Williams* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **07/07/2026** |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

1.1 Cytundeb y Cabinet i lleihau cworwm cyfarfodydd Cydbwyllgor Cenedlaethol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru o 60% i 40%, ar yr amod bod o leiaf dri rhanbarth yn cael eu cynrychioli.

## 2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol wneud penderfyniad ffurfiol yn y Cabinet, ar swyddogaethau gweithredol Cydbwyllgor Cenedlaethol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru.

2.2 Mae pob awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi cytuno i'r newid ac y mwyafrif bellach wedi llofnodi'r Weithred Amrywio. Gofynnir i wneud y penderfyniad erbyn mis Gorffennaf 2026 er mwyn galluogi'r trefniadau diwygiedig i gael eu hystyried a'u gweithredu drwy Gyfarfod y Cydbwyllgor Cenedlaethol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru ym mis Hydref 2026.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Sefydlwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn 2014 i gryfhau a gwella gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Yn dilyn Cyfarwyddyd Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015, cytunodd pob awdurdod lleol ar drefniadau llywodraethu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer y gwasanaeth. Yn sgil adolygiad yn 2018, cyflwynwyd newidiadau i symleiddio'r trefniadau hyn a chryfhau atebolrwydd.

3.2 Datblygwyd Maethu Cymru yn ddiweddarach i gefnogi awdurdodau lleol gyda swyddogaethau maethu penodol, yn enwedig recriwtio a chadw gofalwyr maeth. Er mwyn osgoi dyblygu, lleihau costau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau, cytunwyd

y dylai'r swyddogaethau cenedlaethol ar gyfer maethu gael eu llywodraethu ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

3.3 Mae'r Cydbwyllgor Cenedlaethol yn darparu goruchwyliaeth strategol o waith Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru ar ran y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Drwy'r trefniadau hyn, mae pob awdurdod lleol yn cael trosolwg o'r gwasanaethau a'r swyddogaethau cenedlaethol a gyflawnir gan y Cyfarwyddwr a'r Tîm Canolog.

3.4 Cytunodd pob awdurdod lleol yn ffurfiol i sefydlu'r Cydbwyllgor drwy eu trefniadau llywodraethu lleol, cyn llofnodi cytundeb cyfreithiol i gefnogi ei waith. Mae Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am wasanaethau plant ym mhob awdurdod lleol yn aelod o'r Cydbwyllgor, ynghyd â swyddogion a budd-ddeiliaid perthnasol.

3.5 Ers mis Ebrill 2024 mae wedi bod yn gyfrifol am oruchwylio gwaith Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru ar ran pob awdurdod lleol yng Nghymru.

## 4. Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

**4.1** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor ym mis Ebrill 2024. Ers hynny, trefnwyd tri chyfarfod pellach, ond ni fu modd cynnal dau ohonynt gan nad oedd cworwm yn bresennol. Digwyddodd hyn er gwaethaf ymdrechion i hwyluso presenoldeb, gan gynnwys ymgynghori ag aelodau ynghylch dyddiadau ac amseroedd addas, sefydlu trefniadau dirprwyo, a chysylltu'n uniongyrchol ag aelodau i gadarnhau eu hargaeledd.

**4.2** Yn y cyfarfod mwyaf diweddar lle nad oedd cworwm, ym mis Mai 2025, mynegodd aelodau'r Cydbwyllgor bryder ynghylch y trefniadau presennol a galw am adolygu'r gofyniad cworwm o 60%.

**4.3** Yn sgil trafodaethau gyda budd-ddeiliaid a swyddogion, cynigiwyd diwygio'r trefniadau cworwm drwy ostwng y gofyniad i 40% o'r aelodau, ar yr amod bod cynrychiolaeth o leiaf tair o'r rhanbarthau mabwysiadu a maethu yn bresennol.

## 5. Camau nesaf

5.1 Mae’r newidiadau arfaethedig i’r cworwm yn cynrychioli addasiad technegol i’r trefniadau llywodraethu presennol er mwyn gwella ymarferoldeb a galluogi busnes y Cydbwyllgor i gael ei gynnal yn effeithiol. Nid yw’r newid yn effeithio ar strwythur, cylch gorchwyl na swyddogaethau craidd y Cydbwyllgor, ac felly nid oes unrhyw newid sylweddol i’r trefniadau llywodraethu sylfaenol.

5.2 Mae'r newid yn cefnogi parhad busnes ac yn lleihau'r risg o gyfarfodydd yn methu oherwydd diffyg cworwm, gan sicrhau bod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei swyddogaethau yn fwy effeithiol.

5.3 Argymhellir felly bod y Cabinet yn cymeradwyo'r newid i'r cworwm fel y nodir yn Adran 1, a bod y Weithred Amrywio yn cael ei llofnodi er mwyn galluogi gweithredu'r trefniadau diwygiedig.

**6. Sylwadau Swyddogion Statudol.**

**6.1 Prif Swyddog Cyllid**

6.2 Dim gwrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.

**6.3 Swyddog Monitro**

6.4 Gan fod y Cyd Bwyllgor cenedlaethol yma ynghyd a'i gyfansoddiad wedi ei sefydlu drwy gytundeb y Cabinet mae penderfynu ar ddiwygio y cworwm yn fater Cabinet hefyd .

**Rhestr Atodiadau:**

1. **'Quoracy of the NJC'**

**DATED 2025**

**(1) BLAENAU GWENT COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(2) BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(3) CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(4) THE COUNTY COUNCIL OF THE CITY AND COUNTY OF CARDIFF**

**(5) CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL**

**(6) CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**(7) CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(8) DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**(9) FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL**

**(10) GWYNEDD COUNTY COUNCIL**

**(11) ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

**(12) MERTHYR TYDFIL COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(13) MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**(14) NEATH PORT TALBOT COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(15) NEWPORT CITY COUNCIL**

**(16) PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL**

**(17) POWYS COUNTY COUNCIL**

**(18) RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(19) THE COUNCIL OF THE CITY AND COUNTY OF SWANSEA**

**(20) TORFAEN COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(21) VALE OF GLAMORGAN COUNCIL**

**(22) WREXHAM COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**DEED OF VARIATION OF AGREEMENT FOR THE ESTABLISHMENT OF A JOINT COMMITTEE FOR THE NATIONAL ADOPTION SERVICE**

TO BE TRANSLATED ONCE SIGNED

## CONTENTS

---

## CLAUSE

1. Terms defined in the Agreement] .......... 3
2. Variation .......... 4
3. Governing law .......... 4
4. Jurisdiction .......... 5
5. Counterparts .......... 4

This Deed of Variation is dated 2025

**Parties**

(1) Blaenau Gwent County Borough Council of Municipal Offices, Civic Centre Ebbw Vale NP23 6XB (“Council”)

(2) Bridgend County Borough Council of Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB (“Council”)

(3) Caerphilly County Borough Council of Ty Penallta, Tredomen Park, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG (“Council”)

(4) The County Council of the City and County of Cardiff of County Hall, Atlantic Wharf, Cardiff CF10 4UW (“Council”)

(5) Carmarthenshire County Council of County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP (“Council”)

(6) Ceredigion County Council of Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion SA46 OPA (“Council”)

(7) Conwy County Borough Council of Bodlondeb, Bangor Road, Conwy LL32 8DU (“Council”)

(8) Denbighshire County Council of County Hall, Wynnstay Road, Ruthin LL15 1YN (“Council”)

(9) Flintshire County Council of County Hall, Mold CH7 6NB (“Council”)

(10) Gwynedd Council of Council Offices, Shirehall Street, Caernarfon LL55 1SH (“Council”)

(11) Isle of Anglesey County Council of Council Offices, Llangefni, LL77 7TW (“Council”)

(12) Merthyr Tydfil County Borough Council of Civic Centre, Merthyr Tydfil CF47 8AN (“Council”)

(13) Monmouthshire County Council of PO Box 106, Caldicot NP26 9AN (“Council”)

(14) Neath Port Talbot County Borough Council of Port Talbot Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ (“Council”)

(15) Newport City Council of Civic Centre, Godfrey Road, Newport NP20 4UR (“Council”)

(16) Pembrokeshire County Council of County Hall, Haverfordwest, Pembrokeshire SA61 1TP ("Council")

(17) Powys County Council of Powys County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys LD1 5LG ("Council")

(18) Rhondda Cynon Taf County Borough Council of The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, Tonypandy CF40 2XX ("Council") 2

(19) The Council of the City and County of Swansea of Civic Centre, Oystermouth Road, Swansea SA1 3SN ("Council")

(20) Torfaen County Borough Council of the Civic Centre, Pontypool, Torfaen NP4 6YB ("Council")

(21) Vale of Glamorgan Council of Civic Offices, Holton Road, Barry, Vale of Glamorgan CF63 4RU ("Council")

(22) Wrexham County Borough Council of The Guildhall, Wrexham LL11 1AY ("Council")

(collectively referred to as "the Councils" for the purposes of this Agreement)

**BACKGROUND**

(A) The Councils entered into an agreement dated 19th April 2024 for establishment of a Joint Committee for the national Adoption Service (Agreement).

(B) Within the Agreement, it sets out the required quorum for attendance at the Joint Committee. At a Joint Committee meeting on the 24th September 2025, the Councils proposed to amend the current quorum. The parties therefore wish to amend the Agreement as set out in this Deed of Variation with effect from the date of this deed] (**Variation Date**).

**Agreed terms**

**1. Terms defined in the Agreement**

In this Deed of Variation, terms defined in the Agreement and used in this Deed of Variation have the meaning set out in the Agreement unless otherwise defined or context requires otherwise or as set out below.

.

## 2. Variation

2.1 With effect from the Variation Date, the parties agree the following amendments to the Agreement:

| | | |
|---|---|---|
| a) | New Definitions | Insert the new following definitions:<br>“Regional Areas means each of the following areas;<br>North Wales regional area comprising of the following 6 local authorities - Ynys Mon, Gwynedd, Conwy, Denbighshire, Flintshire and Wrexham<br>South East Wales regional area comprising of the following 5 local authorities - Blaenau Gwent, Torfaen, Monmouthshire, Newport, Caerphilly<br>Vale Valleys and Cardiff regional area comprising of the following 4 local authorities - Merthyr Tydfil, Rhondda Cynon Taff, Cardiff and the Vale of Glamorgan<br>Western Bay regional area comprising of the following 3 local authorities - Swansea, Bridgend and Neath Port Talbot<br>Mid and West Wales regional area comprising of the following 4 local authorities - Carmarthenshire, Ceredigion, Pembrokeshire and Powys” |
| b) | Schedule 1 para 16 | The entire paragraph is deleted and replaced with:<br>“A meeting of the Joint Committee shall require a quorum of 40% of the voting members subject to there being representation from at least 3 Regional Areas. If there is a quorum of members present but neither the chair nor the vice-chair is present, the members present shall designate one member to preside as chair for that meeting.” |

2.2 Except as set out in clause 2.1, the Agreement shall continue in full force and effect.

2.3 To the extent of any conflict between the terms of the Agreement and this Deed of Variation, the terms of this Deed of Variation shall prevail.

## 3. Governing law

This Deed of Variation and any dispute or claim (including non-contractual disputes or claims) arising out of or in connection with it or its subject matter or formation shall be governed by and construed in accordance with the law of England and Wales.

## 4. Jurisdiction

Each party irrevocably agrees that the courts of England and Wales shall have exclusive jurisdiction to settle any dispute or claim (including non-contractual disputes or claims) arising out of or in connection with this Deed of Variation or its subject matter or formation.

## 5. Counterparts

5.1 This Deed of Variation may be executed in one or more counterparts. Any single counterpart or set of counterparts executed, in either case, by all the parties shall constitute a full original of this Deed of Variation for all purposes.

This document has been executed as a deed and is delivered and takes effect on the date stated at the beginning of it.

THE COMMON SEAL OF Blaenau Gwent County Borough Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Bridgend County Borough Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Caerphilly County Borough Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF The County Council of the City
and County of Cardiff was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Carmarthenshire County Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Ceredigion County Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Conwy County Borough Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Denbighshire County Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Flintshire County Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Gwynedd County Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Isle of Anglesey County Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Merthyr Tydfil County Borough Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Monmouthshire County Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Neath Port Talbot County Borough Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Newport City Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Pembrokeshire County Council

was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Powys County Council

was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Rhondda Cynon Taf County Borough Council

was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF The Council of the City and County of Swansea

was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Torfaen County Borough Council

was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Vale of Glamorgan Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory

THE COMMON SEAL OF Wrexham County Borough Council
was affixed in the presence of

Authorised Signatory